



Datganiad Cyfrifon

2025 - 2026

CYNNWYS

Adran	Tudalen(au)
1 Adroddiad Naratif	1 - 6
2 Datganiad o'r Cyfrifoldebau dros y Datganiad o'r Cyfrifon	7
3 Datganiad Llywodraethu Blynnyddol	8 - 77
4 Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cyngor Sir Caerfyrddin	78 - 81
5 Datganiadau Cyllidol	82
5.1 Dadansoddiad Gwariant a Chyllid	83
5.2 Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	84
5.3 Datganiad am y Symudiadau yng Nghronfeydd	85 - 86
5.4 Y Fantolen	87
5.5 Y Datganiad Llif Arian	88
6 Nodiadau i'r Cyfrifon	89 - 173
7 Y Cyfrif Refeniw Tai (CRT)	174 - 175
8 Nodiadau i'r Datganiad Incwm a Gwariant y CRT	176 - 178
9 Cyfrif Cronfa'r Degwm Dyfed	179
10 Cronfeydd Ymddiriedolaethau	179
11 Gofal Cymdeithasol/Gwasanaethau Plant - Cyfrifon Cleientiaid a'r Staff	180
12 Geirfa	181 - 185

1 ADRODDIAD NARATIF

Mae'r Datganiad Cyfrifon canlynol yn dwyn at ei gilydd, ar ffurf gryno, drafodion ariannol yr Awdurdod am y flwyddyn 2025/26.

Mae tudalennau canlynol yr adroddiad hwn yn dangos Cyfrifon yr Awdurdod am y flwyddyn 2025/26. Fe'u lluniwyd yn unol a'r Côd Ymarfer 2025/26 ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol (y Côt).

1.1 Mae'r cyfrifon hyn yn cynnwys y datganiadau ariannol canlynol:

Dadansoddiad Gwariant a Chyllid

Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

Datganiad am y Symudiadau yng Nghronfeydd yr Awdurdod

Y Fantolen

Y Datganiad Llif Arian

Ceir manylion am bob un o'r datganiadau ariannol hyn yn Adran 5.

Datganiad Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai a Datganiad Newidiadau i'r Cyfrif Refeniw Tai

Ceir manylion am y datganiadau ariannol hyn yn Adrannau 7 ac 8.

Cronfa'r Degwm Dyfed a Chronfeydd Ymddiriedolaethau Eraill

Ceir manylion am y cronfeydd hyn yn Adrannau 9 i 11.

Mae'r cyfrifon yn cael eu hategu gan y Datganiad o Bolisïau Cyfrifydda (Nodyn 6.1 – Nodiadau i'r Cyfrifon).

1.2 Cyllideb Refeniw

Mae prif gydrannau cyllideb yr Awdurdod ar gyfer 2025/26 a sut y maent yn cymharu â'r union incwm a gwariant wedi'u nodi isod:

Gwasanaeth	Cyllideb Gweithio				Gweithredol				Amrywiad am y Flwyddyn
	Gwariant	Incwm	Net na ellir ei reoli	Net	Gwariant	Incwm	Net na ellir ei reoli	Net	
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Prif Weithredwr	24,439	(6,009)	(11,153)	7,277	26,851	(9,270)	(11,153)	6,428	(849)
Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai	260,546	(105,501)	10,501	165,546	307,767	(146,205)	10,501	172,063	6,517
Gwasanaethau Corfforaethol	77,330	(40,339)	15,590	52,581	65,243	(29,538)	15,590	51,295	(1,286)
Addysg a Hamdden	71,458	(35,005)	33,724	70,177	75,243	(38,850)	33,724	70,117	(60)
Cyllid Ddirprwyedig Ysgolion Lle, Seilwaith a Datblygiad	179,346	(26,310)	0	153,036	192,625	(31,866)	0	160,759	7,723
Economaidd	146,739	(79,069)	21,039	88,709	164,656	(99,672)	21,038	86,022	(2,687)
Gwariant Adrannau	759,858	(292,233)	69,701	537,326	832,385	(355,401)	69,700	546,684	9,358
Llog Net ac Addasiadau Cyfrifyddu Cyfalaf				(47,405)				(49,681)	(2,276)
Newidiadau i'r gronfa bensiwn				10,627				10,627	0
Absenoldebau Cronedig				819				819	0
Ardollau a Chyfraniadau:									
Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog				162				160	(2)
Awdurdod Tân				15,185				15,185	0
Cyd-bwyllgor Corfforaethol				151				151	0
Gwariant Net				516,865				523,945	7,080
Grant Yswiriant Gwladol				(7,000)				(5,954)	1,046
Grant Cyffredinol y Llywodraeth				0	500	(1,399)	0	(899)	(899)
Cronfa Wrth Gefn Gorfforaethol				650				0	(650)
Cyfraniadau i/(o) Weddillion Cyffredinol				0				(1,755)	(1,755)
I/(o'r) Cronfeydd Adrannol/Wrth Gefn				0				3,586	3,586
Trosglwyddiadau i/(o'r) Cronfeydd Wrth Gefn				0				0	0
Trosglwyddiadau i/(o) Balansau Ysgol				0				(7,723)	(7,723)
Cyllideb Net				510,515				511,200	685
Grant Cynnal Refeniw				(307,213)				(307,213)	0
Ardrethi Annonmestig				(68,479)				(68,479)	0
Treth Y Cyngor				(134,823)				(135,508)	(685)
				0				0	0

Cymeradwywyd cyllideb refeniw 2025/26 gan y Cyngor Sir ar 26 Chwefror 2025. Ceisiodd y gyllideb fodloni dyheadau'r Awdurdod, gan gydnabod y risgiau ariannol eithriadol sy'n wynebu awdurdodau lleol. Aeth y gyllideb i'r afael â gofynion penodol mewn rhai meysydd gwasanaeth wrth geisio cydbwysu'r effaith ar y gwasanaethau a ddarperir a threthdalwyr lleol.

Dangosai'r sefyllfa ariannol diwedd blwyddyn fod gorwariant o £9,358k ar lefel adrannol gan gynnwys symudiad ym malansau ysgolion.

Roedd gan Adran y Prif Weithredwr danwariant o £849k ar gyfer y flwyddyn. Y prif amrywiant yw arbedion cyflog oherwydd swyddi gwag yn yr is-adrannau TG, Polisi, Cyfreithiol, Cymorth Busnes, Gwasanaethau Etholiadol a Marchnata a'r Cyfryngau. Mae yna hefyd arbedion ar gyflenwadau a gwasanaethau yn ystod y flwyddyn.

Roedd gan yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai orwariant o £6,517k ar gyfer y flwyddyn. Roedd gan Ofal Cymdeithasol i Oedolion orwariant o £2,092k ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r gorwariant yn gysylltiedig â'r galw cynyddol am wasanaethau, yn enwedig lleoliadau preswyl (£1,026k) a Llety â Chymorth (£933k). Roedd gan y Gwasanaethau Plant orwariant o £3,619k ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd y galw cynyddol am leoliad preswyl a maethu wedi arwain at orwariant sylweddol yn y meysydd hyn. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd gan Dai Cronfa'r Cyngor orwariant o £806k, a hynny'n bennaf oherwydd tangyflawni arbedion effeithlonrwydd a gynlluniwyd mewn perthynas â chyllid adsefydlu.

Roedd gan Adran y Gwasanaethau Corfforaethol danwariant o £1,286k ar gyfer y flwyddyn. Mae tanwariant o £285k ar gostau pensiwn cyn Ad-drefnu Llywodraeth Leol, tanwariant o £37k ar Danysgrifiadau, tanwariant o £921k ar y gronfa ymddeol gorfforaethol, tanwariant o £161k ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ynghyd â thanwariant o £45k ar Ryddhad Ardrethi oherwydd llai o ddefnydd o'r ddau gynllun na'r hyn y cyllidebwyd ar ei gyfer. Mae'r rhain yn cael eu gwrthbwyso gan orwariant mewn Gwasanaethau Amrywiol oherwydd yr angen i neilltuo rhywfaint o'r tanwariant adrannol ar gyfer pwysau hysbys yn y dyfodol.

Roedd gan yr Adran Addysg a Hamdden danwariant o £60k ar ddiwedd y flwyddyn (ac eithrio ysgolion). Er bod yr is-adran Gwasanaethau Addysg yn nodi tanwariant net o £845k mae gan brydau ysgol orwariant o £562k. Roedd gan Hamdden a Diwylliant danwariant o £203k erbyn diwedd y flwyddyn, yn bennaf oherwydd swyddi gwag yn y gwasanaethau llyfrgelloedd. Mae gan y Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd orwariant o £426k oherwydd targedau incwm hanesyddol anghyraeddadwy o fewn ymchwiliadau ariannol, eiddo trwyddedadwy a'r anallu i ddiwygio rhai ffioedd oherwydd canllawiau statudol sydd wedi'u hadlewyrchu yn y gyllideb twf ar gyfer 2026/27.

Ar y cyfan, mae ysgolion yn gosod eu cyllidebau yn fwy na'r cyllid sydd ar gael yn ystod y flwyddyn, sydd wedi'i yrru'n rhannol gan bwysau Anghenion Dysgu Ychwanegol. Yn gyffredinol, roedd gwariant y balansau yn £7,723k yn ystod y flwyddyn, gan arwain at ddiffyg o £9,561k.

Mae'r adran Lle, Seilwaith a Datblygu Economaidd yn dangos sefyllfa mantoli'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn, ar ôl cael dyraniad llawn o'r cyllid grant Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr sydd ar gael ar gyfer costau'r strategaeth wastraff yn y dyfodol. Mae gan yr is-adran Gwella Gwasanaethau a Thrawsnewid danwariant o £45k. Mae gan yr is-adran Amgylchedd a Seilwaith orwariant o £863k sy'n rhannol oherwydd pwysau o £418k ar wasanaethau cludiant ysgol a thrafnidiaeth gyhoeddus, ynghyd â phwysau o £795k oherwydd y llifogydd difrifol ym mis Tachwedd 2025. Fodd bynnag, mae hyn yn cael ei liniaru gan danwariant o £558k yn yr Is-adran Datblygu Economaidd ac Eiddo a thanwariant o £260k yn yr Is-adran Lle a Chynaliadwyedd.

Ar ôl ystyried arbedion ar gostau cyllido cyfalaf, incwm llog uwch a Chyllid Grant ychwanegol sylweddol gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys cymorth ar gyfer dyfarniad cyflog y Cyd-gyngor Cenedlaethol a chyllid annisgwyl i gefnogi pwysau, ynghyd â'r symudiad mewn cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ac adrannol, trosglwyddodd yr Awdurdod £1,755k o gronfeydd wrth gefn cyffredinol ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26.

CYFRIF REFENIW TAI	Cyllideb Gweithio			Gweithredol			Amrywiad am y flwyddyn
	Gwariant	Incwm	Net	Gwariant	Incwm	Net	
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cyfrif Refeniw Tai	54,289	(56,473)	(2,184)	56,898	(57,128)	(230)	1,954
Trosglwyddiadau i/(o'r) Balansau CRT	0	0	2,184	0	0	230	(1,954)

Roedd gorwariant o £1,954k o ran y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer y flwyddyn.

Y prif amrywiadau oedd:

- Gorwariant o £8.76m mewn costau Atgyweirio a Chynnal a Chadw sy'n adlewyrchu'r nifer cynyddol o orchwylion ymatebol i ddelio â'r ôl-groniad o atgyweiriadau tai
- Gwarged ar gyfrif gweithredol sy'n darparu gwasanaethau'r Cyfrif Refeniw Tai - £4.878m sy'n lleihau'r gorwariant ar Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw
- Gorwariant ar Oruchwyllo a Rheoli/ £ ad-daliadau o £1.139m megis costau gweithwyr o £142k (dyfarniad cyflog ac ati), buddsoddi mewn ystadau o £491k, costau llety dros dro o £342k, taliadau iawndal o £449k, yswiriant eiddo o £80k, costau ynni o £82k a chostau ffonau/wifi o £85k wedi'u gwrthbwysu'n rhannol gan ostyngiad mewn ad-daliadau o £243k oherwydd y ffordd y darperir gwasanaethau mewnol.
- Bu gostyngiad o £2.053m yng nghyllid diwygiedig y rhaglen gyfalaf ac mewn darparu rhai gwasanaethau'n uniongyrchol o fewn cymunedau ar gyfer cyllid refeniw uniongyrchol.
- Arweiniodd cyfartaledd pwysedig llai o ran cyfradd ddyled a gofyniad cyllido cyfalaf at ostyngiad o £626k mewn taliadau cyfalaf.
- Mae'r rhent/tâl am wasanaeth/incwm arall £295k yn waeth oherwydd amrywiad i niferoedd y stoc ac mae'r rhent cyfartalog ychydig yn is na'r £-107k a gyllidebwyd, colledion eiddo gwag o £-188k ac incwm arall.
- Bydd Grant Cymorth Tai ychwanegol yn darparu arbedion o -£1.060m.
- Roedd mantolenni/cronfeydd wrth gefn y Cyfrif Refeniw Tai wedi dioddef o gyfraddau llog ychydig yn is na'r hyn a ragwelwyd gan arwain at lai o incwm o £74k.
- Roedd llai o ddefnydd o ddarpariaeth drwgddylded wedi arbed £24k.

1.3 Arian Wrth Gefn

Yn yr amgylchedd o newid a her sy'n wynebu Llywodraeth Leol heddiw, mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i gynnal lefel resymol o arian wrth gefn. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd y symiau wrth gefn fel a ganlyn:

	£'000	£'000
Cronfa'r Cyngor		
A ddelir gan ysgolion yn unol â Rheoliadau Rheoli		
Ysgolion Lleol (RHYLL)	(9,561)	
Ar gael yn gyffredinol ar gyfer gwariant newydd	15,497	5,936
Cyfrif Refeniw Tai		11,169
		<u><u>17,105</u></u>

Yn ogystal â'r arian wrth gefn cyffredinol mae gan yr Awdurdod £139.358 miliwn o arian wrth gefn a glustnodwyd ar gyfer dibenion penodol.

1.4 **Benthycia**

Roedd £30 miliwn o benthyciadau newydd o Bwrdd Benthyciadau Gweithfeydd Cyhoeddus (BBGC) yn 2025/26.

Ar 31 Mawrth 2026, cyfanswm yr arian a fenthycwyd i'r Awdurdod oedd £434 miliwn, a oedd yn llai na therfyn awdurdodedig yr Awdurdod, sef £631miliwn. Cynhwysir fwy o fanylion yn Nodwn 6.44 i'r Cyfrifon.

Mae gweithdrefnau a therfynau'r Awdurdod ar gyfer benthyciadau wedi'u hamlinellu ym Mholisi a Strategaeth Rheoli y Trysorlys, sy'n cael ei gymeradwyo bob blwyddyn.

1.5 **Cronfa Bensiynau**

Mae'r Gronfa Bensiynau yn clustogi'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o'r trefniadau gwahanol i gyfrifyddu ar gyfer budd-daliadau ôl cyflogaeth ac ar gyfer ariannu budd-daliadau yn unol â darpariaethau statudol. Mae'r balans ar y Gronfa Bensiynau o £32.6 miliwn yn dangos ddiffyg ar sail cyfrifyddu yn yr adnoddau y mae'r Awdurdod wedi'u neilltuo i dalu'r buddion a enillwyd gan weithwyr blaenorol a gweithwyr presennol. Mae'r diffyg hwn yn ymwneud â rhwymedigaethau pensiwn heb eu hariannu sydd wedi'u heithrio o gyfrifiad y terfyn uchaf asedau.

1.6 **Yr Hinsawdd Economaidd Bresennol**

Mae'n ofynnol fod y datganiadau cyfrifon yn adlewyrchu'r amodau sydd ar waith ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Mae holl asedau'r Awdurdod yn cael eu hailbrisio fel rhan o gylch ac felly mewn llawer o achosion, mae'r prisiad cyfredol (a bennwyd yn y blynyddoedd diwethaf) yn debygol o adlewyrchu gwerth presennol yr asedau ar y farchnad neu roi adlewyrchiad teg ohono. Mae'r rhan fwyaf o asedau yn cael eu cadw ar gyfer darparu gwasanaethau ac felly nid yw unrhyw newidiadau i amodau'r farchnad o ran gwerthiannau masnachol yn effeithio ar werthoedd yn y cyfrifon hyn. Lle nad yw prisiad llawn wedi'i gynnal ar ddyddiad y fantolen, mae prisiadau eiddo wedi'u diweddaru i adlewyrchu mynegeion adeiladu cyfredol neu elfennau cymaradwy yn y farchnad (yn dibynnu ar y dull prisio) lle amlygwyd newid materol. Mae'n ofynnol fod y datganiadau cyfrifon yn adlewyrchu'r amodau sydd ar waith ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn parhau i fod uwchben targed 2% Banc Lloegr, gyda phwysau parhaus tuag i fyny oherwydd Rhyfel Iran, sydd wedi'i yrru gan brisiau ynni byd-eang. Mae dyled Llywodraeth y DU nid yn unig yn fwy costus nag yr oedd, ond hefyd mae'r ffigurau benthycia misol yn parhau i godi. Mae'r ffactorau hyn yn gwaethygu, sy'n golygu bod mwy nag 8% o'r gwariant cyhoeddus yn 2025/26 yn cael ei ragweld i fod yn gostau llog, sydd bron i dair gwaith yn fwy o ran arian parod nag yr oedd cyn y pandemig.

Mae'r ffactorau economaidd ehangach hyn wedi cael eu hystyried wrth adolygu darpariaethau drwgddyled, yn ogystal â gosod ystyriaethau realistig ond darbodus i'r gyllideb.

Mae system wleidyddol y DU yn mynd drwy gyfnod o ansefydlogrwydd, gyda saith Prif Weinidog yn y 10 mlynedd diwethaf. Mae "gwleidyddiaeth dwy blaid" draddodiadol wedi'i disodli gan system amlbleidiol dameidiog iawn, gyda newid sylweddol yn ystod etholiadau llywodraeth leol Mai 2026, a diwedd tri degawd o Lywodraethau Llafur Cymru. Ar adeg ysgrifennu, roedd llywodraeth Plaid Cymru gyntaf erioed wedi'i ffurfio, ac roedd cynllun 100 diwrnod yn cynnwys agenda uchelgeisiol.

Yn erbyn y cefndir hwn, mae ein statws ariannol cyffredinol wedi'i gynnal ar lefel ddarbodus, ac mae cyllidebau ar gyfer y blynyddoedd i ddod wedi'u paratoi mewn modd cadarn. Yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26, roedd pwysau sylweddol ar y gwasanaethau o fewn gofal

cymdeithasol ac ysgolion, gan arwain at ostyngiad ym malans y gronfa gyffredinol i £15.5m yn ogystal â chynnydd mewn diffygion ariannol cyfanredol ysgolion i £9.6m. Er bod y lefel hon o newid wedi'i darparu ar gyfer y flwyddyn ariannol unigol, dim ond ar sail datblygu cynlluniau adfer y gellir rheoli hyn, ond nid yw'n duedd gynaliadwy y gellir ei derbyn ar gyfer y Cyngor Sir. O ganlyniad, mae cryn waith goruchwyllo ar lefel rheolwyr ac aelodau i sicrhau y bydd hyn yn cael ei ddatrys ar gyfer y dyfodol. O ystyried yr asesiad hwn, nid yw'r Swyddog Adran 151 yn credu ar hyn o bryd bod yr Awdurdod mewn perygl o orfod cyhoeddi hysbysiad Adran 114 yn y dyfodol agos.

1.7 **Cyfalaf**

Yn 2025/26 gwariodd yr Awdurdod tua £154.1 miliwn ar brosiectau cyfalaf. Cyllidwyd y gwariant hwn â chyfuniad o fenthyciadau, derbyniadau cyfalaf defnyddiadwy, grantiau llywodraeth a chyfraniadau eraill, arian wrth gefn a chyllido refeniw uniongyrchol.

Gwariwyd £45.5 miliwn ar Dai ac mae'r meysydd gwario wedi'u nodi isod:

Sector Cyhoeddus

Adnewyddu ac ailddatblygu'r Stoc Dai a phwrcasu stoc tai ychwanegol.

£42.1 miliwn

Sector Preifat

Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl
Gwelliannau eraill

£2.0 miliwn

£1.4 miliwn

Mae'r prif feysydd gwariant ar wasanaethau heblaw gwasanaethau Tai fel a ganlyn:

	£'miliwn	
Addysg	19.4	Ysgolion Newydd, Adnewyddiadau a Gwelliannau i ysgolion presennol
Hamdden	5.3	Chwaraeon a Hamdden, Celfyddydau a Diwylliant a Llyfrgelloedd.
Seilwaith ac Ailgylchu a Amnewid Fflyd	39.1	Ffyrdd, Pontydd, Llwybrau Beicio, Diogelwch ar y Ffyrdd, Meysydd Parcio, Hawliau Tramwy ac Amddiffyn yr Arfordir a Llifogydd, Depos, Rheoli Gwastraff ac Ailgylchu ac Ailosod Fflyd
Datblygu Economaidd	40.5	Prosiectau Corfforol Adfywio Ledled y Sir, Datblygiadau Cymunedol, Cyd Fentrau, Prosiectau Rhanbarthol/Bargen Ddinesig Bae Abertawe a Phrosiectau Ffyniant Bro
Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion a Phlant	1.4	Cartrefi Gofal a Datblygiadau Dysgu yr Anabl a Phrosiectau Gwasanaethau Teulu
Corfforaethol	2.9	Mân Waith Cyfalaf, Uwchraddio Adeiladau Gweinyddol a Datblygiadau Strategaeth TGCh

1.8 **Gwybodaeth Ychwanegol**

Mae gwybodaeth ychwanegol am y cyfrifon ar gael oddi wrth Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol, Adran Y Gwasanaethau Corfforaethol, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP.

2 DATGANIAD O'R CYFRIFOLDEBAU DROS Y DATGANIAD CYFRIFON

Cyfrifoldebau'r Awdurdod

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod:

- Wneud trefniadau i weinyddu ei faterion ariannol mewn modd priodol ac i sicrhau bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Yn yr Awdurdod hwn, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yw'r swyddog hwnnw.
- Rheoli ei faterion mewn modd sy'n gwneud y defnydd mwyaf darbodus, effeithiol ac effeithlon o adnoddau a diogelu ei asedau.
- Cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon.

Cymeradwyaeth Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Cymeradwyaeth o'r Datganiad Cyfrifon ar ôl yr archwiliad.

Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Dyddiad: 28 Medi 2026

Cyfrifoldebau Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad yr Awdurdod o'i Gyfrifon sydd, yn unol â'r arferion cyfrifo priodol fel y'u pennwyd yn Côt Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig ("y Côt").

Wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon hwn, mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol:

- Wedi dewis polisiau cyfrifydda addas ac wedyn wedi'u cymhwyso'n gyson;
- Wedi gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a doeth;
- Wedi cydymffurfio â'r Côt;
- Wedi cadw cofnodion cyfrifydda priodol, amserol a chyfredol;
- Wedi cymryd camau rhesymol er atal a darganfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Ardystio'r Cyfrifon

Yr wyf yn ardystio fod y Datganiad Cyfrifon a welir ar dudalennau 82 i 180 yn rhoi golwg gywir a theg ar sefyllfa ariannol Cyngor Sir Caerfyrddin ar 31^{ain} Mawrth 2026 ac o'i incwm a'i wariant am y flwyddyn yn diweddu 31^{ain} Mawrth 2026.

Chris Moore FCCA
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol

Dyddiad: 22 Medi 2026

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2025-26**Crynodeb Gweithredol****Y Farn Gyffredinol ar Lywodraethu**

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blyneddol hwn yn cyflwyno canlyniad adolygiad blyneddol Cyngor Sir Caerfyrddin o ran effeithiolrwydd llywodraethu ar gyfer 2025/26 ac yn nodi'r heriau a'r blaenoriaethau llywodraethu allweddol ar gyfer 2026-2027. Mae'r adolygiad wedi dod i'r casgliad bod trefniadau llywodraethu cyffredinol y Cyngor yn **foddhaol** ac yn darparu fframwaith cadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau effeithiol, atebolrwydd, gwarchod adnoddau cyhoeddus a chyflawni amcanion y Cyngor. Mae fframwaith llywodraethu'r Cyngor yn parhau i alinio â'r saith egwyddor llywodraethu da a nodir yn Fframwaith CIPFA/SOLACE ac Adendwm 2025. Ni nodwyd unrhyw wendidau llywodraethu sylfaenol a fyddai'n gofyn am gymhwyso'r farn hon.

Adolygiad o Effeithiolrwydd a Ffynonellau Sicrwydd

Cefnogir y canlyniad hwn gan adolygiad cynhwysfawr o effeithiolrwydd wedi ei gydlyn gan y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a'i lywio gan amrywiaeth eang o ffynonellau sicrwydd. Mae'r rhain yn cynnwys Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol, adolygiadau Archwilio Mewnol, sicrwydd gan swyddogion statudol ac uwch reolwyr, canfyddiadau Archwilio Cymru, gwybodaeth am berfformiad a rheoli risg, trefniadau goruchwyllo pwyllgorau, gweithgarwch arolygu allanol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Roedd yr adolygiad y tîm Archwilio Mewnol o'r Datganiad Llywodraethu Blyneddol a'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol wedi darparu barn **Sicrwydd Uchel**, a daeth y Pennaeth Archwilio Mewnol i'r casgliad bod y Cyngor yn cynnal fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol ddigonol ac effeithiol.

Canfyddiadau allwedd o Adolygiad 2025/26

Roedd yr adolygiad yn ystyried trefniadau llywodraethu ar draws pob un o'r saith egwyddor llywodraethu da CIPFA ac roedd yn cynnwys asesiad o gamau llywodraethu, canfyddiadau archwilio, argymhellion rheoleiddio, gwybodaeth am berfformiad, risgiau sy'n dod i'r amlwg ac adborth rhanddeiliaid. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod y trefniadau llywodraethu yn gweithredu'n effeithiol ac yn parhau i aeddfedu mewn ymateb i heriau sefydliadol ac allanol. Yn ystod 2025/26, gwnaed cynnydd o ran cryfhau trefniadau rheoli risg corfforaethol, datblygu galluedd perfformiad a data, gwella ymgysylltu â rhanddeiliaid a rheoli cwynion, ymgorffori'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang, gwella seiberddiogelwch a gwydnwch sefydliadol, a gweithredu camau gwella o ran llywodraethu a nodwyd trwy Ddatganiadau Llywodraethu Blyneddol blaenorol.

Er bod yr asesiad llywodraethu cyffredinol yn parhau i fod yn gadarnhaol, nododd yr adolygiad gynaliadwyedd ariannol parhaus Ysgolion a Gwasanaethau Plant fel yr her lywodraethu fwyaf arwyddocaol sy'n wynebu'r Cyngor. Mae pwysau cyllidebol parhaus a phwysau ar wasanaethau a arweinir gan y galw yn parhau i gyflwyno risg materol i wydnwch ariannol tymor hir y Cyngor ac mae angen sylw, craffu ac ymyrraeth barhaus gan reolwyr.

Heriau a Blaenoriaethau Llywodraethu yn y Dyfodol

Wrth edrych ymlaen, bydd blaenoriaethau llywodraethu'r Cyngor yn canolbwyntio ar gynnal gwydnwch sefydliadol, cynaliadwyedd ariannol, arweinyddiaeth effeithiol a gwneud penderfyniadau gwybodus mewn amgylchedd gweithredu sy'n gynyddol gymhleth. Bydd pwyslais arbennig yn cael ei roi ar gryfhau integreiddio risg, perfformiad a chynllunio ariannol; gwella'r defnydd o ddata a deallusrwydd i gefnogi canlyniadau strategol; datblygu capasiti'r gweithlu a gwydnwch sefydliadol; ymateb yn rhagweithiol i ddatblygiadau deddfwriaethol, rheoleiddiol a llywodraethu rhanbarthol; a chynnal a chadw trefniadau seiberddiogelwch, llywodraethu gwybodaeth, a sicrwydd cadarn Mae'r blaenoriaethau hyn yn adlewyrchu heriau llywodraethu uniongyrchol y Cyngor a'r materion tymor hir sy'n debygol o siapia ei amgylchedd gweithredu, gan gynnwys pwysau ariannol parhaus, newid demograffig, cynaliadwyedd y gweithlu, trawsnewid technolegol, bygythiadau seiber, risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a disgwyliadau cynyddol y cyhoedd. Drwy ganolbwyntio'n barhaus ar gynllunio strategol, sganio gorwelion a gwelliant parhaus, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau bod ei fframwaith llywodraethu yn parhau i fod yn effeithiol, yn addasadwy ac yn gallu cefnogi darpariaeth gynaliadwy o wasanaethau a chanlyniadau i gymunedau Sir Gaerfyrddin.

Casgliad

Bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, gyda chefnogaeth y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol, yn parhau i oruchwylio'r gwaith o weithredu a monitro camau llywodraethu a gwella sy'n deillio o'r adolygiad hwn. Nid oes dim wedi deillio o waith Archwilio Cymru yn ystod y flwyddyn sy'n anghyson â'r casgliadau a nodir yn y Datganiad hwn. Yn gyffredinol, mae'r Cyngor yn fodlon bod ei drefniadau llywodraethu yn parhau i fod yn foddhaol ac yn darparu sail gadarn ar gyfer arfer ei swyddogaethau a chyflawni ei amcanion.

Sicrwydd

Adolygiad o Effeithiolrwydd a Sicrwydd ar gyfer Trefniadau Craidd

Mae'r Cyngor wedi cynnal adolygiad blynyddol trylwyr o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu, yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) a Fframwaith 'Delivering Good Governance in Local Government' CIPFA/SOLACE (Adendwm 2025). Cafodd yr adolygiad hwn ei gydlynw gan y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a'i lywio gan amrywiaeth eang o dystiolaeth, gan gynnwys:

- Adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol a'i farn ar drefniadau llywodraethu, rheoli risg, a rheolaeth fewnol.
- Sicrwydd gan swyddogion statudol (y Prif Weithredwr, Swyddog Adran 151, Swyddog Monitro) ac uwch-reolwyr eraill.
- Adroddiadau perfformiad a data, gan gynnwys meincnodi a hunanasesu yn erbyn arferion gorau.
- Canlyniadau archwilio allanol (Archwilio Cymru), arolygiaethau, a rheoleiddwyr eraill.
- Adborth gan aelodau, gan gynnwys adroddiadau blynyddol gan gadeiryddion pwyllgorau.
- Tystiolaeth o'r fframwaith rheoli risg a mapio sicrwydd.
- Canlyniadau ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Ar gyfer pob un o'r saith egwyddor llywodraethu da, mae'r Cyngor wedi asesu a yw'r trefniadau craidd canlynol ar waith ac yn gweithredu'n effeithiol:

1. **Safonau Moesegol ac Ymddygiad:** Mae codau ymddygiad ar gyfer aelodau a swyddogion, proses rheoli gwrthdaro buddiannau, trefniadau datgelu camarfer, a chydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau ar waith ac yn gweithredu'n effeithiol.
2. **Bod yn Agored ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid:** Mae'r trefniadau ar gyfer tryloywder, ymgynghori ac ymgysylltu â dinasyddion a rhanddeiliaid yn gadarn ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.
3. **Diffinio Canlyniadau:** Mae gweledigaeth, amcanion llesiant a chynlluniau tymor hir y Cyngor wedi'u sefydlu'n glir ac yn cyd-fynd â buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy.
4. **Pennu Ymyriadau:** Mae'r trefniadau cynllunio gwasanaethau, dyrannu adnoddau a rheoli perfformiad yn effeithiol ac yn helpu i gyflawni'r canlyniadau bwriadedig.
5. **Datblygu Capasiti ac Arweinyddiaeth:** Mae trefniadau ar gyfer datblygu'r aelodau a swyddogion, cynllunio'r gweithlu, ac olyniaeth ar waith ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.
6. **Rheoli Risgiau a Pherfformiad:** Mae'r trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol a rheolaeth ariannol wedi'u sefydlu ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r trefniadau archwilio mewnol yn cydymffurfio â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang a Chôd Ymarfer CIPFA ar gyfer Llywodraethu Archwilio Mewnol.
7. **Tryloywder ac Atebolrwydd:** Mae'r trefniadau ar gyfer adrodd, archwilio, a her allanol yn effeithiol. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn darparu goruchwyliaeth gadarn, ac mae camau gwella yn cael eu monitro ac adroddir yn eu cylch.

Yn achos unrhyw drefniant craidd nad yw wedi'i roi ar waith yn llawn neu nad yw'n gweithredu fel y bwriadwyd, mae hyn wedi'i nodi fel maes i'w wella yng nghynllun gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, ynghyd â chymau gweithredu clir, swyddogion cyfrifol, a threfniadau monitro.

Ar sail y dystiolaeth a ystyriwyd, mae'r Cyngor yn fodlon bod ei drefniadau llywodraethu yn addas i'r diben ac yn darparu sail gadarn ar gyfer cyflawni ei amcanion. Mae'r Cyngor yn parhau i ymrwymo i wella'n barhaus a bydd yn monitro'r gwaith o gymryd yr holl gamau gweithredu a nodwyd, a hynny drwy'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol.

Ystyrir bod trefniadau Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor yn dderbyniol, ar sail y lefel sicrwydd 'Uchel' a bennwyd gan Adolygiad Archwilio Mewnol y Cyngor o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a threfniadau Llywodraethu Corfforaethol.

I alluogi'r farn hon cynhaliodd gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor adolygiad o'n trefniadau yn erbyn y safonau a fabwysiadwyd. (gweler isod).

Canfyddiadau Adolygiad Archwilio Mewnol Cyngor Sir Caerfyrddin o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a Llywodraethu Corfforaethol	
Lefel y Sicrwydd ar ôl yr Adolygiad	Disgrifiad o Lefel y Sicrwydd
Uchel	Ceir system rheolaeth fewnol gadarn, mae'n gweithredu'n effeithiol ac yn cael ei rhoi ar waith yn gyson i gefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion yn y maes a archwiliwyd.
Ni chanfu Archwilio Mewnol unrhyw faterion rheoli hanfodol y dylid rhoi blaenoriaeth uchel i ymdrin â nhw.	

Mae'r adolygiad Archwilio Mewnol o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a nodwyd uchod yn rhan o'r rhaglen ehangach o waith sicrwydd sy'n sail i farn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol am ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yr Awdurdod.

Barn Flynyddol Archwilio Mewnol am Effeithiolrwydd Llywodraethu, Rheoli Risg a Rheolaeth Fewnol.

Ar sail y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi dod i'r casgliad yn ei Adroddiad Blynyddol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bod yr Awdurdod yn cynnal fframwaith digonol ac effeithiol o ran llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol, gan roi sicrwydd rhesymol bod amcanion yn cael eu cyflawni a bod adnoddau'n cael eu rheoli'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Fodd bynnag, mae mater llywodraethu materol yn parhau mewn perthynas â chynaliadwyedd ariannol ysgolion a'r Gwasanaethau Plant. Er bod trefniadau monitro a goruchwyllo sefydledig ar waith, mae lefelau gorwariant yn parhau i fod yn anghynaliadwy ac yn peri risg materol i wydnwch ariannol yr Awdurdod. Os na eir i'r afael â'r rhain yn effeithiol, gallai dirywiad parhaus gael effaith niweidiol ar sefyllfa ariannol gyffredinol yr Awdurdod, digonolrwydd cronfeydd wrth gefn, a'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau strategol.

Mae'r Awdurdod yn gweithredu o fewn fframwaith llywodraethu wedi'i ddiffinio'n glir, sy'n cael ei gefnogi gan Gyfansoddiad sefydledig, strwythurau pwyllgorau a rheoli cadarn, a pholisïau a Rheolau Gweithdrefnau Ariannol a gymeradwywyd. Yn gyffredinol, mae'r trefniadau hyn yn gweithredu fel y bwriadwyd ac yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer atebolrwydd a rheolaeth.

Mae gwaith sicrwydd digonol wedi'i gwblhau i gefnogi'r casgliad hwn ac i lywio'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol.

I gloi, daeth adolygiad Archwilio Mewnol o'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol a threfniadau llywodraethu corfforaethol yr Awdurdod i'r casgliad bod system rheolaeth fewnol gadarn ar waith, sy'n gweithredu'n effeithiol ac yn cael ei rhoi ar waith yn gyson i gefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion yr Awdurdod. Rhoddodd yr adolygiad lefel Uchel o sicrwydd, heb nodi unrhyw faterion rheoli sylfaenol y mae angen cymryd camau yn eu cylch fel mater o flaenoriaeth. Gan ystyried y sicrwydd hwn, mae'r Cyngor yn fodlon bod ei drefniadau llywodraethu yn addas i'r diben ac yn gweithredu'n effeithiol.

Cwmpas y Cyfrifoldeb: Fframwaith a Strategaeth Gorfforaethol

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gyflawni yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, bod cyfrif priodol amdano a'i fod yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol er mwyn sicrhau gwelliant parhaus.

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r mesurau a'r cyfrifoldebau llywodraethu y mae'r Awdurdod yn ymgymryd â nhw i sicrhau bod y safonau hyn yn cael eu cynnal:

Grŵp Llywodraethu Corfforaethol	Mae'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol yn ei le i lywio a monitro cynnydd ar faterion sy'n effeithio ar Lywodraethu ac mae'n cynnwys swyddogion allweddol a dau Aelod Cabinet, gyda Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu fel sylwedydd, mae hyn yn cynnwys y Côd Llywodraethu Corfforaethol , a gafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor ym mis Mehefin 2012 a'i ddiweddarau'n fwyaf diweddar ym mis Gorffennaf 2021.
Fframwaith CIPFA/SOLACE	Mae fframwaith llywodraethu'r Cyngor yn cael ei lywio gan ganllawiau 'Delivering Good Governance in Local Government' (2016) CIPFA/SOLACE, fel y'u hategwyd gan Adendwm CIPFA/SOLACE a gyhoeddwyd ym mis Mai 2025, sy'n berthnasol i Ddatganiadau Llywodraethu Blynnyddol o 2025/26 ymlaen. Gyda'i gilydd, mae'r canllawiau hyn yn nodi saith prif egwyddor llywodraethu da sy'n ategu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae Côd Llywodraethu Corfforaethol Lleol yr Awdurdod yn adlewyrchu'r egwyddorion hyn ac yn ymgorffori'r polisiau, y prosesau a'r trefniadau sydd eu hangen i gefnogi adolygiad blynnyddol effeithiol o drefniadau llywodraethu a pharatoi'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol yn unol â'r canllawiau wedi'u diweddarau.

Saith Egwyddor CIPFA

Fel y nodir yng Nghôd Llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod, dyma'r saith egwyddor sylfaenol:

Bydd pob un o'r egwyddorion yn cael ei hystyried, yn ei dro, gan roi gwybodaeth fanwl am y mesurau a gymerwyd ac unrhyw welliannau neu flaenoriaethau sy'n angenrheidiol i wella gweithdrefnau llywodraethu'r Awdurdod yn y flwyddyn ariannol.


Credwn fod y mesurau llywodraethu oedd ar waith yn ystod 2025/26, a lywiwyd gan drefniadau'r Awdurdod, yn effeithiol wrth sicrhau trefniadau llywodraethu cadarn a'u bod yn darparu fframwaith cytbwys a phragmatig ar gyfer rheoli heriau a blaenoriaethau allweddol y Cyngor. Mae'r casgliad hwn yn cael ei ategu gan ganlyniadau'r adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd, gan gynnwys sicrwydd gan archwilio mewnol ac allanol, swyddogion statudol, trefniadau rheoli perfformiad, a gweithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid. Gyda'i gilydd, mae'r mesurau hyn yn dangos bod prosesau llywodraethu wedi'u sefydlu ar draws y sefydliad, yn gweithredu fel y bwriadwyd, ac yn gallu cefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau gwybodus, rheoli adnoddau yn effeithiol, a chyflawni amcanion strategol y Cyngor wrth barhau i ddatblygu mewn ymateb i risgiau sy'n dod i'r amlwg a newid deddfwriaethol.

Wendy Walters
Y Prif Weithredwr

Linda Davies Evans
Yr Arweinydd

Dyddiad: 21 Medi 2026

Cyflawni'r Deilliannau Bwriadedig a Gweithredu er Budd y Cyhoedd bob Amser



Egwyddor A - Uniondeb a Gwerthoedd

Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith

Proses	Sut y cyflawnir hyn:	Pa mor dda rydym yn symud ymlaen a sut rydym yn gwybod hynny?	Blaenoriaethau a heriau ar gyfer 2026/27 (Cynllun Gweithredu)
Y Pwyllgor Safonau	Mae Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor llawn ynghylch gweithgareddau'r Pwyllgor. Yn ôl y gyfraith mae'n rhaid i'r adroddiad hwn ddisgrifio sut y mae swyddogaethau'r Pwyllgor wedi cael eu cyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol, ac mae'n cynnwys crynodeb o'r hyn sydd wedi cael ei wneud o ran y canlynol: adroddiadau ac argymhellion a wnaed neu a gyfeiriwyd at y Pwyllgor; camau a gymerwyd gan y Pwyllgor ar ôl iddo ystyried adroddiadau ac argymhellion o'r fath; hysbysiadau a roddwyd i'r Pwyllgor, yn ogystal ag asesiad y Pwyllgor ynghylch i ba raddau y mae arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau i gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau'r grŵp a chydweithio â Phwyllgor Safonau'r Cyngor. Mae'r Pwyllgor hwn hefyd yn goruchwyllo'r Polisi a'r Weithdrefn Datgelu Camarfer.	- Darparwyd hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad i Gynghorwyr Sir ac i Gynghorau Tref a Chymuned ar ôl etholiadau Mai 2022. Darparwyd hyfforddiant gloewi ym mis Gorffennaf 2025 ar gyfer Cynghorwyr Tref a Chymuned. - Yn ystod 2025/26 gwnaed cyfanswm o 8 atgyfeiriad at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynglŷn ag ymddygiad aelodau Cyngor Sir Caerfyrddin ac ni ymchwiliwyd i unrhyw un o'r wyth cwyn. - Rhoddwyd gollyngiadau gan y Pwyllgor i 44 o gynghorwyr tref a chymuned i gymryd rhan mewn eitemau busnes lle'r oedd ganddynt ryw fath o fuddiannau, ac i 3 o Gynghorwyr Sir. Cafodd cyfarfodydd y Pwyllgor Safonau 42 gwyliad byw a 229 gwyliad archif yn 2025/26.	Sefydlwyd Fforwm Safonau Cenedlaethol yn cynnwys cadeiryddion yr holl Bwyllgorau Safonau yng Nghymru yn fforwm ar gyfer rhannu arferion gorau, gan sicrhau gymaint ag y bo modd gysondeb ar benderfyniadau tebyg a thrafod materion amserol. Dylai Cadeirydd neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau barhau i fynychu cyfarfodydd y Fforwm a rhannu arferion gorau gyda gweddill y Pwyllgor.

Proses	Sut y cyflawnir hyn:	Pa mor dda rydym yn symud ymlaen a sut rydym yn gwybod hynny?	Blaenoriaethau a heriau ar gyfer 2026/27 (Cynllun Gweithredu)
Y Cyfansoddiad	Pan gafodd llywodraeth leol ei moderneiddio yn dilyn Deddf Llywodraeth Leol 2000, mabwysiadodd yr Awdurdod Gyfansoddiad newydd ar y ffurf a hyrwyddwyd gan Lywodraeth Cymru. Ers hynny, mae'r cyfansoddiad hwnnw wedi'i adolygu i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion yr Awdurdod a'i reoleiddwyr o ran tryloywder y trefniadau llywodraethu, atebolrwydd a gwneud penderfyniadau. Cyhoeddir y Cyfansoddiad ar wefan y Cyngor ac mae'n egluro sut mae'r Cyngor yn gweithredu a sut mae'n gwneud penderfyniadau. Mae'n cael ei ddiweddarau yn ôl yr angen ac o leiaf unwaith y flwyddyn.	Symudodd yr Awdurdod at fodel o annog a hyrwyddo craffu cyn-penderfynu ar gyfer ei holl brosesau gwneud penderfyniadau a pholisïau, ac i'r perwyl hwnnw mae wedi cryfhau ei Flaenraglenni Gwaith fel y gall Pwyllgorau Craffu weld yn well pa benderfyniadau / polisïau sy'n mynd i gael eu hystyried a phryd, gan roi cyfle iddynt gymryd rhan yn gynnar yn y broses. -Mae data yn dangos bod diddordeb yng ngwaith yr Awdurdod, a chafodd gweddarllediadau o gyfarfodydd y Cyngor Sir 646 gwyliad byw a 2673 gwyliad archif yn ystod y flwyddyn, a'r Cabinet 346 a 2158 yn y drefn honno. 1. Gofynnwyd 28 o Gwestiynau â Rhybudd gan yr Aelodau i Aelodau Cabinet yn y Cyngor Llawn o dan Reolau Gweithdrefnau'r Cyngor yn ystod 2025/26. Fodd bynnag, dim ond yng nghyfarfodydd y Cyngor Sir llawn y gellir cyflwyno cwestiynau a ofynnir fel hyn ac felly gall fod oedi cyn y gellir ymdrin â hwy. Felly, gallai cwestiynau o'r fath fod wedi ennyn ymatebion cyflymach pe baent wedi'u gofyn yn uniongyrchol i'r Aelodau Cabinet y tu allan i gylch cyfarfodydd y Cyngor Llawn.	Cyfarfu Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad ar 10 Chwefror a 1 Ebrill 2026 i adolygu'r Cyfansoddiad. Arweiniodd hyn at gyfres o argymhellion a gymeradwywyd yn unfrydol gan y Cyngor yn ei Gyfarfod Cyffredinol Blynnyddol ar 20 Mai 2026. Roedd y newidiadau a gymeradwywyd yn cynnwys diwygio Rheolau Gweithdrefnau'r Cyngor, diweddarau Côt Ymddygiad yr Aelodau a diwygiadau canlyniadol eraill. Mae'r Cyfansoddiad yn ddogfen fyw i raddau helaeth a bydd Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad yn cwrdd yn ddiweddarach yn 2026 i adolygu'r Cyfansoddiad eto.

Proses	Sut y cyflawnir hyn:	Pa mor dda rydym yn symud ymlaen a sut rydym yn gwybod hynny?	Blaenoriaethau a heriau ar gyfer 2026/27 (Cynllun Gweithredu)
		2. Dim ond 9 Cwestiwn ar rybudd a ofynnwyd gan aelodau'r cyhoedd yn y Cyngor Llawn yn ystod 2025/26. 3. Mae'r Awdurdod wedi cyhoeddi ei Gynllun Cyfranogiad y Cyhoedd sy'n rhoi gwybodaeth am y ffyrdd y gall y cyhoedd ryngweithio â'r Awdurdod.	
Grŵp Llywodraethu Corfforaethol	Mae Grŵp Llywodraethu Corfforaethol sefydledig yr Awdurdod yn cydgysylltu, yn rheoli ac yn adrodd ar drefniadau llywodraethu ar draws y Cyngor. Mae'r aelodaeth yn cynnwys uwch-swyddogion o bob rhan o'r Awdurdod a dau Aelod Cabinet. Mae'r Grŵp yn goruchwyllo adolygiad a datblygiad y Côd Llywodraethu Corfforaethol a'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol, gan sicrhau bod y ddwy ddogfen yn destun craffu manwl cyn i'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol gael ei gymeradwyo gan yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr a'i ystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn mynychu cyfarfodydd y Grŵp fel sylwedydd, gan gryfhau'r cysylltiad â rôl oruchwyllo annibynnol y Pwyllgor. Mae cofnodion y Grŵp yn cael eu hadrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, gan ddarparu tryloywder a sicrwydd ynghylch trefniadau llywodraethu'r Awdurdod.	- Mae dull cydgysylltiedig o ddrafftio'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol a herio'r cynnwys, er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r sefyllfa llywodraethu wirioneddol ac yn nodi pa welliannau sydd eu hangen. Caiff cynllun gweithredu ei lunio'n flynyddol, a chaiff y materion llywodraethu hyn eu monitro drwy gyfarfodydd chwarterol y Grŵp Llywodraethu.	1. Rhaid sicrhau, wrth lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol: • Bod y Côd Llywodraethu yn cael ei weithredu. • Bod gan ein Hamcanion Llesiant, Blaenoriaethau Thematig a Blaenoriaethau Gwasanaeth drefniadau llywodraethu priodol. • Ein bod yn gweithredu'r egwyddor datblygu cynaliadwy. • Bod trefniadau llywodraethu yn effeithiol er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein 'gofynion perfformiad', sef i ba raddau yr ydym yn cyflawni ein swyddogaethau yn effeithiol ac yn defnyddio adnoddau yn ddarbodus, effeithlon ac effeithiol. • Ymgysylltu ag Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2. Rydym yn parhau i sicrhau bod Rheoli Perfformiad Corfforaethol ac Archwilio Mewnol yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y Datganiad Llywodraethu Blynnyddol yn chwarae ei ran yn Hunanasesiad Cyffredinol y Cyngor.

Proses	Sut y cyflawnir hyn:	Pa mor dda rydym yn symud ymlaen a sut rydym yn gwybod hynny?	Blaenoriaethau a heriau ar gyfer 2026/27 (Cynllun Gweithredu)
Swyddog Monitro	Mae'r swyddog monitro (Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil) yn gweithio'n agos gyda'r Prif Weithredwr a'r swyddog A.151 yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ac yn rhoi gwybod am unrhyw anghyfreithlondeb posibl. Mae dyletswyddau eraill yn cynnwys cynnal y Cyfansoddiad a chydymffurfio ag ef; cefnogi Aelodau a Swyddogion i gydymffurfio â'r gyfraith ac egwyddorion yr Awdurdod; goruchwyllo Uned y Gwasanaethau Democrataidd; a bod yn bresennol yn Rhwydwaith Swyddogion Monitro Cymru Gyfan bob chwarter.	Nid oedd yn rhaid i'r Swyddog Monitro gyhoeddi unrhyw adroddiad statudol yn ystod y flwyddyn 2025/26.	Gan nad oedd yn rhaid i'r Swyddog Monitro gyhoeddi unrhyw adroddiad statudol yn ystod y flwyddyn 2025/26 nid oes unrhyw argymhellion.

B – Bod yn agored ac Ymgysylltu**Sicrhau gweithredu agored ac ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid**

Proses	Sut y cyflawnir hyn:	Pa mor dda rydym yn symud ymlaen a sut rydym yn gwybod hynny?	Blaenoriaethau/Heriau ar gyfer 2026/27
Ymgynghori ac Ymgysylltu â Dinasyddion a Defnyddwyr Gwasanaethau	Mae nifer o grwpiau rhwydwaith yn cynrychioli amrywiaeth o fuddiannau o'r fforwm ieuenctid i'r rhwydwaith heneiddio'n dda yn ogystal â fforymau yr ydym yn ymgysylltu â nhw i geisio barn y rhai â nodweddion gwarchodedig penodedig fel y'u cydnabyddir gan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Mae'r holl ymgynghoriadau yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor gan roi trosolwg cynhwysfawr o'r broses ymgynghori i drigolion. Nod y dull hwn yw gwella tryloywder ac annog cyfranogiad gweithredol. Defnyddir ffynonellau gwybodaeth eilaidd hefyd i greu darlun cynhwysfawr. Defnyddir data o'r fath yn yr adroddiad blynyddol a'r hunanasesiad.	- Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd yr Awdurdod ymgynghoriad helaeth ar ei gyllideb, oedd yn cynnwys wythnos o seminarau wyneb yn wyneb gydag aelodau yn ogystal â digwyddiadau Golwg Sir Gâr ar gyfer pobl ifanc, arolygon ar-lein, cyfryngau cymdeithasol, a chyfarfodydd rhanddeiliaid gyda Chynghorau Tref a Chymuned ac Undebau. Caiff canlyniadau'r ymgynghoriadau eu hystyried a'u cyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor Sir fel rhan o Adroddiad Strategaeth y Gyllideb. Eleni, cafwyd mwy na 1,200 o ymatebion. - Cafwyd 4,357 o ymatebion i'n Harolwg Preswylwyr ar gyfer 2025, sef cynnydd (21%) ers y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn welliant sylweddol ers ein blwyddyn sylfaenol yn 2022. - Yn ogystal, cyflwynwyd 2522 o arolygon wedi'u cwblhau fel rhan o brif gynllun tai ac adfywio diweddar o gymharu â 189 a gyflwynwyd mewn arolwg tebyg a gynhaliwyd yn 2018. Mae'r cynnydd yn y nifer sy'n cymryd rhan yn cael ei briodoli i'r berthynas agosach a ddatblygwyd â'r tîm Marchnata a'r Cyfryngau sy'n sicrhau	1. Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar draws yr adrannau wedi cael ei sefydlu i ddatblygu ymhellach ein dull a'n cyfleoedd i gymryd rhan ar draws y Cyngor. Bydd y grŵp hwn yn arwain y gwaith o fapio gweithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori yn ogystal â rhannu gwybodaeth sy'n cael ei chasglu o unrhyw waith cynnwys ar draws gwasanaethau'r Cyngor. 2. Bydd y Tîm Dealltwriaeth Data a Pherfformiad yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a dadansoddi gweithgarwch ymgynghori sy'n deillio o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. 3. Byddwn yn gweithio gyda gwasanaethau eraill y Cyngor i ddatblygu ymhellach gyfraniad a defnydd y Cyngor o ddata a gesglir fel rhan o fframwaith cynnwys, cyfranogi ac ymgynghori ar draws y Cyngor. (12435) (Argymhelliad Rheoleiddiol Swyddfa Archwilio Cymru – 'Defnyddio Data'). 4. Dylai'r Cyngor edrych ar y dewisiadau sydd ar gael i rannu gwybodaeth am berfformiad mewn ffordd fwy tryloyw a hygyrch. Mae hyn yn cynnwys esbonio wrth drigolion (lle bo modd) sut a pham y

Proses	Sut y cyflawnir hyn:	Pa mor dda rydym yn symud ymlaen a sut rydym yn gwybod hynny?	Blaenoriaethau/Heriau ar gyfer 2026/27
		bod ymgynghoriadau'n cael eu hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol a'r wefan gorfforaethol ac yn cael eu hanfon at yr holl randdeiliaid allweddol. Cymeradwywyd Strategaeth Gynnwys y Cyngor gan y Cabinet ym mis Ebrill 2025. Mae'r Strategaeth yn amlinellu'r gofynion ar gyfer y Cyngor ac yn cadarnhau rhai o'r dulliau presennol sy'n cael eu defnyddio	gwneir penderfyniadau ynghylch gwario a buddsoddi adnoddau ariannol.
Cwynion	Mae gan y Cyngor Bolisi Cwynion (a fabwysiadwyd yn 2021/22) ar gyfer cwynion corfforaethol yn seiliedig ar fodel Cymru Gyfan ac a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Cwynion o dan bwerau yn Adran 36 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019. Amlinellir y weithdrefn ar gyfer cwynion a chanmoliaeth ac adroddir ar ystadegau a dadansoddiadau o'r cwynion a gyflwynwyd fel rhan o adroddiadau monitro perfformiad chwarterol. Mae gan y Cyngor Dîm Cwynion Corfforaethol canolog ar gyfer y rhan fwyaf o wasanaethau ac mae'r tîm hwn yn cysylltu â gwasanaethau perthnasol eraill y Cyngor i ymateb i gwynion. Yr eithriad yw bod gwasanaethau cymdeithasol i oedolion a gwasanaethau cymdeithasol i blant yn cael eu rheoli gan yr Adran Cymunedau.	Dyma ddadansoddiad o'r cwynion yr ymchwiliwyd ac ymatebwyd iddynt yn ystod 2025/26: - Cwynion corfforaethol: Daeth 1,283 o gwynion i law. Aeth 66 o gwynion ymlaen i Gam 2. - Cwynion gofal cymdeithasol oedolion statudol: 45 o gwynion Cam 1 a 13 o gwynion Cam 2. - Cwynion gofal cymdeithasol plant statudol: 56 o gwynion Cam 1 a 16 o gwynion Cam 2. Nid yw'r Cyngor wedi gallu ymateb i bob cynw o fewn yr amserlenni statudol: - Cwynion Corfforaethol: Ymatebwyd i 73% o gwynion Cam 1 a 61% o gwynion Cam 2 o fewn yr amserlenni statudol. Bu gwelliant sylweddol o ran canlyniadau Cam 2 (12% yn 2024/25).	1. Datblygu ymhellach ein dull o ddefnyddio data a gwybodaeth o gwynion i lywio'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau. 2. Mae'r Tîm Trawsnewid wedi arwain cyfres o weithdai i edrych ar swyddogaethau cefn swyddfa a sut mae meysydd fel Cwynion, Mynediad at Ddata gan y Testun a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn cael eu cydlynu ar draws yr Awdurdod. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2026/27 ac fel rhan o hyn byddwn yn ymchwilio i system newydd i gefnogi ceisiadau.

Proses	Sut y cyflawnir hyn:	Pa mor dda rydym yn symud ymlaen a sut rydym yn gwybod hynny?	Blaenoriaethau/Heriau ar gyfer 2026/27
		Yn ystod 2025/26, penodwyd Swyddog Rheoli Cwynion newydd fel rhan o'r tîm cwynion corfforaethol i gefnogi'r gwaith o reoli cwynion Cam 2. Mae'r swyddog wedi rhoi cymorth ac arweiniad i adrannau ac wedi arwain gwelliannau gan y tîm o ran hygyrchedd ac eglurder gwybodaeth. Mae gwelliannau wedi'u gwneud i'r wefan gorfforaethol i esbonio ac egluro'r broses gwyno a chyfeirio at y swyddogaeth 'Rhoi gwybod' pan fydd aelodau o'r cyhoedd am wneud cais am wasanaeth. Mae'r Swyddog Rheoli Cwynion wedi gweithio gyda'r Gwasanaethau Gwastraff a'r Gwasanaethau Tai i ddadansoddi data a chanfyddiadau i gefnogi gwelliannau i wasanaethau. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiad manwl o themâu a thueddiadau allweddol, ynghyd ag argymhellion clir i'w hystyried gan y gwasanaethau. Cwynion gofal cymdeithasol oedolion statudol: • Ymatebwyd i 31 (79%) o gwynion Cam 1 ac 8 (62%) o gwynion Cam 2 o fewn yr amserlenni statudol. Cafwyd hefyd 6 o gwynion corfforaethol Cam 1 (100%) a dim cwynion Cam 2.	.

Proses	Sut y cyflawnir hyn:	Pa mor dda rydym yn symud ymlaen a sut rydym yn gwybod hynny?	Blaenoriaethau/Heriau ar gyfer 2026/27
	Ar gyfer cwynion sy'n gysylltiedig â gwasanaethau cymdeithasol (oedolion a phlant) mae'r Cyngor yn gweithio yn unol â Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014	Cwynion gofal cymdeithasol plant statudol: •Ymatebwyd i 23 (48%) o gwynion Cam 1 a 5 (45%) o gwynion Cam 2 o fewn yr amserlenni statudol. Cafwyd hefyd 6 o gwynion corfforaethol Gwasanaethau Plant Cam 1 (75%) a 3 cwyn Cam 2 (60%). Mae rhaglen hyfforddiant amrywiol ar waith ar gyfer cwynion bellach.	Mae trefniadau yn cael eu rhoi ar waith i ddadansoddi tueddiadau a phatrymau cwynion yn well i wella'r hyn sy'n cael ei ddysgu o gwynion a rhannu gwybodaeth a dealltwriaeth gan roi ffocws allweddol ar weithio i ddatrys materion.
Gwasanaeth Cyhoeddus a'r Ombwdsmon	Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn rhan allweddol o fframwaith sicrwydd yr Awdurdod, gan ystyried cwynion gan aelodau o'r cyhoedd ac aelodau mewn perthynas ag ymddygiad yr Aelodau, ac oddi wrth aelodau'r cyhoedd ynghylch camweinyddu honedig, ac mae ganddi rymoedd i gychwyn ymchwiliadau ar ei liwt ei hun. Caiff ei Hadroddiad ei gyhoeddi'n flynyddol. Cyflwynir Adroddiadau Budd y Cyhoedd Adran 16 yr Ombwdsmon i'r Cyngor Sir fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith. Rydym yn darparu data bob chwarter i Asiantaeth Safonau Cwynion yr Ombwdsmon.	Rydym yn darparu data bob chwarter i Asiantaeth Safonau Cwynion yr Ombwdsmon, a grëwyd i sbarduno gwelliannau ar draws awdurdodau mewn perthynas â thrin cwynion a chanlyniadau. -Ni chyflwynwyd unrhyw Adroddiadau Budd y Cyhoedd yn erbyn yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn 2025/26. Ni wnaed unrhyw atgyfeiriadau ar gyfer gwrandawiadau i unrhyw gwynion am ymddygiad Cynghorwyr Sir, naill ai i Bwyllgor Safonau'r Awdurdod nac i Banel Dyfarnu Cymru yn ystod 2025/26.	Mae blaenoriaethau clir yn hanfodol i gryfhau ein gwaith gyda'r Ombwdsmon, sy'n chwarae rhan hanfodol wrth hyrwyddo atebolrwydd, tryloywder a thegwch yn y Cyngor. Byddwn yn parhau i sicrhau bod y cyhoedd yn cael gwybodaeth lawn am eu hawliau a'r gwasanaethau sydd ar gael drwy'r Ombwdsmon.

Proses	Sut y cyflawnir hyn:	Pa mor dda rydym yn symud ymlaen a sut rydym yn gwybod hynny?	Blaenoriaethau/Heriau ar gyfer 2026/27
Cyfathrebu	Mae'r tîm Marchnata a'r Cyfryngau yn yr Awdurdod yn hyrwyddo gwaith y Cyngor ac yn cefnogi ymgysylltu'n rhagweithiol ag aelodau'r cyhoedd, gan eu helpu i gael gwybodaeth am wasanaethau'r Cyngor. Mae'r canolfannau Hwb yn Rhydaman, Caerfyrddin a Llanelli yn cynnig apwyntiadau sydd wedi'u trefnu ymlaen llaw a chynghor galw heibio i 6,000 o drigolion y mis ar gyfartaledd, yn ogystal â rhoi cynghor a mynediad i gymorth hyfforddiant a chyflogaeth. Mae Hwb Bach y Wlad yn cydweithio ag asiantaethau partner allweddol i ddarparu amrywiaeth cynhwysfawr o wasanaethau sydd â'r nod o gefnogi llesiant a gwydnwch ariannol cymunedau gwledig yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r Canolfannau Hwb a Hwb Bach y Wlad yn parhau i fynd ati i hyrwyddo'r fenter 'Hawliwch yr hyn sy'n ddyledus i chi' drwy amrywiaeth o ddulliau, sy'n cynnwys y cyfryngau cymdeithasol a thafleuni sydd ar gael gan y Cofrestryddion. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid gan gynnwys Cyngor ar Bopeth, Angor, Adfer, Cysylltu Sir Gâr ac ati ac rydym wedi bod yn bresennol mewn sawl digwyddiad ledled y sir i hyrwyddo'r gwasanaeth ymhellach. Rydym wedi ymweld â phob banc bwyd yn y sir a bod yn bresennol mewn nosweithiau rhieni ysgolion. Rydym wedi gweithio gyda chyn-filwyr y Lluoedd Arfog ac wedi bod yn bresennol mewn clinigau imiwneiddio cymunedol.	Mae Fy Nghyfrif Hwb am wasanaethau a thaliadau ar-lein yn parhau i fod yn ffordd effeithiol o gael mynediad at wasanaethau. Drwy gydol 2025/26 rydym wedi gweld trigolion a busnesau yn cyrchu gwybodaeth, cymorth a gwasanaethau'r cyngor ar-lein; roedd bron 5.5 miliwn o sesiynau ar ein gwefan eleni. Yn 2025 yn unig, cynorthwyodd Canolfannau Hwb Cyngor Sir Caerfyrddin dros 2,596 o drigolion a atgyfeiriwyd at ei Wasanaeth 'Hawliwch yr hyn sy'n ddyledus i chi' i hawlio mwy na £4.5m, yn ôl yr amcangyfrif, mewn taliadau cymorth a budd-daliadau. https://newyddion.sirgar.llyw.cymru/2026/3/dros-12m-mewn-taliadau-cymorth-wedi-i-hawlio-gan-drigolion-sir-gaerfyrddin-drwy-ganolfannau-hwb-y-cyngor/ Mae hygyrchedd gwybodaeth yn allweddol i ni. Eleni, buom yn gweithio gyda'r Ganolfan Hygyrchedd Digidol i archwilio ein gwefan i sicrhau bod eu cynhyrchion/gwasanaethau digidol yn gallu cael eu defnyddio'n hwylus ac yn cydymffurfio lle bynnag y bo modd â lefel AA Canllawiau Hygyrchedd Cynnwys Gwe (WAG 2.2) yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae mor bwysig cofio bod trigolion, ymwelwyr a busnesau bellach yn cyrchu'r wefan mewn gwahanol ffyrdd; mae 59.85% yn defnyddio eu dyfais symudol i wneud hynny erbyn hyn.	1. Byddwn yn parhau i edrych ar ffyrdd o ymgysylltu â'n cwsmeriaid allanol mewn ffordd glir a chyson. 2. Byddwn yn parhau i hyrwyddo gwasanaethau a gwaith y cyngor. Cynorthwyo a hysbysu'r cyhoedd ynghylch sut a pham mae adnoddau ariannol yn cael eu dyrannu a'u buddsoddi. https://vimeo.com/1045390849 3. Mae dulliau cyfathrebu'r Cyngor bellach yn cyd-fynd â'r Strategaeth Gorfforaethol a'r amcanion llesiant ac yn cyfeirio atynt.

Proses	Sut y cyflawnir hyn:	Pa mor dda rydym yn symud ymlaen a sut rydym yn gwybod hynny?	Blaenoriaethau/Heriau ar gyfer 2026/27
	Mae'r tîm Marchnata a'r Cyfryngau yn gweithio gyda'r Cabinet a'r Timau Rheoli Adrannol i gynllunio cyfathrebu'n rhagweithiol, gan helpu meysydd gwasanaeth i ymgysylltu â'r bobl iawn, ar yr adeg iawn, yn y modd iawn.	Mae hyn yn allweddol wrth ystyried sut i gyflwyno gwybodaeth i sicrhau ein bod yn ymgysylltu â chynulleidfa mor eang â phosibl. Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn parhau i fod yn ffordd wych o gyfathrebu. Dilynwyr X Newydd – (-199) Cyfanswm y dilynwyr ar X – 11,118 Postiadau a gyhoeddwyd ar X – 952 Argraffiadau drwy bostio ar Facebook – 10.6m Argraffiadau cyfrif Facebook – 9.5m Cyrhaeddiad drwy bostio ar Facebook – 6.5m Cyrhaeddiad cyfrif Facebook – 12.7k Postiadau a gyhoeddwyd ar Facebook – 1228 Dilynwyr newydd ar Facebook – 1961 Cyfanswm y dilynwyr ar Facebook – 29,892 Cyfanswm y dilynwyr ar LinkedIn – 8338 Argraffiadau drwy bostio ar LinkedIn – 81.9 k Cyrhaeddiad drwy bostio ar LinkedIn – 49.3k Argraffiadau cyfrif LinkedIn – 85.5k	

C – Gwneud gwahaniaeth

Diffinio canlyniadau yn nhermau buddion economaidd, cymdeithasol, ac amgylcheddol cynaliadwy.

Proses	Sut y cyflawnir hyn:	Pa mor dda rydym yn symud ymlaen a sut rydym yn gwybod hynny?	Blaenoriaethau/Heriau ar gyfer 2026/27
Y Pwrpas a'r Weledigaeth	Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i weithredu ar y cyd drwy Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin, y mae'r Awdurdod yn aelod ohono. Cafodd Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023, ei llywio gan ganfyddiadau'r asesiad llesiant, ac mae'n cadarnhau pedwar amcan llesiant. Gellir gweld yr amcanion llesiant hyn ar dudalen we yr Awdurdod: Dechrau'n Dda, Byw a Heneiddio'n Dda, Cymunedau Ffyniannus, ac Ein Cyngor.	- Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ceisio gwella llesiant cyffredinol trigolion Sir Gaerfyrddin drwy ei Gynllun Llesiant ac mae'n canolbwyntio ar 5 amcan llesiant; datblygwyd y rhain yn seiliedig ar ganfyddiadau asesiad llesiant a gynhaliwyd. Yn ystod y flwyddyn mae'r Bwrdd wedi cymryd camau i wneud cynnydd yn erbyn yr amcanion a'r camau a nodwyd. - Un darn allweddol o waith yw cwblhau Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd, mewn partneriaeth â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a Cyfoeth Naturiol Cymru. - Mae prosesau cynllunio busnes y Cyngor yn cyd-fynd yn llawn ag Amcanion Llesiant a Blaenoriaethau Thematis a Gwasanaeth y Strategaeth Gorfforaethol. - Fel Cyngor, mae gennym eisoes lawer o ddata yr ydym yn ei adrodd ac mae'r Tîm Dealltwriaeth Data yn ceisio gwella'r ffordd yr ydym yn defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth i lywio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau, gan osod dull corfforaethol i ddod yn awdurdod sy'n cael ei lywio gan ddata. Rydym hefyd yn bwrw ati i wneud mwy o ddefnydd o ddata wrth gynllunio ein gwaith.	1. Bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn parhau i fonitro cynnydd y camau sydd eisoes yn cael eu cymryd ac mae ganddo nifer o grwpiau gorchwyl a gorffen ag aelodaeth amlasiantaeth i ddatblygu'r gwahanol feysydd gwaith. 2. Yn ystod 2026/27, bydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin a Cheredigion yn uno'n ffurfiol. Cafodd papur trafod strwythur rhanbarthol ei baratoi a'i drafod gan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro yn amlinellu strwythurau, cyfleoedd a risgiau posibl. Cytunodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro i aros fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus annibynnol. Bydd trefniadau yn cael eu rhoi ar waith i weithredu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'i uno erbyn mis Medi 2026. 3. Yn ystod 2026/27, bydd yr Asesiad o Lesiant Lleol yn cael ei ddiweddarau a bydd un asesiad yn cael ei baratoi gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'i uno ar gyfer Ceredigion a Sir Gaerfyrddin. Mae Bwrdd Gwasanaethau

Proses	Sut y cyflawnir hyn:	Pa mor dda rydym yn symud ymlaen a sut rydym yn gwybod hynny?	Blaenoriaethau/Heriau ar gyfer 2026/27
			Cyhoeddus Sir Benfro yn cymryd rhan yn y Gweithgor Ymgynghori ac Ymgysylltu a'r Grŵp Ysgrifenyddwr Data; fodd bynnag, bydd yn cyhoeddi asesiad annibynnol. 4. Yn ystod 2026/27 byddwn yn parhau i ddatblygu'r Gyfres Ddata Gorfforaethol i gefnogi'r Strategaeth Gorfforaethol ar gyfer 2022-2027 a meysydd polisi allweddol. 5. Mae Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor yn cael ei adnewyddu a bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau yn 2026/27. Mae hyn yn rhoi ffocws ar ddull sy'n seiliedig ar ddata o fonitro cynnydd yn erbyn ein hamcanion llesiant fel y nodir yn y Strategaeth Gorfforaethol.
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Mae'r Ddeddf yn nodi 'set graidd o weithgareddau sy'n gyffredin i lywodraethu cyrff cyhoeddus yn gorfforaethol (SPF1 Para. 47). Mae cymhwyso gofynion y Ddeddf i'r gweithgareddau hyn yn debygol o sicrhau'r math o newid sydd ei angen yn fwyaf effeithiol'. Pwrrpas cyffredinol y Ddeddf yw sicrhau bod trefniadau llywodraethu cyrff cyhoeddus yn cyd-fynd â gwella llesiant Cymru, gan ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Fel corff cyhoeddus mae'n rhaid i ni gyhoeddi ein Hamcanion Llesiant i wneud y mwyaf o'n cyfraniad i'r Nodau Llesiant Cenedlaethol.	- Rydym yn mynd i'r afael â'r Ddeddf drwy Adroddiad Blyneddol y Cyngor a'r datganiad llesiant. - Ym mis Ionawr 2026 fe wnaethom gyhoeddi Adroddiad Blyneddol y Cyngor ar ein cynnydd yn ystod 2024/25. Mae'n darparu asesiad a gwybodaeth gynhwysfawr a chytbwys i'r cyhoedd am ein gwasanaethau, er mwyn iddynt allu gweld sut yr ydym yn perfformio a'r heriau yr ydym yn eu hwynebu. Defnyddiwyd amrywiaeth o wybodaeth i lywio ein hunanasesiad o bob Amcan Llesiant a rhannu tystiolaeth i farnu cynnydd.	1. Mae angen i ni barhau i hyrwyddo Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r egwyddor datblygu cynaliadwy a phan fyddwn yn ailosod ein Strategaeth Gorfforaethol a'n Hamcanion Llesiant yn dilyn yr etholiadau Llywodraeth Leol byddwn yn cynnwys ein rhanddeiliaid wrth nodi blaenoriaethau'r dyfodol er mwyn llywio amcanion llesiant y Cyngor a sicrhau bod gwaith y sefydliad cyfan yn cyd-fynd yn llwyr â chyflawni'r amcanion hynny. 2. Mae Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor yn cael ei adnewyddu a bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau yn

Proses	Sut y cyflawnir hyn:	Pa mor dda rydym yn symud ymlaen a sut rydym yn gwybod hynny?	Blaenoriaethau/Heriau ar gyfer 2026/27
			2026/27. Mae hyn yn rhoi ffocws ar ddull sy'n seiliedig ar ddata o fonitro cynnydd yn erbyn ein hamcanion llesiant fel y nodir yn y Strategaeth Gorfforaethol yn ogystal ag ystyried y gofynion a osodir arnom gan y Ddeddf.
Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021	Sefydlodd y Ddeddf hon fframwaith deddfwriaethol newydd a diwygiedig ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, democratiaeth, llywodraethu a pherfformiad. Mae'n disodli Mesur Llywodraeth Leol 2009. Mae dyletswyddau'r Cyngor yn unol â Rhan 6 yn cynnwys y ddyletswydd i adolygu ei berfformiad yn barhaus, ymgynghori ar berfformiad, adrodd ar berfformiad, trefnu asesiad perfformiad gan banel, ac ymateb i'r asesiad hwnnw gan banel.	- Mae ein Hunanasesiad Blynyddol o'r Gofynion Perfformiad hyn yn cynnwys hunanasesiad gan bob is-adran yn erbyn y gofynion, gan sgorio eu hunain o ran cyflawni'r disgwyliadau. Mae hunanasesiadau is-adrannol yn sail i grynodedau adrannol sy'n sail i drosolwg corfforaethol sy'n cael ei gynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Cyngor. - Fel rhan o'n dyletswydd i asesu i ba raddau yr ydym yn bodloni ein gofynion perfformiad, cafodd y Cyngor ei Asesiad Perfformiad cyntaf gan Banel ym mis Mehefin 2025. Roedd hyn yn seiliedig ar y cysyniad o wella a chymorth a arweinir gan y sector. Lluniwyd adroddiad o'r prif ganfyddiadau a bu'r Cyngor yn ystyried hwn ac yn ymateb iddo wedyn. Mae'r ymateb yn nodi'r camau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd i wneud cynnydd mewn perthynas â'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad.	1. Byddwn yn parhau i wneud gwell defnydd o wybodaeth o ystod o ffynonellau wrth lunio Adroddiadau Monitro Rheoli Perfformiad chwarterol. 2. Byddwn yn sicrhau bod y Cyngor yn ymgorffori'n llawn y gofynion sy'n ymwneud â pherfformiad a llywodraethu'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau a'u cysoni â'n dyletswyddau presennol mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. 3. Mae Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor yn cael ei adnewyddu a bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau yn 2026/27. Mae hyn yn rhoi ffocws ar ddull sy'n seiliedig ar ddata o fonitro cynnydd yn erbyn ein hamcanion llesiant fel y nodir yn y Strategaeth Gorfforaethol yn ogystal ag ystyried y gofynion a osodir arnom gan y Ddeddf. 4. Byddwn yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2025/26, gan ymgorffori gofynion

Proses	Sut y cyflawnir hyn:	Pa mor dda rydym yn symud ymlaen a sut rydym yn gwybod hynny?	Blaenoriaethau/Heriau ar gyfer 2026/27
			hunanasesu, sy'n dwyn ynghyd ddisgwyliadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru 2021 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. 5. Bydd y Tîm Marchnata a'r Cyfryngau a'r Tîm Dealltwriaeth Data a Pherfformiad yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a dadansoddi gweithgarwch ymgynghori sy'n deillio o'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau. 6. Byddwn yn rhoi trefniadau adrodd ar waith i fonitro cynnydd mewn perthynas â'r camau gweithredu a nodwyd mewn ymateb i adroddiad yr Asesiad Perfformiad gan Banel.
Adroddiad Blynnyddol yr Arweinydd/Cynllun 5 Mlynedd	Yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022 cyhoeddodd y weinyddiaeth ei Datganiad Gweledigaeth y Cabinet ar gyfer 2022-27 ym mis Gorffennaf 2022. Roedd y Datganiad Gweledigaeth hwn yn llywio datblygiad y Strategaeth Gorfforaethol newydd a'r Amcanion Llesiant ac mae camau gweithredu wedi'u hymgorffori mewn cynlluniau cyflawni gwasanaethau.	- Mae'r 113 o ymrwymadau yn cael eu holrhain a'u monitro drwy System Monitro Perfformiad a Gwella (PIMS) y Cyngor a chyflwynir adroddiadau yn eu cylch bob chwarter.	1. Bydd yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr yn cyfarfod yn chwarterol i fonitro cynnydd a rhoi gwybod am unrhyw faterion i'w datblygu drwy drefniadau rheoli perfformiad.

D – Sicrhau ein bod yn cyflawni'r hyn y mae'n fwriad gennym ei wneud

Pennu'r ymyrraeth sydd ei hangen i gyflawni'r canlyniadau arfaethedig i'r graddau mwyaf posibl.

Proses	Sut y cyflawnir hyn:	Pa mor dda rydym yn symud ymlaen a sut rydym yn gwybod hynny?	Blaenoriaethau/Heriau ar gyfer 2026/27
Rheoli Perfformiad/y Swyddogaeth Graffu	Mae Amcanion Llesiant y Strategaeth Gorfforaethol yn nodi'r prif gamau a gymerir i gyflawni'r amcanion. Cefnogir y camau hyn gan gamau gweithredu manwl a mesurau a nodir yn y Cynlluniau Busnes. Mae'r camau a'r mesurau hyn yn cael eu monitro ar y System Monitro Perfformiad a Gwella (PIMS). Mae hyn yn galluogi swyddogion cyfrifol i ddiweddarau cynnydd bob chwarter a gall hyn gael ei fonitro a'i gymeradwyo gan Benaethiaid Gwasanaeth a'i adolygu gan Dimau Rheoli Adrannol. Bob chwarter, mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Aelodau Cabinet yn archwilio perfformiad mewn cyfarfodydd pwrpasol. Mae'r pwyllgorau craffu yn derbyn adroddiadau Rheoli Perfformiad chwarterol yn ogystal â'r adroddiad diwedd blwyddyn. Caiff adroddiadau eu paratoi i ymateb i feysydd portffolio penodol pob pwyllgor. Ceir adroddiadau atodol a manylach ar absenoldeb salwch a llesiant yn chwarter 2 a chwarter 4.	- Mae'r fframwaith rheoli perfformiad yn nodi dull y Cyngor o fonitro a rheoli perfformiad gwasanaethau'r Cyngor. Ei nod yw cadw'r Cyngor ar y trywydd iawn a chanolbwyntio ar gyflawni ei flaenoriaethau allweddol, drwy roi'r wybodaeth a'r offer sydd eu hangen ar gynghorwyr, rheolwyr a staff i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n perfformio'n dda sy'n helpu i sicrhau canlyniadau da i drigolion. - Mae adroddiadau monitro chwarterol integredig yn cael eu datblygu'n barhaus i greu darlun mwy cyflawn ar gynnydd. - Mae'r holl gynlluniau busnes yn cael eu halinio â'r Strategaeth Gorfforaethol ac mae'r camau a'r mesurau a osodir i gyflawni'r strategaeth yn cael eu monitro'n chwarterol ac mae adroddiadau sy'n cael eu teilwra i gylch gorchwyl pob Pwyllgor Craffu yn cael eu cyflwyno'n chwarterol. - Adroddiadau Blynyddol - Rydym yn cynhyrchu Adroddiad Blynyddol sy'n edrych ar sut rydym yn cyflawni ein Hamcanion Llesiant ac yn bodloni ein 'Gofynion Perfformiad'.	1. Byddwn yn parhau i wneud gwell defnydd o wybodaeth o ystod o ffynonellau wrth lunio Adroddiadau Monitro Rheoli Perfformiad chwarterol. 2. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r Gyfres Ddata Gorfforaethol i gefnogi'r Strategaeth Gorfforaethol ar gyfer 2022-27 a meysydd polisi allweddol. 3. Mae Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor yn cael ei adnewyddu a bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau yn 26/27. Mae hyn yn rhoi ffocws ar ddull sy'n seiliedig ar ddata o fonitro cynnydd yn erbyn ein hamcanion llesiant fel y nodir yn y Strategaeth Gorfforaethol. 4. Byddwn yn rhoi trefniadau adrodd ar waith i fonitro cynnydd mewn perthynas â'r camau gweithredu a nodwyd mewn ymateb i adroddiad yr Asesiad Perfformiad gan Banel.

Proses	Sut y cyflawnir hyn:	Pa mor dda rydym yn symud ymlaen a sut rydym yn gwybod hynny?	Blaenoriaethau/Heriau ar gyfer 2026/27
		- Fel rhan o'n dyletswydd i asesu i ba raddau yr ydym yn bodloni ein gofynion perfformiad, cafodd y Cyngor ei Asesiad Perfformiad cyntaf gan Banel ym mis Mehefin 2025. Lluniwyd adroddiad o'r prif ganfyddiadau a bu'r Cyngor yn ystyried hwn ac yn ymateb iddo wedyn. Mae'r ymateb yn nodi'r camau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd i wneud cynnydd mewn perthynas â'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad.	

E - Gwerthfawrogi ein pobl; ymgysylltu, arwain a chefnogi**Datblygu cymhwysedd a gallu ei arweinwyr ac unigolion**

Proses	Sut y cyflawnir hyn:	Pa mor dda rydym yn symud ymlaen/A ydym wedi symud ymlaen a sut rydym yn gwybod hynny:	Blaenoriaethau/Heriau ar gyfer 2026/27
Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd	Pwyllgor statudol yw hwn ac iddo gylch gwaith sy'n cynnwys hybu a chefnogi llywodraethu da. Mae agwedd bwysig ar y nod hwnnw'n cael ei sicrhau drwy ddarparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu rhesymol i'r Aelodau a thrwy benodi Cadeirydd y Pwyllgor yn Hyrwyddwr Datblygu'r Aelodau.	Nid oedd y Pwyllgor wedi ystyried unrhyw adroddiadau statudol yn ystod y flwyddyn. Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn gyfyngedig gan fod gan yr Awdurdod Weithgor Adolygu'r Cyfansoddiad trawsbleidiol hefyd sy'n ystyried argymhellion mewn perthynas â newidiadau cyfansoddiadol. Bydd rhai newidiadau i'r cyfansoddiad a argymhellwyd gan Weithgor Adolygu'r Cyfansoddiad i'r Cyngor yn cael eu hystyried yn y cyfarfod blyneddol ym mis Mai 2026 ac os cytunir arnynt byddant yn cael eu mabwysiadu yn dilyn hynny. Mae modiwlau Sefydlu penodol i aelodau yn ogystal â chatalog llawn o ddysgu, sy'n cynnwys modiwlau CLILC a ddyluniwyd yn benodol ar gyfer aelodau etholedig cynghorau yn awdurdodau lleol Cymru, ar gael ochr yn ochr â sesiynau dysgu wedi'u recordio a gyflwynwyd ers 2022 fel rhan o'r cynlluniau datblygu aelodau blyneddol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor. Mae aelodau lleig y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hefyd yn cael eu cefnogi drwy drefniadau hyfforddi'r Awdurdod ac mae'n ofynnol iddynt gwblhau modiwlau dysgu perthnasol drwy'r platfform dysgu i'w cefnogi i gyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol.	1. Sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau i ddarparu hyfforddiant a datblygiad digonol i'w aelodau. 2. Ystyried unrhyw adroddiadau statudol ac adroddiadau gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ar ba mor ddigonol yw'r ddarpariaeth gan yr awdurdod o ran staff, adeiladau ac adnoddau eraill i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd. 3. Gweithredu'r newidiadau i'r cyfansoddiad a gynigiwyd gan Weithgor Adolygu'r Cyfansoddiad, yn dibynnu ar gymeradwyaeth y Cyngor ym mis Mai 2026.

Proses	Sut y cyflawnir hyn:	Pa mor dda rydym yn symud ymlaen/A ydym wedi symud ymlaen a sut rydym yn gwybod hynny:	Blaenoriaethau/Heriau ar gyfer 2026/27
Rheoli ein gweithlu	Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gweithlu effeithiol, sy'n cael ei arwain a'i gefnogi'n dda, yn hanfodol i ddarparu gwasanaethau, cyflawni amcanion strategol a chynnal trefniadau llywodraethu cadarn. Mae Strategaeth Gweithlu y Cyngor yn sail i gyflawni'r Strategaeth Gorfforaethol, y Rhaglen Drawsnewid a Gweledigaeth y Cabinet. Caiff hyn ei ategu gan gynllun cyflawni aml-flwyddyn a chyfres o fesurau i asesu effeithiolrwydd a chapasiti sefydliadol. Mae trefniadau o ran y gweithlu ac olyniaeth yn rhoi dulliau i reolwyr gynllunio ar gyfer sgiliau, capasiti a gofynion gwasanaethau yn y dyfodol ac maent wedi'u hymgorffori fwyfwy yn y cylch cynllunio busnes. Cefnogir dysgu a datblygu drwy Bolisi Dysgu a Datblygu a System Rheoli Dysgu y Cyngor, gan sicrhau mynediad teg a thryloyw at gyfleoedd datblygu. Mae cyfres gynhwysfawr o bolisiâu Adnoddau Dynol yn cefnogi recriwtio, rheoli perfformiad, tâl, presenoldeb, cysylltiadau â gweithwyr a gweithio hyblyg.	Ymgysylltu â staff a dealltwriaeth - Mae'r Cyngor yn cynnal Arolwg Ymgysylltu â Staff bob blwyddyn, sy'n rhoi sicrwydd ynghylch lefelau ymgysylltu ac yn nodi meysydd blaenoriaeth i'w gwella. Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos bod staff yn falch o weithio i'r Cyngor ac yn rhoi dealltwriaeth werthfawr ynghylch cryfderau ac anghenion datblygu y sefydliad. Defnyddio adborth i ysgogi gwelliant – Mae canfyddiadau'r Arolwg Ymgysylltu â Staff yn cael eu defnyddio i lywio gwaith gwella. Yn ystod 2025/26, comisiynodd y Fforwm Penaethiaid Gwasanaeth brosiectau penodol mewn ymateb i adborth staff, gan gynnwys gwaith i wella cyfathrebu mewnol a rhannu gwybodaeth a datblygu fframwaith cydnabyddiaeth gorfforaethol mwy cyson, i gefnogi ymgysylltu, cymhelliant a diwylliant sefydliadol. Mae cynllunio'r gweithlu yn cael ei wneud ar lefel gwasanaeth, adran, is-adrannau a chorfforaethol i nodi risgiau gweithlu, gofynion capasiti yn y dyfodol a blaenoriaethau gweithlu, gan sicrhau bod ystyriaethau gweithlu wedi'u hintegreiddio gyda chynllunio busnes, cynllunio ariannol a newid sefydliadol.	Ymgysylltu a chyfathrebu â staff – Cyflawni prosiectau a gomisiynwyd gan y Fforwm Penaethiaid Gwasanaeth sy'n deillio o'r Arolwg Ymgysylltu â Staff, gan gynnwys gwelliannau i gyfathrebu mewnol a datblygu fframwaith cydnabyddiaeth cyson. Cynllunio'r gweithlu – Cryfhau cynllunio olyniaeth a'r gweithlu ymhellach i adlewyrchu risgiau sy'n dod i'r amlwg, pwysau ar wasanaethau, gweithgarwch trawsnewid a gofynion o ran sgiliau yn y tymor hir. Data am y gweithlu – Parhau i ddatblygu dangosfyrddau o ran y gweithlu i wella'r defnydd o wybodaeth reoli at ddibenion gwneud penderfyniadau, sicrwydd a llywodraethu. Presenoldeb a llesiant – Cadw ffocws parhaus ar wella presenoldeb, yn enwedig absenoldeb salwch tymor byr, ochr yn ochr â buddsoddiad parhaus mewn cymorth llesiant a chapasiti rheoli.

Proses	Sut y cyflawnir hyn:	Pa mor dda rydym yn symud ymlaen/A ydym wedi symud ymlaen a sut rydym yn gwybod hynny:	Blaenoriaethau/Heriau ar gyfer 2026/27
	Mae gwasanaethau lechyd Galwedigaethol ac lechyd a Diogelwch yn cefnogi llesiant y gweithlu, presenoldeb ac arferion gwaith diogel, gan gyfrannu at wydnwch sefydliadol. Mae diogelu mewn cyflogaeth yn parhau i fod yn flaenoriaeth, ac mae polisïau recriwtio a chyflogaeth cadarn ar waith i gefnogi gweithio diogel. Mae gwaith gwella a newid sy'n gysylltiedig â'r gweithlu yn cael ei oruchwyllo drwy drefniadau llywodraethu corfforaethol a thrawsnewid sefydledig, gan sicrhau bod goblygiadau o ran y gweithlu yn cael eu hystyried yn gynnar. Ein nod yw cydnabod a dathlu llwyddiant ar draws y Cyngor – rydym wedi cynnal dau ddigwyddiad cydnabyddiaeth oedd yn cynnwys dysgwr y flwyddyn yn ogystal â hyrwyddwyr iechyd a llesiant.	Data am y gweithlu a monitro – Mae dangosyddion ynghylch y gweithlu, gan gynnwys absenoldeb salwch, trosiant a phwysau capasiti, yn cael eu monitro'n rheolaidd drwy drefniadau Craffu, y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Cabinet. Mae gan reolwyr fynediad at ddata presenoldeb amser real. Mae angen i reolwyr roi sylw penodol i absenoldeb salwch tymor byr o hyd. Daeth adolygiad Archwilio Cymru o ran heriau recriwtio a chadw staff i'r casgliad bod y Cyngor yn gyffredinol yn deall ei heriau recriwtio a chadw staff a'i fod yn cymryd ystod o gamau i fynd i'r afael â nhw, gan gynnwys datblygu'r gweithlu, cynllunio olyniaeth, prentisiaethau a datblygu arweinyddiaeth. Nododd yr adolygiad gyfleoedd i gryfhau dealltwriaeth y Cyngor o heriau'r gweithlu yn y dyfodol, datblygu deallusrwydd y gweithlu ymhellach a dangosfyrddau o ran y gweithlu, cynyddu dysgu y sefydliad yn dilyn gweithgarwch recriwtio a chadw, a chryfhau trefniadau ar gyfer asesu gwerth am arian. Adroddiad Blynnyddol Llesiant Gweithwyr - Adroddiad monitro i'r Tîm Rheoli Corfforaethol. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg cynhwysfawr o weithgareddau ar gyfer y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r	

Proses	Sut y cyflawnir hyn:	Pa mor dda rydym yn symud ymlaen/A ydym wedi symud ymlaen a sut rydym yn gwybod hynny:	Blaenoriaethau/Heriau ar gyfer 2026/27
		Awdurdod, gan gynnwys adroddiadau manwl ar ddamweiniau a damweiniau a fu bron â digwydd, metrigau perfformiad lechyd a Diogelwch statudol, a'r amrywiaeth o wasanaethau cymorth a ddarperir gan y swyddogaeth Llesiant Gweithwyr, a hynny i gyd yng nghyswllt ein fframwaith lechyd, Diogelwch a Llesiant. Goruchwyllo trawsnewid – Mae adroddiadau diweddar rheolaidd drwy drefniadau presennol o ran trawsnewid a llywodraethu'r gweithlu yn darparu sicrwydd ynghylch cyflawni prosiectau sy'n gysylltiedig â'r gweithlu.	
Y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion	Mae'r Cynllun Dirprwyo yn rhestru'r amrywiaeth o benderfyniadau a ddirprwyir i swyddogion, boed hynny gan y Cyngor neu gan y Cabinet. Wrth arfer y pwerau a ddirprwyir iddynt, rhaid i'r swyddogion gydymffurfio â'r gofynion statudol a Fframwaith Polisi a Chyllideb y Cyngor, ymysg gofynion eraill. Rhaid i unrhyw benderfyniadau arwyddocaol gael eu cofnodi a gallant gael eu 'galw i mewn'. Mae penderfyniadau gweithredol arwyddocaol gan swyddogion yn cael eu cyhoeddi.	- Bydd pob Adran yn cadw ei chofnodion ei hun o benderfyniadau dirprwyedig a wnaed gan swyddogion. Cyhoeddir y penderfyniadau mwy arwyddocaol ac maent ar gael i'w galw i mewn cyn y gellir eu gweithredu.	Mae'r Cynllun Dirprwyo wedi'i ymgorffori yn y Cyfansoddiad. Bydd cynllun dirprwyo wedi'i ddiweddarau yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo yn y cyfarfod blynyddol ym mis Mai 2026.

F - Rheoli Risgiau, Perfformiad a Chyllid

Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheoli cadarn ar gyllid cyhoeddus.

Proses	Sut y cyflawnir hyn:	Pa mor dda rydym yn symud ymlaen/A ydym wedi symud ymlaen a sut rydym yn gwybod hynny:	Blaenoriaethau/Heriau ar gyfer 2026/27
Rheoli Risg	Yn ystod 2025/26, parhaodd y Cyngor i gryfhau ei drefniadau rheoli risg drwy gyfuniad o fframweithiau llywodraethu gwell, goruchwyliaeth gorfforaethol gliriach a gwell capasiti sefydliadol. Roedd y gwaith ymgysylltu blaenorol â'r Cabinet, y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Penaethiaid Gwasanaeth wedi helpu i ddatblygu a mabwysiadu Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg Corfforaethol yn ffurfiol, gan ddarparu pwynt cyfeirio corfforaethol cliriach ar gyfer ystyried goddefiant risg, disgwyliadau uwchgyfeirio a'r risg y mae'n agored iddi o safbwynt strategol. Adnewyddodd y Cyngor ei Strategaeth Rheoli Risg, ei dempledi risg a'i brosesau adolygu i hyrwyddo gwell cysondeb wrth nodi a sgorio risg ac adrodd arni, ac i gryfhau amcanion strategol o ran cysylltiad. Cefnogwyd swyddogion drwy hyfforddiant rheoli risg wedi'i dargedu ochr yn ochr â chyfranogiad swyddogion mewn gweithgareddau datblygu Cymru gyfan a gydlynwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.	- Yn dilyn adolygiad annibynnol o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, gwnaed argymhellion ar gyfer gwella a symud ymlaen. Roedd yr adolygiad hwn yn hanfodol wrth nodi bylchau ac mae wedi arwain at welliannau a newidiadau sylweddol i'r Strategaeth Rheoli Risg sydd eisoes wedi'i hadolygu, ei diweddaru a'i chymeradwyo gan y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae arweinyddiaeth y Cyngor yn pwysleisio dull rhagweithiol o reoli risg – mae uwch-reolwyr yn trafod y gofrestr risg gorfforaethol yn aml ac mae aelodau wedi cael eu hyfforddi mewn goruchwyllo risg. Mae rheoli risg wedi'i sefydlu'n gyffredinol mewn trefniadau llywodraethu (e.e. mae adroddiadau perfformiad integredig chwarterol yn cynnwys gwybodaeth am risg, ac mae parodrwydd i dderbyn risg wedi'i ddiffinio).	Roedd adolygiad 2024-25 Archwilio Cymru ynghylch Rheoli Risg Corfforaethol wedi nodi nifer o feysydd lle gellid cryfhau trefniadau rheoli risg y Cyngor ymhellach. Daeth yr adolygiad i'r casgliad nad oedd rhai argymhellion a oedd yn deillio o adolygiadau blaenorol wedi'u hymgorffori'n llawn eto ac amlygodd gyfleoedd i wella cysondeb ac aeddfedrwydd arferion rheoli risg ar draws y sefydliad. Mae'r canfyddiadau wedi llywio rhaglen wella barhaus y Cyngor a'r camau gweithredu a nodir isod. - Sefydlu a chryfhau trefniadau rheoli risg ymhellach drwy ddefnyddio'r Parodrwydd i Dderbyn Risg Corfforaethol yn fwy cyson wrth wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau, a gwella'r aliniad rhwng risgiau strategol, gweithredol, ariannol a pherfformiad. - Parhau i ddatblygu'r gwaith sganio gorwelion i helpu i nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg yn gynnar a llywio cynllunio.

Proses	Sut y cyflawnir hyn:	Pa mor dda rydym yn symud ymlaen/A ydym wedi symud ymlaen a sut rydym yn gwybod hynny:	Blaenoriaethau/Heriau ar gyfer 2026/27
	Nod yr Awdurdod yw sicrhau bod rheolaeth dda ar risg yn dod yn rhan annatod o'i holl brosesau. Mae adran benodol yn Adroddiadau'r Pwyllgorau ar gyfer trafod ac egluro unrhyw oblygiadau o safbwynt Rheoli Risg. Caiff Risgiau Corfforaethol, Gwasanaethau a Phrosiectau eu cofnodi ar Gofrestr Risg. Rydym yn defnyddio "Meddalwedd ar y we ar gyfer Cofrestru Risgiau". Mae gan bob Adran fynediad mewnbynnu uniongyrchol. Adroddir ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bob chwe mis, yn dilyn adolygiad chwarterol ac asesiad beirniadol o'r risgiau gan y Tîm Rheoli Corfforaethol (TRhC).	Diweddaru dogfennau risg – Strategaeth Rheoli Risg newydd 2025–2029 (gydag adran ychwanegol ar sganio gorwelion) a diffiniadau risg cliriach fel bod pob cofnod risg yn nodi'r achos a'r effaith bosibl. Nodi risgiau yn well - cynnal gweithdy sganio gorwelion ar gyfer y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Penaethiaid Gwasanaeth (i nodi risg hirdymor sy'n dod i'r amlwg yn systematig) Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cael ei chynnwys ar agenda Tîm Rheoli pob Cyfarwyddiaeth ddwywaith y flwyddyn. Yn ystod y cyfarfodydd hyn, mae Swyddogion Risg yn bresennol i drafod risgiau perthnasol y Gyfarwyddiaeth yn fanwl, gan ddarparu heriau ar gynnwys, sgoriau, diffiniadau, ac agweddau perthnasol eraill. Cynhelir cyfarfodydd misol rheolaidd gyda gweinyddwyr rheoli risg adrannol i drafod dulliau newydd a materion sy'n dod i'r amlwg. Cafodd y ffurflen risg newydd ei threialu gan yr unigolion hyn ac mae bellach yn cael ei rhoi ar waith ar gyfer cofnodi risg ym mhob adran.	- Gwella asesu risg drwy fwy o ddefnydd o ddata a thystiolaeth, mireinio trefniadau uwchgyfeirio ac adrodd, a sicrhau eglurder o ran perchnogaeth risg. - Cryfhau'r gwaith cynllunio gweithredu ac adrodd mewn perthynas â risg i gefnogi gwneud penderfyniadau gwybodus, cynnal goruchwyliaeth effeithiol o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, a pharhau i ddatblygu gallu sefydliadol drwy hyfforddiant ac ymwybyddiaeth wedi'u targedu. - Cyflwyno gweithdy Rheoli Risg a Sganio Gorwelion ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gefnogi gwaith craffu effeithiol a goruchwyllo trefniadau rheoli risg y Cyngor ymhellach.

Proses	Sut y cyflawnir hyn:	Pa mor dda rydym yn symud ymlaen/A ydym wedi symud ymlaen a sut rydym yn gwybod hynny:	Blaenoriaethau/Heriau ar gyfer 2026/27
Y Grŵp Llywio Rheoli Risg	Mae Grŵp Llywio Rheoli Risg Sir Gaerfyrddin yn chwarae rôl lywodraethu ganolog ym mhrosesau risg y Cyngor. Mae'n gweithredu fel fforwm trawsadrannol (cwrdd bob chwarter) ag aelodaeth eang – gan gynnwys Hyrwyddwr Risg dynodedig y Cabinet, uwch-reolwyr (fel "hyrwyddwyr risg" adrannol), swyddogion allweddol (e.e. lechyd a Diogelwch, arweinwyr Eiddo), ac ymgynghorydd risg allanol (brocer yswiriant y Cyngor). Mandad y Grŵp Llywio Rheoli Risg, a nodir yn ei Gylch Gwaith, yw goruchwylio rheoli risg strategol: mae'n adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol bob chwarter (mae'r gofrestr yn eitem sefydlog ar yr agenda), yn monitro effeithiolrwydd rheolaethau risg, ac yn sicrhau bod risgiau sylweddol neu risgiau sy'n dod i'r amlwg yn cael eu huwchgysfeirio i'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'u hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae'r Grŵp hefyd yn cydlynu tri gweithgor arbenigol - ar Risgiau Trafnidiaeth, Risgiau Eiddo ac Atebolrwydd, a Chynlluniau Wrth Gefn - sy'n mynd i'r afael â materion risg gweithredol ac yn cyfrannu i'r Grŵp Llywio Rheoli Risg. Yn ogystal, mae'r Grŵp Llywio Rheoli Risg yn gweinyddu Cronfa Rheoli Risg bwrpasol (~£250k) i fuddsoddi mewn mentrau lliniaru risg, gan alinio gwariant â'r Strategaeth Rheoli Risg a blaenoriaethau cyllidebol. Drwy hyfforddiant ac arweiniad, mae'r Grŵp	- Mae Cylch Gwaith y Grŵp Llywio Rheoli Risg a'i is-grwpiau amrywiol wedi'i adolygu a'i weithredu. Mae hyn yn caniatáu i'r Grŵp Strategol fabwysiadu dull mwy strategol o ystyried materion rheoli risg, megis cynnal adolygiadau rheolaidd o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol. - Mae parhad busnes wedi'i nodi fel maes i'w fonitro drwy'r Gofrestr Risg Gorfforaethol. Mae templedi Parhad Busnes wedi'u diwygio a'u hadolygu gan y Grŵp Cynlluniau Wrth Gefn. Mae cyfarfodydd chwarterol rheolaidd y Grŵp wedi'u cynnal, wedi'u cefnogi gan ei is-grwpiau, ac mae wedi bod yn effeithiol wrth ddiweddarau a herio'r Gofrestr Risg Gorfforaethol (e.e. ychwanegu risgiau newydd fel trais yn erbyn staff, uno neu ddileu risgiau sydd wedi'u datrys fel RAAC mewn adeiladau). Mae mentrau'r Grŵp Llywio Rheoli Risg yn dangos effaith wirioneddol: er enghraifft, defnyddiodd ei gronfa rheoli risg i weithredu mesurau lliniaru wedi'u targedu yn 2025/26, a arweiniodd at lai o hawliadau yswiriant a sefyllfa hunanyswiriant gryfach (a gadarnhawyd gan frocer y Cyngor, sef Marsh). Bu'r Grŵp hefyd yn cefnogi gwelliannau fel hyfforddiant gyrrwyr canolog (i leihau risg y fflyd) a chynllunio parhad	1. Gellid cryfhau rôl y Grŵp Llywio o ran dyrannu'r £250k o gyllid rheoli risg drwy gyflwyno meini prawf cliriach ar gyfer sut y caiff y cyllid hwn ei flaenoriaethu a'i wario'n flynyddol. 2. Gwella cynlluniau parhad busnes: Mae efelychiadau digwyddiadau seiber wedi'u cynnal ar y cyd rhwng TG a Risg i brofi ac adnewyddu Cynlluniau Parhad Busnes adrannol. Er bod hyn yn parhau i fod yn weithgaredd gwella parhaus, bydd y cam nesaf yn canolbwyntio ar sefydlu gwersi a ddysgwyd o'r ymarferion hyn mewn templedi Cynlluniau Parhad Busnes wedi'u diweddarau, sicrhau cysondeb ar draws adrannau, a rhoi rhaglen dreigl ar waith ar gyfer profi ac adolygu gan gymheiriaid yn seiliedig ar senarios.

Proses	Sut y cyflawnir hyn:	Pa mor dda rydym yn symud ymlaen/A ydym wedi symud ymlaen a sut rydym yn gwybod hynny:	Blaenoriaethau/Heriau ar gyfer 2026/27
	Llywio Rheoli Risg yn hyrwyddo diwylliant sy'n ymwybodol o risg ar draws pob adran ac yn sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o gynllunio gwasanaethau a gwneud penderfyniadau (mae gan bob adran hyrwyddwr risg sy'n cysylltu â'r Grŵp Llywio Rheoli Risg). Yn gyffredinol, y strwythurau a'r prosesau hyn yw'r modd y mae'r Grŵp Llywio Rheoli Risg yn cyflawni ei amcanion o ran integreiddio a chryfhau rheoli risg ledled y Cyngor. Mae'r Grŵp Llywio Rheoli Risg yn archwilio'r modd y gellir datblygu Rheoli Risg ac yn helpu i sicrhau bod Rheoli Risg yn rhan annatod o holl benderfyniadau'r sefydliad. Mae'r Grŵp yn cwrdd bob tri mis ac yn cael ei gefnogi gan waith ei Is-grwpiau h.y. Risgiau Eiddo a Rhwymedigaeth, Risgiau'r Fflyd Cerbydau a Chynlluniau Wrth Gefn. Mae Grŵp Llywio Rheoli Risg yr Awdurdod yn adrodd ar ei weithgarwch i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae'r grŵp yn cynnwys yr Hyrwyddwr Risg sy'n Aelod Cabinet a Hyrwyddwyr Risg Adrannol, a Phennaeth Gwasanaeth yw'r cadeirydd.	busnes symlach. Mae ymarferion ar y cyd wedi'u cynnal rhwng y timau TG a Risg i efelychu digwyddiadau seiber, gan roi cyfle i adrannau brofi ac adnewyddu eu Cynlluniau Parhad Busnes o dan amodau realistig. Mae'r templedi hyn bellach wedi'u cyhoeddi drwy'r Hyrwyddwyr Risg i'w defnyddio gan bob gwasanaeth. Mae systemau TG yn rhan fwy helaeth o'r asesiad a chynigiwyd cymorth TG i unrhyw wasanaeth sy'n dymuno defnyddio ei sgiliau a'i wybodaeth i gwblhau ei gynlluniau parhad busnes.	

Proses	Sut y cyflawnir hyn:	Pa mor dda rydym yn symud ymlaen/A ydym wedi symud ymlaen a sut rydym yn gwybod hynny:	Blaenoriaethau/Heriau ar gyfer 2026/27
Pwyllgorau Craffu	Mae gan yr Awdurdod bum Pwyllgor Craffu. Mae'r Swyddogaeth Graffu yn chwarae rhan werthfawr o ran sicrhau gwell perfformiad a herio. Mae'n amlwg fod y rôl Graffu o ran y "Grwpiau Gorchwyl a Gorffen" wedi cael dylanwad cadarnhaol ar ddatblygu polisïau. Mae gan yr Awdurdod system ddatblygedig iawn o reoli perfformiad. Mae'r Pwyllgorau Craffu'n cael adroddiadau chwarterol ac Adroddiad Blyneddol am berfformiad, sy'n cynnwys diweddariad am yr holl Ddangosyddion Perfformiad a'r Camau Gweithredu Allweddol sydd yn y Strategaeth Gorfforaethol. O dan gyfansoddiad y Cyngor, mae gan unrhyw 3 Aelod o'r Cyngor y grym i 'alw i mewn' unrhyw benderfyniadau gweithredol mewn perthynas â'u cyfrifoldebau swyddogaethol eu hunain, boed gan y Cabinet cyfan neu gan aelodau unigol o'r Cabinet yn eu meysydd portffolio eu hunain. Yn unol â'r fformiwla a nodir ym Mesur Llywodraeth Leol 2011, Aelodau o'r Wrthblaid yw Cadeiryddion dau o bum Pwyllgor Craffu yr Awdurdod.	- Gwahoddir Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Fforwm Craffu i gyfarfod bob chwarter i drafod a chynnig gwelliannau i'r swyddogaeth graffu i'w hystyried gan Weithgor Adolygu Cyfansoddiad yr Awdurdod; cynnig eitemau i'w trafod mewn cyfarfodydd gyda'r Cabinet ddwywaith y flwyddyn; a gweithredu fel fforwm ar gyfer rhannu arferion da craffu. Yn ystod 2025-26 nid oedd unrhyw feysydd pwnc wedi dod i law felly canslwyd y cyfarfodydd a drefnwyd.	Thema gyffredin ar draws yr holl awdurdodau lleol yw'r her i gynyddu cyfranogiad y cyhoedd mewn Craffu. Byddwn yn parhau i hyrwyddo Craffu trwy ei Gynllun Cyfathrebu. Cytunwyd y byddai aelodau yn hyrwyddo Craffu eu hunain ymhellach fel rhan o weithdai hunanasesu. Mae cyfranogiad aelodau mewn pwyllgorau craffu yn cael ei fonitro ac mae dull rhagweithiol gan swyddogion i annog cyfranogiad yn cael ei roi ar waith.

Proses	Sut y cyflawnir hyn:	Pa mor dda rydym yn symud ymlaen/A ydym wedi symud ymlaen a sut rydym yn gwybod hynny:	Blaenoriaethau/Heriau ar gyfer 2026/27
Gweinyddwr Ariannol (Swyddog a.151)	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yw'r swyddog sy'n gyfrifol am weinyddu busnes yr Awdurdod o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac mae'n gyffredinol gyfrifol am weinyddiaeth ariannol y Cyngor Sir. Mae CIPFA wedi cyhoeddi adroddiad manwl ar rôl swyddogion A151 mewn Llywodraeth Leol – CIPFA S151. Mae Is-adran y Gwasanaethau Ariannol yn rhoi cymorth i Adrannau ac yn cydgysylltu a chefnogi'r broses ar gyfer paratoi'r gyllideb a monitro ariannol. Yn ei waith, mae'r Awdurdod yn dilyn cyfres benodol o Reolau Gweithdrefnau Ariannol a Rheolau Gweithdrefnau Contractau sy'n cael eu cynnal gan Adran y Gwasanaethau Corfforaethol. Bydd unrhyw newidiadau'n cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.	Barn gyffredinol Archwilio Mewnol a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2023 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: mae'r Awdurdod yn gweithredu amgylchedd rheoli DERBYNIOL. Caiff Rheolau Gweithdrefnau Ariannol a Rheolau Caffael Corfforaethol eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd pan fo'n briodol. Aeth Rheolau Gweithdrefnau Ariannol y Cyngor gerbron y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Gorffennaf 2022 a chafodd Rheolau Gweithdrefnau Ariannol Ysgolion eu cymeradwyo yn dilyn hynny ym mis Gorffennaf 2025. Aeth y Rheolau Caffael Corfforaethol gerbron y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Medi 2023. Ym mis Medi 2025 cyhoeddodd Archwilio Cymru adroddiad archwilio diamod mewn perthynas â'n Datganiad Cyfrifon 2024/25. Yn ystod y flwyddyn, parhaodd Sir Gaerfyrddin i ddarparu'r Swyddog A151 yn ogystal â swyddogaethau cymorth ariannol i Ddinas-ranbarth Bae Abertawe, Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru a Phartneriaeth Pensiwn Cymru, gan gynnwys creu Cwmni Rheoli Buddsoddiadau Partneriaeth Pensiwn Cymru.	1. Er bod yr Awdurdod Lleol wedi gallu cyflawni ein nod ein hunain o gwblhau'r cyfrifon drafft erbyn diwedd mis Mehefin, a chwblhau'r archwiliad erbyn diwedd mis Medi, roedd hyn yn heriol. Mae'n ofynnol erbyn hyn (o dan ganllawiau a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru) baratoi cyfrifon drafft a chymeradwyo cyfrifon wedi'u harchwilio erbyn 30 Mehefin a 30 Medi, yn y drefn honno. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni erbyn y terfynau amser hyn – mae hyn yn cynnwys y prisiad pen desg ar gyfer y rhan fwyaf o asedau eiddo. Yn benodol, mae angen i'r gwaith o baratoi cyfrifon 2025/26 adlewyrchu gwelliannau mewn perthynas â data cyfrifyddu prydles yn ogystal â gofynion mynegeo eiddo newydd. 2. Mae'r sgoriau o'n harolwg preswylwyr yn awgrymu bod angen gwneud mwy o waith i ymgysylltu â phreswylwyr i ddeall sut y mae'r cyngor yn defnyddio adnoddau ariannol, ac i ofyn am eu barn ynghylch beth neu sut y gallem wneud yn well. 3. Cynllunio Ariannol Tymor Canolig - angen gwneud gwaith pellach ar alinio â'r Strategaeth Drawsnewid, Risgiau Corfforaethol a'r Strategaeth Gorfforaethol.

Proses	Sut y cyflawnir hyn:	Pa mor dda rydym yn symud ymlaen/A ydym wedi symud ymlaen a sut rydym yn gwybod hynny:	Blaenoriaethau/Heriau ar gyfer 2026/27
Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed	Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r Awdurdod Gweinyddu a benodwyd yn statudol ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed. Mae Pwyllgor y Gronfa Bensiwn yn cynnwys tri Aelod o'r Cyngor Sir ynghyd â dirprwy sydd wedi'i enwebu i wasanaethu yn absenoldeb Aelod. Mae'r cyfrifoldebau canlynol gan Bwyllgor y Gronfa Bensiwn: Adolygu perfformiad Cronfa Bensiwn Dyfed, penderfynu ar gyfeiriad strategol pob mater sy'n ymwneud â buddsoddi'r Gronfa a monitro pob agwedd ar y swyddogaeth fuddsoddi a phenderfynu ar faterion y Gronfa Bensiwn fel yr Awdurdod Gweinyddu.	- Bu lefelau uchel parhaus o ymgysylltu yn ymwneud â newid yn yr hinsawdd yn ogystal â materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu eraill gan gynnwys Israel/Palesteina, y mae'r gronfa wedi parhau i ymgysylltu â hyn gyda sefydliadau amrywiol. Mae'r gronfa wedi cydnabod risg sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn ei pherfformiad buddsoddi ac wedi sefydlu polisi buddsoddi cyfrifol. Mae cydweithio rhwng 8 cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Cymru yn ystod y flwyddyn wedi llwyddo i fodloni'r amserlenni a'r gofynion deddfwriaethol a osodwyd gan y newidiadau pensiwn "addas ar gyfer y dyfodol".	Pasiwyd y Ddeddfwriaeth derfynol gan San Steffan ym mis Ebrill 2026. Y blaenoriaethau ar gyfer 2026/27 fydd: Goruchwyllo a chefnogi gweithrediadau'r cwmni Rheoli Buddsoddiadau sydd newydd ei ffurfio. Gwneud y newidiadau angenrheidiol i drefniadau llywodraethu yn unol â staffio a goruchwyliaeth Cronfa Bensiwn Dyfed sy'n ofynnol gan deddfwriaeth.
Y Fargen Ddinesig	Ar 29 Awst 2018 llofnododd Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Sir Penfro a Chyngor Dinas a Sir Abertawe Gytundeb i Sefydlu Cyd-bwyllgor ar gyfer Dinas-ranbarth Bae Abertawe. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Cyd-bwyllgor ar 30 Awst 2018. Sir Gaerfyrddin yw'r Corff Atebol ar gyfer swyddogaeth y Fargen Ddinesig.	Derbyniodd Portffolio Bargaen Ddinesig Bae Abertawe sgôr Asesiad Hyder Cyflawni (DCA) Ambr-Gwyrdd, sef y drydedd sgôr Ambr-Gwyrdd yn olynol, sy'n dynodi bod y Portffolio mewn cyflwr da a'r arwyddion yw ei bod yn ymddangos yn debygol y caiff ei gyflawni'n llwyddiannus. Mae Portffolio Bargaen Ddinesig Bae Abertawe yn parhau i wneud cynnydd o dan arweinyddiaeth Uwch-swyddog Cyfrifol a Chyfarwyddwr Portffolio cryf. Mae'r Portffolio yn parhau i ymarfer disgyblaethau da ac yn gweithio'n dda gyda'r uwch-swyddogion cyfrifol unigol ar draws y partneriaid lluosog mewn ymgais i fanteisio	Roedd Bwrdd Gweithredu Bargeinion Dinesig a Thwf Cymru yn canmol yn fawr y cynnydd y mae Bargaen Ddinesig Bae Abertawe wedi'i wneud ac yn cydnabod bod y Portffolio yn cael ei gyflawni'n llawn, yn cael ei reoli'n dda ac yn gwneud cynnydd da. Bydd casgliadau'r adroddiadau a'r adolygiadau a nodir uchod yn cryfhau trefniadau llywodraethu a phroses fewnol ac yn cefnogi arferion gorau i sicrhau bod rhaglenni a phrosiectau'n cael eu rhoi ar waith yn llwyddiannus.

Proses	Sut y cyflawnir hyn:	Pa mor dda rydym yn symud ymlaen/A ydym wedi symud ymlaen a sut rydym yn gwybod hynny:	Blaenoriaethau/Heriau ar gyfer 2026/27
	Mae'r Cyd-bwyllgor yn cynnwys arweinwyr y pedwar Awdurdod rhanbarthol ac un aelod cyfetholedig heb bleidlais yr un o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Mae Cyd-bwyllgor Craffu wedi'i ffurfio hefyd, ac mae'r swyddogaeth graffu'n cael ei gweinyddu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Mae portffolio o naw rhaglen a phrosiect wedi'i gymeradwyo o dan Fargen Ddinesig Bae Abertawe, ac mae tri ohonynt yn cael eu cyflawni'n rhanbarthol.	ar y cyfleoedd y mae'r Fargen Ddinesig yn eu cynnig i'r rhanbarth. Mae angen cadw pob rhan o'r Portffolio yn strategol berthnasol wrth alluogi, cyfrannu at, neu gyflawni'n uniongyrchol y Canlyniadau a'r Buddion a fwriadwyd. Gwnaeth y Tîm Adolygu bedwar argymhelliad i Uwch-swyddog Cyfrifol y Portffolio i sicrhau bod modd rheoli a chyflawni'r portffolio yn effeithiol. Cyfathrebu ynghylch bwriad strategol, rheoli buddion, llywodraethu (o ran cysondeb â'r Cyd-bwyllgor Corfforedig) a sicrhau'r gwerth mwyaf posibl o ddibyniaethau a chyfleoedd, yn enwedig mewn perthynas â'r sector preifat. -Mae'r adroddiad archwilio mewnol wedi penderfynu ar gyfradd sicrwydd archwilio 'Sylweddol'; bach iawn, os o gwbl, yw'r gwendidau o ran digonolrwydd a/neu effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu, rheolaeth fewnol, rheoli risg a rheolaeth ariannol, a byddent naill ai'n annhebygol o ddigwydd neu byddai eu heffaith yn annhebygol o effeithio ar gyflawni amcanion Bargaen Ddinesig Bae Abertawe.	Gan fod y portffolio bellach wedi mynd gryn bellter tuag at gael ei gyflawni, ceir pwyslais ar wireddu buddion, y broses o reoli newid, rheoli risg a gwneud y mwyaf o effaith y Fargen Ddinesig ar draws y rhanbarth. Bydd argymhellion yn cael eu hadolygu a'u gweithredu o fewn gweithgareddau rheoli portffolio, llywodraethu a rheoli a'u monitro yn unol â threfniadau llywodraethu. Rydym wrthi'n cynnal adolygiad o strwythurau llywodraethu rhanbarthol yn y de-orllewin a'r ffordd orau o alinio strwythurau presennol rhwng y Fargen Ddinesig a'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Proses	Sut y cyflawnir hyn:	Pa mor dda rydym yn symud ymlaen/A ydym wedi symud ymlaen a sut rydym yn gwybod hynny:	Blaenoriaethau/Heriau ar gyfer 2026/27
Partneriaeth	Mae'r Cyd-bwyllgor rhwng Sir Gaerfyrddin, Abertawe a Sir Benfro – “Partneriaeth” – wedi'i sefydlu, ac fe drosglwyddwyd y staff perthnasol o'r rhagflaenydd ERW i Partneriaeth. Mae'r fframwaith hwn yn cyflawni rhai o'r amcanion oedd gynt yn cael eu cyflawni gan ERW, sef datblygiad proffesiynol ar gyfer gweithlu ysgolion a chynllunio a datblygu cwricwlwm newydd.	Rhoddodd y Cabinet ystyriaeth i adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i drosglwyddo o Gytundeb Cyfreithiol Partneriaeth i gytundeb cydweithio newydd ar gyfer gweithlu addysg rhanbarthol.	Parhau i roi'r trefniadau llywodraethu ar waith a adlewyrchir yn y Cytundeb Cydweithio a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 25.
Cyllid Ysgolion a Gwasanaethau Plant a Theuluoedd	<u>Ysgolion</u> Mae cyllid ysgolion yn cael ei lywodraethu gan y system Rheoli Ysgolion yn Lleol, sy'n dirprwyo cyfrifoldebau rheoli ariannol i ysgolion unigol. Mae cyllid ysgolion cyffredinol yn cael ei ddyrannu yn ôl y fformiwla ariannu teg. Mae cyllid ysgolion yn cael ei lywodraethu gan y system Rheoli Ysgolion yn Lleol, sy'n dirprwyo cyfrifoldebau rheoli ariannol i ysgolion unigol. Mae cyllid ysgolion cyffredinol yn cael ei ddyrannu yn ôl y fformiwla ariannu teg.	Yn ystod y flwyddyn, nododd proses monitro'r gyllideb orwariant sylweddol mewn ysgolion yn ogystal â gwasanaethau plant a theuluoedd yn ôl gwerth yn ogystal ag ar sail gyfrannol. Cafodd hyn ei fonitro trwy'r broses adrodd gorfforaethol, a rhoddwyd adroddiadau ychwanegol ar waith trwy'r tîm Rheoli Corfforaethol, y swyddogaeth Graffu. Cynhaliodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ddau weithdy pwrpasol yn canolbwyntio ar fesurau rheoli cyllidebol a'r hyn oedd yn gyfrifol am y meysydd lle bu gorwariant. Mae ysgolion sydd â'r gorwariant mwyaf yn ystod y flwyddyn wedi cael cymorth wedi'i dargedu. Mae cadeirydd y pwyllgor wedi ysgrifennu at yr Arweinydd a deilydd y Portffolio ar gyfer Adnoddau ynglŷn â sefyllfa ariannol ysgolion Sir Gaerfyrddin. Er bod y sefyllfa gorfforaethol gyffredinol wedi gwella ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd gorwariant sylweddol o hyd ar draws	Mewn perthynas â gorwariant cyllidebol, mae angen gwaith monitro agos parhaus trwy strwythurau llywodraethu presennol, ac mae angen cymorth ac ymyrraeth bellach i fynd i'r afael â materion cyllidebol strwythurol yn ogystal â gorwariant mewn meysydd unigol ac ysgolion. Os nad yw'r awdurdod yn gallu dod â gwariant o fewn lefel y gyllideb yn ystod y flwyddyn, efallai y bydd yn rhaid i'r Awdurdod ystyried dau gam lliniarol: Adolygiad o gronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi i fynd i'r afael â balansau negyddol ysgolion - mae hyn yn debygol o effeithio ar y cyllid sydd ar gael ar gyfer cynlluniau cyfalaf yn y dyfodol nad ydynt wedi'u hymrwymo iddynt yn contractiol eto.

Proses	Sut y cyflawnir hyn:	Pa mor dda rydym yn symud ymlaen/A ydym wedi symud ymlaen a sut rydym yn gwybod hynny:	Blaenoriaethau/Heriau ar gyfer 2026/27
		nifer o wahanol wasanaethau ac mewn ysgolion penodol. Roedd balansau cyfanredol ysgolion yn dangos diffyg o fwy na £9m ar 31 Mawrth 2025. Mae'r taflwybr hwn yn amlwg yn anghynaliadwy ac mae'n tynnu sylw at bwysigrwydd mynd i'r afael â'r materion sylfaenol ar frys er mwyn sicrhau system addysg ariannol hyfyw yn y dyfodol.	Cynyddu cyllidebau gwasanaethau rheolaidd i ysgolion a gwasanaethau plant yn unol â hynny, gan effeithio o ganlyniad ar lefelau'r dreth gyngor a/neu ostyngiadau mewn gwasanaethau mewn mannau eraill.
	<u>Gwasanaethau Plant a Theuluoedd</u> Mae cyllid gwasanaethau plant a theuluoedd yn cael eu llywodraethu gan brosesau corfforaethol ar gyfer pennu cyllideb a monitro cyllideb. Mae'n cael ei gydnabod fel maes gwasanaeth sy'n cael ei arwain i raddau helaeth gan y galw ac mae'n agored i amrywiadau. Mae gwerthusiad o'r pwysau ar wasanaethau yn cael ei gynnwys fel rhan o'r broses pennu cyllideb; mae prosesau monitro cyllideb yn cael eu cynnal gan reolwyr gwasanaeth, gyda chymorth cyllid. Mae hyn yn cynnwys dangosyddion perfformiad allweddol sy'n cael eu gyrru gan y galw, gan gynnwys, yn benodol, olrhain lleoliadau preswyl, sef y prif reswm dros y cynnydd mewn gwariant.	Mae'r Cyfarwyddwr Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel yn cadeirio bwrdd swyddogion gwasanaethau plant sy'n gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o weithredu cynllun gwella y cytunwyd arno. Mae llai o staff asiantaeth yn cael eu defnyddio mewn cartrefi preswyl yn ogystal â gweithwyr cymdeithasol asiantaeth, ac mae'r sefyllfa wedi'i sefydlogi. Mae gwariant ar blant sy'n ceisio lloches bellach yn cael ei reoli o fewn cyllid sydd ar gael gan y Swyddfa Gartref. Fodd bynnag, bu cynnydd pellach yn nifer y lleoliadau preswyl. Mae hyn oherwydd cyfuniad o gymhlethdod yr angen ac, mewn rhai achosion, y ffaith nad oes lleoliad maethu addas ar gael, gan olygu mai lleoliad preswyl yw'r unig opsiwn, o leiaf yn y tymor byr. Roedd proses pennu cyllideb 2026/27 yn ystyried y pwysau ar ysgolion ac ar wasanaethau plant – heb unrhyw ostyngiadau yn y gyllideb i ysgolion, £2m o	

Proses	Sut y cyflawnir hyn:	Pa mor dda rydym yn symud ymlaen/A ydym wedi symud ymlaen a sut rydym yn gwybod hynny:	Blaenoriaethau/Heriau ar gyfer 2026/27
		gyllid ychwanegol i gefnogi pwysau mewn lleoliadau preswyl i blant, yn ogystal â chyllid wrth gefn ychwanegol o £2m ar lefel gorfforaethol. Gorwariant 2025/26 ar wasanaethau plant oedd tua £4m, er gwaethaf cyllid ychwanegol o £10m ar gyfer pwysau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn bennaf oherwydd cynnydd sylweddol yn nifer y lleoliadau preswyl. Mae angen gweithredu i sefydlogi'r maes anghenion hwn gymaint â phosibl drwy ymyriadau ataliol wedi'u targedu.	

G – Tryloywder ac atebolrwydd da

Rhoi arferion da ar waith o ran tryloywder, adrodd, ac archwilio er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol.

Proses	Sut y cyflawnir hyn:	Pa mor dda rydym yn symud ymlaen/A ydym wedi symud ymlaen a sut rydym yn gwybod hynny:	Blaenoriaethau/Heriau ar gyfer 2026/27
Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Pwyllgor Safonau a Phwyllgor y Gwasanaethau Democraidd	Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn elfen allweddol o'r trefniadau Llywodraethu Corfforaethol. Mae'r Pwyllgor yn cwrdd drwy gydol y flwyddyn ac yn rhoi sicrwydd ynghylch y trefniadau sydd gan yr Awdurdod ar gyfer rheoli risg, cynnal amgylchedd rheoli effeithiol ac adrodd am berfformiad ariannol yn ogystal ag anariannol. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer pedwar Aelod Lleyg Allanol â Phleidlais sy'n darparu her a goruchwyliaeth annibynnol) hefyd gyfrifoldebau dirprwyedig dros gymeradwyo Datganiad Cyfrifon yr Awdurdod. Mae'r Pwyllgor Safonau (y mae llawer o'i aelodau yn lleygwyr) yn hybu safonau uchel o ymddygiad ar gyfer Aelodau yn ogystal â chadw golwg gyffredinol ar y prosesau sydd gan yr Awdurdod i ymdrin â chwynion a'i weithdrefn Datgelu Camarfer.	Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Adroddiad Blyneddol y Pwyllgor i'r Cyngor Llawn ar 10 Medi 2025, yn amlinellu gwaith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn, meysydd craffu a herio allweddol, a materion sy'n gofyn am sylw parhaus gan y rheolwyr. Yn ystod 2025/26, cadarnhawyd penodiadau ar gyfer dau aelod lleyg newydd i lenwi'r lleoedd gwag presennol yn y Pwyllgor a phenodwyd yr aelodau gan y Cyngor Llawn ar 28 Ionawr 2026. - Cynhaliodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sesiwn Hunanasesu ym mis Rhagfyr 2025. Cafodd cynllun gweithredu ei lunio a'i gytuno, ac mae'n cael ei roi ar waith ar hyn o bryd. Roedd un o'r camau y cytunwyd arnynt yn ymwneud â'r angen i gynnal asesiad o sgiliau aelodau'r Pwyllgor, i nodi unrhyw feysydd a allai elwa o hyfforddiant a datblygiad pellach. Bydd canlyniadau'r asesiad hwn, sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd, yn cyfrannu at gynllun hyfforddiant y Pwyllgor.	1. Dylai'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sicrhau bod yr holl gamau gweithredu yn y cynllun gweithredu hunanasesu yn cael eu symud ymlaen a'u gweithredu, yn ôl yr angen. 2. Datblygu Cynllun Hyfforddi a Datblygu a chytuno arno, yn dilyn dadansoddiad o'r asesiad o sgiliau a gwblhawyd.

Proses	Sut y cyflawnir hyn:	Pa mor dda rydym yn symud ymlaen/A ydym wedi symud ymlaen a sut rydym yn gwybod hynny:	Blaenoriaethau/Heriau ar gyfer 2026/27
	Hefyd mae gan yr Awdurdod Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd (5 Aelod Etholedig) a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd penodedig statudol. Mae cylch gwaith y Pwyllgor, fel gosodwyd gan yr Awdurdod, yn cynnwys sicrhau bod cyfleoedd hyfforddi a datblygu rhesymol i'r Aelodau, penodi Hyrwyddwr Datblygu'r Aelodau, a hybu a chefnogi llywodraethu da.	Cynhaliwyd gweithdy/sesiwn hyfforddi yn ystod mis Rhagfyr 2025 ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang newydd yn Sector Cyhoeddus y DU. Daeth y safonau newydd i rym ar 1 Ebrill 2025; o ganlyniad, mae'r Siarter Archwilio Mewnol wedi'i diweddarau i adlewyrchu'r newidiadau, ac mae Strategaeth newydd wedi'i datblygu yn unol â gofynion y Safonau newydd. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi adolygu a chymeradwyo'r ddwy ddogfen.	

Proses	Sut y cyflawnir hyn:	Pa mor dda rydym yn symud ymlaen/A ydym wedi symud ymlaen a sut rydym yn gwybod hynny:	Blaenoriaethau/Heriau ar gyfer 2026/27
Archwilio Mewnol	Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd y system Rheoli Mewnol a'r trefniadau Llywodraethu yn cael ei lywio gan waith yr Archwilwyr Mewnol, sy'n rhoi sicrwydd i'r Awdurdod. Mae'r trefniadau archwilio mewnol yn cydymffurfio â gofynion y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn sector cyhoeddus y DU a Chôd Ymarfer CIPFA ar gyfer Llywodraethu Archwilio Mewnol yn Llywodraeth Leol y DU (2025). Yn unol â gofynion y Safonau, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn llunio adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ei ystyried. Mae fformat yr Adroddiad Blynyddol yn cydymffurfio â gofynion y Côt Ymarfer. • Annibyniaeth ac Adrodd: Mae Archwilio Mewnol yn gweithredu'n annibynnol ar reolwyr ac yn adrodd yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae gan y Prif Weithredwr Archwilio fynediad heb gyfyngiad at uwchswyddogion a Chadeirydd y Pwyllgor, gan sicrhau gwrthrychedd. • Mandad a Siarter: Mae awdurdod y swyddogaeth wedi'i ddiffinio yn y Siarter Archwilio Mewnol, a gymeradwywyd ym mis Mawrth 2025. Mae'n amlinellu rôl Archwilio Mewnol	-Cyflwyno Cynlluniau Archwilio Strategol a Blynyddol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yng nghyfarfodydd mis Mawrth. Darparu diweddariadau chwarterol ar y gwaith a wnaed a chyflwyno'r Adroddiad Blynyddol bob mis Gorffennaf. -Cafodd yr holl gamau i gyflawni'r argymhellion a wnaed yn yr Asesiad Ansawdd Allanol diweddaraf (a gyhoeddwyd yn 2022/23) eu cwblhau. - Cyflwynwyd Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn sector cyhoeddus y DU ym mis Ebrill 2025; mae'r tîm Archwilio Mewnol wedi mynd ati'n rhagweithiol i groesawu cyflwyno'r Safonau newydd. Mae'r tîm wedi cynnal gweithdai mewnol, wedi rhannu dysgu a dealltwriaeth ymarferol, ac wedi adolygu a diweddarau papurau gwaith, templedi a methodolegau yn systematig. Mae'r camau hyn wedi sicrhau bod arferion Archwilio Mewnol yn cyd-fynd â gofynion y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang a bod prosesau archwilio yn parhau i fod yn gyfredol ac yn gadarn, a'u bod yn cydymffurfio â'r gofynion. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnal sesiwn flynyddol anffurfiol sef 'Cwrdd â'r Archwilwyr' gyda swyddogion Archwilio Mewnol ac Archwilio Cymru,	1. Adolygu priodoldeb ac effeithiolrwydd y gyfres gyfredol o ddangosyddion perfformiad, gan roi ystyriaeth briodol i gynnwys y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang newydd yn Sector Cyhoeddus y DU er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a hefyd gyda'r nod o helpu'r gwasanaeth i fod yn fwy effeithlon ac effeithiol. 2. Adolygu canlyniadau arolygon adborth cleientiaid i helpu i wella gwasanaethau. 3. Monitro'r dull Archwilio Mewnol o bryd i'w gilydd i sicrhau ei fod yn parhau i gyd-fynd â gofynion y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn Sector Cyhoeddus y DU.

Proses	Sut y cyflawnir hyn:	Pa mor dda rydym yn symud ymlaen/A ydym wedi symud ymlaen a sut rydym yn gwybod hynny:	Blaenoriaethau/Heriau ar gyfer 2026/27
	gan ddarparu sicrwydd ar lywodraethu, risg a rheolaeth. • Adnoddau: Mae adnoddau archwilio yn cael eu hadolygu'n flynyddol i sicrhau capasiti a gallu digonol. Mae unrhyw gyfyngiadau yn cael eu huwchgyfeirio a'u datrys drwy ddulliau llywodraethu. • Goruchwyliaeth y Pwyllgor Archwilio: Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cymeradwyo'r Strategaeth a'r Cynllun Archwilio Mewnol, yn derbyn adroddiadau cynnydd rheolaidd, yn cwrdd yn breifat â'r Prif Weithredwr Archwilio, ac yn adolygu asesiadau ansawdd mewnol ac allanol. • Asesiad Ansawdd Allanol: Mae Asesiad Ansawdd Allanol yn cael ei gomisiynu o leiaf bob pum mlynedd. Cadarnhaodd yr asesiad diweddaraf gydymffurfiaeth â'r safonau gofynnol (Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus ar y pryd) a Chôd CIPFA. Mae'r Pwyllgor yn monitro'r gwaith o roi unrhyw argymhellion ar waith. Mae'r Cyngor yn fodlon bod ei drefniadau archwilio mewnol yn effeithiol, yn annibynnol, ac yn cydymffurfio â safonau proffesiynol, gan ddarparu sicrwydd cadarn ar lywodraethu, rheoli risg, a rheolaeth fewnol.	gan roi cyfle i drafod materion sy'n ymwneud â'r swyddogaethau archwilio a'u cyfraniad at drefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y Cyngor..	

Proses	Sut y cyflawnir hyn:	Pa mor dda rydym yn symud ymlaen/A ydym wedi symud ymlaen a sut rydym yn gwybod hynny:	Blaenoriaethau/Heriau ar gyfer 2026/27
	Mae gan yr Awdurdod swyddogaeth Archwilio Mewnol effeithiol. Caiff y Cynlluniau Archwilio Strategol a Blynyddol eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bob blwyddyn a rhoddir adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio drwy'r flwyddyn ynghylch y cynnydd a wnaed ac unrhyw wendidau sylweddol a glustnodwyd. Yn ogystal â'r gwaith a gynlluniwyd, mae'r Uned Archwilio Mewnol yn ymchwilio i dwyll ac yn rhagweithio i ganfod twyll. Mae ymatebion o ran y cynllun gweithredu i adolygiadau Archwilio Mewnol yn cael eu mewnbynnu ar System Monitro Gwybodaeth am Berfformiad y Cyngor (PIMS) ac mae'r cynnydd yn cael ei ddiweddarau bob chwarter gan swyddogion cyfrifol.		
Rheoleiddwyr Allanol	Mae'r gwasanaethau yn cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn gan reoleiddwyr allanol, megis Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru ac Archwilio Cymru (Swyddfa Archwilio Cymru gynt). Mae'r adroddiadau dilynol yn cael sylw yn unol â hynny. Bob blwyddyn, mae Archwilio Cymru, sef Archwilydd Allanol yr Awdurdod, yn gwneud gwaith i fodloni'r canlynol: Archwilio Cyfrifon, Gwerth am Arian, Gwelliant Parhaus, a'r egwyddor datblygu cynaliadwy.	- Rydym yn olrhain argymhellion adroddiadau Rheoleiddio Cenedlaethol a Lleol Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru ac yn adrodd arnynt bob chwarter. - Rydym hefyd yn cyflwyno adroddiad blynyddol ar argymhellion Archwilio Cymru i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. - Rydym yn disgwyl i bob adroddiad a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fynd drwy'r Tîm Rheoli Corfforaethol.	1. Cael trafodaeth gydag Archwilio Cymru a chyrrff rheoleiddiol eraill ar eu rhaglenni archwilio lleol a chenedlaethol. 2. Parhau i gynnal cyfarfod blynyddol rhwng rheoleiddwyr a'r Tîm Rheoli Corfforaethol. 3. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn parhau i gael cyfarfod anffurfiol ag Archwilio Cymru bob blwyddyn fel rhan o waith ymgysylltu parhaus.

Proses	Sut y cyflawnir hyn:	Pa mor dda rydym yn symud ymlaen/A ydym wedi symud ymlaen a sut rydym yn gwybod hynny:	Blaenoriaethau/Heriau ar gyfer 2026/27
	Rydym yn cynnal cofnod hefyd o'r adroddiadau a'r argymhellion rheoleiddiol. Mae'r argymhellion neu'r cynigion ar gyfer gwella mewn adolygiadau rheoleiddiol allanol yn cael eu cofnodi yn System Monitro Gwybodaeth am Berfformiad y Cyngor a rhoddir adroddiad ar gynnydd bob chwarter ar y dangosfyrddau. Rhoddir Adroddiad Blynyddol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.	- Yn ystod y flwyddyn rydym wedi cytuno y bydd argymhellion adroddiad cenedlaethol Estyn yn cael sylw gan y Grwpiau Ffocws sydd newydd eu sefydlu i gefnogi themâu allweddol a blaenoriaethau lefel uchel Cyfeiriad Gwasanaethau Addysg yn Sir Gaerfyrddin i'r dyfodol 2022-2032.	
Asedau Gwybodaeth	Prif Swyddog Digidol y Cyngor yw Uwchberchennog Risg Gwybodaeth yr Awdurdod. Mae Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth a Seiber yn cwrdd yn rheolaidd i ddiogelu gwybodaeth yr Awdurdod a'i chadw'n ddiogel. Darperir cofnodion y cyfarfodydd hyn i'w hystyried i'r Tîm Rheoli Corfforaethol ddwywaith y flwyddyn. Mae amrywiol fesurau diogelu ar waith i warchod rhag colli neu ryddhau gwybodaeth bersonol, gan gynnwys hyfforddiant staff, cyfathrebu corfforaethol, polisïau a gweithdrefnau perthnasol, nifer sylweddol o alluoedd seiber a diogelu data technegol, a nifer o brotocolau a gweithdrefnau diogelu data.	- Mae'r Awdurdod yn cyflogi Rheolwr Seiberddiogelwch, a thîm Seiber sy'n cynghori ynghylch diogelwch data. Rydym yn defnyddio swyddogion ymgynghorol ac ymgynghorwyr allanol o bryd i'w gilydd i brofi trefniadau diogelwch yr Awdurdod a chynghori yn eu cylch. Rydym yn cyflogi Swyddog Diogelu Data sy'n cynghori ynghylch cydymffurfio â'r gyfraith ac sy'n sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau ar waith ac y cydymffurfir â hwy. Hefyd, rydym yn cael Archwiliad Iechyd TGCh blynyddol wedi'i ardystio gan CREST. Mae hwn yn asesiad cynhwysfawr o ran bod yn agored i niwed, a gefnogir gan Lywodraeth y DU, sy'n nodi risgiau diogelwch posibl mewn amgylcheddau TGCh, gan sicrhau y cydymffurfir â'r safonau. Mae hyn yn cael ei gynnal fel rhan o gydymffurfio â'r Rhwydwaith Gwasanaethau Cyhoeddus.	1. Nod CymruSOC yw gwella seiberwydnwch i gyrff sy'n aelodau drwy ddarparu "ymbarél seiber" amddiffynnol, rhithwir sy'n cynnwys monitro'r rhwydwaith, amddiffyn rhag ymosodiadau seiber, a rhannu gwybodaeth am fygythiadau. Mae hyn yn cynnwys sefydlu arbenigedd monitro a rheoli digwyddiadau rhagweithiol ychwanegol i ategu'r tîm mewnol. Yn ogystal, mae CymruSOC yn darparu arbenigedd rheoli digwyddiadau 24/7 a gwasanaethau y tu allan i oriau arferol. 2. Mae Fframwaith Asesu Seiber Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cael ei roi ar waith drwy gydol 2026 ar draws Awdurdodau Lleol Cymru i reoli a gwella eu seilwaith seiberddiogelwch. Mae'r fframwaith yn cynnwys pedwar piler sy'n canolbwyntio ar wahanol agweddau ar seiberddiogelwch, a disgwylir iddo gael ei roi ar waith yn llawn erbyn diwedd

Proses	Sut y cyflawnir hyn:	Pa mor dda rydym yn symud ymlaen/A ydym wedi symud ymlaen a sut rydym yn gwybod hynny:	Blaenoriaethau/Heriau ar gyfer 2026/27
		Hefyd rydym yn cymryd rhan mewn ymarferion seiber sy'n cael eu cynnal gan dîm seiberwydnwch Llywodraeth Cymru. Yn ystod 2025/26, cwblhaodd Archwilio Cymru adolygiad o drefniadau seiberddiogelwch y Cyngor fel rhan o'i raglen ehangach o waith llywodraethu a sicrwydd. O ystyried natur sensitif seiberddiogelwch, nid yw'r canfyddiadau manwl wedi'u cynnwys yn y datganiad cyhoeddus hwn; fodd bynnag, mae'r adolygiad yn ffynhonnell bwysig o her a sicrwydd allanol ac mae wedi helpu i lywio agweddau ar raglen gwella seiberddiogelwch parhaus y Cyngor. Mae'r cynnydd yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys datblygu parhaus o ran trefniadau gwytnwch seiber, gweithredu'r Fframwaith Asesu Seiber, cryfhau trefniadau llywodraethu a goruchwyllo, cymryd rhan yng Nghanolfan Gweithrediadau Diogelwch Cymru, a gwell ymateb i ddigwyddiadau a pharodrwydd sefydliadol, yn adlewyrchu cyfuniad o flaenoriaethau strategol y Cyngor ei hun ynghyd â dysgu ac argymhellion sy'n deillio o weithgarwch sicrwydd mewnol ac allanol.	Rhagfyr 2026. Nod y fframwaith yw darparu dull cynhwysfawr o reoli risgiau seiberddiogelwch, canfod digwyddiadau seiberddiogelwch, a lleihau effaith digwyddiadau seiberddiogelwch. Mae'r fframwaith hefyd yn cynnwys adolygiadau thematig a gynhelir gan Archwilio Cymru i sicrhau bod arferion seiberddiogelwch yn cael eu hasesu'n drylwyr a'u gwella. 3. Bydd adroddiadau torri rheolau yn cael eu hychwanegu at y System Monitro Perfformiad a Gwella (PIMS) i dynnu sylw at hyn ym mhob maes gwasanaeth. 4. Byddwn yn parhau i addysgu staff gan dynnu sylw at y posibilrwydd bod seiberdroseddau ar gynydd a thrwy sicrhau bod hyfforddiant ymwybyddiaeth seiberddiogelwch yn orfodol i'r holl staff. 5. Byddwn yn parhau i fod yn aelod o'r grŵp WARP rhanbarthol (Pwynt Rhybudd, Cyngor ac Adrodd). 6. Byddwn yn sicrhau bod ymagwedd gadarn at Seiberddiogelwch ac atebion cynaliadwy yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth ac yn cyflawni ein rhwymedigaeth statudol o dan y Ddeddf Diogelu Data ac yn sicrhau ein bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau mewn cyfraith sy'n cael eu cyflwyno yn y DU.

Proses	Sut y cyflawnir hyn:	Pa mor dda rydym yn symud ymlaen/A ydym wedi symud ymlaen a sut rydym yn gwybod hynny:	Blaenoriaethau/Heriau ar gyfer 2026/27
		- Yn 2025/26, cafodd cyfanswm o 14 o achosion o dorri rheolau data personol eu hadrodd a'u cofnodi. Cafodd gwybodaeth am achosion o dorri rheolau data personol ei chyflwyno a'i chofnodi. Cafodd yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth, y Cyfarwyddwr perthnasol a'r Pennaeth Gwasanaeth adroddiadau manwl ar yr holl ddigwyddiadau hyn, ac fe'u cyflwynwyd hefyd i gyfarfodydd y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth a Seiber lle cawsant eu trafod. Mae gwybodaeth am achosion o dorri rheolau data personol hefyd yn cael ei chynnwys mewn adroddiad a gyflwynir ddwywaith y flwyddyn i'r Tîm Rheoli Corfforaethol. Mewn cymhariaeth, cofnodwyd 32 o achosion o dorri rheolau ar gyfer 2024/25. - Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ymdriniodd y tîm seiberddiogelwch â 1078 o ddigwyddiadau diogelwch. Roedd angen uwchgyfeirio 22 o'r rhain neu gynnal ymchwiliad arbenigol iddynt. Ni chofnodwyd unrhyw effaith materol ar wasanaethau craidd, gan ddangos effeithiolrwydd rheolaethau diogelwch presennol a phrosesau ymateb i ddigwyddiadau. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys y miloedd o ymdrechion i osgoi ein rheolaethau diogelwch na'r cannoedd	7. Byddwn yn gwneud mwy o ddefnydd o'r dechnoleg ddigidol ddiweddaraf i drawsnewid ymhellach y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. 8. Parhau i gynnal ymarferion seiber i brofi'r cynllun ymateb i ddigwyddiadau seiber ac adrodd yn ôl i'r Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth a Seiber a'r Tîm Rheoli Corfforaethol.

Proses	Sut y cyflawnir hyn:	Pa mor dda rydym yn symud ymlaen/A ydym wedi symud ymlaen a sut rydym yn gwybod hynny:	Blaenoriaethau/Heriau ar gyfer 2026/27
		o negeseuon e-bost gwe-rwydo a anfonwyd, sydd bellach wedi dod yn beth arferol i'r tîm Seiberddiogelwch ymateb iddynt. Mae cynnal y rheolaethau a'r prosesau hyn ac adeiladu arnynt yn gwbl hanfodol i wrthsefyll bygythiadau presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg sy'n datblygu yn frawychus o gyflym gyda datblygiadau diweddar mewn gallu actorion seiberfygythiad drwy ddefnyddio deallusrwydd artiffisial, a thensiynau geowleidyddol. Rydym hefyd yn hoelio ein sylw i raddau helaeth ar y gadwyn gyflenwi a'i seiberwydnwch ei hun i sicrhau bod ganddi'r offer ar waith i allu amddiffyn rhag tarfu ac ymadfer yn dilyn hynny.	
Adolygu Effeithiolrwydd	Cynhelir adolygiad rheolaidd o effeithiolrwydd ein trefniadau Llywodraethu (gan gynnwys y system Rheoli Mewnol) a hynny gan y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol drwy ei waith. Mae'r adolygiad yn cael gwybodaeth i'w lywio gan reolwyr yr Awdurdod sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, gan Adroddiad Blynnyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol a chan sylwadau'r Archwilwyr Allanol (Archwilio Cymru).	-Mae'r adolygiad yn defnyddio tystiolaeth a sicrwydd o amrywiaeth o feysydd gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r Cyngor, y Cabinet a'i aelodau, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Archwilio Mewnol/Allanol, ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. -Y farn Archwilio Mewnol ar gyfer 2024/25 oedd bod y broses a'r dystiolaeth ategol am y Datganiad Llywodraethu Blynnyddol o lefel sicrwydd uchel. Cafodd y Datganiad Llywodraethu Blynnyddol ei gynhyrchu'n amserol yn unol â'r amserlen cau cyfrifon.	Parhau i gwblhau'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol yn unol â'r amserlen cau cyfrifon, gan ei bod yn cael ei gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon.

Proses	Sut y cyflawnir hyn:	Pa mor dda rydym yn symud ymlaen/A ydym wedi symud ymlaen a sut rydym yn gwybod hynny:	Blaenoriaethau/Heriau ar gyfer 2026/27
Y Cyngor	Mae'r Cyngor yn cyfarfod yn fisol ac yn gwneud penderfyniadau ar swyddogaethau'r Cyngor. Cynhelir ei gyfarfodydd trwy drefniant hybrid ac mae aelodau – a'r cyhoedd – yn cael y dewis o'u mynychu wyneb yn wyneb neu ar-lein. Cyhoeddir agendâu o leiaf 3 diwrnod llawn cyn cyfarfodydd, ac mae cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd (yn amodol ar eithriadau) ac yn cael eu gweddarlleu. Cyhoeddir cofnodion ac maent ar gael i'r cyhoedd.	- Mae mabwysiadu trefniadau cyfarfodydd hybrid wedi parhau i gefnogi gweithrediad effeithiol y broses ddemocrataidd, gan alluogi aelodau i gymryd rhan naill ai wyneb yn wyneb neu o bell. Mae hyfforddiant a thechnoleg briodol wedi sicrhau bod pob aelod yn gallu cymryd rhan lawn mewn cyfarfodydd a gwneud penderfyniadau. -Mae ein holl gyfarfodydd yn cael eu gweddarlleu, gan ganiatáu i'r cyhoedd allu clywed a dilyn y trafodion. Ym mis Ionawr 2024 adolygodd y Cyngor ei Bolisi Cyfarfodydd Aml-leoliad i gynnwys mwy o ganllawiau ar y defnydd o gamerâu ar gyfer pobl sy'n ymuno o bell i gynnal uniondeb proses gwneud penderfyniadau'r Awdurdod a lleihau'r cyfle am her gyfreithiol yn hyn o beth.	Yn ei Gyfarfod Cyffredinol Blynnyddol ar 20 Mai 2026, cymeradwywyd newidiadau i ddiwygio Rheolau Gweithdrefnau'r Cyngor a diweddarau Côt Ymddygiad yr Aelodau ac roedd diwygiadau canlyniadol eraill.

Proses	Sut y cyflawnir hyn:	Pa mor dda rydym yn symud ymlaen/A ydym wedi symud ymlaen a sut rydym yn gwybod hynny:	Blaenoriaethau/Heriau ar gyfer 2026/27
Arweinyddiaeth/y Cabinet ac Aelodau Cabinet	Mae'r Cabinet yn gwneud penderfyniadau ynghylch swyddogaethau gweithredol o fewn y fframwaith polisi a chyllideb a bennir gan y Cyngor. Cyhoeddir yr Agenda o leiaf 3 diwrnod cyfan cyn ei gyfarfodydd ac mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn gyhoeddus (yn amodol ar eithriadau statudol) ac yn cael eu gweddarlleu. Cyhoeddir ei gofnodion a gall ei benderfyniadau gael eu 'galw i mewn' gan unrhyw 3 Aelod o'r Cyngor. Mae'r Awdurdod fel arfer yn cwrdd â'r Cynghorau Tref a Chymuned ddwywaith y flwyddyn mewn Fforwm ffurfiol. Mae gan Aelodau Cabinet bwerau gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'u meysydd portffolio eu hunain. Cyhoeddir eu penderfyniadau a gallant gael eu 'galw i mewn' gan y Pwyllgorau Craffu perthnasol.	- Mae'r Cabinet yn cyfarfod yn ffurfiol bob pythefnos. Mae gan y Pwyllgor Craffu hawliau galw i mewn; ni wnaethpwyd unrhyw alwadau i mewn yn ystod 2025/26. -Mae holl gyfarfodydd y Cabinet yn cael eu gweddarlleu, gan ganiatáu i'r cyhoedd allu clywed a dilyn y trafodion. Caniateir i'r cyhoedd hefyd ofyn cwestiynau, â rhybudd, yng nghyfarfodydd y Cabinet. -Cynhelir cyfarfodydd penderfyniadau yr Aelodau Cabinet bob deufis, a chyhoeddir yr agendâu a'r penderfyniadau ar wefan y Cyngor.	1. Byddwn yn parhau i annog cyfranogiad y cyhoedd, yn unol â Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd. 2. Byddwn yn parhau i gyhoeddi agendâu a phenderfyniadau, yn unol â gofynion cyfreithiol.

Edrych Ymlaen a Chynllun Gweithredu: Heriau a Blaenoriaethau

I grynhoi:

Yr Hyn a Gyflawnwyd

Mae trefniadau Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor wedi parhau i weithredu'n effeithiol yn ystod 2025/26, wedi'u cefnogi gan system rheolaeth fewnol gadarn a lefel uchel o sicrwydd gan Archwilio Mewnol, heb nodi unrhyw wendidau rheoli sylfaenol. Mae'r trefniadau sy'n gysylltiedig ag egwyddorion **uniondeb, gwerthoedd moesegol a rheolaeth y gyfraith (Egwyddor A)** a **bod yn agored ac ymgysylltu â rhanddeiliaid (Egwyddor B)** wedi'u cynnal, gan sicrhau safonau uchel o ymddygiad a phenderfyniadau tryloyw. Mae'r trefniadau llywodraethu, perfformiad a chynllunio strategol wedi parhau i gyd-fynd yn dda, gan gefnogi gallu'r Cyngor i **ddiffinio a chyflawni canlyniadau cynaliadwy (Egwyddor C)** a chyflawni ei amcanion arfaethedig (Egwyddor D). Mae'r trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol a rheoli ariannol (Egwyddor F) wedi parhau i weithredu'n effeithiol, ac mae'r trefniadau o ran capasiti y gweithlu ac arweinyddiaeth (Egwyddor E) wedi cefnogi gwydnwch sefydliadol. Mae trefniadau adrodd a goruchwyllo cadarn (Egwyddor G) wedi sicrhau atebolrwydd effeithiol ar draws yr Awdurdod.

Gwelliannau

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Cyngor wedi gwneud gwelliannau pellach i'w drefniadau llywodraethu yn unol ag egwyddorion **gwelliant parhaus, gwneud penderfyniadau gwybodus ac ymgysylltu effeithiol**. Mae hyn yn cynnwys cryfhau trefniadau ar gyfer **bod yn agored ac ymgysylltu (Egwyddor B)** drwy gyfathrebu a rheoli cwynion yn well, ochr yn ochr â pharhau i ddatblygu galluoedd data a pherfformiad i gefnogi'r gwaith o **ddiffinio a chyflawni canlyniadau** yn well (**Egwyddor C**). Mae'r trefniadau rheoli perfformiad ac adrodd (Egwyddor D) wedi'u gwella, a gefnogwyd gan gynnydd yn y Gyfres Ddata Gorfforaethol. Mae'r trefniadau rheoli risg (Egwyddor F) wedi'u diweddarau a'u sefydlu ymhellach, gan gynnwys dulliau gwell o ymdrin â pharodrwydd i dderbyn risg, asesu risg a sganio gorwelion. Mae'r trefniadau ar gyfer cynllunio'r gweithlu a datblygu sefydliadol (Egwyddor E) wedi'u cryfhau, ac mae gwelliannau i lywodraethu gwybodaeth, tryloywder ac adrodd (Egwyddor G) wedi cefnogi atebolrwydd a hyder rhanddeiliaid ymhellach.

Ffocws ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf

Yn ystod 2026/27, bydd y Cyngor yn adeiladu ar y cynnydd hwn gan ganolbwyntio ar sefydlu ei drefniadau llywodraethu ymhellach yn unol ag egwyddorion **trefniadau rheoli risg cadarn, perfformiad effeithiol ac atebolrwydd cryf**. Mae'r blaenoriaethau'n cynnwys cryfhau integreiddio risg, perfformiad a chynllunio ariannol (Egwyddor F) i gefnogi penderfyniadau gwybodus a chynaliadwyedd tymor hir, ochr yn ochr â pharhau i ddatblygu a sefydlu fframwaith rheoli risg y Cyngor, gan gynnwys cymhwyso parodrwydd i dderbyn risg yn gyson a chryfhau'r gwaith o sganio gorwelion. Bydd y Cyngor yn parhau i ddatblygu proses gwneud penderfyniadau ar sail data i gefnogi **diffinio a chyflawni canlyniadau (Egwyddor C)** a chryfhau trefniadau rheoli perfformiad (Egwyddor D). Bydd ffocws parhaus ar gapasiti'r gweithlu a gwydnwch sefydliadol (Egwyddor E), yn ogystal â gwella tryloywder ac ymgysylltu â rhanddeiliaid (Egwyddor B). Bydd y gwaith parhaus o wella trefniadau seiberddiogelwch a llywodraethu gwybodaeth yn cefnogi **atebolrwydd a thryloywder cryf (Egwyddor G)**, gan sicrhau bod trefniadau llywodraethu yn parhau i fod yn ymatebol ac yn gallu cyflawni canlyniadau cynaliadwy.

Dros y flwyddyn nesaf bwriadwn gymryd camau i fynd i'r afael â'r materion Llywodraethu y mae angen eu hystyried a rhoi sylw iddynt yn ystod y 12 mis nesaf er mwyn cryfhau ein trefniadau Llywodraethu ymhellach. Atodir Cynllun Gweithredu yn crynhoi'r Camau uchod, Swyddogion Cyfrifol a Dyddiadau Targed yn Atodiad 1, ynghyd â chamau sy'n weddill o flynyddoedd blaenorol sy'n cael eu crynhoi yn Atodiad 2. Rydym yn fodlon y bydd y camau hyn yn mynd i'r afael â'r angen am welliannau, a byddwn yn monitro'r ffordd y cânt eu gweithredu fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf.

Mae system wleidyddol y DU yn mynd drwy gyfnod o newid sylweddol ac mae tarfu sylweddol ar y wleidyddiaeth dwy blaid draddodiadol. Am y tro cyntaf, mae gan bob un o'r tair cenedl ddatganoledig lywodraethau Cenedlaetholgar, ac mae'r blaid sy'n llywodraethu yng Nghymru wedi newid am y tro cyntaf ers datganoli. O gofio y bydd etholiadau Llywodraeth Leol yn cael eu cynnal ledled Cymru ym mis Mai 2027, mae'n bwysicach nag erioed sicrhau bod ein strwythurau llywodraethu yn gadarn, gan sicrhau tryloywder ac atebolrwydd wrth i ni barhau i ddarparu gwasanaethau ar gyfer Sir Gaerfyrddin.

ATODIAD 1

Materion Llywodraethu a Nodwyd yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2025/26			
Cyf	Y Mater	Swyddog cyfrifol	Camau Gweithredu/Cynnydd
A: Uniondeb a Gwerthoedd			
DLIB 2025/2026 - 1	Cynnal safonau uchel o lywodraethu moesegol	Swyddog Monitro	Bwrw ymlaen â'r adolygiad cynhwysfawr o'r Cyfansoddiad i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r diben ac yn adlewyrchu gofynion deddfwriaethol a llywodraethu cyfredol; atgyfnerthu Codau Ymddygiad Aelodau a Swyddogion drwy ganllawiau a hyfforddiant; a chynnal goruchwyliaeth effeithiol o safonau ymddygiad, datgan buddiannau a threfniadau datgelu camymarfer drwy'r Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
B: Bod yn agored ac ymgysylltu			
DLIB 2025/2026 - 2	Gwella trefniadau ymgysylltu â rhanddeiliaid â'u cynnwys	Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth	Sefydlu'r Strategaeth Gynnwys ar draws gwasanaethau; mapio gweithgaredd ymgysylltu; gwella'r defnydd o allbynnau ymgynghori wrth wneud penderfyniadau; adrodd ar ganlyniadau drwy drefniadau perfformiad
DLIB 2025/2026 - 3	Gwella tryloywder gwybodaeth ariannol a pherfformiad	Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth / Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol	Gwella adroddiadau ariannol a pherfformiad i'r cyhoedd; cryfhau'r cysylltiad â'r gwasanaethau a ddarperir; alinio cyfathrebu â'r Strategaeth Gorfforaethol; monitro'r effaith drwy adborth
C: Gwneud gwahaniaeth			
DLIB 2025/2026 - 4	Cryfhau gwneud penderfyniadau ar sail data	Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth	Symud y gwaith o ddatblygu'r Gyfres Ddata Gorfforaethol yn ei flaen; ehangu integreiddio data; gwella dangosfyrddau; sefydlu mewn cynllunio busnes
DLIB 2025/2026 - 5	Gwella aliniad ag amcanion llesiant	Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth	Cryfhau'r cysylltiadau rhwng y Strategaeth Gorfforaethol ac adrodd ar berfformiad; gwella'r defnydd o ddealltwriaeth a meincnodi

Materion Llywodraethu a Nodwyd yn Natganiad Llywodraethu Blyneddol 2025/26			
Cyf	Y Mater	Swyddog cyfrifol	Camau Gweithredu/Cynnydd
D: Sicrhau ein bod yn cyflawni'r hyn y mae'n fwriad gennym ei wneud			
DLIB 2025/2026 - 6	Gwella'r trefniadau rheoli perfformiad	Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth	Adnewyddu'r Fframwaith Rheoli Perfformiad; datblygu adroddiadau integredig; cryfhau'r trefniadau o ran herio
DLIB 2025/2026 - 7	Gweithredu camau'r Asesiad Perfformiad gan Banel	Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth	Cyflawni a monitro argymhellion yr Asesiad Perfformiad gan Banel; olrhain drwy'r System Monitro Perfformiad a Gwella; sefydlu dysgu mewn gwaith cynllunio
E: Gwerthfawrogi ein pobl			
DLIB 2025/2026 - 8	Cryfhau cynllunio a chasiti'r gweithlu	Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl)	Sefydlu cynllunio'r gweithlu o fewn cynllunio busnes; alinio â blaenoriaethau trawsnewid; monitro risgiau capasiti
DLIB 2025/2026 - 9	Gwella data am y gweithlu a dealltwriaeth	Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl)	Datblygu dangosfyrddau o ran y gweithlu; gwella'r defnydd o fetrigau i gefnogi cynllunio a gwneud penderfyniadau
C: Gwneud gwahaniaeth			
DLIB 2025/2026 - 10	Sefydlu fframwaith rheoli risg a pharodwydd i dderbyn risg	Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol	Cryfhau cymhwysu'r Parodwydd i Dderbyn Risg Corfforaethol; alinio risg, perfformiad a chynllunio ariannol
DLIB 2025/2026 - 11	Gwella'r gwaith o sganio gornelion	Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol	Sefydlu sganio gornelion o fewn prosesau rheoli; sicrhau bod risgiau sy'n dod i'r amlwg yn llywio cynllunio

Materion Llywodraethu a Nodwyd yn Natganiad Llywodraethu Blynnyddol 2025/26			
Cyf	Y Mater	Swyddog cyfrifol	Camau Gweithredu/Cynnydd
DLIB 2025/2026 - 12	Gwella'r gwaith o adrodd am risgiau	Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol	Gwella'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ac adroddiadau integredig; cynnal goruchwyliaeth y pwyllgor
DLIB 2025/2026 - 13	Cryfhau cynllunio ariannol	Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol	Gwella Cynllunio Ariannol Tymor Canolig; alinio â'r Strategaeth Gorfforaethol; cynnal y gwaith o fonitro meysydd risg uchel
G: Tryloywder ac Atebolrwydd			
DLIB 2025/2026 - 14	Cryfhau seiberddiogelwch	Prif Swyddog Digidol	Gweithredu'r Fframwaith Asesu Seiber; gwella gwydnwch ac ymateb i ddigwyddiadau; cryfhau diogelu data

ATODIAD 2

<i>Materion llywodraethu y mae angen rhoi sylw iddynt a nodwyd mewn Datganiadau Llywodraethu Blynyddol blaenorol</i>					
Cyf	Y Mater	Swyddog cyfrifol	Camau Gweithredu/Cynnydd	Statws	Diweddariad
DLIB 2020/21 Rhif 2 Cyf. PIMS: 19560	Gweithredu gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru).	Swyddog Monitro	Mae'r holl elfennau perfformiad a llywodraethu bellach wedi'u sefydlu yn ymarfer a threfniadau parhaus y Cyngor.	Cydymffurfiwyd yn llawn â gofynion etholiadau a llywodraethu yn unol â'r ddeddfwriaeth.	Cymeradwyodd y Cyngor ei Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd yn ei gyfarfod ar 9 Chwefror 2022. Cymeradwywyd Cynllun Deiseb gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 9 Chwefror 2022 ac mae'n cael ei adolygu'n rheolaidd. Er enghraifft, argymhellwyd newidiadau yng nghyfarfod blynyddol Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad yn 2025. Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi'i sefydlu a dirprwywyd yr holl bwerau i Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 10 Rhagfyr 2025. Mae'r Cyngor yn parhau i weddarlledu pob cyfarfod cyhoeddus ac mae'r rhan fwyaf o'r cyfarfodydd bellach yn cael eu cynnal drwy drefniant hybrid.
DLIB 2021/22 Rhif 12 Cyf. PIMS: 19557 19574	Adolygu'r trefniadau Llywodraethu ar gyfer y ddau Gwmni Masnachu Awdurdod Lleol (Cwm Environmental a Llesiant Delta Wellbeing) gyda'r bwriad o gysoni'r	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil	Adolygiad y Swyddog Monitro wedi'i gynnal a'i gwblhau. Mae'r adroddiad yn cael ei gwblhau. Bydd CWM yn mynd ag adroddiad adolygu llywodraethu i Fwrdd CWM.	Wedi cychwyn Diweddariad: Adolygiad diweddarau'r Swyddog Monitro ar Lywodraethu wedi'i gynnal a'i gwblhau. Mae'r adroddiad yn cael ei gwblhau. Mae CWM wedi mynd ag adroddiad adolygu trefniadau llywodraethu	Bydd yr adroddiad yn cael ei ystyried gan y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Cabinet maes o law.

Diweddariad ar faterion llywodraethu a nodwyd Natganiad Llywodraethu Blyneddol 2023/24					
Cyf	Y Mater	Swyddog cyfrifol	Camau Gweithredu/Cynnydd		Statws
	trefniadau ac egluro rolau Aelodau a Phwyllgorau Craffu mewn perthynas â'r Cwmnïau Masnachu Awdurdod Lleol.				gerbron Bwrdd CWM. - Cam gweithredu Cwm wedi'i gwblhau
Gwerthfawrogi ein pobl: ymgysylltu, arwain a chefnogi					
DLIB 2023/24 Rhif 8 Cyf. PIMS: 19550	Diogelu - Cwblhau'r polisi a'r gronfa ddata gwirfoddolwyr	Prif Weithredwr Cynorthwyol	Rhagfyr 2024	Polisi gwirfoddoli wedi'i gwblhau. Mae sawl opsiwn yn cael ei ystyried mewn perthynas â sefydlu cronfa ddata gwirfoddolwyr ar draws yr Awdurdod. Mae tîm bach sy'n cael ei oruchwyllo gan grŵp Diogelu'r Gweithlu yn edrych ar sut y gellir cyflwyno hyn ar draws y Cyngor, gan gynnwys ysgolion.	Cytunwyd ar yr adroddiad yn y Bwrdd Diogelu Corfforaethol. Gwaith pellach ar y gweill i gyflwyno opsiynau i gytuno arnynt yn y Tîm Rheoli Corfforaethol.
DLIB 2023/24 Rhif 9 Cyf. PIMS: 19549	Datblygu data'r gweithlu ymhellach drwy ddangosfwrdd perfformiad	Prif Weithredwr Cynorthwyol	Rhagfyr 2024	Mae data eisoes ar gael ac mae dangosfwrdd perfformiad y gweithlu yn y cam datblygu cyntaf.	Mae'r gwaith ar y gweill. Mae'r holl fesurau perthnasol i'w cynnwys mewn dangosfwrdd wedi'u nodi. Mae gwaith bellach ar y gweill i greu'r dangosfwrdd perthnasol gyda chefnogaeth y Tîm Trawsnewid a chydweithwyr yn ein tîm Digidol.

Diweddariad ar Faterion Llywodraethu a Nodwyd yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2023/24					
Cyf	Y Mater	Swyddog cyfrifol	Camau Gweithredu/Cynnydd		Statws
Gwerthfawrogi ein pobl: ymgysylltu, arwain a chefnogi					
DLIB 2023/24 Rhif 10 Cyf. PIMS: Rhan 1 a 2 19570	Sicrhau bod gofynion Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 wedi'u hymgorffori fel sy'n briodol ar draws y Cyngor:	Rhan 1 a 2: Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl)	Mawrth 2025	Rhan 1: Mae'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn gorff statudol sy'n dwyn ynghyd gynrychiolwyr o blith y llywodraeth, cyflogwyr ac undebau llafur i gynghori Gweinidogion ar faterion sy'n ymwneud â phartneriaeth gymdeithasol, gwaith teg a chaffael. Rhan 2: Partneriaeth Gymdeithasol a Datblygu Cynaliadwy. Mae dyletswydd gyfreithiol wedi'i gosod ar gyrff cyhoeddus i geisio consensws neu gyfaddawd ag undebau llafur cydnabyddedig wrth: • Gosod amcanion llesiant • Cymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny Mae'r ddyletswydd hon yn gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.	Rhan 1: Yn gynharach yn 2026, cyflwynodd y Cyngor i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, fel rhan o Adroddiad Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2024/25, ei Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Gymdeithasol cyntaf. Cytunwyd ar yr adroddiad ag undebau llafur cydnabyddedig y Cyngor (addysgu a'r Cyd-gyngor Cenedlaethol) ac roedd cyflwyno'r adroddiad yn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol. Rhan 2: Fel rhan o'r Arolwg Perfformiad Blynyddol sy'n cael ei gyflwyno i Undebau Llafur cydnabyddedig y Cyngor, cafodd cwestiynau ychwanegol, sy'n benodol i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, eu cynnwys am y tro cyntaf. Mae'r dadansoddiad o'r ymatebion i'r arolwg wedi nodi 3 maes allweddol i'w hystyried a'u datblygu. Y rhain yw llunio Strategaeth Partneriaeth Gymdeithasol a gyd-gynhyrchir, y potensial ar gyfer sefydlu Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol Corfforaethol ac ymgynghori ac ymgysylltu yn y dyfodol ynghylch gofynion perfformiad y Cyngor. Bydd y gwaith ymgynghori â'r Undebau Llafur cydnabyddedig mewn perthynas â'r meysydd allweddol hyn yn parhau gyda'r bwriad o ddod i gytundeb yn ystod 2026/27.

Diweddariad ar Faterion Llywodraethu a Nodwyd yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2023/24					
Cyf	Y Mater	Swyddog cyfrifol	Camau Gweithredu/Cynnydd		Statws
Rhan 3 19571	Rhan 1: Y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Rhan 2: Partneriaeth Gymdeithasol a Datblygu Cynaliadwy Rhan 3: Caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol	Rhan 3: Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol	Mawrth 2025	Rhan 3: Daeth Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn gyfraith yng Nghymru ar 24 Mai 2023. Mae disgwyl i rai darpariaethau'r Ddeddf ddod i rym pan fydd Gweinidogion Cymru yn gwneud un neu ragor o orchmynion cychwyn. Rhagwelir y bydd Rhan 3 o'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus, sy'n canolbwyntio ar gaffael cyhoeddus sy'n gymdeithasol gyfrifol, yn dechrau yn hydref 2025 ar y cynharaf. Diweddariad Mawrth 2026: Mae Rhan 3 o Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 bellach yn dod i rym. Bydd y darpariaethau sy'n weddill yn cychwyn ar 25 Mawrth 2026 a bydd y gofynion adrodd blynyddol yn dechrau o 1 Ebrill 2026. Daeth ymgynghoriadau ar y Cymalau Gwaith Cyhoeddus Cymdeithasol drafft a'r canllawiau statudol i ben ym mis Ionawr 2026 ac mae'r ymatebion yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru.	Rhan 3: Mae paratodau ar y gweill i gydymffurfio â gofynion y Ddeddf newydd. Diweddariad Mawrth 2026: Mae gwaith ar y gweill i baratoi amcanion caffael cymdeithasol gyfrifol y Cyngor, ac mae swyddogion wedi ymgysylltu ag awdurdodau lleol rhanbarthol i rannu dysgu a chefnogi gweithrediad cyson. Felly, mae'r gweithgaredd wedi symud o gam paratoi i gam gweithredu a chydymffurfio, gan gynnwys llywodraethu, cymhwyso cymalau contractau, tryloywder a threfniadau adrodd.

Diweddariad ar Faterion Llywodraethu a Nodwyd yn Natganiad Llywodraethu Blynnyddol 2023/24					
Cyf	Y Mater	Swyddog cyfrifol	Camau Gweithredu/Cynnydd		Statws
Tryloywder ac atebolrwydd da					
DLIB 2023/24 Rhif 13 Cyf. PIMS: 19545	Byddwn yn sicrhau bod dull cadarn o ymdrin â seiberddiogelwch ac atebion cynaliadwy yn cael eu gweithredu ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth.	Prif Swyddog Digidol	Mawrth 2026	Rydym wedi sicrhau ymagwedd gadarn at Seiberddiogelwch drwy weithredu mesurau cynhwysfawr i ddiogelu ein seilwaith digidol a gwybodaeth sensitif. Mae ein gwaith Cloriannu Seiberddiogelwch yn tynnu sylw at y gwaith sylweddol a wnaed i feithrin gwydnwch yn ein seilwaith, gan gynnwys datblygu Cynlluniau Adfer mewn Argyfwng ac Ymateb i Ddigwyddiadau Seiber, a strategaeth wrth gefn gadarn. O ran atebion cynaliadwy ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth, rydym wedi parhau i addysgu staff ar bwysigrwydd diogelu data, arferion da o ran seiberddiogelwch, ac arferion cyfrinair diogel. Rydym wedi sicrhau bod hyfforddiant diogelu data ac ymwybyddiaeth seiberddiogelwch yn orfodol ar gyfer yr holl staff ac yn parhau i gynnal ymarferion seiber i brofi ein cynlluniau ymateb i ddigwyddiadau. Mae ein grŵp Llywodraethu Gwybodaeth a Seiber yn chwarae rôl hanfodol wrth sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol, rheoli data'n ddiogel ac yn effeithlon, a diogelu'r Cyngor a'i weithwyr. Rydym hefyd wedi cymryd rhan mewn ymarferion efelychu Seiber i wella ein	Rydym wedi parhau i gryfhau ymagwedd y Cyngor at seiberddiogelwch a llywodraethu gwybodaeth, gan adeiladu ar sylfeini cynharach a symud tuag at sefyllfa fwy aeddfed a sicr. Mae ein gwydnwch seiberddiogelwch wedi'i wella drwy ddatblygu a phrofi Cynlluniau Adfer mewn Argyfwng ac Ymateb i Ddigwyddiadau Seiber yn barhaus, gyda ffocws cryf ar systemau a gwasanaethau hanfodol. Mae'r trefniadau hyn bellach yn cael eu profi drwy ddigwyddiadau efelychu, ymarferion parhad, ac adolygiadau ar ôl digwyddiadau i sicrhau eu bod yn effeithiol ac yn cael eu deall. Mae sicrwydd o ran camau wrth gefn ac adfer hefyd wedi'i gryfhau, gan gynnwys profion wedi'u targedu ar gyfer systemau risg uchel. Rydym wedi parhau i gymryd rhan mewn ymarferion seiber rhanbarthol a chenedlaethol, gan gynnwys gweithgaredd dan arweiniad y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol a sicrwydd seiber sy'n

Diweddariad ar Faterion Llywodraethu a Nodwyd yn Natganiad Llywodraethu Blynnyddol 2023/24				
Cyf	Y Mater	Swyddog cyfrifol	Camau Gweithredu/Cynnydd	Statws
			seiberwydnwch a'n haeddfedrwydd. Mae Canolfan Gweithrediadau Diogelwch Cymru, yr ydym wrthi'n ymuno â hi ar hyn o bryd, yn cynnig dull canolog a chydgyssylltiedig o ymdrin â seiberddiogelwch, gan amddiffyn y sefydliadau sy'n aelodau ledled sector cyhoeddus Cymru yn gadarn yn erbyn seiberfygythiadau. Yn olaf, mae'r Fframwaith Asesu Seiber, yr ydym yn ei roi ar waith ar hyn o bryd, yn ein helpu i asesu a gwella ein harferion seiberddiogelwch.	gysylltiedig ag etholiadau, gan helpu i godi ymwybyddiaeth sefydliadol o fygythiadau sy'n dod i'r amlwg ac atgyfnerthu atebolrwydd arweinyddiaeth ar gyfer risg seiber a pharhad gwasanaethau. Mae'r cam cynefino â Chanolfan Gweithrediadau Diogelwch Cymru (SOC) wedi'i gwblhau, gan ddarparu gwell trefniadau monitro bygythiadau a rennir a chanfod digwyddiadau ar draws sector cyhoeddus Cymru. Mae'r gwaith o weithredu'r Fframwaith Asesu Seiber wedi symud ymlaen yn ystod y cyfnod hwn, gyda mwy o ffocws ar aeddfedrwydd canfod, ymateb ac adfer. Mae'r fframwaith hwn bellach yn cael ei ddefnyddio fel trywydd gweithredu strwythuredig i flaenoriaethu gwelliannau a dangos cynnydd parhaus yn dilyn canfyddiadau Archwilio Cymru. Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi parhau i sefydlu arferion llywodraethu gwybodaeth cynaliadwy, cefnogi hyfforddiant diogelu data a seiberddiogelwch gorfodol ar gyfer yr holl staff, gwella'r trefniadau monitro o ran cwblhau hwn, a datblygu canllawiau wedi'u

Diweddariad ar Faterion Llywodraethu a Nodwyd yn Natganiad Llywodraethu Blynnyddol 2023/24					
Cyf	Y Mater	Swyddog cyfrifol	Camau Gweithredu/Cynnydd		Statws
					targedu ar gyfer rolau risg uwch. Mae gweithgaredd ymwybyddiaeth, ymarferion gwe-rwydo ac ymgysylltu lefel gwasanaeth yn parhau i gryfhau arferion da o ran seiberddiogelwch a diogelu data. Mae'r Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth a Seiber yn parhau i ddarparu goruchwyliaeth effeithiol, gan sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth, cefnogi camau archwilio, adolygu digwyddiadau, a hyrwyddo gwelliant parhaus ar draws seiberddiogelwch a llywodraethu gwybodaeth. Yn gyffredinol, mae'r camau hyn yn dangos cynnydd parhaus wrth sefydlu seiberddiogelwch a llywodraethu gwybodaeth fel cyfrifoldebau sefydliadol craidd, gyda gwell sicrwydd, gwydnwch a chynaliadwyedd.

Diweddariad ar faterion llywodraethu a nodwyd yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2024/25					
Cyf	Y Mater	Swyddog cyfrifol	Camau Gweithredu/Cynnydd		Statws
B: Bod yn agored ac ymgysylltu					
DLIB 2024/25 Rhif 2 PIMS 19555	Datblygu a gwella'r modd y caiff gwybodaeth am berfformiad ei rhannu.	Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth	Mawrth 2026	Gwaith o fewn ac ar draws gwasanaethau yn cael ei wneud i sicrhau bod mwy o ddealltwriaeth ar draws y Cyngor o faterion perfformiad allweddol a phwysau. Mae adroddiadau arsylwadau chwarterol yn parhau i gael eu croesawu, ac mae'r gwaith yn parhau i wella ehangder y wybodaeth sy'n cael ei chynnwys. Bu ffocws arbennig ar gynnwys rhagor o wybodaeth o safbwynt defnyddwyr gwasanaeth. O ran gwybodaeth i'r cyhoedd, bydd y Rheolwr Dealltwriaeth Data a Pherfformiad yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn y tîm Marchnata a'r Cyfryngau yn ystod y misoedd nesaf i sicrhau bod gwybodaeth briodol am berfformiad yn cael ei chynnwys mewn erthyglau perthnasol mewn llythyrau newyddion i'r cyhoedd.	Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan weithgarwch sy'n gysylltiedig â Strategaeth Gynnwys y Cyngor. Mae'r gwaith i adolygu'r tudalennau rheoli perfformiad i'r cyhoedd yn parhau ac mae diweddariadau wedi'u cynllunio ar gyfer y misoedd nesaf i gyd-fynd â diweddaru'r Fframwaith Rheoli Perfformiad. Mae cynnydd da yn cael ei wneud o ran delweddu a chyflwyno data drwy'r adroddiad blynyddol a chynnwys y wefan. Bydd y gwaith hwn yn parhau ond mae'r dull bellach wedi'i sefydlu'n dda gyda ffocws ar sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn cael ei rhannu mewn ffordd ystyrlon. Mae datblygiadau dangosfwrdd ar y gweill i sicrhau bod gwybodaeth allweddol am berfformiad ar gael yn fewnol i ymholi mewn amser real ac mewn ffordd integredig. Bydd hyn yn cynyddu'r ddealltwriaeth o faterion perfformiad allweddol a phwysau ar draws y Cyngor.

Diweddariad ar Faterion Llywodraethu a Nodwyd yn Natganiad Llywodraethu Blynnyddol 2024/25					
Cyf	Y Mater	Swyddog cyfrifol	Camau Gweithredu/Cynnydd		Statws
C: Gwneud gwahaniaeth / D: Sicrhau ein bod yn cyflawni'r hyn y mae'n fwriad gennym ei wneud					
DLIB 2024/25 Rhif 3 PIMS 19551	Datblygu Cyfres Ddata Gorfforaethol y Cyngor ymhellach i'w defnyddio i gefnogi'r gwaith o reoli perfformiad yn erbyn y Strategaeth Gorfforaethol a meysydd polisi allweddol	Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth	Medi 2025 Diwedd arwyd: Mawrth 2026	Cam 1 o ddatblygu'r Gyfres Ddata Gorfforaethol wedi'i gwblhau.	Yn dilyn penodi Rheolwr Perfformiad Strategol, mae cam 2 ar waith ar hyn o bryd gyda ffocws ar sicrhau bod y wybodaeth yn cefnogi gwaith monitro yn erbyn ein Strategaeth Gorfforaethol a meysydd polisi allweddol eraill. Bu oedi o ran y cynnydd oherwydd capasiti staff, ond mae'r gwaith bellach yn mynd rhagddo a bydd cyfres ddata wedi'i diweddarau ar gael erbyn Mehefin 2026 i'w hystyried a'i datblygu ymhellach. Bydd profion cychwynnol o'r gyfres ddata wedi'i diweddarau yn cael eu cynnal ym mis Mehefin 2026 gydag adborth ar gynnwys, golwg a hwylustod defnyddio i lywio'r camau nesaf.
D: Sicrhau ein bod yn cyflawni'r hyn y mae'n fwriad gennym ei wneud					
DLIB 2024/25 Rhif 6 Cyf. PIMS: 19565	Cynnal yr Asesiad Perfformiad gan Banel ar gyfer Sir Gaerfyrddin ac ymateb i'r canfyddiadau	Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth	Mawrth 2026	Hwyluswyd yr Asesiad Perfformiad gan Banel ym mis Mehefin 2025 ac mae'r adroddiad terfynol wedi dod i law. Cynhaliwyd Asesiad Perfformiad gan Banel Sir Gaerfyrddin rhwng 10 a 13 Mehefin 2025. Cafwyd yr adroddiad terfynol ym mis Medi a pharatôdd y Cyngor ei ymateb i'r argymhellion. Cafodd yr adroddiad a'r ymateb eu hystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Rhagfyr 2025 cyn cael eu cymeradwyo gan y Cabinet ym mis Ionawr 2026 a'r Cyngor Llawn ym mis Chwefror 2026.	Bydd y Cabinet yn derbyn adroddiadau cynnydd ynghylch yr argymhellion ac mae gweithgarwch yn cael ei fonitro drwy'r System Monitro Perfformiad a Gwella.

Materion Llywodraethu a Nodwyd yn Natganiad Llywodraethu Blynnyddol 2024/25					
Cyf	Y Mater	Swyddog cyfrifol	Camau Gweithredu/Cynnydd		Statws
F: Rheoli risg, perfformiad a chyllid					
DLIB 2024/25 Rhif 7 Cyf. PIMS: 19564	Profi cynlluniau parhad busnes.	Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol / Prif Swyddog Digidol	Mawrth 2026	Ffug ddigwyddiadau seiber wedi'u cynnal gyda'r bwriad o adolygu digonolrwydd cynlluniau parhad busnes: - Tîm Rheoli Corfforaethol / Penaethiaid Gwasanaeth - Mehefin 2025 - Rheolwyr Cymunedau – Gorffennaf 2025 - Tîm Uwch-reolwyr / Tîm Rheoli Adrannol y Gwasanaethau Corfforaethol - Medi 2025 - Rheolwyr Addysg – Tachwedd 2025 - Lle, Seilwaith a Datblygu Economaidd Gwasanaethau Etholiadol	Adran y Prif Weithredwr i gyflawni hyn. Bydd cynllun ar gyfer rhaglen ymarfer barhaus yn cael ei ddatblygu yn y dyfodol.
DLIB 2024/25 Rhif 8 Cyf. PIMS: 19563 19576 19577	Cynllunio Ariannol Tymor Canolig - angen gwneud gwaith pellach ar alinio â'r Strategaeth Drawsnewid a'r Strategaeth Gorfforaethol	Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol / Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth / Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol	Mawrth 2026	Argymhelliad allweddol o adroddiad yr Asesiad Perfformiad gan Banel. Mae cynllun datblygu ar waith gyda'r nod o ddatblygu strategaeth ariannol tymor canolig erbyn mis Mawrth 2026 ynghyd â gwaith parhaus pellach ar adolygu'r Strategaeth Drawsnewid a'r Strategaeth Gorfforaethol ar ôl hynny yn y cyfnod hyd at 2027.	Bu oedi o ran cynnydd ond mae Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol a'r Rheolwr Polisi a Pherfformiad Corfforaethol bellach yn symud hwn yn ei flaen gyda'r bwriad o gael y drafft cyntaf yn barod erbyn mis Medi 2026. Mae'r cysylltiadau â Thrawsnewid a Chynllunio Corfforaethol wedi'u sefydlu'n dda a byddant yn cael eu symud ymlaen er mwyn iddynt lywio'i gilydd. Mae amserlen ar gyfer datblygu bellach ar waith.

ATODIAD 3

Materion Llywodraethu – Camau Gweithredu a Gwblhawyd

DLIB 2021/22 Rhif 1	Datblygu strategaeth recriwtio a chynllun gweithlu ochr yn ochr â chyflwyno meddalwedd recriwtio newydd i sicrhau y gellir symleiddio a chynnal y gwasanaeth recriwtio.	Rheolwr Gwasanaethau Pobl	Mawrth 2023	Mae system recriwtio ar waith ac mae holl recriwtwyr Cyngor Sir Caerfyrddin wedi'u gosod arni. Nid yw rhai ysgolion wedi cofrestru eto felly mae gwaith yn mynd rhagddo i annog pawb i ddefnyddio'r system newydd. Ni fydd unrhyw system arall ar gael ar ôl mis Mawrth 2025. Mae prosesau recriwtio yn parhau i gael eu mireinio ac mae hyfforddiant yn cael ei ddarparu. Mae gwaith ymgynghori yn dechrau ynghylch strategaeth a gofynion recriwtio'r Cyngor yn y dyfodol. Mae'r system recriwtio newydd wedi'i sefydlu ac mae'r holl reolwyr recriwtio (gan gynnwys ysgolion) wedi'u gosod arni. Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Cabinet wedi cytuno ar y Strategaeth Recriwtio. Bydd y strategaeth recriwtio yn arwain y blaenoriaethau recriwtio ar gyfer y 2-3 blynedd nesaf. Cwblhawyd
DLIB 2021/22 Rhif 4	Datblygu cynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori ar gyfer yr awdurdod lleol.	Rheolwr Marchnata a'r Cyfryngau Rheolwr Polisi Corfforaethol, Perfformiad a Phartneriaeth	Mawrth 2023	Cwblhawyd Cymeradwywyd Strategaeth Gynnwys y Cyngor gan y Cabinet ym mis Ebrill 2025.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023/24 a 2024/25 - Materion Llywodraethu - Cwblhawyd					
Cyf	Y Mater	Swyddog cyfrifol	Camau Gweithredu/Cynnydd		Statws
A: Uniondeb a Gwerthoedd					
DLIB 2024/25 Rhif 1	Dylai Cadeirydd neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau barhau i fynychu cyfarfodydd y Fforwm a rhannu arferion gorau gyda gweddill y pwyllgor.	Swyddog Monitro	Mawrth 2026	Mae Cadeirydd (neu Is-gadeirydd) y Pwyllgor Safonau yn parhau i fynychu'r cyfarfodydd hyn ac mae'r agenda a'r cofnodion yn cael eu rhannu gydag aelodau'r pwyllgor.	Cwblhawyd – Tachwedd 2025
D: Sicrhau ein bod yn cyflawni'r hyn y mae'n fwriad gennym ei wneud					
DLIB 2024/25 Rhif 4 PIMS 19567	Parhau i wella'r defnydd o wybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau i lywio Adroddiadau Monitro Rheoli Perfformiad chwarterol	Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth	Mawrth 2026	Canolbwyntio ar gynnwys amrywiaeth ehangach o wybodaeth o safbwynt defnyddwyr gwasanaeth.	Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan weithgarwch sy'n gysylltiedig â 'Strategaeth Gynnwys' newydd y Cyngor. Mae'r trefniadau ar gyfer paratoi adroddiadau arsylwadau perfformiad chwarterol bellach wedi'u sefydlu'n dda ac yn parhau i ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth ar draws y Cyngor a ffynonellau eraill. Bydd hyn yn cael ei adolygu'n barhaus gyda'r bwriad o'i ddatblygu ymhellach yn ôl yr angen. Bellach wedi dod yn fusnes craidd
DLIB 2024/25 Rhif 5 PIMS 19566	Datblygu'r Gyfres Ddata Gorfforaethol i gefnogi'r Strategaeth Gorfforaethol ar gyfer 2022-2027 a meysydd polisi allweddol	Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth	Mawrth 2026	Cam 1 o ddatblygu'r Gyfres Ddata Gorfforaethol wedi'i gwblhau.	Yn dilyn penodi Rheolwr Perfformiad Strategol, mae cam 2 ar waith ar hyn o bryd gyda ffocws ar sicrhau bod y wybodaeth yn cefnogi gwaith monitro yn erbyn ein Strategaeth Gorfforaethol a meysydd polisi allweddol eraill. Sylwer: Mae hyn eisoes wedi'i gwmpasu gan Gam Gweithredu 2024/25 Rhif 3 – bydd y cam gweithred hwn yn cael ei gau.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023/24 a 2024/25 - Materion Llywodraethu - Cwblhawyd					
Cyf	Y Mater	Swyddog cyfrifol	Camau Gweithredu/Cynnydd		Statws
G: Tryloywder ac atebolrwydd da					
DLIB 2024/25 Rhif 9	Adolygu effeithiolrwydd dangosyddion perfformiad newydd a gyflwynwyd yn 2022/23 i sicrhau bod y nod o helpu'r gwasanaeth i ddod yn fwy effeithlon yn cael ei wireddu. Adolygu canlyniadau'r arolygon i helpu i wella gwasanaethau.	Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol	Rhagfyr 2025	Dangosyddion wedi'u sefydlu a bellach wedi'u hymgorffori. Adroddir arnynt yn chwarterol drwy'r System Monitro Perfformiad a Gwella. Wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.	CWBLHAWYD
DLIB 2024/25 Rhif 10	Sicrhau bod Archwilio Mewnol yn cydymffurfio â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang newydd yn Sector Cyhoeddus y DU, a ddisodlodd Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, o 1 Ebrill 2025 ymlaen.	Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol	Mawrth 2026	Strategaeth wedi'i drafftio a'i chymeradwyo gan y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Siarter Archwilio Mewnol wedi'i diweddarau a'i chymeradwyo gan y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Dull archwilio mewnol wedi'i adolygu, a thempledi wedi'u diweddarau i gynnwys unrhyw feysydd penodol na chawsant eu cynnwys. Gweithdy wedi'i drefnu i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ddeall eu rôl a chynnal eu hunanasesiad ym mis Rhagfyr 2025	CWBLHAWYD

Datganiad Llywodraethu Blynnyddol 2023/24 a 2024/25 - Materion Llywodraethu - Cwblhawyd					
Cyf	Y Mater	Swyddog cyfrifol	Camau Gweithredu/Cynnydd		Statws
Bod yn agored ac ymgysylltu					
DLIB 2023/24 Rhif 3	Strategaeth gynnwys i gael ei datblygu, gyda'r bwriad o wneud ein hymgyngoriadau yn fwy effeithiol.	Marchnata a'r Cyfryngau Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth	Ionawr 2025	Strategaeth Gynnwys wedi'i drafftio	Cymeradwywyd Strategaeth Gynnwys y Cyngor gan y Cabinet ym mis Ebrill 2025. CWBLHAWYD – Tachwedd 2025
DLIB 2023/24 Rhif 4	Datblygu a gwella'r modd y caiff gwybodaeth am berfformiad ei rhannu.	Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth	Mawrth 2025	Gwaith parhaus o fewn ac ar draws gwasanaethau yn cael ei wneud i sicrhau bod mwy o ddealltwriaeth ar draws y Cyngor o faterion perfformiad allweddol a phwysau. Mae'r gwaith ar wybodaeth i'r cyhoedd wedi bod yn gyfyngedig oherwydd capasiti staff ac adnoddau i'w datblygu.	Mae adroddiadau arsylwadau chwarterol yn parhau i gael eu croesawu, ac mae'r gwaith yn parhau i wella ehangder y wybodaeth sy'n cael ei chynnwys. Bu ffocws arbennig ar gynnwys rhagor o wybodaeth o safbwynt defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r gwaith i adolygu'r tudalennau rheoli perfformiad i'r cyhoedd yn parhau ac mae diweddariadau wedi'u cynllunio ar gyfer y misoedd nesaf. CAEWYD – DISODLWYD YR UCHOD GAN DLIB 2024/25 RHIF 4
DLIB 2023/24 Rhif 5	Gwella'r defnydd o wybodaeth am gwynion a sut y caiff y wybodaeth ei monitro er mwyn cefnogi dysgu a gwella gwasanaethau, ar gyfer cwynion Corfforaethol a rhai'n ymwneud â Gofal Cymdeithasol.	Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth	Mawrth 2025	Gwaith parhaus ond mae crynodebau misol ar ddata cwynion bellach yn cael eu rhannu â Chyfarwyddwyr. Mae trefniadau ar gyfer dangosfwrdd Cwynion Corfforaethol ar fin cael eu cwblhau a bydd yn darparu data 'byw' ar gyfer adrannau.	Mae'r dangosfwrdd data cwynion wedi'i gwblhau. Mae penodi Swyddog Rheoli Cwynion ym mis Mehefin 2025 wedi gweld ffocws ar reoli cwynion ac ar amserlenni ymateb. O ganlyniad, mae mwy o allu yn y tîm i ddadansoddi a pharatoi adroddiadau tueddiadau ar gyfer gwasanaethau yn seiliedig ar ddata a gwybodaeth a gesglir gan y tîm. Cwblhawyd.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023/24 a 2024/25 - Materion Llywodraethu - Cwblhawyd					
Cyf	Y Mater	Swyddog cyfrifol	Camau Gweithredu/Cynnydd		Statws
				Mae adroddiadau perfformiad chwarterol i'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn rhoi trosolwg o feysydd allweddol lle mae pwysau o ran cwynion ac mae'r Ffrwd Waith Trawsnewid - Dylunio a Gwella Gwasanaethau yn bwriadu adolygu data cwynion yn barhaus.	
DLIB 2023/24 Rhif 6	Sicrhau bod Cynllun Cyfathrebu'r Cyngor yn cyd-fynd â'r Strategaeth Gorfforaethol newydd a'r Amcanion Llesiant.	Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth Marchnata a'r Cyfryngau	Medi 2024	Mae gwaith ar y gweill ond mae angen aliniad pellach i sicrhau bod pob cyfle yn cael ei symud ymlaen o ran perfformiad a chyfathrebu.	Mae'r Rheolwr Dealltwriaeth Data a Pherfformiad bellach yn mynychu cyfarfodydd Blaengynllun Gwaith Marchnata a'r Cyfryngau i sicrhau aliniad pellach a chyfeiriad at y Strategaeth Gorfforaethol a gwybodaeth rheoli perfformiad yn fwy cyffredinol yng nghyfathrebiadau'r Cyngor yn y dyfodol. Cwblhawyd.
Gwneud gwahaniaeth					
DLIB 2023/24 Rhif 7	Cyflwyno Cyfres Ddata Gorfforaethol y Cyngor i'w defnyddio i gefnogi'r gwaith o reoli perfformiad yn erbyn y Strategaeth Gorfforaethol a meysydd polisi allweddol	Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth	Medi 2024	Mae Dangosfwrdd/Cyfres Ddata Gorfforaethol wedi'i datblygu ond mae capasiti staff a materion adnoddau yn golygu nad yw wedi'i defnyddio llawer hyd yn hyn.	Mae datblygiad pellach wedi'i gynllunio ar ôl recriwtio Rheolwr Perfformiad Strategol newydd. CAEWYD - DISODLWYD GAN DLIB 2024/25 RHIF 5

Datganiad Llywodraethu Blynnyddol 2023/24 a 2024/25 - Materion Llywodraethu - Cwblhawyd					
Cyf	Y Mater	Swyddog cyfrifol	Camau Gweithredu/Cynnydd		Statws
Rheoli risg, perfformiad a chyllid					
DLIB 2023/24 Rhif 11	Parhau i ddatblygu trefniadau rheoli risg a'u gwella, drwy adrodd am risgiau.	Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol	Mawrth 2025	Strategaeth Rheoli Risg wedi'i hadolygu a'i diweddarau	Cyflwynwyd adroddiad i'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mawrth 2026. Mae'r cam gweithredu oedd yn gysylltiedig ag argymhellion rheoli risg blaenorol Archwilio Cymru bellach wedi'i gau. Mae Archwilio Cymru wedi cadarnhau bod yr argymhellion yn eu hadroddiad diweddaraf yn disodli'r rhai a gyhoeddwyd yn gynharach. Mae'r argymhellion a ddiweddarwyd wedi'u hychwanegu at y System Monitro Perfformiad a Gwella i'w monitro'n barhaus, ac felly mae'r camau cynharach wedi'u cwblhau'n ffurfiol.

4 ADRODDIAD ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU I AELODAU CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyngor Sir Caerfyrddin yn cynnwys y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid, y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod, y Symudiad ar y Datganiad Cyfrif Refeniw Tai a Datganiad Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiâu cyfrifyddu arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd ac a'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025-26.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Caerfyrddin ar 31 Mawrth 2026 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd ac a'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025-26.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Cyrff y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm hadroddiad sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau yn annibynnol ar Gyngor Sir Caerfyrddin yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Cyngor Sir Caerfyrddin i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o 12 mis o leiaf o'r adeg pan awdurdodir cyhoeddiad y datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol heblaw'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilydd arnynt. Y Swyddog Ariannol Cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmparu'r wybodaeth arall ac, oni nodir fel arall yn glir yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o sicrwydd ynghylch hynny.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn berthnasol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu ei bod yn ymddangos fel arall ei bod wedi ei chamddatgan yn berthnasol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol amlwg, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith a wnaed gennyf, yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi ei chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025-26;
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethiant ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratwir y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r canllawiau.

Materion y byddaf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Gyngor Sir Caerfyrddin a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethiant.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad ichi arnynt, os, yn fy marn i:

- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- nid oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw, neu ni dderbyniwyd ffurflenni cyfrifyddu digonol ar gyfer fy archwiliad oddi wrth y canghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â nhw;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu.

Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol mewn cysylltiad â'r datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am y canlynol:

- paratoi'r datganiad o gyfrifon, sy'n rhoi darlun gwir a theg ac yn cydymffurfio ag arferion priodol;
- cynnal cofnodion cyfrifyddu priodol;
- rheolaethau mewnol fel y mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn penderfynu sy'n angenrheidiol fel y gellir paratoi datganiadau o gyfrifon sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall;
- asesu gallu Cyngor Sir Caerfyrddin i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail busnes gweithredol cyfrifyddu oni bai fod y swyddog ariannol cyfrifol yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Gyngor Sir Caerfyrddin yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch pa un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) bob tro yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid yn rhesymol disgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwyf yn dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau a amlinellir uchod, er mwyn canfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi rheolwyr, Archwiliad Mewnol Cyngor Sir Caerfyrddin a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Cyngor Sir Caerfyrddin sy'n ymwneud â'r canlynol:
 - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio
 - canfod ac ymateb i risgiau o dwyll a pha un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig;
 - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, canfûm botensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: rheoli a phostio dyddlyfrau anarferol.
- Cael dealltwriaeth am fframwaith awdurdod Cyngor Sir Caerfyrddin yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a

gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyngor Sir Caerfyrddin.

- Cael dealltwriaeth am berthnasoddd partïon cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau y datganiad ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymglyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Cyngor;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll yn sgil rheolwyr yn diystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso'r sail resymegol busnes unrhyw drafodiadau arwyddocaol sy'n anarferol neu'r tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreolaidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cyngor Sir Caerfyrddin a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilydd.

Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu canfod yn ystod fy archwiliad.

Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Sir Caerfyrddin yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Catherine Mealing-Jones
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Dyddiad: 29 Medi 2026

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd,
CF10 4BZ

Cyfrifoldeb Cyngor Sir Caerfyrddin yw cynnal a sicrhau cywirdeb ei wefan; nid yw'r gwaith a gyflawnir gan yr archwilydd yn cynnwys ystyried y materion hynny, felly nid yw'r archwilydd yn derbyn dim cyfrifoldeb am unrhyw newidiadau posibl i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno'n wreiddiol ar y wefan.

5 DATGANIADAU CYLLIDOL

Mae'r datganiadau cyllidol yn cynnwys y canlynol:

5.1 DADANSODDIAD GWARIANT A CHYLLID

Mae'r Dadansoddiad Gwariant a Chyllid yn dangos sut mae'r gwariant blynyddol yn cael ei ddefnyddio a'i gyllido o adnoddau (grantiau'r llywodraeth, rhenti a'r dreth gyngor) gan awdurdodau lleol o gymharu â'r adnoddau hynny a ddefnyddir neu a enillir gan awdurdodau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Hefyd mae'n dangos sut mae'r gwariant hwn yn cael ei ddyrannu rhwng adrannau'r Cyngor at ddibenion gwneud penderfyniadau. Caiff incwm a gwariant y cyfrifir amdanynt o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol eu cyflwyno'n fwy llawn yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

5.2 Y DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Mae'r datganiad hwn yn dangos y gost cyfrifyddu yn ystod y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â'r arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn hytrach na'r swm sydd i'w ariannu o'r trethiant. Bydd Awdurdodau yn codi'r trethiant i dalu am wariant yn unol â'r rheoliadau: gallai hyn fod yn wahanol i'r gost cyfrifyddu. Dangosir sefyllfa'r trethiant yn y Dadansoddiad Gwariant a Chyllid a'r Datganiad Symudiadau yng Nghronfeydd.

5.3 DATGANIAD AM Y SYMUDIADAU YNG NGHRONFEYDD YR AWDURDOD

Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiadau yn ystod y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd sydd gan yr Awdurdod. Maen nhw wedi'u dadansoddi yn ôl 'cronfeydd defnyddiadwy' (hynny yw cronfeydd y gellir eu defnyddio ar gyfer gwariant neu i leihau trethi lleol) a chronfeydd eraill. Mae'r Datganiad yn dangos sut mae symudiadau blwyddyn cronfeydd yr Awdurdod wedi'u rhannu'n enillion a cholledion yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol a'r addasiadau statudol sydd eu hangen i ddychwelyd y cyfrifon i'r symiau oedd yn daladwy i'r dreth gyngor a rhenti preswylfeydd am y flwyddyn. Mae'r llinell Cynnydd/Gostyngiad Net yn dangos Balans statudol Cronfa'r Cyngor a symudiadau Balans y Cyfrif Refeniw Tai yn ystod y flwyddyn yn dilyn yr addasiadau hyn.

5.4 Y FANTOLEN

Mae'r Fantolen yn dangos gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau sydd gan yr Awdurdod ar ddyddiad y fantolen. Mae asedau net yr Awdurdod (hynny yw, yr asedau namyn y rhwymedigaethau) yn cyfateb i'r cronfeydd sydd gan yr Awdurdod. Mae dau ddosbarth o gronfeydd. Y dosbarth cyntaf yw'r cronfeydd defnyddiadwy, hynny yw, y cronfeydd y gall yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae angen bod yn ddarbodus wrth dynnu o'r cronfeydd a thalu sylw i unrhyw gyfyngiadau statudol ar y defnydd sydd i'w wneud ohonynt (e.e. y Cronfeydd Cyfalaf na cheir eu defnyddio ond ar gyfer gwariant cyfalaf neu i ad-dalu dyled). Yn yr ail ddosbarth mae'r cronfeydd hynny *na* all yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Yn eu plith mae cronfeydd sydd ag enillion neu golledion ar bapur yn unig (e.e. y Gronfa Ailbrisiad), lle byddai'r symiau ond ar gael i ddarparu gwasanaethau pe byddai'r asedau'n cael eu gwerthu; a chronfeydd sydd â'r gwahaniaethau amseru a ddangosir yn y llinell 'Addasiadau rhwng y sail cyfrifyddu a'r sail ariannu yn unol â'r rheoliadau' yn y Datganiad Symudiadau yng Nghronfeydd yr Awdurdod.

5.5 Y DATGANIAD LLIF ARIAN

Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y newidiadau yn arian parod ac arian cyfwerth yr Awdurdod yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut mae'r Awdurdod yn creu ac yn defnyddio arian ac adnoddau cyfwerth ag arian drwy ddosbarthu'r llif arian yn weithgareddau gweithredol, buddsoddi ac ariannu.

5.1 DADANSODDIAD GWARIANT A CHYLLID

	Y gwahaniaeth rhwng (Gwarged)/Diffyg Cronfa'r Cyngor (CC) a'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) a (Gwarged)/Diffyg y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		
	Gwariant Net a chodir ar y CC a'r CRT £'000	Cyfanswm Addasiadau £'000	Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr £'000
Adran			
Prif Weithredwr	5,901	432	6,333
Addysg a Hamdden	202,306	27,381	229,687
Gwasanaethau Corfforaethol	22,898	18,900	41,798
Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai	166,863	982	167,845
Lle, Seilwaith & Datblygiad Economaidd	74,250	9,371	83,621
Cyfrif Refeniw Tai	(11,090)	49,085	37,995
Yswiriant a Chorfforaethol	4,277	(3,617)	660
Cost Net y Gwasanaethau	465,405	102,534	567,939
Incwm a Gwariant Arall	(467,392)	(49,076)	(516,468)
(Gwarged)/Diffyg cyn trosglwyddo i/(o'r) Cronfeydd a Glustnodwyd	(1,987)	53,458	51,471
Trosglwyddiadau i/(o'r) Cronfeydd a Glustnodwyd	3,512		
(Gwarged)/Diffyg ar ôl trosglwyddo i/(o'r) Cronfeydd a Glustnodwyd	1,525		
Balans CC a CRT ar 31ain Mawrth 2025:	(28,191)		
(Gwarged)/Diffyg	1,525		
Balans CC a CRT ar 31ain Mawrth 2026:	(26,666)		

2024-25

Adran			
Prif Weithredwr	5,572	884	6,456
Addysg a Hamdden*	188,351	41,022	229,373
Gwasanaethau Corfforaethol	27,024	(1,640)	25,384
Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai*	155,468	3,657	159,125
Lle, Seilwaith & Datblygiad Economaidd	72,177	26,316	98,493
Cyfrif Refeniw Tai	(11,150)	21,447	10,297
Yswiriant a Chorfforaethol	12,449	(11,765)	684
Cost Net y Gwasanaethau	449,891	79,921	529,812
Incwm a Gwariant Arall	(442,889)	(97,396)	(540,285)
(Gwarged)/Diffyg cyn trosglwyddo i/(o'r) Cronfeydd a Glustnodwyd	7,002	(17,475)	(10,473)
Trosglwyddiadau i/(o'r) Cronfeydd a Glustnodwyd	(9,196)		
(Gwarged)/Diffyg ar ôl trosglwyddo i/(o'r) Cronfeydd a Glustnodwyd	(2,194)		
Balans CC a CRT ar 31ain Mawrth 2024:	(25,997)		
(Gwarged)/Diffyg	(2,194)		
Balans CC a CRT ar 31ain Mawrth 2025:	(28,191)		

* Mae ffigurau 2024/25 wedi'u hailddatgan i adlewyrchu'r newidiadau adrannol a ddigwyddodd yn ystod 2025/26. (Gweler Nodyn 6.47 am fanylion pellach).

Gweler nodyn 6.5 i gael Esboniad o'r addasiadau rhwng gwariant net sy'n daladwy i Gronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai a gwariant net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

5.2 Y DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

2024-25	2024-25	2024-25		2025-26	2025-26	2025-26
Cyfanswm y				Cyfanswm y		
Gwariant	Cyfanswm yr	Cyfanswm y		Gwariant	Cyfanswm yr	Cyfanswm y
Gros	Incwm Gros	Gwariant Net		Gros	Incwm Gros	Gwariant Net
£'000	£'000	£'000		£'000	£'000	£'000
(Ail-ddatgan)	(Ail-ddatgan)	(Ail-ddatgan)				
			Adran			
10,598	(4,142)	6,456	Prif Weithredwr	14,754	(8,421)	6,333
297,141	(67,768)	229,373	Addysg a Hamdden*	294,637	(64,950)	229,687
62,536	(37,152)	25,384	Gwasanaethau Corfforaethol	75,462	(33,664)	41,798
253,053	(93,928)	159,125	Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai*	266,620	(98,775)	167,845
155,803	(57,310)	98,493	Lle, Seilwaith & Datblygiad Economaidd*	139,534	(55,913)	83,621
63,925	(53,628)	10,297	Cyfrif Refeniw Tai	92,694	(54,699)	37,995
682	2	684	Yswiriant a Chorfforaethol	659	1	660
843,738	(313,926)	529,812	Cost Net y Gwasanaethau	884,360	(316,421)	567,939
			Praeseptau ac Ardollau:			
			152 Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog			160
			14,367 Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru			15,185
			151 Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru			151
			8,656 Cyngorau Cymuned			9,729
			25,387 Awdurdod Heddlu Dyfed Powys			27,860
			(298) (Enillion)/colledion ar werthu asedau nad ydynt yn gyfredol			345
			(Gwarged)/Diffyg ar y Gweithgareddau Masnachu na cynhwysir			
			(136) yng Nghost Net y Gwasanaethau		Nodyn 6.6	387
			48,279 Gwariant Gweithredol Arall			53,817
			16,661 Llog i'w Dalu a Chostau Tebyg			16,874
			1,599 Llog net ar y rhywmedigaeth/(ased) buddion diffiniedig net			1,937
			(5,837) Incwm Buddsoddi a Llog			(2,673)
			Incwm a gwariant yng nghyswllt eiddo buddsoddi			
			1,004 a newidiadau yn y gwerth teg		Nodyn 6.11	28,340
			13,427 (Incwm) a Gwariant Cyllido a Buddsoddi			44,478
			(281,597) Grant Cynnal Refeniw		Nodyn 6.35	(307,213)
			(9,178) Grantiau Cyffredinol y Llywodraeth		Nodyn 6.35	(1,399)
			(156,657) Treth y Cyngor		Nodyn 6.7	(173,097)
			(69,050) Enillion Net y Trethi Annomestig		Nodyn 6.8	(68,479)
			(85,509) Grantiau a chyfraniadau cyfalaf		Nodyn 6.35	(64,575)
			(601,991) Trethiant ac Incwm Grantiau Amhenodol			(614,763)
			(10,473) (Gwarged)/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau			51,471
			(72,248) (Gwarged) neu Ddiffyg ar ôl ailbrisiu'r asedau Eiddo, Offeriant a Chyfarpar			17,807
			(967) Ailfesur y rhwymedigaeth/(ased) buddion diffiniedig net			7,245
			(73,215) (Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr Arall			25,052
			(83,688) Cyfanswm (Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr			76,523

* Mae ffigurau 2024/25 wedi'u hailddatgan i adlewyrchu'r newidiadau adrannol a ddigwyddodd yn ystod 2025/26. (Gweler Nodyn 6.47 am fanylion pellach).

5.3 DATGANIAD AM Y SYMUDIADAU YNG NGHRONFEYDD YR AWDURDOD

	Balans Cronfa'r Cyngor	Cronfeydd Wrth Gefn sydd wedi'u Clustnodi	Cyfrif Refeniw Tai	Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf	Gronfa Grantiau Cyfalaf Heb eu Defnyddio	CYFANSWM CRONFEYDD Y GELLIR EU DEFNYDDIO	Cronfeydd na ellir eu defnyddio	CYFANSWM CRONFEYDD YR AWDURDOD
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Balans ar 31 Mawrth 2024	(14,001)	(135,481)	(11,996)	(15,655)	(15,015)	(192,148)	(1,273,798)	(1,465,946)
Addasiadau wrth drosglwyddo i drefniadau cyfrifyddu newydd ar gyfer prydlesi	(1,482)	0	0	0	0	(1,482)	0	(1,482)
Addasiadau trosiannol rhwng sail gyfrifyddu a sail gyllido	1,482	0	0	0	0	1,482	(1,482)	0
Balans ar 31 Mawrth 2024	(14,001)	(135,481)	(11,996)	(15,655)	(15,015)	(192,148)	(1,275,280)	(1,467,428)
Symudiadau yn y cronfeydd yn ystod 2024/25								
(Gwarged) neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau	(13,795)	0	3,322	0	0	(10,473)	0	(10,473)
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	0	0	0	0	0	0	(73,215)	(73,215)
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(13,795)	0	3,322	0	0	(10,473)	(73,215)	(83,688)
Addasiadau rhwng y sail cyfrifyddu a'r sail ariannu yn unol â'r rheoliadau (nodyn 6.4)	17,402	0	73	3,422	(8,408)	12,489	(12,489)	0
(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddo i/(o'r) Cronfeydd a Glustnodwyd	3,607	0	3,395	3,422	(8,408)	2,016	(85,704)	(83,688)
Trosglwyddo i/(o'r) Cronfeydd a Glustnodwyd (nodyn 6.22)	(6,858)	9,196	(2,338)	0	0	0	0	0
(Cynnydd)/Gostyngiad yn y fliwyddyn	(3,251)	9,196	1,057	3,422	(8,408)	2,016	(85,704)	(83,688)
Balans ar 31 Mawrth 2025	(17,252)	(126,285)	(10,939)	(12,233)	(23,423)	(190,132)	(1,360,984)	(1,551,116)

	Balans Cronfa'r Cyngor £'000	Cronfeydd Wrth Gefn sydd wedi'u Clustnodi £'000	Cyfrif Refeniw Tai £'000	Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf £'000	Gronfa Grantiau Cyfalaf Heb eu Defnyddio £'000	CYFANSWM CRONFHEYDD Y GELLIR EU DEFNYDDIO £'000	Cronfeydd na ellir eu defnyddio £'000	CYFANSWM CRONFHEYDD YR AWDURDOD £'000
Balans ar 31 Mawrth 2025	(17,252)	(126,285)	(10,939)	(12,233)	(23,423)	(190,132)	(1,360,984)	(1,551,116)
Symudiadau yn y cronfeydd yn ystod 2025/26								
(Gwarged) neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	20,991	0	30,480	0	0	51,471	0	51,471
Arall	0	0	0	0	0	0	25,052	25,052
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	20,991	0	30,480	0	0	51,471	25,052	76,523
Addasiadau rhwng y sail cyfrifyddu a'r sail ariannu yn unol â'r rheoliadau (nodyn 6.4)	(27,523)	0	(25,935)	(887)	11,133	(43,212)	43,212	0
(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddo i/(o'r) Cronfeydd a Glustnodwyd	(6,532)	0	4,545	(887)	11,133	8,259	68,264	76,523
Trosglwyddo i/(o'r) Cronfeydd a Glustnodwyd (nodyn 6.22)	8,287	(3,512)	(4,775)	0	0	0	0	0
(Cynnydd)/Gostyngiad yn y flwyddyn	1,755	(3,512)	(230)	(887)	11,133	8,259	68,264	76,523
Balans ar 31 Mawrth 2026	(15,497)	(129,797)	(11,169)	(13,120)	(12,290)	(181,873)	(1,292,720)	(1,474,593)

5.4 Y FANTOLEN

31/03/25 £'000			31/03/26 £'000
		Nodiadau	
1,638,300	Eiddo, Offeriant a Chyfarpar	6.9	1,559,447
9,714	Asedau Hawl I Ddefnyddio	6.39	7,287
268,994	Asedau Seilwaith	6.9	300,261
2,607	Asedau Treftadaeth	6.10	2,724
24,458	Eiddo Buddsoddi	6.11	34,751
1,009	Buddsoddiadau Tymor Hir	6.12	929
12,331	Dyledwyr Tymor Hir	6.13	18,650
1,957,413	Asedau Tymor Hir		1,924,049
8,997	Buddsoddiadau Tymor Byr	6.14	1,305
1,455	Stocrestrau	6.15	1,721
134,735	Dyledwyr Tymor Byr	6.16	121,417
14,472	Arian Parod ac Arian Cyfwerth	6.17	12,339
159,659	Asedau Cyfredol		136,782
(11,156)	Benthyciadau Tymor Byr	6.18	(15,230)
(107,518)	Credydwyr Tymor Byr	6.19	(112,666)
(1,058)	Darpariaethau	6.20	(1,101)
(119,732)	Rhwymedigaethau Cyfredol		(128,997)
(357)	Darpariaethau	6.20	(320)
(407,239)	Benthyciadau Tymor Hir	6.21	(421,438)
(4,171)	Rhwymedigaethau Tymor Hir Prydlesi		(2,842)
(34,457)	Rhwymedigaethau Tymor Hir Arall*	6.42	(32,641)
(446,224)	Rhwymedigaethau Tymor Hir		(457,241)
1,551,116	Asedau Net		1,474,593
17,252	Cronfa'r Cyngor		15,497
10,939	Cyfrif Refeniw Tai	7.2	11,169
	Cronfeydd Wrth Gefn Cronfa'r Cyngor sydd wedi'u		
128,123	Clustnodi	6.22	139,358
(1,838)	Cronfeydd Cronfa'r Cyngor a ddelir gan ysgolion yn unol â RHYLL	6.22	(9,561)
12,233	Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf	6.23	13,120
23,423	Grantiau Cyfalaf nas Cymhwyswyd	6.24	12,290
190,132	Cronfeydd Defnyddiadwy		181,873
616,456	Cronfa Ailbrisiad	6.25	579,753
786,308	Cyfrif Addasiadau Cyfalaf	6.26	752,567
(496)	Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol		(386)
332	Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig		332
(34,457)	Cronfa Bensiynau	6.27	(32,641)
(7,159)	Cyfrif Absenoldebau Cronedig	6.28	(6,905)
1,360,984	Cronfeydd na ellir eu defnyddio		1,292,720
1,551,116	Cyfanswm Cronfeydd		1,474,593

5.5 Y DATGANIAD LLIF ARIAN

2024-25 £'000	Cysoniad y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r Llif Arian Refeniw Net	Nodyn	2025-26 £'000
(10,473)	(Gwarged)/Diffyg Net ar ddarpariaeth y gwasanaethau	5.2	51,471
	Addasiadau i warged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau ar gyfer symudiadau nad ydynt yn arian parod		
(61,008)	Dibrisiant		(61,564)
(39,181)	Amhariad a phrysiadau disgynol		(64,968)
(1,050)	Symudiad yng nghwerth farchnad eiddo buddsoddi		(28,531)
(1,271)	Addasiadau l'r Gronfa bensiwn		9,061
(52)	Symudiad yn narpriaethau		(6)
(923)	Cludo swm yr asedau anghyfredol a werthwyd		(1,872)
16,035	Symudiadau yn dyledwyr refeniw, credydwyr, stocrestrau ac Symudiadau arall nad yw'n arian parod		(8,708)
	Addasiad ar gyfer eitemau a gynhwysir yn y gwarged neu'r diffyg net ar ddarparu gwasanaethau sy'n buddsoddi ac ariannu gweithgareddau		
1,239	Enillion o werthu eiddo, offer a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniraethol		1,547
85,509	Grantiau Cyfalaf		64,575
(11,175)	Llifoedd Arian Net o'r Gweithgareddau Gweithredol		(38,995)
	GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI		
126,995	Prynu eiddo,offeriant a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniraethol		113,814
833,000	Prynu buddsoddiadau tymor hir a thymor byr		962,000
15,098	Taliadau arall am weithgareddau buddsoddi		19,799
(1,257)	Enillion o werthu eiddo, offeriant a chyfarpar, eiddo buddsoddi a asedau anniraethol		(1,567)
(855,077)	Enillion o buddsoddiadau tymor byr a thymor hir		(969,692)
(68,426)	Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd		(70,139)
50,333	Llif Arian Net o'r Gweithgareddau Ariannu		54,215
	GWEITHGAREDDAU ARIANNU		
(15,000)	Derbyniadau arian parod o fenthycia byr dymor a hirdymor		(30,000)
9,360	Ad-daliadau o fuddsoddiadau byr a hir dymor		11,727
5,230	Taliadau arian parod ar gyfer lleihau'r rhwymedigaethau sy'n ymwneud a phrydlesi ariannol		5,186
(410)	Llif Arian o'r Gweithgareddau Ariannu		(13,087)
38,748	(CYNNYDD)/OSTYNGIAD NET MEWN ARIAN NEU ADNODDAU CYFWERTH AG ARIAN		2,133
53,220	Arian ac adnoddau cyfwerth ag arian ar ddechrau'r cyfnod adrodd	6.17	14,472
14,472	Arian ac adnoddau cyfwerth ag arian ar ddiwedd y cyfnod adrodd	6.17	12,339
(38,748)	CYNNYDD/(OSTYNGIAD) MEWN ARIAN NEU ADNODDAU CYFWERTH AG ARIAN		(2,133)

Mae'r llif arian ar gyfer gweithgareddau gweithredu yn cynnwys yr eitemau canlynol:

2024-25 £'000		2025-26 £'000
16,731	Llog a Dalwyd	16,787
(6,076)	Llog a Dderbyniwyd	(3,481)

6 NODIADAU I'R CYFRIFON

6.1 Datganiad O'r Polisïau Cyfrifydda

Cyffredinol

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion Cyngor Sir Caerfyrddin am flwyddyn ariannol 2025/26 a'i sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, sef 31^{ain} Mawrth 2026.

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi Datganiad o Gyfrifon blyneddol o dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu paratoi yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol. Yn bennaf, defnyddir y Côd Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025/26 a'r Côd Ymarfer Adrodd am Gwasanaeth 2025/26, wedi'u hategu gan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Y confensiwn cyfrifyddu a fabwysiedir yn y Datganiad o Gyfrifon yw, yn bennaf, cost hanesyddol, wedi'i addasu gan ailbrisio rhai categorïau o asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol.

Mae meysydd o fewn y cyfrifon nad ydynt yn cydymffurfio â'r cyhoeddiad uchod wedi'u nodi yn ôl yr angen.

6.1.1 Croniadau Incwm a Gwariant

Rhoddir cyfrif am weithgaredd yn y flwyddyn y mae'n digwydd yn hytrach na phryd y mae arian yn cael ei dalu neu'n cael ei dderbyn. Yn arbennig:

- Caiff reffeniw o werthu nwyddau ei gydnabod pan fo'r Awdurdod yn trosglwyddo risgiau a buddion arwyddocaol perchnogaeth i'r prynwr ac y bo'n debyg y bydd buddion economaidd neu botensial gwasanaeth cysylltiedig â'r trafodyn yn dod i'r Awdurdod.
- Caiff reffeniw o ddarparu gwasanaethau ei gydnabod pan all yr Awdurdod fesur yn ddibynadwy ganran cwblhau'r trafodyn ac y bo'n debyg y bydd buddion economaidd neu botensial gwasanaeth cysylltiedig â'r trafodyn yn dod i'r Awdurdod.
- Cofnodir gwariant ar nwyddau a gyflenwir pan gânt eu defnyddio - os oes bwlch rhwng dyddiad derbyn nwyddau a'r dyddiad defnyddio, fe'u nodir fel Stocrestrau ar y fantolen.
- O ran gwaith, cofnodir gwariant pan yw'n cael ei gwblhau. Cyn hynny, nodir 'cynllun ar waith' ar y Fantolen.
- Caiff treuliau mewn perthynas â gwasanaethau a geir (gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan gyflogeion) eu cofnodi fel gwariant pan geir y gwasanaethau yn hytrach na phan wneir y taliadau.
- Mae'r llog a delir am fenthyciadau ac a dderbynnir yn sgil buddsoddiadau yn cael ei gyfrif ar sail y gyfradd log effeithiol ar gyfer yr offeryn ariannol perthnasol yn hytrach na'r llif arian a bennir neu a benderfynir gan y contract.
- Pan yw'r reffeniw a'r gwariant wedi cael eu cydnabod ond yr arian parod heb ei dderbyn neu ei dalu, bydd y swm perthnasol yn cael ei gofnodi yn y Fantolen fel dyled neu gredyd. Os oes amheuaeth a fydd dyledion yn cael eu talu, nodir balans y dyledwyr a bydd swm sy'n cyfateb i'r incwm na fydd yn cael ei gasglu o bosib yn cael ei gynnwys yn y cyfrif reffeniw.
- Un eithriad i'r egwyddor hon yw pan fydd taliadau reffeniw penodol yn daliadau chwarterol (e.e. trydan, nwy) lle mae'r cyfrifon reffeniw yn cynnwys pedwar taliad.

Mae'r polisi hwn yn cael ei ddefnyddio'n gyson bob blwyddyn ac felly nid yw'n cael effaith materol ar gyfrifon y flwyddyn.

- Bydd incwm a gwariant yn cael eu nodi fel credyd neu ddebyd yng nghyfrif referniw y gwasanaeth perthnasol, oni bai eu bod yn dderbyniadau cyfalaf neu'n wariant cyfalaf.

6.1.2 **Eiddo, Offeriant a Chyfarpar**

Caiff asedau sydd â sylwedd ffisegol ac a ddelir i'w defnyddio i gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, i'w rhentu i eraill, neu at ddibenion gweinyddol, ac y disgwylir iddynt gael eu defnyddio yn ystod mwy nag un flwyddyn ariannol, eu dosbarthu'n Eiddo, Offeriant a Chyfarpar.

Cydnabod: Caiff gwariant ar gaffael, creu neu wella Eiddo, Offeriant a Chyfarpar ei gyfalafu ar sail croniadau, ar yr amod ei bod yn debyg y bydd y buddion economaidd neu botensial gwasanaeth yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â'r eitem yn dod i'r Awdurdod ac y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy. Caiff gwariant sy'n cynnal ond nad yw'n ychwanegu at botensial ased i gyflenwi buddion economaidd neu botensial gwasanaeth yn y dyfodol (h.y. atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw) ei godi fel traul pan y'i gwneir.

Mae'r Cyngor yn cynnal cost de minimis o £10,000 ar gyfer unrhyw ased i'w gyfalafu. Fodd bynnag, pan fo grwpiau o asedau e.e. cyfrifiaduron personol yn cael eu prynu'n unigol yn disgyn yn is na'r lefel de minimis, bydd y rhain yn cael eu hystyried i'w cyfalafu fel grŵp o asedau fesul achos.

Mesur: I ddechrau caiff asedau eu mesur ar gost, sy'n cynnwys y pris prynu a/neu unrhyw wariant y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i roi'r ased mewn cyflwr gweithio at y defnydd a fwriedir iddo.

Mae asedau yn cael eu trosglwyddo i'r fantolen ar y sail a argymhellir gan CIPFA ac yn unol â Safonau Gwerthuso a Phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrffewyr Siartredig (RICS). Mae asedau yn cael eu dosbarthu i'r grwpiau sy'n ofynnol o dan y Côd Ymarfer ar Gyfrifon Awdurdodau Lleol, ar y sail ganlynol:

- seilwaith, asedau cymunedol ac asedau sy'n cael eu hadeiladu – cost hanesyddol dibrisiedig
- aneddiadau – gwerth teg, a bennir gan ddefnyddio sail gwerth defnydd sy'n bodoli ar gyfer tai cymdeithasol
- yr holl asedau eraill – gwerth teg, a bennir fel y swm a fyddai'n cael ei dalu am yr ased gyda'i ddefnydd sy'n bodoli (gwerth defnydd sy'n bodoli).
- Lle na fo tystiolaeth seiliedig ar y farchnad o werth teg oherwydd natur arbenigol ased, defnyddir cost amnewid dibrisiedig i gael amcangyfrif o'r gwerth teg

Ailbrisiadau

Ac eithrio asedau seilwaith ac asedau cymunedol, mae asedau sefydlog yn cael eu hail brisio yn ôl rhaglen dreigl bum mlynedd ac mae unrhyw newid materol mewn gwerth asedau yn cael ei addasu yn y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn y digwydd y cyfryw newid. Mae ailbrisio yn effeithiol o 1 Ebrill bob blwyddyn.

Prisiwyd tir ac adeiladau yn unol â'r methodolegau a'r seiliau amcangyfrif a nodwyd yn safonau proffesiynol Sefydliad Brenhinol y Syrffewyr Siartredig. Seilir prisiadau cerbydau, peiriannau, celfi ac offer ar sail cost hanesyddol wedi'i dibrisio.

Cynhaliwyd prisiadau mewnol gan briswyr yr awdurdod sy'n Gymrodyr Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig.

Mae asedau a geir o dan brydlesau cyllid yn cael eu cyfalafu yng nghyfrifon yr Awdurdod, ynghyd â'r rhwymedigaeth i dalu rhenti yn y dyfodol.

Gwneir credydau i'r gronfa ailbrisio wrth gefn i gyd-fynd â'r cynnydd mewn prisiadau ac i gydnabod enillion sydd heb eu gwireddu. Fel eithriad, gallai enillion gael eu credydu i'r Datganiad Incwm A Gwariant Cynhwysfawr pan fyddant yn codi yn sgil tynnu yn ôl allan golled amharu a roddwyd yn flaenorol ar gyfrif refeniw gwasanaeth.

Mae'r Cyngor yn cynnal gwerthoedd cario Eiddo, Offer a Chyfarpar trwy gyfuniad o ailbrisiadau proffesiynol rheolaidd a gweithdrefnau mynegeo ac adolygu blynyddol lle bo hynny'n briodol. Yn unol â chanllawiau CIPFA, mae'r asesiadau hyn yn ystyried a fu newidiadau materol mewn gwerthoedd asedau ers yr ailbrisiad diwethaf, gan sicrhau bod y symiau cario a nodwyd y Fantolen yn parhau i fod yn adlewyrchiad rhesymol o'r gwerth cyfredol ac nad ydynt yn wahanol yn faterol. Mae asedau'n destun prisiad llawn ar sail dreigl, gyda mynegeo blynyddol yn cael ei gymhwyso yn ystod y blynyddoedd ar ôl hynny lle bo hynny'n briodol. Os ydynt ar gael, defnyddir mynegeion sy'n benodol i'r farchnad ac sy'n berthnasol i'r math o asedau, a hynny'n seiliedig ar ffynonellau data cydnabyddedig.

Ar gyfer 2025/2026, adolygwyd gwerthoedd asedau nad ydynt yn destun ailbrisiad llawn gan ddefnyddio ffactorau mynegeo perthnasol lle roeddent ar gael a barn broffesiynol yn unol â *CIPFA Bulletin 22 – Indexation Application Guidance*. Mae priswyr yn defnyddio'u barn broffesiynol wrth benderfynu priodoldeb mynegeion a ddefnyddir, sy'n cael eu hadolygu'n barhaus.

Nid yw mynegeo'n disodli prisiadau llawn, ond mae'n cael ei ddefnyddio i gynnal gwerthoedd asedau rhwng ailbrisiadau wedi'u trefnu.

Amhariad

Mae asedau'n cael eu hasesu ar ddiwedd pob blwyddyn i benderfynu a oes unrhyw arwydd bod yr ased wedi ei amharu. Lle bo arwyddion yn bodoli ac amcangyfrifir bod unrhyw wahaniaethau posibl yn faterol, amcangyfrifir gwerth adferadwy'r ased a, lle bo hyn yn llai na gwerth cario'r ased, caiff colled amhariad ei chydabod ar gyfer y diffyg.

Lle canfyddir colledion amhariad, cyfrifyddir ar eu cyfer trwy:

- Lle bo balans enillion ailbrisiad ar gyfer yr ased yn y Gronfa Ailbrisiadau, caiff gwerth cario'r ased ei ysgrifennu i lawr yn erbyn y balans hwnnw (hyd at swm yr enillion cronodig).
- Lle na fo balans yn y Gronfa Ailbrisiadau neu falans annigonol, caiff gwerth cario'r ased ei ysgrifennu i lawr yn erbyn y llinell wasanaeth berthnasol / llinellau gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- Lle bo colled amhariad yn cael ei gwrthdroi yn ddiweddarach, mae'r gwrthdroad yn cael ei gredydu i'r llinell wasanaeth berthnasol / llinellau gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, hyd at swm y golled wreiddiol, wedi'i gymhwyso ar gyfer y dibrisiad a fyddai wedi cael ei godi pe na bai'r golled wedi cael ei chydabod.

Gwarediadau ac Asedau a Ddelir i'w Gwerthu

Pan ddaw'n debyg y caiff gwerth cario ased ei adennill yn bennaf trwy werthiant yn hytrach na thrwy barhau i'w ddefnyddio, caiff ei ailddosbarthu'n Ased a Ddelir i'w Werthu. Mae'r ased yn cael ei ailbrisiu'n syth cyn ei ailddosbarthu ac yna ei gario ar y swm isaf o'r swm hwn a gwerth teg llai costau gwerthu'r ased. Lle bo gostyngiad wedyn yn y gwerth teg llai costau gwerthu'r ased, caiff y golled ei chofnodi yn y llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Caiff enillion yn y gwerth teg eu cydnabod dim ond hyd at swm unrhyw golledion a gydnabyddwyd o'r blaen yn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau.

Ni chodir dibrisiad ar Asedau a Ddelir i'w Gwerthu.

Os nad yw asedau'n bodloni'r meini prawf mwyach i gael eu dosbarthu'n Asedau a Ddelir i'w Gwerthu, cânt eu hailddosbarthu'n asedau anghyfredol eto a'u prisio ar y swm isaf o'u gwerth cario cyn iddynt gael eu dosbarthu'n Asedau a Ddelir i'w Gwerthu, wedi'i gymhwysu ar gyfer dibrisiad, amorteiddiad neu ailbrisiadau a fyddai wedi cael eu cydnabod pe na baent wedi cael eu dosbarthu'n Asedau a Ddelir i'w Gwerthu, a'u gwerth adferadwy ar ddyddiad y penderfyniad i beidio â'u gwerthu.

Nid yw asedau sydd i gael eu hepgor neu eu sgrapio yn cael eu hailddosbarthu'n Asedau a Ddelir i'w Gwerthu. Pan fo ased yn cael ei waredu neu ei ddatgomisiynu, mae gwerth cario'r ased yn y Fantolen yn cael ei ysgrifennu i ffwrdd i'r llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r ennill neu golled wrth ei waredu. Mae derbyniadau o warediadau (os oes rhai) yn cael eu credydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, hefyd fel rhan o'r enillion neu golledion wrth ei waredu (h.y. eu debydu yn erbyn gwerth cario'r ased ar adeg ei waredu). Mae unrhyw enillion ailbrisiad a gronnir ar gyfer yr ased yn y Gronfa Ailbrisiadau'n cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Cymhwysu Cyfalaf.

Mae symiau a cheir ar gyfer gwaredu mwy na £10,000 yn cael eu categoreiddio fel derbyniadau cyfalaf a'u credydu i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf. Yna ni ellir defnyddio'r rhain ond ar gyfer buddsoddi cyfalaf newydd neu eu neilltuo i leihau angen sylfaenol yr Awdurdod i fenthyg arian. Mae derbyniadau'n cael eu neilltuo i'r Gronfa o Balans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Newidiadau i Gronfeydd.

Ni chaiff gwerth dileu gwarediadau ei godi yn erbyn y dreth gyngor, oherwydd darperir yn llawn am gost asedau sefydlog o dan drefniadau ar wahân ar gyfer ariannu cyfalaf. Mae symiau'n cael eu neilltuo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf o Falans Cronfa'r Cyngor Gyffredinol yn y Datganiad Newidiadau i Gronfeydd.

Dibrisiant

Darperir am ddibrisiad ar yr holl asedau Eiddo, Offeriant a Chyfarpar trwy ddyrannu eu symiau dibrisiadwy yn systematig dros eu hoesoedd defnyddiol. Gwneir eithriad am asedau sydd heb oes ddefnyddiol benodol y gellir ei bennu (h.y. tir rhydd-ddaliadol a rhai Asedau Cymunedol) Asedau Dros Ben ac asedau nad ydynt ar gael i'w defnyddio eto (h.y. asedau sy'n cael eu hadeiladu).

Defnyddiwyd yr oesau defnyddiol a'r cyfraddau dibrisio canlynol wrth gyfrifo dibrisiant llinell-syth:

Ased	Oes (Blynnyddoedd)
Tai Cyngor	30
Adeiladau (<i>gan gynnwys Asedau Cymunedol a Eiddo Buddsoddi</i>)	30
Cerbydau, Offeriant a Chyfarpar	1 i 10
Seilwaith	40

Yn ogystal, dibrisir enillion adbriso, a bydd swm sy'n gyfwerth â'r gwahaniaeth rhwng y dibrisiant gwerth cyfredol a roddir ar asedau a'r dibrisiant a fyddai wedi cael ei roi ar sail eu cost hanesyddol yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r Cyfrif wrth Gefn Adbrisiadau i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

Cyfrifyddu Cydrannol

Defnyddir cyfrifyddu cydrannol pan fydd gan ased unigol un neu ragor o rannau hanfodol ac iddynt oes economaidd sylweddol wahanol i'r prif ased. Felly byddai cydrannau'r prif ased yn dibrisio ar gyfraddau gwahanol.

Er mwyn pennu a oes gwahaniaeth materol yn y tâl dibrisio, mae'r Awdurdod yn cynnal dadansoddiad sensitifrwydd mewn perthynas â'i brosiectau cyfalaf mwyaf. Mae'r tâl yn cael ei gyfrifo ar sail yr ased cyfan o'i gymharu â thâl ar sail y cydrannau. Caiff y tâl ar sail cydrannau ei ddefnyddio os oes gwahaniaeth materol rhwng y ddau gyfrifiad.

6.1.3 Eiddo Buddsoddi

Eiddo buddsoddi yw'r eiddo hwnnw a ddefnyddir dim ond i ennill rhenti a/neu am arbrisant cyfalaf. Nid yw'r diffiniad yn cael ei fodloni os caiff yr eiddo ei ddefnyddio mewn unrhyw ffordd i hwyluso cyflenwi gwasanaethau neu gynhyrchu nwyddau neu'n cael ei ddal i'w werthu.

Caiff eiddo buddsoddi ei fesur yn y lle cyntaf ar gost ac wedyn ar werth teg, ar sail y swm y gellid cyfnewid yr ased amdano rhwng partïon gwybodus ar hyd braich. Ni chaiff yr eiddo ei ddibrisio ond caiff ei ailbriso bob blwyddyn yn ôl amgylchiadau'r farchnad ar ddiwedd y flwyddyn. Caiff enillion a cholledion wrth ailbriso eu cofnodi yn y llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Caiff yr un peth ei wneud gydag enillion a cholledion wrth waredu'r eiddo.

Caiff y rhenti a geir am eiddo buddsoddi eu credydu i'r llinell Incwm Ariannu a Buddsoddi ac maent yn arwain at ennill i Falans Cronfa'r Cyngor. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau statudol yn caniatáu i enillion a cholledion ailbrisiadau a gwarediadau gael effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor. Felly caiff yr enillion a'r colledion eu tynnu allan o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Newidiadau i Gronfeydd a'u cofnodi yn y Cyfrif Addasu Cyfalaf ac (ar gyfer unrhyw dderbyniadau o werthiant sy'n fwy na £10,000) y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf.

Mesuriad Gwerth Teg

Mae'r Cyngor yn mesur ei eiddo buddsoddi ar werth teg ar bob dyddiad adrodd. Gwerth teg yw'r pris y byddid yn ei gael i werthu ased, neu ei dalu i drosglwyddo rhwymedigaeth fel rhan o drafodyn trefnus rhwng cyfranogwyr y farchnad ar y dyddiad mesur. Bydd y defnydd o'r broses fesur ar ei uchaf a'i orau o safbwynt cyfranogwr y farchnad.

Rhagdybir bod unrhyw fesuriad gwerth teg o ased neu rywmedigaeth yn defnyddio'r un rhagdybiaethau ag y byddai cyfranogwyr y farchnad yn eu defnyddio wrth weithredu er eu budd economaidd pennaf a bod y trafodyn yn cael ei wneud yn y brif farchnad neu, os nad yw hynny'n bosibl, yn y farchnad fwyaf buddiol ar gyfer yr ased neu'r rhwymedigaeth.

Defnyddir technegau prisio priodol y mae data digonol ar gael ar eu cyfer. Mae mewnbynnau i'r technegau wedi'u categorioiddio o fewn yr hierarchaeth gwerth teg, sy'n cynnwys tair lefel fel a ganlyn:

- Mae mewnbynnau lefel 1 yn brisiau a ddyfynnwyd nas addaswyd mewn marchnadoedd actif ar gyfer asedau neu rywmedigaethau sydd union yr un peth y gall y Cyngor eu cyrchu ar y dyddiad mesur.
- Mae mewnbynnau lefel 2 yn fewnbynnau ac eithrio prisiau a ddyfynnwyd sydd wedi'u cynnwys yn Lefel 1 sy'n weladwy, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.
- Mae mewnbynnau lefel 3 yn fewnbynnau anweladwy ar gyfer yr ased neu'r rhwymedigaeth.

6.1.4 **Asedau Treftadaeth**

Mae gwahanol fathau o Asedau Treftadaeth ac maent wedi'u nodi yn y cyfrifon fel a ganlyn.

• **Cyn-asedau Cymunedol**

Mae'r asedau treftadaeth hynny a oedd gynt yn cael eu cynnwys mewn asedau cymunedol wedi cael eu trosglwyddo i'r categori newydd ar gyfer Asedau Treftadaeth. Fe'u cofnodir ar sail y gost hanesyddol ac maent yn cynnwys Castell Caerfyrddin, regalia dinesig a darnau o waith celf.

• **Gwaith Celf Seilwaith**

Yn flaenorol câ'r asedau hyn eu nodi fel seilwaith ac roeddent un ai'n rhan o brosiect cyfalaf mawr neu'n ddarnau o waith celf ynddynt eu hunain ar gylchfannau neu yng nghanol trefi. A hwythau'n gyn-asedau seilwaith, fe'u cofnodir ar sail y gost hanesyddol.

• **Arddangosion Amgueddfeydd/Cofnodion Archif**

Mae gan yr Awdurdod gasgliad mawr o arddangosion amgueddfeydd a deunydd archif na chawsant eu cynnwys yn y Fantolen. Nid yw gwybodaeth am gost yr eitemau hyn ar gael yn hawdd ac ym marn yr Awdurdod ni fyddai'r budd o drefnu i brisio'r eitemau hyn yn cyfiawnhau'r gost o wneud hynny.

6.1.5 **Asedau Anniriaethol**

Asedau nad oes iddynt sylwedd ffisegol yw'r rhain ond asedau a ddaw â buddion economaidd i'r Awdurdod yn y dyfodol, sef asedau megis trwyddedau meddalwedd neu asedau a grëir yn fewnol ac sydd wedi'u cyfalafu.

Ar hyn o bryd nid oes gan yr Awdurdod asedau anniriaethol. Caiff gwelliannau ('*enhancements*') eu categorioiddio bob blwyddyn a byddai unrhyw asedau anniriaethol yn cael eu nodi fel rhan o'r ymarfer blynyddol hwn.

6.1.6 **Taliadau sy'n Cael eu Cynnwys yn y Refeniw am Asedau Anghyfredol**

Caiff y symiau canlynol eu debydu i wasanaethau, gwasanaethau cymorth a chyfrifon masnachu er mwyn cofnodi cost dal asedau sefydlog yn ystod y flwyddyn:

- dibisiad yr asedau a ddefnyddiwyd gan y gwasanaeth perthnasol.

- colledion ailbrisiad ac amhariad ar asedau mae'r gwasanaeth yn eu defnyddio lle nad oes unrhyw enillion cronedig yn y Gronfa Ailbrisiadau y gellir dileu'r colledion yn eu herbyn.
- amorteiddio asedau sefydlog anniriaethol y gwasanaeth.

Nid yw'n ofynnol i'r Awdurdod godi treth gyngor i dalu am golledion dibrisiad, ailbrisiad ac amhariad nac amorteiddiadau. Fodd bynnag, mae'n ofynnol iddo roi cyfraniad blynyddol o'i refeniw tuag at leihau ei ofynion benthycia i gyd. Felly mae'r cyfraniad ym malans y Gronfa Gyffredinol (Darpriaeth Isafswm Refeniw neu Brifswm Cronfa Fenthyciadau) yn cymryd lle colledion dibrisiad, ailbrisiad ac amhariad ac amorteiddiadau, trwy drafodyn addasu gyda'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad Newidiadau i Gronfeydd ar gyfer y gwahaniaeth rhwng y ddau.

6.1.7 **Gwariant Refeniw a Gyllidir gan Gyfalaf dan Statud**

Mae gwariant a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn y gellir ei gyfalafu o dan ddarpariaethau statudol ond nad yw'n arwain at greu asedau anghyfredol wedi cael ei godi fel gwariant ar y gwasanaeth perthnasol yn y cyfrif Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn. Lle bo'r Awdurdod wedi penderfynu talu cost y gwariant hwn o adnoddau cyfalaf sy'n bodoli eisoes neu drwy gael benthyciad, mae trosglwyddiad yn y Datganiad Newidiadau i Gronfeydd o Falans Cronfa'r Cyngor i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf wedyn yn tynnu allan y symiau a godwyd yn y Datganiad Newidiadau ar Falans Cronfa'r Cyngor fel nad oes unrhyw effaith ar lefel y Dreth Gyngor.

6.1.8 **Arian Parod ac Arian Gyfwerth**

Mae'r arian gyfwerth yn fuddsoddiadau sy'n rhwydd eu drosglwyddo i symiau arian parod heb newid ei werth. Caiff arian parod ei dynnu a'i adneuo gan ddibynnu ar ddiffyg neu warged arian parod ar y diwrnod. Mae pob cyfrif galw wedi cael eu dynodi fel Arian Parod ac Arian Gyfwerth. Mae'r Arian Parod Cyfatebol hefyd yn cynnwys buddsoddiadau cyfnod penodedig sy'n aeddfedu cyn pen tri mis neu lai ar ôl y dyddiad caffael.

6.1.9 **Grantiau a Chyfraniadau'r Llywodraeth**

Caiff grantiau gan lywodraethau a chyfraniadau gan drydydd partion a rhoddion, pa un ydynt yn cael eu talu fel ernes, fel rhandaliadau neu fel ôl-daliadau, eu cydnabod fel taliadau dyledus i'r Awdurdod pan fo sicrwydd rhesymol:

- y bydd yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r amodau sy'n gysylltiedig â'r taliadau, ac
- y bydd y grantiau neu'r cyfraniadau'n dod i law.

Ni chaiff symiau a gydnabyddir fel taliadau dyledus i'r Cyngor eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hyd nes i'r amodau sy'n gysylltiedig â'r grant neu'r cyfraniad gael eu bodloni. Mae'r amodau yn nodi ei bod yn ofynnol i'r buddion economaidd yn y dyfodol neu'r potensial gwasanaeth a gorfforir yn yr ased sy'n cael ei gaffael gan ddefnyddio'r grant neu'r cyfraniad gael eu defnyddio gan y derbynnydd fel y rhagnodir, neu fod yn rhaid i'r buddion economaidd yn y dyfodol neu'r potensial gwasanaeth gael eu dychwelyd i'r trosglwyddwr.

Mae symiau o arian a flaendalwyd fel grantiau a chyfraniadau nad yw'r amodau ar eu cyfer wedi cael eu bodloni'n cael eu cario yn y Fantolen fel credydwyd. Pan gaiff yr amodau eu bodloni, caiff y grant neu'r cyfraniad ei gredydu i'r llinell wasanaeth berthnasol (grantiau a

chyfraniadau refeniw priodoladwy) neu Incwm Trethi a Grantiau Amhenodol (grantiau refeniw heb eu neilltuo a'r holl grantiau cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Lle caiff grantiau cyfalaf eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, cânt eu tynnu allan o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Newidiadau i Gronfeydd. Lle nad yw'r grant wedi cael ei ddefnyddio eto i ariannu gwariant cyfalaf, caiff ei gofnodi yn y gronfa Grantiau Cyfalaf Heb eu Defnyddio. Lle mae wedi cael ei ddefnyddio, caiff ei gofnodi yn y Cyfrif Addasu Cyfalaf. Caiff symiau yn y gronfa Grantiau Cyfalaf Heb eu Defnyddio eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf ar ôl iddynt gael eu defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf.

6.1.10 **Prydlesu**

Yr Awdurdod fel y Prydleswr

O dan IFRS 16 a fabwysiadwyd o 1 Ebrill 2024, mae'r rhwymedigaeth prydles yn cael ei mesur yn ôl gwerth presennol y taliadau prydles, wedi'i disgowntio yn ôl y gyfradd ymhlyg yn y brydles, neu os na ellir cadarnhau hynny'n rhwydd, yn ôl cyfradd fenthycu gynyddrannol y lesddeiliad sy'n benodol i dymor a dyddiad dechrau'r brydles. Mae taliadau prydles yn cynnwys - taliadau sefydlog; taliadau prydles amrywiadwy sy'n dibynnu ar fynegai neu gyfradd, a gaiff eu mesur i ddechrau gan ddefnyddio'r mynegai neu'r gyfradd ar y cychwyn; y pris arfer o dan opsiwn prynu os yw'r Cyngor yn rhesymol sicr o'i arfer; cosbau am derfynu'n gynnar os yw tymor y brydles yn adlewyrchu bod y Cyngor yn arfer opsiwn torri; a thaliadau mewn cyfnod adnewyddu dewisol os yw'r Cyngor yn rhesymol sicr o arfer opsiwn estyn neu beidio ag arfer opsiwn torri.

Mae'r rhwymedigaeth prydles wedyn yn cael ei mesur yn ôl cost amorteiddiedig gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol. Mae'n cael ei hailfesur, gan wneud addasiad cyfatebol i'r ased hawl i ddefnyddio, pan fydd newid mewn taliadau prydles yn y dyfodol o ganlyniad i adolygiad rhent, newid mewn mynegai neu gyfradd fel chwyddiant, neu newid i asesiad y Cyngor ynghylch a yw'n rhesymol sicr o arfer opsiwn prynu, estyn neu dorri.

Mae'r ased hawl i ddefnyddio yn cael ei fesur i ddechrau yn ôl cost, gan gynnwys: y rhwymedigaeth prydles gychwynnol; unrhyw daliadau prydles a wnaed eisoes, wedi tynnu unrhyw gymhellion prydles a gafwyd; costau uniongyrchol cychwynnol; ac unrhyw gostau dadfeilio neu adfer. Mae'r ased hawl i ddefnyddio wedyn yn cael ei ddibrisio ar sail llinell syth dros dymor byrrach y brydles neu oes ddefnyddiol yr ased sylfaenol. Mae'r ased hawl i ddefnyddio yn cael ei brofi am amhariad os oes unrhyw arwyddion o amhariad. Mae prydlesi asedau isel eu gwerth (o dan £10,000 pan fyddant yn newydd) a phrydlesi tymor byr o 12 mis neu lai yn cael eu cofnodi fel treuliau ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, yn ogystal â thaliadau amrywiadwy sy'n dibynnu ar berfformiad neu ddefnydd, taliadau 'allan o gontract' a chydrannau gwasanaeth nad ydynt yn brydles.

Yr Awdurdod fel y Deiliad Prydlesi

Mae prydlesi yn cael eu dosbarthu fel prydlesi cyllid lle mae telerau'r brydles yn trosglwyddo'n sylweddol yr holl risgiau a buddion sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth yr eiddo, yr offer neu'r cyfarpar o'r lesydd i'r lesddeiliad. Mae'r holl brydlesi eraill yn cael eu dosbarthu fel prydlesi gweithredol.

Pan fo'r Cyngor yn caniatáu prydles weithredol dros eiddo neu eitem o offer neu gyfarpar, mae'r ased yn cael ei gadw yn y Fantolen. Mae incwm rhent yn cael ei gredydu i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Gwneir credydau ar sail llinell syth dros oes y brydles, hyd yn oed os nad yw hyn yn cyfateb i batrwm y taliadau (e.e. mae premiwm yn cael ei dalu ar ddechrau'r brydles). Mae costau uniongyrchol cychwynnol a geir wrth drafod a threfnu'r brydles yn cael eu hychwanegu at swm cario ymlaen yr ased perthnasol a'u cofnodi fel treuliau dros dymor y brydles ar yr un sail ag incwm rhent.

6.1.11 **Rhwymedigaethau Ariannol**

Caiff rhwymedigaethau ariannol eu cydnabod ar y Fantolen pan ddaw'r Awdurdod yn barti i ddarpariaethau contractiol offeryn ariannol ac ar y dechrau cânt eu mesur yn ôl gwerth teg a'u cario yn unol â'u cost amorteiddiedig. Mae'r hyn a godir bob blwyddyn i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y llog sy'n daladwy yn cael ei seilio ar werth cario'r rhwymedigaeth, wedi'i luosi gan y gyfradd llog weithredol ar gyfer yr offeryn. Y gyfradd llog weithredol yw'r gyfradd sy'n disgowntio'n union daliadau arian parod amcangyfrifedig yn y dyfodol dros oes yr offeryn i'r swm y cafodd ei gydnabod yn wreiddiol yn unol ag ef.

Ar gyfer y rhan fwyaf o'r benthyciadau sydd gan yr Awdurdod, mae hyn yn golygu mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm ad-daladwy sy'n ddyledus (a hefyd llog cronedig); ac mai'r llog a godir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm taladwy am y flwyddyn yn unol â chytundeb y benthyciad.

Caiff enillion a cholledion ar adbrynu benthyciadau neu eu setlo'n gynnar eu credydu a'u debydu i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ym mlwyddyn eu hadbrynu neu eu setlo. Fodd bynnag, lle bo'r adbrynu wedi digwydd fel rhan o ailstrwythuro'r portffolio benthyciadau sy'n golygu addasu neu gyfnewid offerynnau sy'n bodoli eisoes, mae'r premiwm yn cael ei ddidynnu o gost amorteiddiedig y benthyciad newydd neu addasedig ac mae'r disgownt yn cael ei ychwanegu ati, ac mae'r dibrisiant i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cael ei ledaenu dros oes y benthyciad trwy addasiad i'r gyfradd llog weithredol.

Lle bo premïymau a disgowntiau wedi cael eu codi i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, mae'r rheoliadau'n caniatáu i'r effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor gael ei ledaenu dros flynyddoedd i ddod. Mae gan yr Awdurdod bolisi o ledaenu'r ennill neu'r golled dros y tymor oedd ar ôl ar y benthyciad yr oedd y premiwm yn daladwy arno neu yr oedd y disgownt yn dderbyniadwy arno pan gafodd ei ad-dalu. Mae cysoni'r symiau a godir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gyda'r tâl net sy'n ofynnol yn erbyn Balans y Gronfa Gyffredinol yn cael ei gyflawni trwy drosglwyddiad i'r neu o'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol yn y Datganiad Newidiadau i Gronfeydd.

6.1.12 **Asedau Ariannol**

Benthyciadau a Symiau Derbyniadwy

Caiff benthyciadau a symiau derbyniadwy eu cydnabod ar y Fantolen pan ddaw'r Awdurdod yn barti i ddarpariaethau contractiol offeryn ariannol ac ar y dechrau cânt eu mesur yn ôl gwerth teg. Wedyn cânt eu mesur yn unol â'u cost amorteiddiedig. Mae credydau blynyddol i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y llog derbyniadwy yn cael eu seilio ar werth cario'r ased wedi'i luosi gan y gyfradd llog weithredol ar gyfer yr offeryn. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r benthyciadau mae'r Awdurdod wedi'u rhoi, mae hyn yn golygu mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm derbyniadwy sy'n ddyledus (a hefyd llog cronedig) ac mai'r llog sy'n cael ei gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm derbyniadwy am y flwyddyn yng nghytundeb y benthyciad.

Lle bo'r Awdurdod wedi rhoi benthyciadau ar gyfraddau is na chyfraddau'r farchnad (benthyciadau meddal), caiff unrhyw golled materol ei chofnodi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (wedi'i debydu i'r gwasanaeth priodol) am werth presennol y llog a fydd yn cael ei hepgor dros oes yr offeryn, gan arwain at gost amorteiddiedig is na'r prifswm dyledus. Mae'r llog yn cael ei gredydu i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfradd llog weithredol ychydig yn uwch na'r

gyfradd dderbyniadwy gan y sefydliadau gwirfoddol, gyda'r gwahaniaeth yn cynyddu cost amorteiddiedig y benthyciad yn y Fantolen. Mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol mai effaith benthyciadau meddal ar Falans Cronfa'r Cyngor yw'r llog derbyniadwy am y flwyddyn ariannol – mae cysoni'r symiau a gaiff eu debydu a'u credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gyda'r ennill net sy'n ofynnol yn erbyn Balans Cronfa'r Cyngor yn cael ei gyflawni trwy drosglwyddiad i'r neu o'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol yn y Datganiad Newidiadau i Gronfeydd.

Lle nodir bod amhariad ar asedau oherwydd tebygrwydd sy'n deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol na fydd taliadau sy'n ddyledus o dan y contract yn cael eu gwneud, caiff yr ased ei ysgrifennu i lawr a chodir tâl ar y gwasanaeth perthnasol (am symiau derbyniadwy sy'n benodol i'r gwasanaeth hwnnw) neu i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Caiff y golled amhariad ei mesur fel y gwahaniaeth rhwng gwerth cario a gwerth presennol y llifoedd arian yn y dyfodol wedi'u diwygio, wedi'u disgowntio ar gyfradd llog weithredol wreiddiol yr ased.

Caiff unrhyw enillion a cholledion sy'n deillio wrth ddatgydnabod ased eu credydu neu eu debydu i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

O dan Offerynnau Ariannol IFRS 9, mae dosbarthu asedau ariannol bellach yn seiliedig ar ddull dosbarthu a mesur sy'n adlewyrchu'r model busnes ar gyfer dal yr asedau ariannol a'u nodweddion llif arian. Ceir tri phrif ddosbarthiad o asedau ariannol, sy'n cael eu mesur ar:

- Gost amorteiddiedig
- Gwerth teg drwy elw neu golled
- Gwerth teg drwy incwm cynhwysfawr arall

6.1.13 **Stocrestrau a Chontractau Hirdymor**

Caiff stocrestrau eu cynnwys yn y Fantolen ar yr isaf o'r gost a'r gwerth gwireddadwy net ac eithrio stoc Cyfarpar Diogelu Personol a roddwyd, sydd wedi'i brisio yn ôl y costau a ddarperir gan wasanaethau a rennir gan y GIG. Mae cost stocrestrau'n cael ei dynodi gan ddefnyddio'r fformiwla gostio gyfartalog bwysoledig.

Cyfrifyddir ar gyfer contractau hirdymor ar sail codi gwerth y gwaith a'r gwasanaethau a gafwyd o dan y contract yn ystod y flwyddyn ariannol ar y Warged neu Ddiffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau.

6.1.14 **Cost y Gwasanaethau Cynnal**

Caiff costau gorbenion a gwasanaethau cymorth eu codi ar y rheiny sy'n cael budd o'r cyflenwad neu'r gwasanaeth. Defnyddir egwyddor costio amsugol llwyr – sef bod cost lawn gorbenion a gwasanaethau cymorth yn cael ei rhannu rhwng defnyddwyr yn ôl cyfran y buddion a dderbyniwyd.

6.1.15 **Darpariaethau**

Caiff darpariaethau eu gwneud lle bo rhywbeth wedi digwydd sy'n gosod rhwymedigaeth ar yr Awdurdod sy'n debyg o alw am setliad trwy drosglwyddo buddion economaidd, ac y gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth. Er enghraifft, efallai bod y cyngor yn rhan o achos llys a allai arwain yn y pen draw at wneud setliad neu dalu iawndal.

Caiff darpariaethau eu codi fel traul i'r llinell wasanaeth briodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn y daw'r Awdurdod i wybod am y rhwymedigaeth a chânt

eu mesur yn ôl yr amcangyfrif gorau - ar ddyddiad y fantolen - o'r gwariant gofynnol i setlo'r rhwymedigaeth, gan gymryd risgiau ac elfennau ansicr perthnasol i ystyriaeth.

Pan gaiff taliadau eu gwneud yn y pen draw, cânt eu codi ar y ddarpariaeth sydd wedi'i chreu yn y Fantolen. Caiff setliadau amcangyfrifedig eu hadolygu ar ddiwedd pob flwyddyn ariannol - lle daw'n llai na thebygol y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd yn awr (neu gwneir setliad llai nag a ragwelwyd), caiff y ddarpariaeth ei gwrthdroi a'i chredydu'n ôl i gyfrif refeniw'r gwasanaeth perthnasol.

Lle disgwylir bod rhywun arall (e.e. yn sgil hawliad yswiriant) yn talu canran o'r taliad, neu'r holl daliad, sydd ei angen i setlo darpariaeth, caiff hyn ond ei gydnabod fel incwm yn y cyfrif refeniw gwasanaeth priodol os yw'n hollol bendant y bydd ad-daliad yn dod i law pe setlir y rhwymedigaeth.

6.1.16 **Cronfeydd Wrth Gefn**

Mae'r Awdurdod yn neilltuo symiau penodol fel cronfeydd wrth gefn at ddibenion polisi yn y dyfodol neu i ddarparu ar gyfer hapddigwyddiadau. Caiff cronfeydd wrth gefn eu creu trwy neilltuo symiau o Balans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Newidiadau i Gronfeydd. Pan fo angen talu gwariant sydd i gael ei ariannu o gronfa wrth gefn, caiff ei godi ar y gwasanaeth priodol yn y flwyddyn honno i sgorio yn erbyn y Warged neu Ddiffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Yna caiff y gronfa wrth gefn ei neilltuo'n ôl i Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Newidiadau i Gronfeydd fel na chodir cost net yn erbyn y dreth gyngor ar gyfer y gwariant.

Caiff rhai cronfeydd penodol eu cadw er mwyn rheoli'r prosesau cyfrifyddu ar gyfer asedau anghyfredol, offerynnau ariannol, budd-daliadau ymddeoliad a chyflogeion, ac nid ydynt yn adnoddau y gall yr Awdurdod eu defnyddio – caiff y cronfeydd hyn eu hesbonio yn y polisiâu perthnasol.

6.1.17 **Budd-daliadau i Gyflogeion**

Budd-daliadau sy'n daladwy yn ystod eu cyflogaeth

Budd-daliadau tymor byr i gyflogeion yw'r rheiny y mae'n rhaid eu setlo cyn pen 12 mis ar ôl diwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys budd-daliadau fel cyflogau, gwyliau blynyddol â thâl ac absenoldeb salwch â thâl i'r cyflogeion presennol a chânt eu cydnabod fel traul am wasanaethau yn y flwyddyn mae'r cyflogeion yn rhoi gwasanaeth i'r Awdurdod. Gwneir cronïad ar gyfer cost hawliau i wyliau y mae cyflogeion yn eu hennill ond heb eu cymryd cyn diwedd y flwyddyn, y gall cyflogeion eu cario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf. Gwneir y cronïad ar y cyfraddau cyflog sy'n berthnasol yn y flwyddyn gyfrifyddu ganlynol, sef y cyfnod mae'r cyflogai'n cymryd y budd-dal ynddi. Codir y cronïad i'r Warged neu Ddiffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau, ond yna caiff ei wrthdroi allan trwy'r Datganiad Newidiadau i Gronfeydd er mwyn i'r budd-daliadau gwyliau gael eu codi i refeniw yn y flwyddyn ariannol y cymerir yr absenoldeb gwyliau ynddi.

Budd-daliadau dod â swyddi i ben

Budd-daliadau dod â swyddi i ben yw'r symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan yr Awdurdod i ddod â chyflogaeth swyddog i ben cyn y dyddiad ymddeol arferol neu benderfyniad swyddog i dderbyn dileu ei swydd yn wirfoddol, a chânt eu codi ar sail cronïadau i'r llinell Costau Heb eu Dosbarthu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fo

modd dangos bod yr Awdurdod wedi ymrwymo i ddileu cyflogaeth swyddog neu grŵp o swyddogion neu wneud cynnig i annog dileu swyddi'n wirfoddol.

Lle bo budd-daliadau dod â swyddi i ben yn golygu gwella pensiynau, mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol codi'r swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa bensiwn neu'r pensiynwr yn y flwyddyn, nid y swm a gyfrifir yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol, ar Falans Cronfa'r Cyngor. Yn y Datganiad Newidiadau i Gronfeydd, mae angen neilltuadau i ac o'r Gronfa Wrth Gefn Bensiynau er mwyn dileu'r debydau a chredydau tybiannol ar gyfer budd-daliadau dod â swyddi i ben o ran gwelliannau i pensiynau, a rhoi yn eu lle ddebydau ar gyfer yr arian parod a dalwyd i'r gronfa bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn.

Budd-daliadau Ôl Gyflogaeth

Mae gweithwyr y Cyngor yn aelodau o ddau gynllun pensiwn ar wahân:

- Cynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan *Capita Teachers' Pensions* ar ran yr Adran Addysg.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Mae'r ddau gynllun yn darparu budd-daliadau penodol i'r aelodau (cyfandaliadau ymddeol a phensiynau), a enillwyd wrth iddynt weithio i'r Cyngor.

Fodd bynnag, mae'r trefniadau ar gyfer cynllun yr athrawon yn golygu na ellir nodi'r rhwymedigaethau ar gyfer y budd-daliadau hyn yn benodol i'r Awdurdod. Felly cyfrifyddir ar gyfer y cynllun fel pe bai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig ac ni chaiff unrhyw rwymedigaeth o ran talu budd-daliadau yn y dyfodol ei chydabod yn y Fantolen a chodir cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i pensiynau athrawon yn y flwyddyn ar llinell y Gwasanaeth Addysg Phlant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Cronfa Bensiwn Dyfed

Mae'r Cronfa yn cael ei gyfrif yn gynllun budd-daliadau penodol.

Mae asedau'r Gronfa sydd i'w priodoli i'r Cyngor, yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraid gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau – h.y. asesiad o'r hyn a delir yn y dyfodol mewn perthynas â'r budd-daliadau ymddeol y mae'r gweithwyr wedi'u hennill hyd yn hyn, yn seiliedig ar ragdybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, cyfraddau trosiant gweithwyr, ac ati, a rhagamcanion enillion gweithwyr presennol.

Caiff gwerth y rhwymedigaethau ei ddisgowntio i gyfateb â phrisiau cyfredol.

Mae asedau'r Gronfa sydd yn briodol i'r Cyngor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen yn ôl eu gwerth teg:

- gwarannau a ddyfynnwyd – y pris cynnig
- gwarannau na ddyfynnwyd – amcangyfrif proffesiynol
- gwarannau cyfunol – y pris cynnig
- eiddo – gwerth y farchnad.

Mae balans net pensiynau yn cael ei rannu mewn i'r cydrannau canlynol:

Cost gwasanaethau sef:

- costau gwasanaeth cyfredol - y cynnydd yn y rhwymedigaethau yn sgil y blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni - wedi'u pennu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y gwasanaethau sy'n cyflogi'r gweithwyr.
- cost gwasanaeth y gorffennol – y cynnydd yn y rhwymedigaethau yn deillio o benderfyniadau yn y flwyddyn gyfredol y mae eu heffaith yn gysylltiedig â blynyddoedd gwasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd cynharach – yn cael ei debydu i'r Warged neu Ddiffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r Costau Heb eu Dosbarthu.
- y llog net ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig net (yr ased), h.y. cost y llog net i'r Awdurdod – y newid yn ystod y cyfnod yn y rhwymedigaeth buddion diffiniedig net (yr ased) sy'n deillio o dreigl amser, wedi'i gofnodi dan linell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr – cyfrifir hyn drwy gymryd y gyfradd ostyngol a ddefnyddir i fesur yr ymrwymiad buddion diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod a'i defnyddio ar gyfer y rhwymedigaeth buddion diffiniedig net (yr ased) ar ddechrau'r cyfnod – gan ystyried unrhyw newidiadau yn y rhwymedigaeth buddion diffiniedig net (yr ased) yn ystod y cyfnod o ganlyniad i'r cyfraniadau a'r buddion a delir.

Ailfesur sef:

- yr adenillion ar asedau'r cynllun – ac eithrio'r symiau sydd wedi'u cynnwys yn y llog net ar y rhwymedigaeth/(ased) buddion diffiniedig net – i'w cofnodi dan y Gronfa Bensiynau dan y pennawd Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Eraill
- enillion a cholledion actiwaraid – newidiadau yn y rhwymedigaeth bensiynau net sy'n digwydd oherwydd nad yw pethau wedi cyd-fynd â'r rhagdybiaethau a wnaed adeg y prisio actiwaraid diwethaf neu oherwydd bod yr actiwaraid wedi diweddarau eu rhagdybiaethau – i'w cofnodi dan y Gronfa Bensiynau dan y pennawd Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Eraill
- Addasiad i'r terfyn asedau – yn gostwng i'r terfyn ased a gyfrifwyd os yw hyn yn is na sefyllfa'r ased.
- cyfraniadau a dalwyd i'r Gronfa – arian parod a dalwyd fel cyfraniadau cyflogwr i'r gronfa bensiwn i setlo rhwymedigaethau; ni chyfrifir amdanynt fel traul

Mewn perthynas â budd-daliadau ymddeoliad, mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i godi'r swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa bensiwn neu'n uniongyrchol i'r pensiyner yn y flwyddyn, nid y swm a gyfrifir yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol, ar Falans Cronfa'r Cyngor. Yn y Datganiad Newidiadau i Gronfeydd, mae hyn yn golygu bod yna neilltuadau i ac o'r Gronfa Wrth Gefn Bensiynau er mwyn dileu'r debydau a chredydau tybiannol ar gyfer budd-daliadau ymddeoliad a rhoi yn eu lle ddebydau ar gyfer yr arian parod a dalwyd i'r gronfa bensiwn a phensiynerwyr ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn. Felly mae'r balans sy'n codi ar y Gronfa Wrth Gefn Bensiynau yn mesur yr effaith fuddiannol ar Gronfa'r Cyngor o fod yn ofynnol i gyfrifyddu ar gyfer budd-daliadau ymddeoliad ar sail llifoedd arian yn hytrach nag wrth i gyflogaion ennill budd-daliadau.

Budd-daliadau Dewisol

Mae gan yr Awdurdod hefyd bwerau cyfyngedig i ddewis talu budd-daliadau ymddeol i weithiwr sy'n ymddeol yn gynnar. Os bernir y bydd unrhyw rwymedigaeth yn codi yn sgil talu

budd-dal i unrhyw aelod o staff (gan gynnwys athrawon) caiff ei gronni yn y flwyddyn y penderfynwyd gwneud y taliad a'i gyfrif yn unol â'r polisïau sy'n gymwys i'r Gronfa.

6.1.18 **Buddiannau mewn Cwmnïau ac Endidau eraill**

Mae gan y cyngor fuddiannau mewn nifer o gwmnïau â natur is-gwmnïau sy'n ei gwneud yn ofynnol paratoi cyfrifon grŵp. Nid yw'r Cyfrifon Grŵp wedi cael eu paratoi, gan na fyddai cyfuno'r cyfrifon yn effeithio yn faterol ar sefyllfa ariannol yr Awdurdod, nac ar allu'r sawl sy'n darllen y cyfrifon i weld holl weithgaredd economaidd y Cyngor a'r risg y mae'n agored iddi.

CWM Environmental Cyf

Cyngor Sir Caerfyrddin yw unig gyfranddaliwr CWM Environmental Cyf. Yn hanesyddol, mae'r cwmni wedi cael ei weithredu fel cwmni masnachu hyd braich, ond yn ystod y flwyddyn 2018/19 dewisodd yr Awdurdod ddefnyddio Esemptiad Teckal, gan fod mwy nag 80% o weithgaredd y cwmni yn cael ei wneud gyda'r Awdurdod. Darperir rhagor o wybodaeth yn nodyn 6.12 (Buddsoddiadau Tymor Hir) a nodyn 6.36 (Trafodion Partion Cysylltiedig).

Llesiant Delta Wellbeing Cyf

Cyngor Sir Caerfyrddin yw unig gyfranddaliwr Llesiant Delta Wellbeing Cyf. Crëwyd y cwmni i drosglwyddo a thyfu'r gwasanaeth Llinell Gofal fel y cytunwyd gan Fwrdd Gweithredol y Cyngor ym mis Ionawr 2018. Darperir rhagor o wybodaeth yn nodyn 6.12 (Buddsoddiadau Tymor Hir) a nodyn 6.36 (Trafodion Partion Cysylltiedig).

Egni Sir Gâr Cyfyngedig

Cyngor Sir Caerfyrddin yw Ymddiriedolwr Gwarchod cofrestredig Egni Sir Gâr Cyfyngedig ac mae'r Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd yn aelod o'r bwrdd. Darperir rhagor o wybodaeth yn nodyn 6.12 (Buddsoddiadau Tymor Hir).

Cartrefi Croeso Cyfyngedig

Cyngor Sir Caerfyrddin yw unig gyfranddaliwr Cartrefi Croeso. Crëwyd y cwmni i ddatblygu datblygiadau tai ar sail fasnachol yn Sir Gaerfyrddin fel y cytunwyd gan Fwrdd Gweithredol y Cyngor. Rhoddir rhagor o wybodaeth yn nodyn 6.12 (Buddsoddiadau Tymor Hir) a nodyn 6.36 (Trafodion Partion Perthnasol). Ni chynhaliwyd unrhyw weithgarwch busnes yn ystod y flwyddyn.

Amlosgfa Gorllewin Cymru

Mae'r Awdurdod yn cadw cyfran ariannol yn Amlosgfa Gorllewin Cymru. Darperir rhagor o wybodaeth yn nodyn 6.37 (Gweithrediadau a Reolir ar y Cyd a Threfniadau Tebyg Eraill).

6.1.19 **Gweithrediadau a Reolir ar y Cyd, Asedau a Reolir ar y Cyd a Threfniadau Tebyg Arall**

Gweithrediadau a reolir ar y cyd yw gweithgareddau y mae'r Awdurdod yn eu cyflawni ar y cyd gyda mentwyr eraill sy'n golygu defnyddio asedau ac adnoddau'r mentwyr yn hytrach na sefydlu endid ar wahân. Mae'r Awdurdod yn cydnabod ar ei Fantolen yr asedau mae'n eu rheoli a'r rhwymedigaethau arno ac yn debydu a chredydu'r gwariant mae'n ei wneud a'r gyfran o'r incwm mae'n ei hennill o weithgarwch y gweithgaredd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Asedau a reolir ar y cyd yw eitemau o eiddo, offeriant neu gyfarpar a reolir ar y cyd gan yr Awdurdod a mentwyr eraill, gyda'r asedau'n cael eu defnyddio i gael buddiannau i'r mentwyr. Nid yw'r gyd-fenter yn golygu sefydlu endid ar wahân. Mae'r Awdurdod yn cyfrifyddu ar gyfer ei gyfran ef yn unig o'r asedau a reolir ar y cyd, y rhwymedigaethau arno a'r treuliau mae'n gorfod eu talu ar ei ran ei hun neu ar y cyd gydag eraill mewn perthynas â'i fudd yn y gyd-fenter a'r incwm mae'n ei ennill o'r fenter.

Rydym wedi nodi y gallai'r canlynol ddod o dan y diffiniad uchod at ddibenion cyfrifyddu:
Partneriaeth (ERW gynt)
Partneriaeth Pensiwn Cymru & WPP IM Co – Cwmni Rheoli Buddsoddiadau Partneriaeth Pensiwn Cymru
Dinas-ranbarth Bae Abertawe
Cydbwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru
Amlogsgfa Gorllewin Cymru

Mae trefniadau potensial eraill yn cynnwys Y Consortiwn Comisiynu ar gyfer Plant Cymru ymhlith eraill. At ddiben llunio'r cyfrifon hyn, ni ychwanegwyd cofnodion mewn perthynas â'r trefniadau hyn ac eithrio'r gwariant a'r incwm uniongyrchol sy'n berthnasol i bob cynllun. Nid yw'r addasiadau yn rhai materol ac ni fyddent yn effeithio ar sefyllfa ariannol yr Awdurdod, nac ar allu'r sawl sy'n darllen y cyfrifon i weld holl weithgaredd economaidd yr Awdurdod a'r risg y mae'n agored iddi.

6.1.20 **Rhwymedigaeth Amodol**

Mae rhwymedigaeth amodol yn codi lle bo rhywbeth wedi digwydd sy'n gosod rhwymedigaeth bosibl ar yr awdurdod na fydd ei bodolaeth yn cael ei chadarnhau ond wrth i bethau ansicr yn y dyfodol, nad ydynt yn llwyr o dan reolaeth yr awdurdod, ddigwydd neu beidio.

Mae rhwymedigaethau amodol hefyd yn codi mewn amgylchiadau lle câi darpariaeth ei gwneud fel arall ond naill ai nad yw'n debygol y byddai angen all-lif adnoddau neu na ellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Ni chaiff rhwymedigaethau amodol eu cydnabod yn y Fantolen ond yn hytrach eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon.

6.1.21 **TAW**

Nid yw'r incwm a'r gwariant yn cynnwys unrhyw symiau TAW, gan fod pob TAW yn daladwy i Gyllid a Thollau ei Fawrhydi, a gellir adennill ganddynt hwy bob TAW a dalwyd.

6.2 **Dyfarniadau Beirniadol wrth Ddefnyddio Polisiâu Cyfrifyddu**

Wrth ddefnyddio'r polisiâu cyfrifyddu a nodir yn Nodyn 6.1, bu'n rhaid i'r Awdurdod wneud rhai dyfarniadau penodol ynglŷn â thrafodion cymhleth neu'r rheiny sy'n destun ansicrwydd ynglŷn â digwyddiadau yn y dyfodol. Dyma'r dyfarniadau beirniadol a wneir yn y Datganiad o Gyfrifon:

- Ansicrwydd parhaus ynghylch cyllido awdurdodau lleol yn y dyfodol.

Fodd bynnag, mae gan yr Awdurdod strategaeth gyllidebol dair blynedd gadarn gyda chynigion o ran effeithlonrwydd a rhesymoli gwasanaethau er mwyn sicrhau cyllideb fantoledig, ac felly mae wedi penderfynu nad yw'r ansicrwydd hwn yn ddigon eto i roi arwydd y gallai fod amhariad ar asedau'r Awdurdod.

Ar hyn o bryd mae ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir wedi'u heithrio o fantolen yr Awdurdod er bod gan yr Awdurdod rwymedigaethau a risgiau o ran costau eiddo megis gwaith atgyweirio a chynnal a chadw, nid yw'r Awdurdod yn berchen ar yr ysgolion ac nid oes hawl ganddo i unrhyw ddarpar fuddion economaidd sydd ynghlwm wrth yr asedau.

6.3 **Tybiaethau a Wnaethpwyd am y Dyfodol ac ansicrwydd ynglŷn a Ffynonellau Mawr Eraill wrth Amcangyfrif**

Yn y Datganiad o Gyfrifon ceir ffigurau amcangyfrifedig sydd wedi'u seilio ar dybiaethau mae'r Awdurdod wedi'u gwneud am y dyfodol neu sy'n ansicr mewn rhyw ffordd arall. Gwneir amcangyfrifon gan gymryd mewn i ystyriaeth profiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, oherwydd na ellir pennu balansau â sicrwydd, gallai'r gwir ganlyniadau fod yn faterol wahanol i'r tybiaethau a'r amcangyfrifon.

Yr unig eitemau ym Mantolen yr Awdurdod y mae risg sylweddol o addasiad materol mewn perthynas â nhw yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod yw:

- y Gronfa Pensiynau - mae'r amcangyfrif o'r rhwymedigaeth net i dalu pensiynau'n dibynnu ar nifer o benderfyniadau cymhleth sy'n ymwneud â'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir, y gyfradd yr amcangyfrifir y bydd cyflogau'n codi, newidiadau i oed ymddeol, cyfraddau marwolaethau a'r adenillion a ddisgwylir ar asedau'r gronfa bensiwn. Mae cwmni o actiwariaid ymgynghorol wedi cael ei gyflogi i roi cyngor arbenigol i'r Awdurdod am y tybiaethau i gael eu defnyddio.
- Prisiadau Eiddo, Offer a Chyfarpar – Mae prisiadau mantolen yn seiliedig ar gyfuniad o ffactorau sy'n cynnwys mynegeion y farchnad yn ogystal â phenderfyniadau am oes asedau yn y dyfodol a thybiaethau am lefel y gwaith atgyweirio a chynnal a chadw a fydd yn cael ei wneud, sy'n effeithio ar oes asedau. Cynhelir prisiadau gan syrfewyr â chymwysterau proffesiynol a gyflogir gan yr Awdurdod.

Ar gyfer 2025/2026, adolygwyd gwerthoedd asedau nad ydynt yn destun ailbrisiad llawn gan ddefnyddio ffactorau mynegeio perthnasol lle roeddent ar gael a barn broffesiynol yn unol â *CIPFA Bulletin 22 – Indexation Application Guidance*. Mae priswyr yn ymarfer barn broffesiynol wrth benderfynu priodoldeb mynegeion a ddefnyddir, sy'n cael eu hadolygu'n barhaus.

6.4 Addasiadau rhwng y Sail Cyfrifyddu a'r Sail Ariannu yn unol â'r Rheoliadau

Mae'r nodyn hwn yn sôn am yr addasiadau gaiff eu gwneud i gyfanswm yr incwm a gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn. Caiff yr addasiadau eu gwneud yn unol â'r arferion cyfrifyddu priodol i'r adnoddau a enwir yn y darpariaethau statudol fel rhai sydd ar gael i'r Awdurdod i dalu am ei wariant cyfalaf a refeniw yn y dyfodol.

	Cronfeydd y gellir eu defnyddio				
	Balans Cronfa'r Cyngor	Cyfrif Refeniw Tai	Cronfa Derbyniadau Cyfalaf	Grantiau Cyfalaf na Cymhwyswyd	Symudiad yn Cronfeydd na ellir eu defnyddio
2025-26	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf:					
Gwrthdroi eitemau a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:					
Taliadau am ddibrisiant a niwed i asedau nad ydynt yn gyfredol	(46,831)	(14,733)	0	0	61,564
Enillion/(Colledion) ar ôl ailbrisio Eiddo, Offeriant a Chyfarpar	(29,281)	(35,687)	0	0	64,968
Symudiadau yng ngwerth Eiddo Buddsoddi ar y farchnad	(28,531)	0	0	0	28,531
Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a chymhwyswyd	36,817	18,766	0	0	(55,583)
Gwariant refeniw a ariannwyd o'r cyfalaf o dan statud	(811)	0	0	0	811
Symiau'r asedau nad ydynt yn gyfredol a ddiddymwyd drwy waredu neu werthu fel rhan o'r elw/colled i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(1,084)	(788)	0	0	1,872
Mewnosod eitemau na ddebydwyd na chredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:					
Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiadau cyfalaf	15,623	5,147	0	0	(20,770)
Gwariant cyfalaf a godir ar falansau Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai	7,112	859	0	0	(7,971)

	Cronfeydd y gellir eu defnyddio				
	Balans Cronfa'r Cyngor	Cyfrif Refeniw Tai	Cronfa Derbyniadau Cyfalaf	Grantiau Cyfalaf na Cymhwyswyd	Symudiad yn Cronfeydd na ellir eu defnyddio
2025-26	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf na Cymhwyswyd:					
Grantiau a chyfraniadau cyfalaf nas cymhwyswyd a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	8,992	0	0	(8,992)	0
Grantiau a gymhwyswyd i'r cyllid cyfalaf a drosglwyddwyd i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf	0	0	0	20,125	(20,125)
Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf:					
Trosglwyddo elw ariannol o werthu eiddo a gredydwyd fel rhan o'r elw/colled ar waredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	1,414	113	(1,527)	0	0
Derbyniadau Cyfalaf Statudol	20	0	(379)	0	359
Defnyddio'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd	0	0	1,019	0	(1,019)
Cyfraniad o'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf tuag at y costau gweinyddol o waredu asedau nad ydynt yn gyfredol	0	0	0	0	0
Derbyniadau Cyfalaf a Neilltuwyd	0	0	0	0	0
Trosglwyddo o'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig ar ôl derbyn arian	0	0	0	0	0

	Cronfeydd y gellir eu defnyddio				
	Balans Cronfa'r Cyngor	Cyfrif Refeniw Tai	Cronfa Derbyniadau Cyfalaf	Grantiau Cyfalaf na Cymhwyswyd	Symudiad yn Cronfeydd na ellir eu defnyddio
2025-26	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol:					
Swm sy'n dangos sut mae'r costau ariannol a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r costau sydd i'w codi yn ystod y flwyddyn yn unol â'r gofynion statudol	110	0	0	0	(110)
Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Gronfa Bensiynau:					
Gwrthdroi eitemau sy'n ymwneud â buddiannau ymddeol a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gweler Nodyn 6.42)	(24,034)	(1,165)	0	0	25,199
Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn	32,812	1,448	0	0	(34,260)
Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Gronfa Absenoldebau Cronedig:					
Swm sy'n dangos sut mae'r taliadau i swyddogion a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail gronedig yn wahanol i'r taliadau sydd i'w codi yn ystod y flwyddyn yn unol â'r gofynion statudol	149	105	0	0	(254)
Cyfanswm yr Addasiadau	(27,523)	(25,935)	(887)	11,133	43,212

	Cronfeydd y gellir eu defnyddio				
	Balans Cronfa'r Cyngor	Cyfrif Refeniw Tai	Cronfa Derbyniadau Cyfalaf	Grantiau Cyfalaf na Cymhwyswyd	Symudiad yn Cronfeydd na ellir eu defnyddio
2024-25	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf:					
Gwrthdroi eitemau a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:					
Taliadau am ddibrisiant a niwed i asedau nad ydynt yn gyfredol	(45,645)	(15,363)	0	0	61,008
Enillion/(Colledion) ar ôl ailbrisio Eiddo, Offeriant a Chyfarpar	(28,349)	(10,832)	0	0	39,181
Symudiadau yng ngwerth Eiddo Buddsoddi ar y farchnad	(1,050)	0	0	0	1,050
Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a chymhwyswyd	51,155	16,621	0	0	(67,776)
Gwariant refeniw a ariannwyd o'r cyfalaf o dan statud	(4,080)	0	0	0	4,080
Symiau'r asedau nad ydynt yn gyfredol a ddiddymwyd drwy waredu neu werthu fel rhan o'r elw/colled i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(923)	0	0	0	923
Mewnosod eitemau na ddebydwyd na chredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:					
Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiadau cyfalaf	15,280	4,889	0	0	(20,169)
Gwariant cyfalaf a godir ar falansau Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai	13,408	4,795	0	0	(18,203)

	Cronfeydd y gellir eu defnyddio				
	Balans Cronfa'r Cyngor	Cyfrif Refeniw Tai	Cronfa Derbyniadau Cyfalaf	Grantiau Cyfalaf na Cymhwyswyd	Symudiad yn Cronfeydd na ellir eu defnyddio
2024-25	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf na Cymhwyswyd:					
Grantiau a chyfraniadau cyfalaf nas cymhwyswyd a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	17,733	0	0	(17,733)	0
Grantiau a gymhwyswyd i'r cyllid cyfalaf a drosglwyddwyd i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf	0	0	0	9,325	(9,325)
Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf:					
Trosglwyddo elw ariannol o werthu eiddo a gredydwyd fel rhan o'r elw/colled ar waredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	1,136	85	(1,181)	0	(40)
Derbyniadau Cyfalaf Statudol	18	0	(311)	0	293
Defnyddio'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd	0	0	4,914	0	(4,914)
Cyfraniad o'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf tuag at y costau gweinyddol o waredu asedau nad ydynt yn gyfredol	0	0	0	0	0
Derbyniadau Cyfalaf a Neilltuwyd	0	0	0	0	0
Trosglwyddo o'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig ar ôl derbyn arian	0	0	0	0	0

	Cronfeydd y gellir eu defnyddio				
	Balans Cronfa'r Cyngor	Cyfrif Refeniw Tai	Cronfa Derbyniadau Cyfalaf	Grantiau Cyfalaf na Cymhwyswyd	Symudiad yn Cronfeydd na ellir eu defnyddio
2024-25	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol:					
Swm sy'n dangos sut mae'r costau ariannol a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r costau sydd i'w codi yn ystod y flwyddyn yn unol â'r gofynion statudol	1	0	0	0	(1)
Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Gronfa Bensiynau:					
Gwrthdroi eitemau sy'n ymwneud â buddiannau ymddeol a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gweler Nodyn 6.42)	(32,811)	(1,615)	0	0	34,426
Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn	31,749	1,406	0	0	(33,155)
Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Gronfa Absenoldebau Cronedig:					
Swm sy'n dangos sut mae'r taliadau i swyddogion a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail gronedig yn wahanol i'r taliadau sydd i'w codi yn ystod y flwyddyn yn unol â'r gofynion statudol	(220)	87	0	0	133
Cyfanswm yr Addasiadau	17,402	73	3,422	(8,408)	(12,489)

6.5 Nodyn i'r Dadansoddiad Gwariant a Chyllid**2025-26**

	Addasiadau rhwng y Sail Cyfrifyddu a'r Sail Cyllido			
	Addasiadau ar gyfer Dibenion Cyfalaf £'000	Newidiadau Net ar gyfer Addasiadau Pensiynau £'000	Gwahaniaethau Eraill £'000	Cyfanswm Addasiadau £'000
Adran				
Prif Weithredwr	994	(477)	(85)	432
Addysg a Hamdden	31,561	(4,590)	410	27,381
Gwasanaethau Corfforaethol	20,768	(1,818)	(50)	18,900
Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai	3,548	(2,302)	(264)	982
Lle, Seilwaith & Datblygiad Economaidd	10,596	(1,116)	(109)	9,371
Cyfrif Refeniw Tai	49,561	(371)	(105)	49,085
Yswiriant a Chorfforaethol	(3,617)	0	0	(3,617)
Cost y Gwasanaethau Net	113,411	(10,674)	(203)	102,534
Incwm a Gwariant Arall	(50,528)	1,613	(161)	(49,076)
Y Gwahaniaeth rhwng (Gwarged)/Diffyg CC a'r CRT a'r (Gwarged)/Diffyg ar Darparu Gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	62,883	(9,061)	(364)	53,458

2024-25

	(Ail-ddatgan)	(Ail-ddatgan)	(Ail-ddatgan)	(Ail-ddatgan)
Adran				
Prif Weithredwr	802	230	(148)	884
Addysg a Hamdden*	40,557	(889)	1,354	41,022
Gwasanaethau Corfforaethol	(15)	(1,531)	(94)	(1,640)
Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai*	3,152	1,048	(543)	3,657
Lle, Seilwaith & Datblygiad Economaidd	26,090	529	(303)	26,316
Cyfrif Refeniw Tai	21,400	135	(88)	21,447
Yswiriant a Chorfforaethol	(11,765)	0	0	(11,765)
Cost y Gwasanaethau Net	80,221	(478)	178	79,921
Incwm a Gwariant Arall	(99,098)	1,749	(47)	(97,396)
Y Gwahaniaeth rhwng (Gwarged)/Diffyg CC a'r CRT a'r (Gwarged)/Diffyg ar Darparu Gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(18,877)	1,271	131	(17,475)

* Mae ffigurau 2024/25 wedi'u hailddatgan i adlewyrchu'r newidiadau adrannol a ddigwyddodd yn ystod 2025/26. (Gweler Nodyn 6.47 am fanylion pellach).

Esboniad Naratif**Addasiadau at Ddibenion Cyfalaf**

Llinellau gwasanaeth - ychwanegu enillion a cholledion ailbrisio, dibrisiant, ac amharu a didynnu cyllid refeniw uniongyrchol.

Mae Gwariant ac Incwm Arall yn cynnwys y canlynol:

Gwariant Gweithredu Arall - Addasiadau ar gyfer gwarediadau cyfalaf gyda throsglwyddiad incwm a geir drwy waredu asedau a'r symiau a gaiff eu dileu o ran yr asedau hynny. Mae'n ychwanegu/didynnu costau i weithrediadau masnachu na'i chynhwysir yn y llinellau gwasanaeth.

Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi - didynnu'r taliadau statudol ar gyfer cyllido cyfalaf (MRP) a chaiff cyfraniadau refeniw eraill eu didynnu o incwm a gwariant arall gan na chaiff y rhain eu codi o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.

Trethiant ac incwm a gwariant grant amhenodol - mae grantiau cyfalaf yn cael eu haddasu ar gyfer incwm nad yw'n cael ei godi o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Caiff grantiau refeniw eu haddasu o'r rhai sy'n dderbyniadwy yn ystod y flwyddyn i'r rheiny sy'n dderbyniadwy heb amodau neu roedd yr amodau ar eu cyfer wedi eu bodloni gydol y flwyddyn. Mae credydau ar gyfer grantiau cyfalaf sy'n dderbyniadwy yn ystod y flwyddyn heb amodau neu roedd yr amodau ar eu cyfer wedi eu bodloni gydol y flwyddyn.

Newid Net ar gyfer Addasiadau Pensiynau

Llinellau gwasanaeth - cyfraniadau gan y cyflogwr a wneir gan yr Awdurdod yn cael eu gwaredu fel y caniateir yn ôl y gyfraith ac yn cael eu disodli gan y costau gwasanaeth presennol a'r costau gwasanaeth yn y gorffennol.

Mae Gwariant ac Incwm Arall yn cynnwys y canlynol:

Incwm Cyllido a Buddsoddi - mae'r llog net ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig yn cael ei godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Gwahaniaethau Eraill

Llinellau gwasanaeth - addasiadau ar gyfer tâl gwyliau a drosglwyddwyd i'r gronfa gronedig absenoldeb.

Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi - addasiadau i'r Gronfa Gyffredinol ar gyfer y gwahaniaethau amseru ar gyfer premiymau a gostyngiadau.

6.6 Gweithrediadau Masnachu

Mae'r awdurdod yn ymgymryd â'r gweithrediadau masnachu canlynol sy'n ffurfio'r Gwargedion/Diffygion ar Weithgareddau Masnachu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr: Gwasanaethau Eiddo, Cynnal a Chadw Cerbydau, Glanhau Adeiladau, Rheoli Fflyd a Dylunio Sifil.

6.7 **Treth y Cyngor**

Daw incwm Treth y Cyngor trwy godi tâl ar eiddo preswyl yn ôl gwerth yr eiddo ac mae'r gwerth hwnnw wedi'i rannu yn naw band prisio yr amcangyfrifwyd eu gwerth ar 1 Ebrill, 2003. Cyfrifir y taliadau drwy rannu faint o incwm y bydd ei angen ar Gyngor Sir Caerfyrddin, Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys a'r Cynghorau Tref a Chymuned â sylfaen Treth y Cyngor. Sylfaen Treth y Cyngor yw cyfanswm nifer yr anheddau ym mhob band prisio, wedi'i addasu yn ôl rhyw gyfran i drosi'r rhif i swm cyfatebol ar gyfer band D ac addasu ar gyfer disgowntiau. Sylfaen Treth y Cyngor am 2025/26 oedd 77,243.48 (76,460.40 ar gyfer 2024/25). Mae'r sylfaen dreth ar gyfer 2025/26 yn cynnwys premiymau 100% ar gyfer eiddo gwag tymor hir ac ail gartrefi.

Mae biliau Treth y Cyngor yn seiliedig ar y lluosyddion canlynol ar gyfer y bandiau o A i I. Mae'r tabl canlynol yn dangos y lluosydd sy'n berthnasol i bob band, ynghyd â'r nifer cyfwerth o breswylfeydd Band 'D' ym mhob band. Yn ogystal, mae un band is (A-) a luniwyd i gynnig y gostyngiad priodol mewn perthynas â phreswylfeydd i bobl ag anabledd, lle mae deddfwriaeth yn caniatáu gostyngiad o ran pennu band, i'r band sy'n union o dan y band y gosodwyd y breswylfa ynddo yn ôl ei gwerth gwirioneddol.

Band	A-	A	B	C	D	E	F	G	H	I
Lluosydd	5/9	6/9	7/9	8/9	9/9	11/9	13/9	15/9	18/9	21/9
Preswylfeydd Band D	15	5,319	16,825	15,152	13,566	15,206	8,992	3,490	547	114

Dadansoddiad o'r enillion net o Dreth y Cyngor:

	2024-25	2025-26
	£'000	£'000
Treth y Cyngor sy'n Gasgladwy	158,837	176,133
Symudiad yn Lwfans Amhariad	(2,180)	(3,036)
Enillion Net o Dreth y Cyngor (gan gynnwys praeseptau)	156,657	173,097

6.8 **Trethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR)**

Trefnir yr NNDR yn ôl dealltwriaeth genedlaethol. Y Cyngor sy'n gyfrifol am gasglu'r trethi oddi wrth drethdalwyr ei ardal ond wedyn mae'n talu'r arian i gronfa'r NNDR a weinyddir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Llywodraeth yn ailddosbarthu'r symiau sy'n daladwy yn ôl i'r awdurdodau lleol ar sail swm penodol am bob pen o'r boblogaeth. Mae busnesau lleol yn talu trethi sy'n cael eu cyfrifo drwy luosi eu gwerthoedd trethol â gwerthoedd penodol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru (56.8c am 2025/26 a 56.2c ar gyfer 2024/25).

Ar 31 Mawrth 2026 cyfanswm y trethi annomestig oedd £117,841,707 (£118,161,145 ar 31 Mawrth 2025).

6.9 Eiddo, Offeriant a Chyfarpar

Symudiadau yn 2025-26	Tai Cyngor	Tir ac Adeiladau Eraill	Cerbydau peiriannau ac Offer	Asedau Cymunedol	Asedau Dros Ben	Asedau'n cael eu hadeiladu	CYFANSWM
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwerth Llyfr Gros 01/04/25	515,796	980,319	31,897	8,944	13,976	153,776	1,704,708
Ychwanegiadau	30,715	25,175	6,539	115	18	39,759	102,321
Codiadau Ailbriso a gydnabwyd yn y Gronfa Ailbriso	6,238	24,785	0	15	419	0	31,457
Colledion Ailbriso a gydnabwyd yn y Gronfa Ailbriso	(30,699)	(13,908)	0	(1,328)	(161)	0	(46,096)
Codiadau Ailbriso a Gydnabwyd yn y Ddarpariaeth Gwas.	3,010	2,387	0	0	169	0	5,566
Colledion Ailbriso a Gydnabwyd yn y Ddarpariaeth Gwas.	(29,157)	(30,010)	(339)	(721)	(106)	0	(60,333)
Datgydnabod Gwaredu	(963)	(129)	(300)	0	(923)	0	(2,315)
Aildosbarthiadau: i ac o Asedau i'w werthu	0	0	0	0	(48)	0	(48)
Aildosbarthiadau: i ac o Eiddo Buddsoddi	0	(54)	0	(740)	(96)	0	(890)
Aildosbarthiadau: o Asedau'n cael eu hadeiladu	93	55,597	0	16	0	(103,540)	(47,834)
Aildosbarthiadau: EOC	0	(1,181)	0	(222)	1,403	0	0
Ysgrifennu nôl Dibrisiant i'r swm gros a gariwyd ar ailbriso	(4,448)	(55,956)	(393)	(85)	0	0	(60,882)
Gwerth Llyfr Gros 31/03/26	490,585	987,025	37,404	5,994	14,651	89,995	1,625,654
Dibrisiant a'r Amhariad Cronedig ar 01/04/25	(22,094)	(29,384)	(14,276)	(657)	3	0	(66,408)
Tâl Dibrisiant	(14,526)	(29,839)	(3,442)	(17)	0	0	(47,824)
Ysgrifennu nôl Dibrisiant i'r swm gros a gariwyd ar ailbriso	4,448	55,956	393	85	0	0	60,882
Datgydnabod Gwaredu	176	17	299	0	0	0	492
Symudiadau eraill o ran dibrisiant ac amhariadau	(12,286)	(1,041)	(22)	0	0	0	(13,349)
Dibrisiant Cronnol i 31/03/26	(44,282)	(4,291)	(17,048)	(589)	3	0	(66,207)
Gwerth Llyfr Net ar 31/03/26	446,303	982,734	20,356	5,405	14,654	89,995	1,559,447

Symudiadau yn 2024-25	Tai Cyngor	Tir ac Adeiladau Eraill	Cerbydau peiriannau ac Offer	Asedau Cymunedol	Asedau Dros Ben	Asedau'n cael eu hadeiladu	CYFANSWM
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwerth Llyfr Gros 01/04/24	479,460	930,249	29,320	8,656	13,916	100,714	1,562,315
Ychwanegiadau	30,753	20,559	3,420	267	1	76,249	131,249
Codiadau Ailbriso a gydnabwyd yn y Gronfa Ailbriso	27,339	92,086	20	0	182	0	119,627
Colledion Ailbriso a gydnabwyd yn y Gronfa Ailbriso	(3,597)	(40,520)	0	0	(437)	0	(44,554)
Codiadau Ailbriso a Gydnabwyd yn y Ddarpariaeth Gwas.	10,989	7,115	0	0	421	0	18,525
Colledion Ailbriso a Gydnabwyd yn y Ddarpariaeth Gwas.	(15,281)	(34,885)	(58)	0	(31)	0	(50,255)
Datgydnabod Gwaredu	0	0	(362)	0	(142)	0	(504)
Aildosbarthiadau: i ac o Asedau i'w werthu	0	(725)	0	0	(14)	0	(739)
Aildosbarthiadau: i ac o Eiddo Buddsoddi	0	(1,429)	0	0	0	0	(1,429)
Aildosbarthiadau: o Asedau'n cael eu hadeiladu	6,150	14,978	0	21	0	(23,955)	(2,806)
Aildosbarthiadau: EOC	0	(868)	0	0	80	768	(20)
Ysgrifennu nôl Dibrisiant i'r swm gros a gariwyd ar ailbriso	(20,017)	(6,241)	(443)	0	0	0	(26,701)
Gwerth Llyfr Gros 31/03/25	515,796	980,319	31,897	8,944	13,976	153,776	1,704,708
Dibrisiant a'r Amhariad Cronedig ar 01/04/24	(18,244)	(5,162)	(12,006)	(597)	3	0	(36,006)
Tâl Dibrisiant	(15,196)	(28,946)	(3,056)	(60)	0	0	(47,258)
Dibrisiant a Symudwyd i'r Gronfa Ailbriso	20,017	6,241	443	0	0	0	26,701
Datgydnabod Gwaredu	0	0	343	0	0	0	343
Symudiadau eraill o ran dibrisiant ac amhariadau	(8,671)	(1,517)	0	0	0	0	(10,188)
Dibrisiant Cronnol i 31/03/25	(22,094)	(29,384)	(14,276)	(657)	3	0	(66,408)
Gwerth Llyfr Net ar 31/03/25	493,702	950,935	17,621	8,287	13,979	153,776	1,638,300

Cafodd yr holl asedau a ail-ddosbarthwyd yn Rhai i'w Gwerthu, eu gwerthu yn ystod y flwyddyn. Nid oedd unrhyw asedau a ddosbarthwyd fel Rhai i'w Gwerthu, ar 31 Mawrth 2026.

Datganiad o'r Asedau Anghyfredol a gedwir yn ôl eu gwerth presennol 2025/26

Mae'r datganiad canlynol yn dangos y camau a gymerwyd o ran rhaglen dreigl yr Awdurdod i ailbrisio asedau sefydlog. Ymgwymerir â'r gwaith prisio gan briswyr yr Awdurdod sy'n perthyn i Sefydliad Brenhinol y Syrffewyr Siartredig. Pennir sylfaen y prisio yn y datganiad o bolisïau cyfrifydda.

	Tai Cyngor £'000	Tir ac Adeiladau Eraill £'000	Cerbydau Peiriannau ac Offer £'000	Asedau Gwarged £'000	CYFANSWM £'000
Symudiad yn gwerth teg ar:					
Y Blynnyddoedd Blaenorol	374,626	739,254	28,422	23,557	1,165,859
31 Mawrth 2022	93,924	78,237	(2,695)	(2,344)	167,122
31 Mawrth 2023	24,794	77,373	5,077	(2,693)	104,551
31 Mawrth 2024	(13,884)	35,385	(1,484)	(4,604)	15,413
31 Mawrth 2025	36,336	50,070	2,577	60	89,043
31 Mawrth 2026	(25,211)	6,706	5,507	675	(12,323)
Gwerth Llyfr Gros ar 31/03/26	490,585	987,025	37,404	14,651	1,529,665

Asedau Seilwaith

Yn unol â'r rhyddhad dros dro a gynigiwyd gan y diweddariad i'r Cod ar asedau seilwaith, nid yw'r nodyn hwn yn cynnwys datgelu cost gros a dibrisio cronedig ar gyfer asedau seilwaith oherwydd bod arferion adrodd hanesyddol a diffygion gwybodaeth canlyniadol yn golygu na fyddai hyn yn dangos y sefyllfa o ran asedau yn gywir i ddefnyddwyr y datganiadau ariannol.

Mae'r awdurdod wedi penderfynu yn unol â Rheoliad 24L Cymru o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifeg) (Cymru) 2022 (fel y'u diwygiwyd) mai'r swm cario ymlaen sydd i'w dad-gydnabod o ran yr asedau seilwaith, pan fo'r gwariant newydd yn ddim.

Mae'r awdurdod wedi dewis peidio â datgelu'r wybodaeth hon gan fod yr arferion yr adroddwyd arnynt yn flaenorol a'r diffygion gwybodaeth canlyniadol yn golygu nad yw cost gros a dibrisio cronedig yn cael eu mesur yn gywir ac ni fyddai'n sail i ddefnyddwyr y datganiadau ariannol wneud penderfyniadau economaidd neu benderfyniadau eraill sy'n ymwneud ag asedau seilwaith.

	2024-25 £'000	2025-26 £'000
Gwerth Llyfr Net ar 1af Ebrill	264,486	268,994
Ychwanegiadau net	12,806	26,225
Ailddosbarthiadau	0	13,342
Tâl dibrisiant net	(8,298)	(8,300)
Cyfanswm Symudiadau Net	4,508	31,267
Gwerth Llyfr Net ar 31ain Mawrth	268,994	300,261

Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (RAAC)

Yn 2023, ffurfiwyd Tasglu RAAC trawsadrannol i fynd i'r afael â'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â Choncrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (RAAC). Cynhaliodd y Tasglu arolygon cynhwysfawr ynghylch 166 o adeiladau amhreswyl a adeiladwyd rhwng 1944 a 1999, neu'r rhai ag estyniadau to gwastad.

Ar ôl cwblhau'r arolygon, nodwyd RAAC mewn un eiddo buddsoddi. Mae mesurau diogelwch dros dro wedi'u rhoi ar waith ar unwaith i sicrhau bod yr eiddo yn parhau i gael ei ddefnyddio'n ddiogel. Bydd yr eiddo yn parhau i gael ei fonitro'n fanwl wrth iddo gael ei ddefnyddio, tra bod opsiynau adfer yn cael eu datblygu.

Ymrwymadau Cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2026 roedd y Cyngor wedi ymrwymo drwy contract i waith cyfalaf oedd yn werth tua £42.6 miliwn (£53 miliwn ar 31 Mawrth 2025).

	£'000
Tai Cyngor	4,033
<i>Roedd y prif gontractau yn cynnwys:</i>	
<i>Adeilad Newydd y Cyngor - Meysydd Chwarae</i>	
<i>Llanymddyfri</i>	3,303
Addysg	9,644
<i>Roedd y prif gontractau yn cynnwys:</i>	
<i>Canolfan Drochi yn yr Iaith Gymraeg - Y Strade</i>	2,842
<i>Ysgol Bryngwyn</i>	6,160
Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth	84
Datblygu Economaidd	22,948
<i>Roedd y prif gontractau yn cynnwys:</i>	
<i>Canolfan yn Pentre Awel</i>	4,203
<i>Atriwm</i>	6,847
<i>Prosiect Digidol - Lleoedd Cysylltiedig</i>	1,395
<i>Prosiect Digidol - Gwledig</i>	8,870
Adran Prif Weithredwr	169
Seilwaith Amgylcheddol a Llifogydd	
<i>Roedd y prif gontractau yn cynnwys:</i>	5,729
<i>Prif Gynllun Llanelli - Pont Ddu</i>	1,826
<i>Trawsnewid strategol sbwriel ac ailgylchu</i>	3,201
Cyfanswm	42,607

6.10 Asedau Treftadaeth

Roedd Asedau Treftadaeth gyda swm net o £2,724k yn cael eu dal ar 31 Mawrth 2026 (£2,607k ar 31 Mawrth 2025). Gellir cael rhagor o fanylion am Asedau Treftadaeth y Cyngor, sy'n cael eu hystyried yn Arddangosfeydd Amgueddfeydd, gan Guradur Amgueddfa'r Sir yng Nghyngor Sir Gaerfyrddin.

6.11 Eiddo Buddsoddi

Cyfrifyddwyd ar gyfer yr eitemau canlynol o incwm a gwariant yn y llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:

	2024-25 £'000	2025-26 £'000
Incwm rhent o Eiddo Buddsoddi	(995)	(1,148)
Treuliau gweithredol uniongyrchol yn deillio o eiddo buddsoddi	474	481
(Ennill)/colled net	(521)	(667)
Gwariant Anuniongyrchol	475	476
(Enillion)/Colledion net o addasiadau i'r Gwerth Teg	1,050	28,531
Incwm a gwariant yng nghyswllt Eiddo Buddsoddi a newidiadau yn y Gwerth Teg	1,004	28,340

Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o'r newid i werth teg Eiddo Buddsoddi dros y flwyddyn:

	2024-25 £'000	2025-26 £'000
Balans ar ddechrau'r flwyddyn	21,157	24,458
Ychwanegiadau	417	3,443
Gwarediadau	(24)	0
Enillion/(Colledion) net o addasiadau i'r gwerth teg	(1,050)	(28,531)
Colledion ailbrisio a gydnabuwyd yn y gronfa ailbrisio wrth gefn	16	0
Trosglwyddiad:		
(I)/O Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar	3,942	35,381
	0	0
	24,458	34,751

Mesuriad Gwerth Teg o Eiddo Buddsoddi

Dyma fanylion eiddo buddsoddi'r Cyngor a gwybodaeth am yr hierarchaeth gwerth teg fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2025		31 Mawrth 2026	
	Mewnbynnau anweladwy sylweddol	Gwerth Teg	Mewnbynnau anweladwy sylweddol	Gwerth Teg
Mesuriadau Gwerth Teg cylchol gan ddefnyddio:	eraill (lefel 3)		eraill (lefel 3)	
Eiddo Masnachol	10,015	10,015	19,450	19,450
Garejys	61	61	60	60
Asedau Tir	14,335	14,335	15,194	15,194
Eiddo Preswyl	47	47	47	47
Cyfanswm	24,458	24,458	34,751	34,751

6.12 Buddsoddiadau Tymor Hir

	31 Mawrth 2025	31 Mawrth 2026
	£'000	£'000
Cwm Environmental Ltd.	329	329
Egni Sir Gar Cyfyngedig	680	600
Banciau a lsgwmnioedd a feiddienir yn llwyr - 100%	0	0
	1,009	929

Er bod CWM Environmental, Llesiant Delta Wellbeing Cyf a Chartrefi Croeso yn is-gwmnïau sy'n golygu paratoi cyfrifon grŵp ar eu cyfer, nid oes cyfrifon grŵp wedi'u paratoi gan na fyddai cyfuno'r rhain yn effeithio'n faterol ar sefyllfa ariannol yr Awdurdod na gallu darlennydd y cyfrifon i weld y gweithgareddau economaidd cyflawn a'r risg o ran y Cyngor.

Cwm Environmental Cyf

Is-gwmni sy'n perthyn yn llwyr i'r Awdurdod yw CWM Environmental Cyf. Sefydlwyd y cwmni yn unol â Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ar gyfer Gwaredu Gwastraff.

Breiniwyd y cwmni gyda'r Swyddfa Gymreig ar 10 Mawrth 1997 ac roedd buddiannau'r Awdurdod ar 31 Mawrth 2026 fel â ganlyn:

	£'000
Cyfalaf Cyfranddaliadau	329

Mae'r buddsoddiad wedi'i gynnwys yn y Buddsoddiadau Tymor Hir ar y Fantolen ac nid yw'r Awdurdod wedi rhoi ymrwymiad i'r cwmni y bydd yn talu unrhyw ddiffygion neu golledion cronol.

Mae CWM Environmental Cyf. yn gweithredu dau is-gwmni a feddienir yn llwyr sydd â'r cyfranddaliadau canlynol:

Pembrokeshire Recycling Company Ltd	£1.00
Carmarthenshire Recycling Company Ltd	£1.00

Mae Pembrokeshire Recycling Company Ltd a Carmarthenshire Recycling Company Ltd wedi'i cofrestru yng Nghymru a Lloegr ac yn gwmni cwsgr.

Mae'r Cwmni wedi cynhyrchu Adroddiadau Blynnyddol drafft am y flwyddyn. Mae crynodeb o'r cyfrifon drafft heb eu archwilio am y flwyddyn yn diweddu 31 March 2026 wedi ei nodi isod ynghyd â'r asedau net ar y dyddiad hwnnw:

	Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2026 £'000
Trosiant	19,812
Llai: Cost y Gwerthiannau	(17,311)
Elw Gros	2,501
Argostau	(2,782)
Elw/(Colled) Net cyn treth	(281)
Treth ar elw/colled	0
Elw a Gedwir/(Colled)	(281)
Asedau Net ar 31 Mawrth 2026	4,594

Gellir cael copi o'r adroddiad blynnyddol oddi wrth y Swyddfa Gofrestredig yn y cyfeiriad canlynol:

Y Brif Swyddfa,
Canolfan Ailgylchu Nant-y-caws
Heol Llanddarog,
Caerfyrddin,
SA32 8BG

Llesiant Delta Wellbeing Cyf

Mae Llesiant Delta Wellbeing Cyf yn is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr yr Awdurdod. Cyfanswm gwerth y cyfalaf cyfrannau yw £1. Mae'r buddsoddiad wedi'i gynnwys yn y Buddsoddiadau Tymor Hir ar y Fantolen ac nid yw'r Awdurdod wedi rhoi ymrwymiad i'r cwmni hwn y bydd yn talu unrhyw ddiffygion neu golledion cronol.

Mae'n ofynnol i'r cwmni lunio cyfrifon wedi'u harchwilio am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 sy'n cael eu cyflwyno i Dŷ'r Cwmnïau. Mae crynodeb o'r cyfrifon drafft am y flwyddyn yn diweddu 31 March 2025 wedi ei nodi isod ynghyd â'r asedau net ar y dyddiad hwnnw. Gweler gwybodaeth ychwanegol am hyn yn Nodyn 6.43 Rhwymedigaethau Amodol.

	Am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025 £'000
Trosiant	8,446
Llai: Cost y Gwerthiannau	(6,764)
Elw Gros	1,682
Argostau	(1,674)
Elw/(Colled) Net cyn treth	8
Treth ar elw/colled	(1)
Newidiadau mewn rhwymedigaethau pensiwn diffiniedig	(1,365)
Elw a Gedwir/(Colled)	(1,358)
Asedau Net/(Rhwymwedigaethau) ar 31 Mawrth 2025	554

Catrefi Croeso

Mae Cartrefi Croeso yn is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr yr Awdurdod. Cyfanswm gwerth y cyfalaf cyfrannau yw £100. Mae'r buddsoddiad wedi'i gynnwys yn y Buddsoddiadau Tymor Hir ar y Fantolen ac nid yw'r Awdurdod wedi rhoi ymrwymiad i'r cwmni hwn y bydd yn talu unrhyw ddiffygion neu golledion cronol. Yn ystod y flwyddyn 2023/24, rhoddwyd y cwmni ynghwsg.

Mae'n ofynnol i'r cwmni lunio cyfrifon wedi'u harchwilio am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 sy'n cael eu cyflwyno i Dŷ'r Cwmnïau. Nid oedd unrhyw weithgarwch busnes yn ystod y flwyddyn.

Egni Sir Gar

Bu i Gyngor Sir Caerfyrddin fuddsoddi yn y prosiect ffotofoltaidd solar a sefydlwyd gan Egni Sir Gâr Cyfyngedig, sef cymdeithas budd cymunedol a gofrestrwyd gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (rhif 7193). Roedd y cynllun wedi gosod panelau ffotofoltaidd solar ar 17 o adeiladau annomestig ym mhorthfolio'r Cyngor yn 2016. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn 100% gyfranddalwyr o Egni Sir Gar Cyfyngedig.

Gwerthodd y gymdeithas gyfrannau i gyllido'r gwariant cyfalaf a gofynion cyfalaf gweithredol cysylltiedig â datblygu, gosod, a chynnal a chadw'r paneli. Cwblhawyd gosodiad paneli haul ffotofoltäig yn ystod 2016.

Cafodd Cytundeb Pryniadau Cyfrannau ei sefydlu rhwng Cyngor Sir Caerfyrddin ac Egni Sir Gâr Cyfyngedig.

Gwnaed ad-daliad cyfalaf (cyfranddaliadau 'B' cyffredin) o £80k yn ystod y flwyddyn.

	£'000
Cyfranddaliadau 'A' cyffredin	100
Cyfranddaliadau 'B' cyffredin	500
Cyfanswm Cyfalaf Cyfranddaliadau	600

Mae gan bob cyfranddaliad werth mewn enw o £1.00 yr un.

6.13 Dyledwyr Tymor Hir

	31 Mawrth 2025	31 Mawrth 2026
	£'000	£'000
Benthyciadau Gwella Cartrefi (mwy na blwyddyn o hyd)	501	346
Taliadau yn erbyn ystadau pobl mewn cartrefi preswyl (Cyngor Sir Caerfyrddin)	760	710
Taliadau yn erbyn ystadau pobl mewn cartrefi preswyl (Darparwyr Allanol)	1,783	2,094
Cyfraniad Cyfalaf at fenthyciadau i bobl sy'n prynu eu cartref cyntaf	795	779
Benthyciadau Ceir	13	7
Benthyciad Canol Trefi	1,102	1,454
Benthyciad Cartrefi Croeso	2	2
Benthyciad Cyngorau Tref a Chymuned	236	174
Benthyciad Cwm Environmental	4,449	10,395
Benthyciad Scarlets	2,616	2,616
Eraill	74	73
	12,331	18,650

Mae menter Troi Tai'n Gartrefi Llywodraeth Cymru a Benthyciadau Gwella Cartrefi yn darparu benthyciadau di-log i sicrhau bod tai gwag yn cael eu defnyddio unwaith eto. Bydd y taliadau hyn i landlordiaid yn creu cronfa benthyciadau ailgylchadwy y gellir ei defnyddio yn ystod cyfnod y cynllun sy'n dod i ben.

Ymrwymwyd i fenthyciad 10 mlynedd o £321k ar gyfradd llog sefydlog o 3.38% gyda CWM Environmental Cyf ym mis Chwefror 2020 er mwyn caffael tir sy'n ffinio â safle Nantycaws. Ymrwymwyd i fenthyciad 5 mlynedd ychwanegol o £201k ar gyfradd llog sefydlog o 3.12% gyda CWM Environmental Cyf ym mis Ebrill 2020 er mwyn adeiladu swyddfa newydd ar safle Nant-y-caws. Talwyd y benthyciad hwn yn llawn ym mis Ebrill 2025.

Ymrwymwyd i fenthyciad 5 mlynedd o £278k ar gyfradd llog sefydlog o 6.10% y flwyddyn gyda CWM Environmental Limited ym mis Chwefror 2025 at ddibenion setliad prydles a chostau cyfreithiol wrth adleoli.

Cytunodd y Cyngor Sir ar fenthyciad gwerth £10m gyda CWM Environmental Ltd ym mis Rhagfyr 2023 i alluogi'r cwmni i ailadeiladu a chyfarparu Cyfleuster Adfer Adnoddau yn dilyn y tân ar y safle ym mis Ebrill 2021. Mae'r cyfleuster benthyciad llawn o £10m bellach wedi'i ddefnyddio, gyda chyfradd gyfunol o 5.63%, ac mae'r ad-daliadau i fod i ddechrau yn 2026/27.

Mae'r Cyngor Sir, fel rhan o'r Cytundeb Datblygu a wnaed gyda Chlwb Rygbi Llanelli Cyfyngedig (y clwb), wedi blaendalu swm o £2.4m am dymor o 15 mlynedd i'r clwb. Ym mis Hydref 2010, cytunodd y Cyngor Sir i amrywio telerau'r benthyciad lle gohiriwyd taliadau llog o £216,000 tan ddiwedd cyfnod y benthyciad yn 2023. Yn dilyn diwedd y cytundeb hwn, cytunwyd ar estyniad pellach i'r benthyciad am gyfnod o 15 mlynedd o Ebrill 2023. Cytunwyd i amrywio telerau ac roedd ad-daliad y prif fenthyciad yn dechrau o fis Ebrill 2026 ar sail rhandaliadau cyfartal o £218,000 y flwyddyn. Mae'r llog yn parhau i fod yn daladwy ar y benthyciad ac mae'n cael ei godi ar gyfradd o 2.2% yn uwch na Chyfradd Sylfaenol y Banc (3.75% ar 31 Mawrth 2026).

Mae benthyciadau i Gynghorau Tref a Chymuned ar gyfer gosod polion golau LED newydd sy'n defnyddio ynni'n effeithlon. Menter Buddsoddi i Arbed yw hon.

Nod Benthyciadau Canol y Dref yw cefnogi busnesau i ailddatblygu eiddo gwag neu eiddo sy'n cael ei danddefnyddio yng nghanol trefi i ddefnydd masnachol a/neu breswyl.

6.14 Buddsoddiadau Tymor Byr

Buddsoddiadau sydd i'w had-dalu o fewn deuddeng mis yw'r rhain ac fe'u dadansoddir fel â ganlyn:

	31 Mawrth 2025 £'000	31 Mawrth 2026 £'000
Cyfleuster Adneuo Cyfrif Banciau a Rheoli Dyledion	867	1,305
Llywodraeth Leol	8,130	0
	8,997	1,305

6.15 Stocrestrau

	2024-25 £'000	2025-26 £'000
Balans ar ddechrau'r flwyddyn	1,980	1,455
Pryniannau	7,760	8,341
Cydnabuwyd fel traul yn y flwyddyn	(8,279)	(8,068)
Balansau a ddilëwyd	(6)	(7)
Newidiadau net eraill yn y flwyddyn	0	0
Balans ar ddiwedd y flwyddyn	1,455	1,721

6.16 Dyledwyr Tymor Byr

	31 Mawrth 2025 £'000	31 Mawrth 2026 £'000
Refeniw a Thollau EF	7,226	5,633
Llywodraeth Ganolog	56,128	50,100
Heddlu, Brigad Dân, Parc Cenedlaethol ac Awdurdodau Lleol	19,682	8,885
Cyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol	12,049	9,628
Talwyr Treth y Cyngor	6,424	7,508
Tenantiaid Tai	2,559	2,640
Arall	30,667	37,023
	134,735	121,417

6.17 Arian Parod ac Arian Cyfwerth

Mae balans yr Arian Parod a'r Arian Cyfwerth yn cynnwys yr elfennau canlynol:

2024-25 £'000		2025-26 £'000
78	Arian parod a ddelir gan yr Awdurdod	71
(3,505)	Cyfrifon cyfredol yn y banc	(3,725)
	Adneuon tymor byr gyda banciau, cronfeydd	
12,894	marchnadoedd arian a chyfrif cadw i reoli dyledion	15,993
5,005	Adneuon tymor byr gyda Awdurdodau Lleol	0
14,472	Cyfanswm Arian Parod ac Arian Cyfwerth	12,339

6.18 Benthyciadau Tymor Byr

Benthyciadau sydd i'w had-dalu o fewn deuddeng mis yw'r rhain ac fe'u dadansoddir fel â ganlyn:

	31 Mawrth 2025 £'000	31 Mawrth 2026 £'000
Bwrdd Benthyciadau Gweithfeydd Cyhoeddus	10,804	14,942
Benthyciadau'r Farchnad	64	0
Salix a Buddsoddi i Arbed	288	288
	11,156	15,230

6.19 Credydwyr Tymor Byr

	31 Mawrth 2025 £'000	31 Mawrth 2026 £'000
Refeniw a Thollau EF	(6,610)	(7,550)
Llywodraeth Ganolog	(5,393)	(9,499)
Heddlu, Brigâd Dân, Parc Cenedlaethol ac Awdurdodau Lleol	(2,185)	(2,910)
Cyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol	(1,359)	(1,570)
Tenantiaid Tai	(955)	(966)
Talwyr Treth y Cyngor	(4,288)	(4,672)
Cysylltiedig â'r Gweithwyr	(8,810)	(8,719)
Cronfa Pensiwn Dyfed	(11,629)	(16,611)
Cronfeydd Ymddiredolaethau*	(6,796)	(6,842)
Rhwymedigaethau Prydlesi Cyllid	(3,497)	(3,497)
Arall	(55,996)	(49,830)
	<u>(107,518)</u>	<u>(112,666)</u>

* Arian a gedwir ar ran cleient yw hwn.

6.20 Darpariaethau

Mae'r crynodeb isod yn dangos y symudiad yn lefel y darpariaethau yn ystod 2025/26:

	1 Ebrill 2025 £'000	Gwerth- droad £'000	Ychwa- negiad £'000	Defnydd £'000	31 Mawrth 2026 £'000
Adran Y Gwasanaethau Corfforaethol	150	(40)	75	0	185
Adran Lle, Seilwaith & Datblygiad					
Economaidd	22	0	0	0	22
Addysg a Hamdden	38	0	0	0	38
Municipal Mutual Insurance (MMI)	125	0	0	0	125
Darpariaeth Ôl-ofal Safleoedd Tirlenwi	148	0	0	(76)	72
Yswiriant	932	0	47	0	979
	1,415	(40)	122	(76)	1,421
Balansau ar 31 Mawrth 2026					
	Rhwymedi gaethau Cyfredol (< 1 blwyddyn) £'000	Rhwymedi gaethau Tymor Hir (> 1 blwyddyn) £'000		Cyfanswm £'000	
Adran Y Gwasanaethau Corfforaethol	40	145		185	
Adran Lle, Seilwaith & Datblygiad					
Economaidd	8	14		22	
Adran Cymunedau	0	38		38	
Municipal Mutual Insurance (MMI)	2	123		125	
Darpariaeth Ôl-ofal Safleoedd Tirlenwi	72	0		72	
Yswiriant	979	0		979	
	1,101	320		1,421	

Diben y Prif Ddarpariaethau**Adran y Gwasanaethau Corfforaethol**

Gwneir darpariaethau ar gyfer symiau sy'n ddyledus i CThEF mewn perthynas ag addasiad treth cyflogres y flwyddyn flaenorol £145k. Mae hefyd darpariaeth ar gyfer goramser i gau'r cyfrifon.

Adran Lle, Seilwaith & Datblygiad Economaidd

Mae'r cyfanswm yn cynnwys £14k ar gyfer gwaith adferol oherwydd ansefydlogrwydd y tir ym Mharc y Goron a £8k ar gyfer taliadau trosglwyddo asedau cymeradwy.

Adran Addysg a Hamdden

Darparu £38k ar gyfer costau cyfreithiol/bargyfreithwyr ar gyfer erlyniadau sy'n ymwneud â safonau masnach ac iechyd anifeiliaid.

Municipal Mutual Insurance (MMI)

O ran blynnyddoedd y polisi cyn 1992/93, gallai'r holl awdurdodau lleol y mae MMI wedi'u hyswrio wynebu'r posibilrwydd o rwymedigaeth yswiriant yn ymwneud â chau MMI ar 30 Medi 1992. Ym mis Ionawr 2012, sbardunodd Cyfarwyddwyr MMI y "Cynllun Trefniant Ariannol ar gyfer MMI" a chyhoeddwyd yr hysbysiad ardoll ar 1 Ionawr 2014. Roedd yr ardoll gychwynnol yn 15% a chynyddodd i 25% ar ddiwedd 2015/16. Tra bo rhwymedigaeth net yn parhau ar fantolen MMI, mae Gweinyddwr y Cynllun yn parhau i fonitro'r sefyllfa o ran hawliadau a bydd yn hysbysu credydwy'r cynllun os oes angen addasu'r ardoll. Gan fod y mater yn dal yn gyfredol, cedwir y ddarpariaeth yn y cyfrifon.

Ôl-ofal Safleoedd Tirlenwi

Mae dyletswydd ar endidau sy'n gweithredu safleoedd tirlenwi wneud gwaith adfer a darparu ôl-ofal priodol, gan gynnwys monitro a rheoli'r nwyon a'r trwytholchion a gynhyrchir ar y safleoedd hyn. Mae IAS37 yn ei gwneud yn ofynnol i ddarpariaeth gael ei chydabod, ac mae IAS16 yn diffinio cost eitem o eiddo fel un sy'n cynnwys 'yr amcangyfrif cychwynnol o'r costau o ddatgymalu a thynnu'r eitem ac adfer y safle y mae'r eitem wedi'i lleoli arno'.

Y Ddarpariaeth Yswiriant

Mae'r ddarpariaeth hon ar gyfer hawliadau yswiriant sydd wedi cael eu cofrestru ac sy'n debygol o ddod i ran yr Awdurdod.

6.21 Benthyciadau Tymor Hir**Y Cyfanswm sy'n Ddyledus**

	31 Mawrth 2025 £'000	31 Mawrth 2026 £'000	Dyddiadau Aeddfedu
Ffynonellau'r Benthyciadau			
Bwrdd Benthyciadau Gweithfeydd Cyhoeddus	395,033	412,630	2026-2073
Benthyciadau'r Farchnad (Nodyn i)	3,110	0	2026-2055
Benthyciadau di-log (Nodyn ii)	9,096	8,808	2026-2037
	407,239	421,438	

- (i) Benthyciad FMS Wertmanagement AoR yw hwn sydd yn fenthyciad LOBO (Opsion Rhoi Benthyc Cymryd Benthyc). Nodir y Cyfradd Llog Cyfatebol. Benthyciad cyfradd llog banc graddedig ydyw, a 4.72 % yw ei gyfradd llog presennol. Caiff yr un sy'n rhoi'r benthyciad ddewis amrywio'r gyfradd llog bob dyddiad talu llog. Os dewisa'r un sy'n rhoi'r benthyciad wneud hynny, caiff yr Awdurdod ddewis derbyn y gyfradd llog newydd neu ad-dalu'r benthyciad i'r un a'i rhoddodd. Roedd y benthyciwr wedi arfer ei hawl i ddiwygio llog y benthyciad ym mis Ebrill 2025. Gwrthododd y Cyngor y gyfradd newydd ac ad-dalodd y benthyciad yn llawn, heb unrhyw gosb.

(i)

**Benthyciadau di-log
Cyfanswm dyledus ar:**

	31 Mawrth 2025 £'000	31 Mawrth 2026 £'000
SALIX	1,741	1,453
Benthyciadau Gwella Cartrefi	1,292	1,292
Benthyciadau Canol Trefi	6,063	6,063
	9,096	8,808

Mae Re:fit Cymru yn gynllun a hyrwyddir gan Lywodraeth Cymru sy'n darparu benthyciadau di-log drwy raglen ariannu Salix am hyd at 10 mlynedd, sy'n ceisio cyflymu'r broses o wella effeithlonrwydd ynni ym mhob adeilad sector cyhoeddus yng Nghymru.

Darperir y Cynllun Benthyciadau Gwella Cartrefi o dan statud gan Lywodraeth Cymru. Diben y cynllun yw rhoi benthyciadau i berchen-feddianwyr a'r sector rhentu preifat er mwyn gwella eiddo neu fod eiddo gwag yn cael ei ddefnyddio unwaith eto. Mae'r cyllid ar gael tan 31 Mawrth 2030 a chynigir yr arian ymlaen llaw i drydydd partïon ar sail benthyciad di-log i'w had-dalu.

Rhoddir y Benthyciadau Canol Trefi o dan statud gan Lywodraeth Cymru. Diben y cynllun yw darparu benthyciadau i leihau nifer y safleoedd gwag, y safleoedd sy'n cael eu tanddefnyddio a'r safleoedd diangen yng nghanol trefi a chefnogi arallgyfeirio canol trefi drwy annog defnydd mwy cynaliadwy ar gyfer safleoedd ac adeiladau gwag, megis preswyl, hamdden ac ar gyfer gwasanaethau allweddol. Mae cyfnod y cyllid yn para tan 31 Mawrth 2037, gyda blaendaliadau i drydydd partïon fydd yn ad-daladwy'n ddi-log.

6.22 Cronfeydd Wrth Gefn Cronfa'r Cyngor sydd wedi'u Clustnodi

Mae crynodeb o'r cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u Clustnodi a sefydlwyd gan yr awdurdod hwn neu ei ragflaenwyr wedi'i nodi isod:

	1 Ebrill 2024	Trosglwy ddiadau Mewn £'000	Trosglwy ddiadau Allan £'000	31 Mawrth 2025	Trosglwyd diadau Mewn £'000	Trosglwy ddiadau Allan £'000	31 Mawrth 2026
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi							
Yswiriant	13,851	1,278	(1,040)	14,089	1,346	(993)	14,442
Cronfa Datblygiadau Mawr	23,875	5,081	(9,310)	19,646	2,000	(2,952)	18,694
Arian Cyfalaf y Rhaglen Moderneiddio							
Addysg	15,289	3,251	(1,261)	17,279	2,992	(609)	19,662
Cronfa Datblygu	753	200	(149)	804	1,376	(175)	2,005
Cronfa Datblygu Ysgolion	328	6	0	334	165	0	499
Y Fargen Ddinesig/Pentre Awel	9,090	2,347	(3,789)	7,648	4,000	(2,308)	9,340
Buddsoddi i Arbed - Goleuadau Cyhoeddus	805	0	0	805	0	0	805
Cronfa Salix	183	203	(288)	98	200	(343)	(45)
Cronfa Ymddeoliad Corfforaethol	6,349	66	0	6,415	84	0	6,499
Swyddi Afraid	1,100	102	(71)	1,131	198	(213)	1,116
Seilwaith TG	333	0	0	333	0	0	333
System Rheoli Ariannol	317	0	0	317	0	0	317
Cyd Fentrau	1,783	338	(131)	1,990	260	(944)	1,306
Cynlluniau sy'n derbyn Cyllid Allanol	2,212	1,711	(1,241)	2,682	2,560	(2,246)	2,996
Ty Llanelly	142	0	0	142	0	0	142
Cronfa Trosglwyddo Asedau Cymunedol	37	0	0	37	0	0	37
Rheoli'r Fflyd	2,321	1,422	0	3,743	1,261	(3)	5,001
Cyllid Cyfalaf Priffyrdd	1,336	0	(16)	1,320	279	(16)	1,583
Budd-daliadau Treth y Cyngor/Tai	880	0	0	880	0	0	880
Cynlluniau Gwasanaethau Tai	5,510	105	(585)	5,030	585	(1,121)	4,494
Datblygiad Gweithwyr	185	0	(53)	132	0	(56)	76
Brexit	200	0	(200)	0	0	0	0
Cronfeydd Adrannau	22,643	9,697	(7,488)	24,852	9,328	(7,095)	27,085
Ailosod Gwasanaethau (Ar ôl COVID19)	1,400	0	0	1,400	0	0	1,400
Cronfa Caledi COVID19	4,391	0	0	4,391	0	0	4,391
Adfer Economaidd	450	0	0	450	0	0	450
Costau Etholiad y Cyngor Sir	279	108	0	387	96	0	483
Canolfan Ailgylchu Nant-y-caws	1,700	0	0	1,700	0	0	1,700
Cynllun Cynaliadwyedd HWB Ysgolion	1,637	802	(53)	2,386	1,283	(221)	3,448
Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd	23	0	(23)	0	0	0	0
Strategaeth Gwastraff	252	0	0	252	0	0	252
Datgarboneiddio	500	0	0	500	0	(105)	395
Arian Cyfatebol Ffyniant Bro	3,500	0	0	3,500	0	(691)	2,809
Risgiau Chwyddiant	1,537	0	0	1,537	0	0	1,537
Grant Cynnal Refeniw	3,075	0	(3,075)	0	0	0	0
Cynllun Disgresiynol Costau Byw	495	0	(53)	442	0	0	442
Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio	121	3	0	124	49	(41)	132
Adnewyddu Ystafelloedd Cartref Preswyl	456	0	(361)	95	0	(95)	0
Neuadd y Dref Cydweli	772	228	0	1,000	100	0	1,100

Parhad trosodd

	1 Ebrill 2024	Trosglwy ddiadau Mewn	Trosglwy ddiadau Allan	31 Mawrth 2025	Trosglwy ddiadau Mewn	Trosglwy ddiadau Allan	31 Mawrth 2026
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cronfa Trefniadaeth Ysgolion	0	0	0	0	138	0	138
Cronfa Rhesymoli Ôl Troed Ysgolion	0	0	0	0	500	0	500
Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr	0	0	0	0	2,686	0	2,686
Eraill	196	56	0	252	6	(30)	228
	130,306			128,123			139,358
A ddelir gan ysgolion yn unol â RHYLL	5,175	1,022	(8,035)	(1,838)	928	(8,651)	(9,561)
	5,175			(1,838)			(9,561)

Yswiriant

Neilltuwyd cronfeydd er mwyn cyllido costau hawliadau a cholledion eraill a allai ddod i ran yr Awdurdod.

Cronfa Datblygiadau Mawr

Cafodd y gronfa hon ei chreu i gefnogi prosiectau datblygu cyfalaf mawr yn y Sir a chaiff ei ddefnydd ei hadlewyrchu yn y rhaglen gyfalaf 5 mlynedd.

Arian Cyfalaf MDdA

Pennwyd swm i dalu costau'r benthyciadau darbodus sy'n cyllido rhaglen Moderneiddio'r Ddarpariaeth Addysg a chaiff ei ddefnydd ei hadlewyrchu yn y rhaglen gyfalaf 5 mlynedd.

Cronfa Datblygu

Nôd y gronfa hon yw cynorthwyo'r Awdurdod yn ei gynlluniau hir dymor drwy bennu adnoddau ar gyfer prosiectau nad oedd modd ymgymryd â hwy gyda dyraniadau arferol y gyllideb.

Y Fargen Ddinesig/Pentre Awel

Cyllid sydd wedi'i neilltuo ar gyfer gwariant posibl yn y dyfodol mewn perthynas â phrosiectau'r Fargen Ddinesig, megis costau datblygu prosiect, costau benthycia a llog a chyfraniad Sir Gaerfyrddin at gostau gweithredu cyffredinol y Fargen Ddinesig (gan gynnwys y Swyddfa Ranbarthol) yn unol â Chydygytundeb Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

Buddsoddi i Arbed - Goleuadau Cyhoeddus

Arian wrth gefn wedi cael ei neilltuo i ddarparu cymorth ariannol ychwanegol ar gyfer prosiect Buddsoddi er mwyn Arbed Llywodraeth Cymru i newid lampau stryd yn oleuadau LED pyladwy. Gwaddol y fenter fydd gostyngiad mewn costau ynni a threthi carbon cysylltiedig drwy raglen 3 blynedd lle caiff tua 12,000 o lanternau sodiwm eu troi'n oleuadau LED sy'n defnyddio llai o ynni, a fydd yn cynnwys trefniadau lle mae'r goleuadau'n cael eu pylu am ran o'r nos yn unig.

Cronfa Salix

Mae Salix, sef menter gymdeithasol annibynnol sy'n darparu cyllid ar gyfer technolegau profedig sy'n gost-effeithiol wrth arbed CO2, wedi darparu grant ar gyfer yr awdurdod i ganiatáu i fenthyciadau gael eu rhoi i ysgolion / adrannau i ariannu cynlluniau sy'n arbed ynni. Mae'r benthyciadau hyn yn cael eu had-dalu o'r arbedion a geir yn sgil hynny, ac mae'r gronfa yn cael ei hail-lenwi er mwyn i ysgolion / adrannau eraill elwa o'r cynllun.

Cronfa Ymddeoliad Corfforaethol

Sefydlwyd y Gronfa hon i gefnogi polisi'r Awdurdod o ran swyddi afraid ac ymddeoliad cynnar, gan alluogi'r Awdurdod i ddarparu ar gyfer y straen actiwaraidd ar y Gronfa Bensiwn a achosir gan ymddeoliad cynnar neu swyddi afraid.

Swyddi Afraid

Sefydlwyd y gronfa hon gan yr Adrannau i gwrdd â'r costau posib a allai godi wedi i gontractau tymor penodol staff ddod i ben pan fydd y cynlluniau a gyllidir yn allanol yn diweddu.

Seilwaith TG

Sefydlwyd y gronfa hon er mwyn ategu'r bwriad i newid gweinyddion a seilwaith TG yr Awdurdod.

System Rheolaeth Ariannol

Fe'i sefydlwyd i ddarparu ar gyfer y buddsoddiad sylweddol yn y System Rheolaeth Ariannol.

Cŷd Fentrau

Mae'r Awdurdod wedi llunio nifer o gytundebau Mentrau ar y Cŷd gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r incwm rhent a dderbynnir mewn perthynas â'r rhain yn cael ei roi i'r naill ochr er mwyn talu am rwymedigaethau yn y dyfodol.

Cynlluniau sy'n derbyn Cyllid Allanol

Cynnig arian cyfatebol ar gyfer prosiectau sydd ar waith neu gynlluniau a fydd yn derbyn cyllid allanol yn y dyfodol.

Tŷ Llanelly

Darparu'r cyllid y cytunwyd arno ar gyfer prosiect Tŷ Llanelly, er mwyn cynorthwyo â chynaliadwyedd y cyfleuster newydd hwn a ystyrir yn rhan annatod o'r cynlluniau hirdymor i adfywio canol y dref.

Cronfa Trosglwyddo Asedau Cymunedol

Gwelodd yr awdurdod y gallai rhai gwasanaethau neu gyfleusterau lleol gael eu gweithredu'n fwy effeithiol gan Grwpiau Cymunedol neu Gynghorau Cymuned. Sefydlwyd y gronfa hon i wella cyfleusterau neu i gynnig cymhelliad ariannol er mwyn symud ymlaen â'r prosiectau hyn.

Rheoli'r Fflyd

Sefydlwyd y Gronfa hon i gydraddoli'r gost gydol oes o weithredu a chynnal a chadw cerbydau'r Cyngor, i ddefnyddwyr gwasanaethau dros gyfnodau y cytunwyd arnynt.

Cyllid Cyfalaf Priffyrdd (Cynllun Menter Benthycia Llywodraeth Leol)

Sefydlwyd y gronfa er mwyn talu costau benthycia i gyllido rhaglen cynnal a chadw a gwelliannau cyfalaf Priffyrdd.

Budd-daliadau Treth y Cyngor/Tai

Mae'r gronfa hon wedi'i chlustnodi i ddigoni'r costau posibl y bydd Sir Gaerfyrddin yn mynd iddynt yn sgil y gostyngiadau blynyddol yn y grant Gweinyddu Budd-daliadau Tai, a diwygiadau Lles.

Cynlluniau Gwasanaethau Tai

Mae'r gronfa yma wedi ei sefydlu i gynorthwyo prosiectau Tai yn cynnwys dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd, y Cynlluniau Adsefydlu Syriaid ac Affganiaid a chynllun prydlesu'r Sector Rhentu Preifat.

Cronfa y Rhaglen Barod am Waith

Arian wrth gefn a neilltuwyd i ddarparu 4 haen o hyfforddiant a lleoliadau gwaith yn y Cyngor er mwyn cynorthwyo pobl leol, gan gynnwys pobl ifanc sydd â fawr ddim neu ddim hanes cyflogaeth, i ennill cymwysterau a chael swydd er mwyn gwella eu rhagolygon cyflogaeth.

Cronfeydd Adrannau

Mae gan yr Awdurdod bolisi sy'n caniatáu dyraniadau i gronfeydd wrth gefn adrannau, wedi'u hariannu gan danwariant yn ystod y flwyddyn y gellir eu dyrannu ar gyfer prosiectau/gwasanaethau un tro penodol. Mae'r ymagwedd hon yn hybu defnydd gofalus o arian cyhoeddus.

Ailosod Gwasanaethau (Ar ôl COVID19)

Cyllid a neilltuwyd ar gyfer unrhyw gostau unwaith yn unig o ran ailosod neu aildrefnu gwasanaethau yn ystod cam adfer y pandemig COVID19.

Cronfa Caledi COVID19

Neilltuwyd y gronfa o arian gan Lywodraeth Cymru ar ddiwedd y flwyddyn i helpu i ddelio ag effaith COVID19.

Cronfa Adfer Economaidd

Neilltuwyd y gronfa i helpu i ddatblygu a chyflawni cynllun adfer economaidd y Sir yn dilyn COVID19.

Costau Etholiad y Cyngor Sir

Neilltuwyd y gronfa i ariannu cost etholiadau'r Cyngor Sir.

Canolfan Ailgylchu Nantycaws

Sefydlwyd y gronfa hon i ddelio â chostau gweithredu ychwanegol o ganlyniad i dân ar y safle ailgylchu yn Nantycaws yn 2021.

Cynllun Cynaliadwyedd HWB Ysgolion

Neilltuwyd y gronfa i ddarparu rhaglen cynnal a chadw ac adnewyddu barhaus hirdymor wedi'i chynllunio ar gyfer TG ysgolion.

Arian Cyfatebol Ffyniant Bro

Cronfa a sefydlwyd i ddarparu'r arian cyfatebol sydd ei angen ar gyfer Cynigion Ffyniant Bro yn y dyfodol.

Cronfa Risgiau Chwyddiant

Cronfa a sefydlwyd i ymateb i bwysau chwyddiant uwchlaw'r rheiny y cyllidebwyd ar eu cyfer yn barod.

Cynllun Disgresiynol Costau Byw

Darparwyd cyllid Llywodraeth Cymru at ddibenion datblygu cynllun lleol i gynorthwyo â'r cynnydd mewn costau byw yn Sir Gâr.

Cronfa Targed Buddsoddiad mewn Adfywio

Cronfa a sefydlwyd i ddal arian dros ben o gynlluniau TRI at ddiben ail-fuddsoddi yn unol â chytundeb gyda Llywodraeth Cymru.

Cronfa Datgarboneiddio

Arian a osodwyd o'r neilltu fel rhan o broses gyllideb 2022/23 i gyflymu cynlluniau datgarboneiddio.

Cronfa Strategaeth Gwastraff

Cyllid ar gyfer costau untro gweithredu'r strategaeth wastraff dros y blynyddoedd nesaf.

Cronfa Adnewyddu Ystafelloedd Cartref Preswyl

Cronfa a sefydlwyd i gynorthwyo gyda adnewyddu ystafelloedd Cartrefi Preswyl.

Neuadd y Dref, Cydweli

Sefydlwyd cronfa wrth gefn i ddarparu ar gyfer gwaith brys a oedd angen ei wneud i Neuadd y Dref, Cydweli

Cronfa Trefniadaeth Ysgolion

Cronfa wrth gefn benodol i gynorthwyo â'r gwaith o ariannu costau eithriadol yn y dyfodol sy'n deillio o ad-drefnu/cau ysgolion.

Cronfa Rhesymoli Ôl Troed Ysgolion

Cronfa wrth gefn i dalu costau unwaith yn unig sy'n gysylltiedig â balansau ysgolion a chostau sy'n gysylltiedig â newidiadau i ôl troed cyffredinol yr ysgol.

Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr

Mae Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr (EPR) yn y DU yn fframwaith rheoleiddio sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr ariannu'r gwaith o gasglu, didoli, ailgylchu a gwaredu gwastraff deunydd pacio'r cartref. Gweithredwyd y cynllun diwygiedig ym mis Ebrill 2025 o dan Reoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Parcio) 2024. Prif nod y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol yw sicrhau bod yr egwyddor "y llygrwr sy'n talu" yn cael ei chymhwyso, gan greu cymhelliant ariannol i fusnesau ddylunio deunydd pacio sy'n ysgafnach, yn ailgylchadwy, ac yn llai niweidiol i'r amgylchedd.

A Ddelir gan Ysgolion yn unol â RHYLL

Dyma sefyllfa net balansau pob ysgol. Er bod gan rai ysgolion warged, mae gan eraill ddiffyg. Cydnabyddir y bydd yn cymryd amser mewn llawer o achosion i weithredu'r newidiadau angenrheidiol i fantoli cyllidebau ysgolion unigol, ac felly cytunir ar gynlluniau adfer diffyg fesul ysgol.

6.23 Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf

	2024-25 £'000	2025-26 £'000
Balans Agoriadol	15,655	12,233
Trosglwyddo elw arian parod ar werthiant a gredydwyd fel enillion/colledion wrth eu gwerthu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Derbyniadau Cyfalaf Stadudol	1,181 383	1,527 433
	17,219	14,193
Defnyddio'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd	(4,914)	(1,019)
Ad-daliad Benthyciad Tymor Hir	(72)	(54)
Balans wrth Gau	12,233	13,120

Mae'r gronfa wrth gefn derbyniadau cyfalaf yn cynrychioli'r derbyniadau cyfalaf sydd ar gael i gyllido gwariant cyfalaf mewn blynyddoedd i ddod, ar ôl neilltuo'r symiau statudol ar gyfer ad-dalu benthyciadau allanol. Defnyddiwyd yr holl lwfans atgyweiriadau mawr a dderbyniwyd oddi wrth Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystod y flwyddyn. Nid oedd arian gweddill i'w gario ymlaen mewn perthynas â'r grant hwn.

6.24 Grantiau Cyfalaf Heb eu Defnyddio

	2024-25 £'000	2025-26 £'000
Balans Agoriadol	15,015	23,423
Ychwanegiadau	17,733 32,748	8,992 32,415
Grantiau a Chyfraniadau wedi'u cymhwyso	(9,325)	(20,125)
Balans Cau	23,423	12,290

6.25 Cronfa Ailbrisiad

Mae'r Gronfa Ailbrisiad yn cynnwys yr enillion a wnaed gan yr Awdurdod sy'n deillio o'r cynnydd yng ngwerth ei Eiddo, Offeriant a Chyfarpar. Gostyngir y balans pan fydd asedau gydag enillion cronedig yn:

- cael eu hailbrisiu tuag i lawr neu eu hamharu a'r enillion yn cael eu colli
- cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau a'r enillion yn cael eu colli drwy ddibrisiad,
- neu yn cael eu gwaredu a'r enillion yn cael eu gwireddu.

Mae'r Gronfa ond yn cynnwys yr enillion drwy ailbrisiad sydd wedi cronni ers 1 Ebrill 2007, y dyddiad y cafodd y Gronfa ei chreu. Caiff enillion cronedig sy'n hanu o ddyddiad cynharach eu cynnwys ym mantolen y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

2024-25 £'000			2025-26 £'000
563,887	Balance at 1 April		616,456
119,643	Upward revaluation of assets	31,458	
	Downward revaluation of assets and impairment losses not charged to the Surplus/Deficit on the Provision of Services	(49,265)	
(47,395)			
	Surplus or deficit on revaluation of non-current assets not posted to the Surplus or Deficit on the Provision of Services		(17,807)
72,248	Difference between fair value depreciation and historical cost depreciation	(18,497)	
(18,422)			
(1,257)	Accumulated gains on assets sold or scrapped	(399)	
(19,679)	Amount written off to the Capital Adjustment Account		(18,896)
616,456	Balance at 31 March		579,753

6.26 Cyfrif Addasiadau Cyfalaf

Mae'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf yn llyncu'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o'r trefniadau cyfrifyddu gwahanol ar gyfer defnyddio asedau nad ydynt yn gyfredol ac ar gyfer ariannu caffael, adeiladu neu wella'r asedau hynny yn unol â'r darpariaethau statudol. Bydd y costau caffael, adeiladu neu wella yn cael eu tynnu o'r Cyfrif gan fod dibrisiant, colledion oherwydd niwed a dibrisiant asedau anniriaethol yn cael eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gyda symiau cysoni o'r Gronfa Ailbrisiad i drosi ffigurau gwerth teg yn sail costau hanesyddol). Bydd y symiau a neilltuwyd gan yr Awdurdod i dalu am y costau caffael, adeiladu a gwella yn cael eu rhoi yn y Cyfrif. Mae'r Cyfrif yn cynnwys enillion a cholledion cronedig ar Eiddo Buddsoddi a hefyd enillion a wireddwyd ar asedau a roddwyd nad ydynt eto wedi'u defnyddio gan yr Awdurdod. Mae'r Cyfrif hefyd yn cynnwys yr enillion drwy ailbrisiad sydd wedi cronni ar Eiddo, Offeriant a Chyfarpar cyn 1 Ebrill 2007, y dyddiad y cafodd y Gronfa Ailbrisiad ei chreu i gadw'r cyfryw enillion.

Yn Nodyn 6.4 ceir manylion am ffynhonnell yr holl drafodion yn y Cyfrif, ac eithrio'r rheini sy'n ymwneud â'r Gronfa Ailbrisiad.

2024-25		2025-26
£'000		£'000
751,255	Balans ar 1 Ebrill	786,308
1,482	Addasiad i'r Balans a Gariwyd Ymlaen ynghylch IFRS 16	0
752,737	Balans wedi'i addasu ar 1 Ebrill	786,308
	Gwrthdroi eitemau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:	
(37,043)	Taliadau am ddibrisiant a niwed i asedau nad ydynt yn gyfredol	(37,607)
(5,543)	Taliadau am ddibrisiant a niwed i asedau IFRS16	(5,460)
(39,181)	Enillion/(colledion) drwy Ailbrisi Eiddo, Offeriant a Chyfarpar	(64,968)
(4,080)	Gwariant refeniw a ariannwyd drwy gyfalaf o dan statud Symiau'r asedau nad ydynt yn gyfredol a ddiddymwyd drwy waredu neu werthu fel rhan o'r elw/colled ar waredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(811)
(923)		(1,872)
665,967		675,590
1,257	Symiau addasu a ddiddymwyd o'r Gronfa Ailbrisiad	399
	Y swm net a ddiddymwyd o gost yr asedau nad ydynt yn gyfredol a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	675,989
667,224		
0	Derbyniadau Cyfalaf a Neilltuwyd	0
(253)	Symudiadau ychwanegol o fewn y flwyddyn	(359)
4,914	Defnyddio'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd	1,019
	Grantiau a chyfraniadau cyfalaf a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a	
67,776	Gwariant Cynhwysfawr a gymhwyswyd i ariannu cyfalaf	55,583
	Cymhwyso grantiau i ariannu cyfalaf o'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf na	
9,325	Chymhwyswyd	20,125
	Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiad a godir ar falansau	
20,169	Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai	20,770
18,203	Gwariant cyfalaf a godir ar falansau Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai	7,971
787,358		781,098
	Symudiadau yng ngwerth Eiddo Buddsoddi ar y farchnad a (ddebydwyd) neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(28,531)
786,308	Balans ar 31 Mawrth	752,567

6.27 Cronfa Bensiynau

Mae'r Gronfa Bensiynau yn llyncu'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o'r gwahanol drefniadau cyfrifyddu ar gyfer buddiannau ôl-gyflogaeth ac ar gyfer ariannu buddiannau yn unol â'r darpariaethau statudol. Mae'r Awdurdod yn rhoi cyfrif am y buddiannau ôl-gyflogaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gan fod y buddiannau'n cael eu hennill gan gyflogaion dros flynyddoedd o wasanaeth. Mae'n diweddarau'r rhwymedigaethau a gydnabyddir i adlewyrchu chwyddiant, y newid yn y rhagdybiaethau a'r elw a gafwyd drwy fuddsoddi unrhyw adnoddau a neilltuwyd i dalu'r costau. Serch hynny, yn unol â'r trefniadau statudol rhaid i'r buddiannau a enillir gael eu hariannu gan fod yr Awdurdod yn talu cyfraniadau cyflogwyr i gronfeydd pensiwn neu'n talu unrhyw bensiynau y mae'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt.

2024-25 £'000		2025-26 £'000
(34,153)	Balans ar 1 Ebrill	(34,457)
157,706	Ailfesur y rhwymedigaeth/(ased) buddion diffiniedig net	80,981
(156,739)	Effaith y Terfyn Ased	(88,226)
	Gwrthdroi eitemau sy'n ymwneud â buddiannau ymddeol a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu	
(34,426)	Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(25,199)
	Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn	
33,155		34,260
(34,457)	Balans ar 31 Mawrth	(32,641)

6.28 Cyfrif Absenoldebau Cronedig

Mae'r cyfrif hwn yn cynrychioli cost yr hawl i absenoldeb â thâl sy'n ddyledus ond nas cymerwyd ar 31 Mawrth, sy'n cael ei chodi ar gost gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ac sy'n cael ei gwrthdroi yn y Datganiad Symudiadau Cronfeydd ac yn cael ei chodi ar y cyfrif hwn i gydymffurfio â'r gofynion statudol.

	2024-25 £'000	2025-26 £'000
Balans ar 1 Ebrill	(7,026)	(7,159)
Setlo neu ganslo croniat y flwyddyn flaenorol	7,026	7,159
Croniat ar gyfer y flwyddyn gyfredol	(7,159)	(6,905)
Balans ar 31 Mawrth	(7,159)	(6,905)

6.29 Gwariant ac Incwm yn cael eu Dadansoddi yn ôl Natur

Caiff gwariant ac incwm yr Awdurdod eu dadansoddi fel a ganlyn. Mae hwn yn cynnwys gwariant ac incwm o fewn a thu hwnt i gost gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, ac mae'n gyson â'r gwarged neu'r diffyg o ran darpariaeth gwasanaethau.

2024-25 £'000		2025-26 £'000
	Gwariant	
370,188	Treuliau cyflogeion	379,991
380,592	Treuliau gwasanaeth arall	385,853
35,286	Ad-daliadau gwasanaethau cymorth	35,326
100,189	Dibrisiant a thaliadau tebyg	126,532
90,093	Llog i'w Dalu a Chostau Tebyg	105,209
48,713	Praeseptau ac Ardollau	53,085
(298)	Enillion/colledion ar werthu asedau nad ydynt yn gyfredol	345
1,024,763	Cyfanswm y Gwariant	1,086,341
	Incwm	
(195,285)	Ffioedd, taliadau ac incwm arall o wasanaethau	(207,215)
(76,666)	Llog ac Incwm Buddsoddiadau	(60,731)
(225,707)	Incwm Treth y Cyngor ac Enillion net y Trethi Annomestig	(241,576)
(537,578)	Grantiau a Chyfraniadau	(525,348)
(1,035,236)	Cyfanswm Incwm	(1,034,870)
(10,473)	(Gwarged)/ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau	51,471

6.30 Cyllideb Gyfun

Mae'r Awdurdod wedi sefydlu cytundeb cyllideb gyfun ar y cyd â Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda ar gyfer darparu storfa offer cymunedol integredig. Mae gan yr Awdurdod a'r Bwrdd gytundeb ar waith, lle mae'r partneriaid yn cyfrannu cyllid gwerth £175,748 a £408,940, yn eu tro, at y gyllideb y cytunwyd arni.

Mae unrhyw gyllid ychwanegol ynghyd ag unrhyw ddiffyg neu warged yn y gyllideb gyfun ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cael eu cytuno rhwng partneriaid.

6.31 Lwfansau'r Aelodau

Talodd yr Awdurdod y symiau canlynol i Aelodau o'r cyngor yn ystod y flwyddyn:

	2024-25	2025-26
	£	£
Lwfansau	1,708,537	1,802,087
Treuliau	31,361	29,698
Cyfanswm	1,739,898	1,831,785

Mae rhagor o wybodaeth am Lwfansau Aelodau i'w chael ar wefan yr Awdurdod, www.sirgar.llyw.cymru o dan y pennawd Lwfansau Cyngorwyr.

6.32 Enillion Gweithwyr

Nifer y gweithwyr (yn cynnwys staff yn yr ysgol) yr oedd eu cyflogau heb gynnwys cyfraniadau pensiwn yn £60,000 neu fwy oedd:

Band Cyflogau	Nifer y Gweithwyr 2024-25	Nifer y Gweithwyr 2025-26	Ymadawodd yn 2025-26
£60,000 to £64,999	96	151	0
£65,000 to £69,999	80	85	2
£70,000 to £74,999	51	50	0
£75,000 to £79,999	26	52	3
£80,000 to £84,999	28	27	1
£85,000 to £89,999	6	18	0
£90,000 to £94,999	5	9	2
£95,000 to £99,999	4	1	0
£100,000 to £104,999	6	2	1
£105,000 to £109,999	11	13	0
£110,000 to £114,999	3	2	0
£115,000 to £119,999	1	3	0
£120,000 to £124,999	2	1	0
£125,000 to £129,999	1	2	0
£130,000 to £134,999	0	0	0
£135,000 to £139,999	0	1	0
Cyfanswm Nifer y Gweithwyr:	320	417	9

Mae gwerth y taliadau yn cynnwys taliadau afreidedd/terfynu (os derbynnir).

Cynhwysir yn y band uchod un ar hugain o athrawon a gyflogir gan ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr. Mae pump ohonynt yn cael eu rhannu rhwng ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr/a reolir ac ysgolion nad ydynt yn wirfoddol a gynorthwyr/a reolir.

Os yw gweithiwr yn cael ei gyflogi am lai na'r oriau amser llawn arferol ond bod ei gyflog gros yn fwy na £60,000, yna caiff hefyd ei gynnwys yn y bandiau uchod.

Nid yw'r bandiau uchod yn cynnwys uwch-swyddogion sy'n aelodau o Dîm Rheoli'r Awdurdod y rhestrir eu manylion yn y tablau canlynol.

Enillion Uwch Swyddogion ble mae eu cyflog yn £150,000 neu'n fwy y flwyddyn

Nodir yn y tabl isod enillion Uwch Swyddogion, gan gynnwys cyfraniadau pensiwn neu daliadau cyfwerth, ble mae eu cyflog yn £150,000 neu'n fwy.

Swydd		Cyflog (yn cynnwys ffioedd a lwfansau) £	Cyfraniadau Pensiwn £	Lwfansau Treuliau £
Mrs S W Walters - Prif Weithredwr a Swyddog Canlyniadau	24/25	176,899	33,633	0
	25/26	170,981	34,709	0
Mr J Morgan -Cyfarwyddwr Cymunedau a Dirprwy Prif Weithredwr (i)	24/25	158,266	32,128	0
	25/26	38,162	7,747	0

Enillion Uwch Swyddogion ble mae eu cyflog rhwng £60,000 a £150,000 y flwyddyn

Swydd		Cyflog (yn cynnwys ffioedd a lwfansau) £	Cyfraniadau Pensiwn £
Cyfarwyddwr Lle, Seilwaith & Datblygiad Economaidd	24/25	141,376	28,699
	25/26	148,482	30,142
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol	24/25	143,878	29,207
	25/26	148,482	30,142
Cyfarwyddwr Addysg, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (ii)	24/25	83,929	17,038
Cyfarwyddwr Addysg a Hamdden (ii)	24/25	62,256	12,638
	25/26	143,811	27,993
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai (iii)	25/26	59,421	12,062

Cynhwysir yn yr uchod daliadau diswyddo/terfynu (os derbynnir). Ni roddwyd buddion mewn nwyddau neu daliadau bonws i'r swyddogion a nodwyd yn nhablau enillion yr Uwch Swyddogion. Ni dalwyd lwfansau treuliau i Uwch Swyddogion lle mae'r cyflog rhwng £60,000 a £150,000 y flwyddyn.

Mae ffigurau cyflogau uwch-swyddogion yn cynnwys ffioedd Swyddog Canlyniadau mewn perthynas ag etholiadau'r Cyngor Sir a Chynghorau Tref a Chymuned.

Er mwyn rhoi gwerth ar y cyfraniadau pensiwn sy'n berthnasol i uwch-swyddogion, defnyddiwyd 20.3%, sef y Gyfradd Gyfrannu Gyffredin ar gyfer tâl pensiynadwy yn 2025/26 (20.3% yn 2024/25).

- (i) Ymddiswyddodd y Cyfarwyddwr Cymunedau a Dirprwy Brif Weithredwr a gadawodd yr awdurdod ar 06/07/2025. Yn dilyn ymddiswyddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol, mae enw'r swydd wedi newid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, gweler (iii).
- (ii) Roedd y Cyfarwyddwr Addysg, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi ymddeol ar 31/10/2024. Dechreuodd deiliad newydd y swydd ar 14/10/2024. Wedi hynny, ailenwyd y swydd yn Gyfarwyddwr Addysg a Hamdden.
- (iii) Dechreuodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai yn ei swydd ar 27/10/2025.

Roedd cymhareb cyflog y Prif Weithredwr (heb gynnwys ffioedd Swyddog Canlyniadau) a'r cyflog canolrifol yng Nghyngor Sir Gaerfyrddin fel a ganlyn:

	2024-25	2025-26
Cyflog y Prif Weithredwr	£165,679	£170,981
Cyflog canolrif yr holl weithwyr	£30,257	£31,693
Cymhareb Cyflog y Prif Weithredwr i cyflog canolrif yr holl weithwyr	5.48 : 1	5.39 : 1

6.33 Pecynnau Ymadael

Yn ystod 2025/26 gwariodd yr Awdurdod ar gostau dileu swyddi a dalwyd i'r rhai a oedd yn gadael, ynghyd â chostau taliadau digolledu i'r Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol o ran costau hawlio pensiynau yn gynnar.

Mae'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r buddion terfynu wedi'u cynnwys fel rhan o ddiffiniadau'r gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae'r costau uchod wedi'u nodi yn y tabl isod.

Band cost y pecyn ymadael (gan gynnwys taliadau arbennig)	Nifer y dileu swyddi gorfodol		Eraill sy'n gadael – y nifer a gytunwyd		Cyfanswm y Pecynnau Ymadael yn ôl bandiau cost		Cost gyfan y Pecynnau Ymadael ym mhob band	
	2024-25	2025-26	2024-25	2025-26	2024-25	2025-26	2024-25 £	2025-26 £
£0 - £20,000	5	6	3	8	8	14	43,625	115,977
£20,001 - £40,000	1	2	0	1	1	3	29,297	82,624
£40,001 - £60,000	0	0	1	2	1	2	54,403	106,166
£60,001 - £80,000	1	0	0	0	1	0	67,278	0
£80,001 - £100,000	0	0	0	0	0	0	0	0
£100,001 - £150,000	0	0	0	0	0	0	0	0
CYFANSWM	7	8	4	11	11	19	194,603	304,767

6.34 Costau Archwiliad

Yn 2025/26 gwariodd Cyngor Sir Caerfyrddin y canlynol mewn perthynas â ffioedd archwiliad ac arolwg cyllidol, sy'n daladwy i Swyddfa Archwilio Cymru:

	2024-25 £'000	2025-26 £'000
Gwasanaethau Archwiliad Cyllidol	224	235
Gwasanaethau Archwilio Perfformiad	119	125
Ardystio Hawliadau a Ffurflenni am Grantiau	42	45
Archwiliad Harbwr Porth Tywyn	1	1
Cyfanswm	386	406

6.35 Incwm Grantiau

Credydodd yr Awdurdod y grantiau, cyfraniadau a rhoddion canlynol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

	2024-25 £'000 (Ail-ddatgan)	2025-26 £'000
Credydwyd i Wasanaethau		
Addysg, Gwasanaethau Plant a Teulu:		
Darpariaeth Addysg Ôl-16	8,163	8,611
Grant Plant a Chymunedau	8,529	10,276
Grant Cyfle Chwaraeon Cymru Gyfan	664	567
Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol	53	56
Grant Addysg yr Awdurdod Lleol	32,069	30,119
Grant y Gwasanaethau Ieuencid	610	608
Y Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF)	1,793	0
Plant ar eu Pen eu hunain sy'n Ceisio Lloches	2,000	1,800
Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion a Thai:		
Cefnogi Pobl	9,621	10,770
Grant Gofal Iechyd Parhaus	812	812
Grant Wanless	767	668
Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol	960	788
Y Gronfa Partneriaeth Ranbarthol (RPF)	652	779
Cronfa Integreiddio Ranbarthol	4,998	4,821
Digartrefedd-Neb Heb Help	1,123	0
Grant y Gweithlu a Chynaliadwyedd	2,731	2,727
Gwasanaethau Prifffyrdd a Thrafnidiaeth:		
Cymhorthdal Tocynnau Teithio Rhatach	1,695	1,746
Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Lleol	3,240	3,722
Gwasanaethau Diwylliannol, Amgylcheddol, Rheoleiddio a Chynllunio:		
Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy	671	639
Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr	0	3,559
Peilot Sgiliau Rhanbarthol	0	800
Y Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF)	22,718	9,842
Rhanbarth Ddinesig Bae Abertawe	1,846	5,982
Grant Plant a Chymunedau	711	705
Cyngor Chwaraeon Cymru	510	452
Gwasanaethau Canolog i'r Cyhoedd:		
Budd-daliadau Tai	35,192	25,155
Grantiau Eraill:		
Cynllun Adsefydlu Wcrainiaid	569	148
Grantiau eraill a ariennir gan Lywodraeth Cymru*	5,185	14,527
Grantiau eraill	13,412	11,482
Cyfanswm	161,294	152,161

* Mae ffigurau cymharol 2024/25 ar gyfer Grant Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol (£474k) a Grant Dileu Elw o Ofal (£311K) wedi'i ailddosbarthu fel Grantiau Eraill - ariannwyd gan Lywodraeth Cymru.

	2024-25 £'000	2025-26 £'000
Grant Cynnal Refeniw	281,597	307,213
Grantiau Cyffredinol y Llywodraeth	9,178	1,399
Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf		
Grant Cymunedau Dysgu Cynaliadwy	8,185	5,168
Lwfans Atgyweiriadau Mawr	13,384	14,189
Grantiau Trafnidiaeth	7,504	5,597
Grant Cyfalaf Cyffredinol	4,517	7,906
Cronfa Gofal Canolraddol (Cronfa Tai â Gofal)	4,704	4,310
Grant Cyfalaf Cynnal Ysgolion	2,475	2,438
Grant y Gwasanaeth Ynni	316	2,424
Grant Twrisitaeth	2,945	835
Grant amddiffyn arfordirol	0	210
Grant Rheoli Gwastraff Strategol (SWM)	182	350
Y Gronfa Ffyniant Bro	22,593	7,178
Y Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF)	2,671	2,223
Balchder Bro	0	750
Cyllid Dinas-ranbarth Bae Abertawe	9,245	4,017
Grantiau a Chyfraniadau Eraill	6,788	6,980
Cyfanswm	85,509	64,575

Mae'r Awdurdod wedi cael nifer o grantiau, cyfraniadau a rhoddion nad ydynt wedi cael eu cydnabod fel incwm eto gan fod amodau'n gysylltiedig â hwy a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i arian neu eiddo gael ei ddychwelyd i'r rhoddwr. Mae'r balansau ar ddiwedd y flwyddyn fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2025 £'000	31 Mawrth 2026 £'000
Derbyniadau Grantiau Refeniw ymlaen llaw	(Ail-ddatgan)	
Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai - amrywiol*	47	0
Lle a Seilwaith & Datblygiad Economaidd - amrywiol*	297	582
Lle a Seilwaith & Datblygiad Economaidd - Y Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF)	0	867
Gwasanaethau Corfforaethol - amrywiol	0	26
Prif Weithredwr - amrywiol	309	211
Addysg & Hamdden - amrywiol*	174	387
	827	2,073

* Mae ffigurau 2024/25 wedi'u hailddatgan i adlewyrchu'r newidiadau adrannol a ddigwyddodd yn ystod 2025/26.

6.36 Trafodion gyda Phartïon Cysylltiedig

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod ddatgelu trafodion materol gyda phartïon cysylltiedig – cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu ar yr Awdurdod neu i'r Awdurdod eu rheoli neu ddylanwadu arnynt. Mae datgelu'r trafodion hyn yn caniatáu i'r darllenwyr asesu i ba raddau y gallai'r Awdurdod fod wedi cael ei gyfyngu o ran ei allu i weithredu'n annibynnol neu y gallai fod wedi sicrhau'r gallu i gyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhydd gyda'r Awdurdod.

Llywodraeth Ganolog

Mae gan y Llywodraeth Ganolog reolaeth effeithiol dros weithrediadau cyffredinol yr Awdurdod – mae'n gyfrifol am ddarparu'r fframwaith statudol mae'r Cyngor yn gweithredu o dano, yn darparu'r rhan fwyaf o'i gyllid ar ffurf grantiau ac yn rhagnodi telerau nifer o'r trafodion sydd gan y Cyngor gyda phartïon eraill (e.e. budd-daliadau tai). Caiff y grantiau a geir oddi wrth adrannau llywodraethau eu nodi yn Nodyn 6.35.

Cronfa Bensiwn Dyfed

Gweinyddir Cronfa Bensiwn Dyfed gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Mae'r Gronfa yn cael ei harchwilio gan bwyllgor, sy'n cynnwys aelodau o blith Cyngorwyr Sir Caerfyrddin, ac sy'n cael ei gynghori gan ymgynghorydd annibynnol. Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yw Swyddog Cyllid Cyfrifol Cronfa Bensiwn Dyfed hefyd. Yn yr un modd, Swyddog Monitro'r Cyngor yw Swyddog Monitro'r Gronfa Bensiwn hefyd.

Manylir ar y trafodion rhwng y ddau gorff yn Nodyn 6.42. Cododd y Cyngor swm o £1.5 miliwn (£1.3 miliwn yn 2024/25) ar y Gronfa Bensiwn mewn perthynas â gweinyddiaeth a chymorth yn ystod 2025/26. Mae Credydwy'r Tymor Byr (Nodyn 6.19) yn cynnwys swm o £16.6 miliwn sy'n ddyledus i Gronfa Bensiwn Dyfed ar 31 Mawrth 2026 (£11.6 miliwn ar 31 Mawrth 2025).

CWM Environmental Cyf

Mae CWM Environmental Cyf yn is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr Cyngor Sir Caerfyrddin. Ceir manylion buddsoddiadau yn Nodyn 6.12 o dan Fuddsoddiadau Tymor Hir. Yn dilyn newidiadau llywodraethu fel yr amlinellir yn Nodyn 6.1.18, penodwyd Cyfarwyddwr Lle, Seilwaith a Datblygiad Economaidd yn un o gyfarwyddwyr cwmni CWM Environmental. Hefyd, rheolir buddiant y Cyngor fel cyfranddaliwr drwy Fwrdd Cyfranddalwyr, sy'n cynnwys aelodau o'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn ogystal â'r Aelod Cabinet dros Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith.

Cododd Cwm Environmental swm o £14.71 miliwn (£13.09 miliwn yn 2024/25) ar y Cyngor mewn perthynas â gwasanaethau gwastraff yn ystod 2025/26. Mae Credydwy'r Tymor Byr (Nodyn 6.19) yn cynnwys swm o £2.73 miliwn sy'n ddyledus i Cwm Environmental ar 31 Mawrth 2026 (£1.26 miliwn ar 31 Mawrth 2025).

Mae manylion benthyciad rhwng yr Awdurdod a CWM Environmental Cyf wedi'u cynnwys yn Nodyn 6.13 o dan 'Dyledwyr Tymor Hir'.

Egni Sir Gar Cyfyngedig

Cyngor Sir Caerfyrddin yw Ymddiriedolwr Gwarchod cofrestredig Egni Sir Gâr Cyfyngedig ac mae'r Aelod o'r Cabinet dros newid hinsawdd, datgarbaneiddio a ch chynaliadwyedd ar y bwrdd. Ceir manylion buddsoddiadau yn Nodyn 6.12 o dan Fuddsoddiadau Tymor Hir.

Burry Port Marina Ltd (yn nwylo'r gweinyddwyr)

Ym mis Mehefin 2023, penododd yr Uchel Lys Weinyddwyr ar gyfer Burry Port Marina Ltd, y cwmni sy'n prydlesu ac yn gweithredu Marina Porth Tywyn. Yn dilyn hyn, mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i gytundeb cyllido gyda'r Gweinyddwyr i alluogi'r harbwr i barhau i gael ei weithredu'n ddiogel yn ystod y cyfnod gweinyddu. Oherwydd y trefniant hwn, gellid ystyried bod gan yr Awdurdod elfen o reolaeth. Yn ystod mis Ebrill 2025 ildiodd y gweinyddwyr brydles yr Harbwr i Gyngor Sir Caerfyrddin gan drosglwyddo'r holl staff. Penodwyd diddymwr ym mis Mehefin 2025. Wedi hynny, mae'r Harbwr wedi cael ei weithredu gan y Cyngor ac mae'r Cyngor wedi ymrwymo trwy ei Raglen Gyfalaf i fuddsoddi mewn gwelliannau.

Yn ystod 2025/26 y cyfanswm a dalwyd gan y Cyngor i'r Gweinyddwyr oedd £87k, a balans y dyledwr oedd yn weddill ar 31 Mawrth 2026 oedd £204k.

Cartrefi Croeso Cyfyngedig

Mae Cartrefi Croeso Cyfyngedig yn gwmni tai ym mherchnogaeth lwyr Cyngor Sir Caerfyrddin. Yn y blynyddoedd blaenorol roedd gan y cwmni dri chyfarwyddwr, a benodwyd gan y Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor. Yn mis Medi 2021, cytunodd y Cabinet i ddod â'r holl brosiectau oedd yn cael eu datblygu gan y cwmni yn fewnol a gweithredu'r broses gyfreithiol i'r cwmni roi'r gorau i fasnachu ond ei gadw fel cwmni "segur". Mae'r broses hon bellach wedi'i gweithredu, mae'r holl gyfarwyddwyr bellach wedi ymddiswyddo ac wedi'u disodli gan Bennaeth Tai y Cyngor at ddibenion gweinyddol yn unig. Yn ystod y flwyddyn talodd Cartrefi Croeso yr holl anfonebau oedd yn ddyledus i'r Cyngor.

Llesiant Delta Wellbeing

Mae Llesiant Delta Wellbeing yn gwmni a sefydlwyd yn 2017/18 i ehangu a thyfu'r gwasanaeth Llinell Gofal sydd ym mherchnogaeth lwyr Cyngor Sir Caerfyrddin. Mae'r Cyngor yn cyflawni materion a gadwyd yn ôl o ran cyfranddalwyr drwy grŵp llywodraethu cyfranddalwyr, sy'n cynnwys aelodau o'r Tîm Rheoli Corfforaethol, Aelodau o'r Cabinet a Chynghorwyr eraill.

Nodir crynodeb o drafodion Cyngor Sir Caerfyrddin â Llesiant Delta Wellbeing isod:

	2023-24	2024-25
	£'000	£'000
Gwariant	7,253	5,625
Incwm	1,094	321
	2024	2025
	£'000	£'000
Balansau heb eu talu ar 31ain Mawrth:		
Credydwyd	675	421
Dyledwyr	71	30

Bydd ffigurau 2025/26 yn dilyn ar ôl yr archwiliad.

Mae'r gwariant yn cynnwys taliad i Llesiant Delta Wellbeing am ddarparu gwasanaethau Llinell Gofal i'r Cyngor, ar gyfer ei ddinasyddion ei hun ac er mwyn cyflawni rhwymedigaethau contractiol sydd gan y Cyngor gyda chwsmeriaid trydydd parti, cyflawni prosiect CONNECT o fewn Cronfa Integreiddio Rhanbarthol Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru yn ogystal â phrosiectau eraill gyda phartneriaid lleol.

Mae'r incwm yn cynnwys y gost a gytunwyd ar gyfer gwasanaethau cymorth a ddarperir i Llesiant Delta Wellbeing gan weithwyr y Cyngor.

Cwmni Rheoli Buddsoddiadau Partneriaeth Pensiwn Cymru

Mae gan Gronfa Bensiwn Dyfed, sy'n cael ei gweinyddu gan Gyngor Sir Caerfyrddin, a'r saith cronfa CPLIL Cymru arall gyfran o 12.5% yr un yng Nghwmni Rheoli Buddsoddiadau Partneriaeth Pensiwn Cymru Cyfyngedig (Rhif Cwmni 16645479). Rhoddodd Cronfa Bensiwn Dyfed gyfraniad ymlaen llaw o £158,825 yn ystod 2025/26 i dalu am gostau sefydlu cychwynnol y cwmni. Penodwyd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yn gyfarwyddwr y cwmni gyda 3 Swyddog Adran 151 arall ac mae'n aelod o'r bwrdd pontio, hyd nes bod Bwrdd ffurfiol y Cyfranddalwyr yn cael ei sefydlu.

Buddiannau Aelodau

Mae gan yr Awdurdod drefniadau mewn lle sy'n gofyn i'r aelodau a'r swyddogion i adnabod a datgelu trafodion gyda phartion cysylltiedig.

Mae gan aelodau'r cyngor rheolaeth uniongyrchol dros polisiau cyllidebol a gweithredol y cyngor. Dangosir cyfanswm lwfansau'r aelodau a dalwyd yn 2025/26 yn Nodyn 6.31.

Talodd yr awdurdod grantiau gwerth £102k (£126k yn 2024/25) i sefydliadau yr oedd gan wyth ar hugain aelod fuddiant ynddynt. Rhoddwyd y grantiau gan ystyried datganiadau o fuddiant mewn ffordd briodol. Ni chymerodd yr aelodau perthnasol ran mewn unrhyw drafodaeth na phenderfyniad ynghylch y grantiau.

Ymhlith y grantiau a dalwyd, gwerth £102k, roedd pedwar sefydliad wedi derbyn symiau dros £10,000 ac roedd gan wyth aelod fuddiant yn y sefydliadau hyn.

Mae manylion y sefydliadau a'r taliadau isod:

	Swm talwyd	Perthynas Partion
Partion Cysylltiedig	£	Cysylltiedig
Cyngor Cymuned Llandybie	15,000	3 x Aelod a 1 Clerc
Neuadd Goffa Llangain	12,219	Aelod Pwyllgor
CRhA Ysgol Betws	12,000	Llywodraethwr o'r ysgol
Ffederasiwn Fferwyr Ifanc Sir Gar	15,584	2 x Aelod

Buddiannau Swyddogion

Prif Weithredwr

Mae aelod o deulu agos y Prif Weithredwr yn gweithio i W B Griffiths a'i feibion. Yn ystod 2025/26, gwariodd y cyngor gyfanswm o £2,446k gyda'r contractwr (£2,092k yn 2024/25). Roedd y swm o £399k yn ddyledus gan gredydwy'r ar 31 Mawrth 2026. (£153k ar 31 Mawrth 2025).

Swyddog Monitro

Mae'r Swyddog Monitro yn berchen ar y cyd ar eiddo rhent lle mae'r tenant yn derbyn budd-dal tai, sy'n cael ei weinyddu gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Yn ystod 2025/26, gwerth y budd-dal tai oedd £0 (2024/25 £3,883).

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai

Mae aelod agos o deulu Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai yn gweithio gyda Foothold Cymru. Yn ystod 2025/26, gwnaeth yr Awdurdod daliadau gwerth £28k i'r sefydliad (£83k yn 2024/25). Ar 31 Mawrth 2026 balans y credydwr oedd yn ddyledus oedd £0k (£0k ar 31 Mawrth 2025).

6.37 Gweithrediadau a Reolir ar y Cyd a Threfniadau Tebyg Arall

Partneriaeth Pensiwn Cymru

Mae Gweithredwr Cronfa Fuddsoddi Cymru wedi cael ei benodi gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru i reoli buddsoddiadau a lleihau treuliau rheoli buddsoddiadau ar gyfer yr wyth cronfa pensiwn sydd yng Nghymru. Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r Awdurdod Cynnal i ddarparu cymorth gweinyddol ac ysgrifenyddol a gweithredu penderfyniadau a wneir gan Gyd-bwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru. Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yw Swyddog Cyllid Cyfrifol Partneriaeth Pensiwn Cymru hefyd. Yn yr un modd, Swyddog Monitro'r Cyngor yw Swyddog Monitro Partneriaeth Pensiwn Cymru hefyd.

Cododd y Cyngor swm o £175k (£165k yn 2024/25) ar Bartneriaeth Pensiwn Cymru mewn perthynas â gweinyddiaeth a chymorth yn ystod 2025/26.

	Partneriaeth Pensiwn Cymru 2025-26 Cyfanswm £'000
Gwariant	2,174 *
Incwm	(2,174)
(Gwarged)/Diffyg am y flwyddyn	0
Asedau Cyfredol	1,198
Rhwymedigaethau Cyfredol	(1,198)
Cyfanswm Asedau I lai Rhwymedigaethau	0

* Rhennir y gwariant yn gyfartal rhwng wyth o gronfeydd y CPLIL. Yr eithriad yw pan fo Ymgynghorydd Allanol yn darparu gwasanaeth ar gyfer cronfeydd penodol y CPLIL o fewn y gronfa. Mae'r costau ychwanegol hyn yn cael eu rhannu'n gyfartal rhwng y Cronfeydd priodol. Dyma wyth o gronfeydd y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol:

Cronfa Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg
 Cronfa Pensiwn Dinas a Sir Abertawe
 Cronfa Pensiwn Clwyd
 Cronfa Pensiwn Dyfed
 Cronfa Pensiwn Gwent Fawr
 Cronfa Pensiwn Gwynedd
 Cronfa Pensiwn Powys
 Cronfa Pensiwn Rhondda Cynon Taf

Mae gan Gronfa Bensiwn Dyfed a'r saith cyfranddaliwr arall gyfran o 12.5% yr un yng Nghwmni Rheoli Buddsoddiadau Partneriaeth Pensiwn Cymru Cyfyngedig (Rhif Cwmni 16645479). Fel y cyfryw, bernir nad oes gan unrhyw Gronfa ddylanwad sylweddol, a rhoddir cyfrif am y buddsoddiad hirdymor hwn ar werth teg. Mae'r ased yn cael ei fesur i ddechrau yn ôl cost a bydd yn cael ei ailbriso wedyn ar gyfer unrhyw ddiffyg. Rhoddodd y Gronfa gyfraniad ymlaen llaw o £158,825 yn ystod 2025/26 i ariannu costau sefydlu cychwynnol y cwmni.

Partneriaeth (ERW gynt)

Mae Partneriaeth yn gynghrair o awdurdodau lleol yn Ne-orllewin Cymru sy'n gweithio i wella safonau addysg plant a phobl ifanc o fewn y rhanbarth, a dyma'r sefydliad olynol yn dilyn y penderfyniad i ddiddymu ei ragflaenydd sef ERW. Gwnaed y penderfyniad i sefydlu Partneriaeth ym mis Gorffennaf 2020 a chafodd ei sefydlu'n ffurfiol ym mis Ebrill 2022 a bu'n weithredol o fis Medi 2021:

Ceir isod fersiwn o'r Cyfrif Incwm a Gwariant a'r Fantolen drafft ar gyfer y flwyddyn a oedd yn gorffen ar 31 Mawrth 2026:

	Partneriaeth	
	2025-26	
	Cyfanswm	Rhan CSG
	£'000	£'000
Gwariant	1,943	680
Incwm	(1,924)	(673)
(Gwarged)/Diffyg am y flwyddyn	19	7
Asedau Cyfredol	597	209
Rhwymedigaethau Cyfredol	(76)	(27)
Cyfanswm Asedau llai Rhwymwddigaethau	521	182
Cronfeydd	(521)	(182)
Cyfanswm Cyllido	(521)	(182)

Dinas-Ranbarth Bae Abertawe

Mae Bargaen Ddinesig Bae Abertawe yn fuddsoddiad o £1.458 biliwn mewn 9 prosiect mawr ledled Dinas-Ranbarth Bae Abertawe – sy'n cynnwys Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe.

Mae Bargaen Ddinesig Bae Abertawe yn cael ei harwain gan y pedwar awdurdod lleol rhanbarthol drwy Gytundeb Cyd-bwyllgor, ynghyd â phartneriaid di-bleidlais - Byrddau Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Hywel Dda, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Ceir isod fersiwn o'r Cyfrif Incwm a Gwariant a'r Fantolen ar gyfer y flwyddyn a oedd yn gorffen ar 31 Mawrth 2026:

Dinas-Ranbarth Bae Abertawe	
2025-26	
Cyfanswm	
£'000	
Gwariant	3,580
Incwm	(3,144)
(Gwarged)/Diffyg am y flwyddyn	436
Asedau Cyfredol	66,606
Rhwymedigaethau Cyfredol	(4,267)
Cyfanswm Asedau llai Rhwymwddigaethau	62,339
Cronfeydd	62,339
Cyfanswm Cyllido	62,339

Amlogfa Gorllewin Cymru (Parc Gwyn, Arberth)

Mae'r Awdurdod yn cadw cyfran ariannol o 14% yn Amlogfa Gorllewin Cymru, a weithredir gan Gyngor Sir Penfro. Mae swyddogion o'r ddau Awdurdod Lleol wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd dros y flwyddyn ddiwethaf i reoleiddio'r penderfyniad hanesyddol a wnaed i roi'r gorau i'r cyd-bwyllgor, gyda disgwyliad y bydd y swydd yn cael ei ffurfioli yn ystod 2026/27. Cyfrifwyd mai'r gwarged cronedig sy'n ddyledus i Gyngor Sir Caerfyrddin yw 230k ar gyfer 2024/25 ar sail cyfran o 14%. Nid yw swm 2025/26 ar gael eto. Hyd nes i'r cytundeb ffurfiol gael ei gwblhau, nid yw'r gwerth hwn wedi'i gynnwys yn yr asedau a gydnabyddir ar fantolen Sir Gaerfyrddin.

Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru

Creodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 y fframwaith ar gyfer mecanwaith cyson ar gyfer cydweithio rhanbarthol rhwng llywodraeth leol, sef Cyd-bwyllgorau Corfforaethol.

Bwriad Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru yw galluogi rhai swyddogaethau i gael eu cyflawni'n fwy effeithiol ac yn strategol ar lefel ranbarthol, gan wneud defnydd mwy effeithlon o adnoddau gwerthfawr. Mae gan Gyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru swyddogaethau sy'n ymwneud â chynllunio datblygu strategol a chynllunio trafndiaeth rhanbarthol. Mae'r Cyd-bwyllgor hefyd yn gallu gwneud pethau i hyrwyddo llesiant economaidd ei ardal. Sefydlwyd Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru yn ffurfiol ar 13 Ionawr 2022.

Ar 21 Ionawr 2025 cymeradwyodd Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru gyllideb 2025/26 a osodwyd ar £710,281 gydag ardoll gan bob un o'r awdurdodau cyfansoddol: Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe. O ran rhai swyddogaethau, mae Parc Cenedlaethol Sir Benfro a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog hefyd yn aelodau.

Ceir isod fersiwn o'r Cyfrif Incwm a Gwariant a'r Fantolen ar gyfer y flwyddyn a oedd yn gorffen ar 31 Mawrth 2026:

Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru	
	2025-26
	Cyfanswm
	£'000
Gwariant	696
Incwm	(1,106)
(Gwarged)/Diffyg am y flwyddyn	<u>(410)</u>
Asedau Cyfredol	1,887
Rhwymedigaethau Cyfredol	<u>(301)</u>
Cyfanswm Asedau llai Rhwymwdigaethau	<u>1,586</u>
Cronfeydd	1,586
Cyfanswm Cyllido	<u>1,586</u>

6.38 Gwariant Cyfalaf ac Ariannu Cyfalaf

Caiff cyfanswm y gwariant cyfalaf a wnaethpwyd yn y flwyddyn ei ddangos yn y tabl isod ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w ariannu. Lle bo gwariant cyfalaf i gael ei ariannu yn y blynnyddoedd i ddod trwy godi symiau i refeniw wrth i asedau gael eu defnyddio gan yr Awdurdod, mae'r gwariant yn arwain at gynnydd yn y Gofyniad Ariannu Cyfalaf, sy'n mesur y gwariant cyfalaf a wnaethpwyd yn hanesyddol gan yr Awdurdod nad yw wedi cael ei ariannu eto. Caiff y Gofyniad Ariannu Cyfalaf ei ddadansoddi yn ail ran y nodyn hwn.

	2024-25	2025-26
	£'000	£'000
Buddsoddiad Cyfalaf		
Eiddo, Offeriant a Chyfarpar	131,248	102,321
Asedau Seilwaith	12,683	26,225
Eiddo Buddsoddi	417	3,443
Asedau Treftadaeth	16	118
Benthyciadau Tymor Hir	4,831	6,554
Gwariant Refeniw a Ariannwyd o Gyfalaf o dan Statud	16,467	15,371
	165,662	154,032
Ffynonellau Ariannol		
Derbyniadau Cyfalaf	4,914	1,019
Grantiau llywodraeth a Chyfraniadau Arall	80,163	70,143
Cronfa wrth gefn grantiau heb eu cymhwyso	9,325	20,125
Symiau a neilltuwyd o refeniw	9,705	5,238
Cyfraniadau refeniw uniongyrchol	8,498	2,733
Benthyciadau	53,057	54,774
	165,662	154,032
Gofyniad Ariannu Cyfalaf Agoriadol	504,328	549,874
Esboniad o'r Newidiadau yn y Flwyddyn		
Addasiad i'r balans agoriadol oherwydd IFRS16	11,405	61
	515,733	549,935
Cynnydd yn yr angen sylfaenol i fenthycia (a gynhelir gan gymorth ariannol gan lywodraethau)	2,611	2,413
Cynnydd yn yr angen sylfaenol i fenthycia (nas cynhelir gan gymorth ariannol gan lywodraethau)	31,530	33,216
Cynnydd/(gostyngiad) yn y Gofyniad Ariannu Cyfalaf	34,141	35,629
Gofyniad Ariannu Cyfalaf Terfynol	549,874	585,564

6.39 **Prydlesi**

O 2024/25, mae'r Awdurdod wedi cymhwyso IFRS 16 - Prydlesi fel y'i mabwysiadwyd gan y Cod Ymarfer Cyfrifyddu. Prif effaith y gofynion newydd yw, ar gyfer trefniadau y rhoddwyd cyfrif amdanynt yn flaenorol fel prydlesi gweithredol (h.y. heb gydnabod yr eiddo ar brydles fel ased a rhenti yn y dyfodol fel rhwymedigaeth), y dylid cynnwys ased hawl i ddefnyddio a rhwymedigaeth prydles ar y fantolen o 1 Ebrill 2024. Mae prydlesi ar gyfer eitemau isel eu gwerth a phrydlesi sy'n dod i ben ar neu cyn 31 Mawrth 2026 wedi'u heithrio o'r trefniadau newydd.

Mae IFRS 16 wedi'i chymhwyso'n ôl-weithredol, ond gan gydnabod yr effaith gronol ar 1 Ebrill 2024. Mae hyn yn golygu bod asedau hawl i ddefnyddio a rhwymedigaethau prydles wedi'u cyfrifo fel pe bai IFRS 16 erioed wedi bod yn berthnasol ond wedi'i chydabod yn 2024/25 ac nid trwy addasu ffigurau'r flwyddyn flaenorol. Dangosir manylion y newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu a darpariaethau trosiannol isod.

A. Diffiniad o brydles

Wrth newid i IFRS16, dewisodd yr awdurdod gymhwyso'r dull ymarferol o beidio ag ailasesu a yw contract yn brydles ar 1 Ebrill 2025, ac eithrio mewn perthynas â phrydlesi am ddim ystyriaeth a thenantiaethau tai. Dim ond i gontractau a nodwyd yn flaenorol fel prydlesi o dan IAS17 ac IFRIC4 y mae wedi cymhwyso IFRS16.

B. Yr Awdurdod fel lesddeiliad

Hyd at 2023/24, fel lesddeiliad, dosbarthodd yr Awdurdod brydlesi fel prydlesi gweithredol neu brydlesi cyllid yn seiliedig ar ei asesiad ynghylch a oedd y brydles yn trosglwyddo'n sylweddol yr holl risgiau a buddion sy'n gysylltiedig â pherchen ar yr ased sylfaenol i'r Awdurdod. O dan IFRS 16, mae'r Awdurdod yn cydnabod asedau hawl i ddefnyddio a rhwymedigaethau prydles ar gyfer y rhan fwyaf o brydlesi – h.y. mae'r prydlesi hyn ar y fantolen.

Penderfynodd yr Awdurdod gymhwyso eithriadau cydnabod i brydlesi tymor byr ac wedi dewis peidio â chydabod asedau hawl i ddefnyddio a rhwymedigaethau prydles ar gyfer prydlesi tymor byr sydd â thymor o 12 mis neu lai a phrydlesi asedau isel eu gwerth. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y taliadau prydles sy'n gysylltiedig â'r prydlesi hyn fel treuliau ar sail llinell syth dros dymor y brydles.

Cyfradd gyfartalog wedi'i phwysol y Gyfradd Fenthycy Gynyddrannol (IBR) / y Gyfradd Ymhlyg yn y Brydles (IRIL) yw 4.6% ar draws portffolio'r Awdurdod

C. Yr Awdurdod fel lesydd

Nid yw'n ofynnol i'r Awdurdod wneud unrhyw addasiad o dan IFRS 16 ar gyfer prydlesi lle mae'n gweithredu fel lesydd, ac eithrio awdurdodau sy'n gweithredu fel lesydd canolraddol (is-osod ased y mae wedi'i gaffael o dan brydles), neu lle mae'r Awdurdod yn barti i brydles heb unrhyw gost ynghlwm wrthi.

Mae'r awdurdod yn barti i brydles heb unrhyw gost ynghlwm wrthi, ac mae wedi dad-gydnabod yr ased sy'n cael ei ddarparu i'r trydydd parti, gan gydnabod unrhyw werth gweddilliol heb ei warantu yn unol â gofynion IFRS 16 fel y nodir yn y Côd. Mae hyn wedi'i nodi fel addasiad i falans agoriadol y cronfeydd wrth gefn ar 1 Ebrill 2024.

Yr Awdurdod fel lesddeiliad

Asedau Hawl i Ddefnyddio

Mae'r tabl isod yn dangos y newid yng ngwerth asedau hawl i ddefnyddio a gedwir o dan brydlesi gan yr awdurdod:

	Tir ac adeiladau £'000	Cerbydau, offer a chylfarpar £'000	CYFANSWM £'000
Balans ar 1 Ebrill 2025	5,487	4,227	9,714
Ychwanegiadau	851	686	1,537
Ailbrisiadau	16	1,656	1,672
Dibrisio ac Amorteiddio	(999)	(4,460)	(5,459)
Gwarediadau	(1)	(176)	(177)
Balans ar 31 Mawrth 2026	5,354	1,933	7,287

Trafodiadau o dan brydlesi:

Cafodd yr awdurdod y treuliau a'r llif arian canlynol mewn perthynas â phrydlesi.

	2024-25 £'000	2025-26 £'000
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		
Cost y llog ar rwymedigaethau prydles	430	303
Cost yn ymwneud â phrydlesi tymor byr	24	5
Cost yn ymwneud â phrydlesi eithriedig o ran eitemau isel eu gwerth	475	286

Dadansoddiad aeddfedrwydd o rwymedigaethau prydles

Disgwylir i'r rhwymedigaethau prydles gael eu setlo dros y bandiau amser canlynol (wedi'u mesur yn ôl y symiau taliadau disgwyliedig heb eu disgowntio):

	31 Mawrth 2025 £'000	31 Mawrth 2026 £'000
Llai na blwyddyn	3,770	1,834
Rhwng un a phum mlynedd	2,874	2,560
Mwy na phum mlynedd	2,538	2,275
Cyfanswm rhwymedigaethau heb eu disgowntio	9,182	6,669

Prydlesi Gweithredol

Mae'r Awdurdod yn gosod eiddo ar brydles o dan brydlesi gweithredol at y dibenion canlynol:

- i ddarparu gwasanaethau cymunedol, megis cyfleusterau chwaraeon, gwasanaethau twristiaeth a chanolfannau cymunedol
- at ddibenion datblygu economaidd i ddarparu safleoedd fforddiadwy addas i fusnesau lleol.

Isod mae'r incwm a chredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â'r prydlesi hyn:

	2024-25 £'000	2025-26 £'000
Dim hwyrach na blwyddyn	1,242	1,308
Yn hwyrach na blwyddyn ond dim hwyrach na phum mlynedd	3,037	2,979
Yn hwyrach na phum mlynedd	22,277	17,364
	26,556	21,651

Nid yw'r taliadau prydles lleiaf a dderbynnir yn cynnwys rhenti sy'n amodol ar ddigwyddiadau a gynhelir ar ôl llofnodi'r brydles.

Yn 2025/26 roedd y rhenti amodol y gallai'r Awdurdod eu derbyn yn £4,807 (£4,807 yn 2024/25).

D. Gwerthu a Phrydlesu'n Ôl

Nid oedd gan yr Awdurdod unrhyw drafodiadau Gwerthu a Phrydlesu'n ôl ar 1 Ebrill 2025.

6.40 Colledion Amhariad

Gwnaethpwyd asesiad ar ddiwedd y flwyddyn sy'n dangos nad oes unrhyw achosion o amhariad i asedau'r Awdurdod.

6.41 Cyfrifyddu ar gyfer Cynlluniau Pensiynau fel Cynlluniau Cyfraniadau Diffiniedig

Mae athrawon sy'n cael eu cyflogi gan yr Awdurdod yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon, sy'n cael ei weinyddu gan yr Adran Addysg. Mae'r Cynllun yn darparu budd-daliadau penodedig i athrawon ar ôl iddynt ymddeol, ac mae'r awdurdod yn cyfrannu at y costau trwy roi cyfraniadau sydd wedi'u seilio ar ganran o gyflogau pensiynadwy'r aelodau.

Mae'r cynllun yn dechnegol yn gynllun buddiannau diffiniedig aml-gyflogwr. Fodd bynnag, nid yw'n cael ei ariannu ac mae'r Adran Addysg yn defnyddio cronfa dybiannol fel sail ar gyfer cyfrifo cyfradd cyfraniadau'r cyflogwyr a delir gan awdurdodau lleol. Prisir y gronfa dybiannol bob pedair blynedd.

Nid yw'r Awdurdod yn gallu nodi ei gyfran o sefyllfa ariannol sylfaenol a pherfformiad y Cynllun gyda digon o ddibynadwyedd at ddibenion cyfrifyddu. At ddibenion y Datganiad Cyfrifon hwn, fe'i cyfrifir felly ar yr un sail â chynllun cyfraniadau diffiniedig.

Yn 2025/26 roedd £23.2 miliwn yn daladwy gan Cyngor Sir Caerfyrddin i'r Adran Addysg mewn perthynas â chostau pensiwn athrawon, sef 28.68% o dâl pensiynadwy athrawon a darlithwyr. Y ffigurau am 2024/25 oedd £22.4 miliwn a 28.68%. Roedd £1.9 miliwn heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn. Amcangyfrifir mai £23.7 miliwn fydd y cyfraniadau i'w talu yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Yn ogystal, mae'r Cyngor Sir yn gyfrifol am bob taliad pensiwn sy'n ymwneud â blynyddoedd ychwanegol y mae wedi'u dyfarnu ynghyd â'r codiadau cysylltiedig. Yn 2025/26 roedd y rhain yn dod i swm o £0.24 miliwn.

Mae'r awdurdod yn gyfrifol am gostau unrhyw fudd-daliadau ychwanegol a roddir wrth ymddeol yn gynnar y tu allan i delerau'r Cynllun Athrawon. Mae'r budd-daliadau hyn wedi'u cronni'n llawn yn y rhwymedigaeth pensiynau a ddisgrifir uchod.

6.42 Cynlluniau Pensiwn Budd-daliadau Diffiniedig

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion a chyflogeion eraill, mae'r Awdurdod yn rhoi cyfraniadau tuag at gost budd-daliadau ôl-gyflogaeth. Er na fydd y budd-daliadau hyn yn daladwy nes y bydd y gweithwyr yn ymddeol, mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i wneud y taliadau. Mae'n rhaid datgelu'r rhwymedigaethau i wneud y taliadau hyn pan fydd gweithwyr yn ennill eu hawlau at y dyfodol.

Mae Cronfa Bensiwn Dyfed yn aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Gweinyddir ef gan Gyngor Sir Caerfyrddin ac mae'n gynllun budd-daliadau penodol, sy'n golygu fod yr awdurdod a'r gweithwyr yn talu cyfraniadau i gronfa. Cyfrif lefel y cyfraniadau i sicrhau cydbwysedd rhwng y rhwymedigaeth o ran pensiynau a'r asedau a fuddsoddiwyd.

Gweithredir Cronfa Bensiwn Dyfed dan fframwaith rheoleiddio'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL), a Phanel Cronfa Bensiwn Dyfed sy'n gyfrifol am lywodraethu'r cynllun. Pennir polisi yn unol â Rheoliadau'r Gronfa Bensiwn. Penodir rheolwyr buddsoddi'r gronfa gan y Pwyllgor ac fe'u cynghorir gan Ymgynghorydd Buddsoddi annibynnol a swyddogion Cyngor Sir Caerfyrddin.

Y risgiau pennaf i'r Awdurdod yn sgil y cynllun yw'r rhagdybiaethau o ran gweddill oes, newidiadau statudol yn y cynllun, newidiadau yn strwythur y cynllun (h.y. bod llawer o arian yn cael ei godi o'r cynllun), newid o ran chwyddiant, arenillion bondiau a pherfformiad y buddsoddiadau ecwiti a ddelir gan y cynllun. Caiff y rhain eu lliniaru i raddau gan y gofynion statudol i glustnodi i'r Gronfa Gyffredinol a'r Cyfrif Refeniw Tai y symiau sy'n ofynnol yn statudol fel y disgrifir yn y nodyn polisiâu cyfrifyddu.

Buddion yn ôl Disgresiwn ar ôl Ymddeol

Mae buddion yn ôl disgresiwn ar ôl ymddeol, pan ymddeolir yn gynnar, yn drefniant buddion diffiniedig nas cyllidir, a thano cydnabyddir rhwymedigaethau pan roddir dyfarniadau. Nid oes asedau wedi'u cronni gan y cynllun i dalu am y rhwymedigaethau pensiwn hyn.

Trafodion yn ymwneud â budd-daliadau ôl-gyflogaeth

Mae cost budd-daliadau ymddeol yn cael eu cydnabod yng Nghostau'r Gwasanaethau pan fo'r gweithwyr yn ennill cyflog yn hytrach na phan fo'r gweithiwr yn eu derbyn fel pensiwn. Fodd bynnag mae'r tâl a gynhwysir yn nhreth y cyngor yn seiliedig ar yr arian sy'n daldawy yn ystod y flwyddyn, felly mae gwir gost budd-daliadau ymddeol yn cael eu tynnu yn ôl allan o'r Cyfrif Incwm a Gwariant yn y Datganiad Symudiad ar Falans Cronfa'r Cyngor.

Gwnaed y trafodion canlynol yn y Cyfrif Incwm a Gwariant a Datganiad Symudiad ar Falans Cronfa'r Cyngor yn ystod y flwyddyn:

	2024-25 £'000	2025-26 £'000
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		
Costau y Gwasanaethau:		
Cost y Gwasanaeth Cyfredol	32,800	23,157
Enillion Gwasanaeth Blaenorol	0	62
Setliadau a Chwtogiadau	27	43
Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi		
Cost y Llog Net	(8,721)	(19,967)
Llog ar y Terfyn Asedau	10,320	21,904
Cyfanswm y Budd-daliadau Ôl-gyflogaeth a godwyd i'r Warged neu Ddiffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau	34,426	25,199
Budd-daliadau Ôl-gyflogaeth eraill a godwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		
Ailfesur y rhwymedigaeth buddion diffiniedig net sef:		
Yr adenillion ar asedau'r cynllun	37,216	(73,830)
Effaith y Terfyn Ased	156,739	88,226
Yr enillion a brofwyd mewn perthynas â'r rhwymedigaethau	99	23,904
Enillion a cholledion actiwaraidd yn deillio o newidiadau yn y rhagdybiaethau demograffig	(3,210)	(14,447)
Enillion a cholledion actiwaraidd yn deillio o newidiadau yn y rhagdybiaethau ariannol	(191,811)	(16,608)
Cyfanswm y Budd-daliadau Ôl-gyflogaeth a godwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	33,459	32,444
Datganiad Newidiadau i Gronfeydd		
Gwrthdroi symiau net a godwyd i'r Warged neu Ddiffyg ar gyfer Darpariaeth Gwasanaethau ar gyfer Budd-daliadau Ôl-gyflogaeth yn unol â'r cod	(34,426)	(25,199)
Y Swm gwirioneddol a gynhwyswyd yn Balans Cronfa'r Cyngor ar gyfer pensiynau eleni:		
Cyfraniadau Cyflogwyr sy'n daladwy i'r Cynllun	33,155	34,260

Newidiadau yn y terfyn uchaf asedau

	2024-25 £'000	2025-26 £'000
Effaith y terfyn uchaf asedau ar ddechrau'r cyfnod	210,603	377,662
Llog ar warged sy'n uwch na'r terfyn uchaf asedau	10,320	21,904
Newid yn y terfyn uchaf asedau (llog net)	156,739	88,226
Effaith y terfyn uchaf asedau ar ddiwedd y cyfnod	377,662	487,792

Asedau a Rhwymedigaethau mewn perthynas â Budd-daliadau Ôl-gyflogaeth**Cyngor Sir Gâr****Newid yn asedau'r cynllun:**

	2024-25	2025-26
	£'000	£'000
Balans ar 1 Ebrill	1,485,502	1,511,189
Y llog ar asedau'r cynllun	72,571	87,360
Yr enillion a brofwyd mewn perthynas â'r asedau	(37,216)	73,830
Costau Gweinyddiaeth	(738)	(962)
Setliadau	0	0
Cyfraniadau'r cyflogwr	33,155	34,260
Cyfraniadau gan aelodau'r cynllun	11,555	12,110
Budd-daliadau a dalwyd	(53,640)	(56,351)
Balans ar 31 Mawrth	<u>1,511,189</u>	<u>1,661,436</u>
Effaith y Terfyn Ased	(377,662)	(487,792)

Newid mewn rhwymedigaeth budd-daliadau:

	2024-25	2025-26
	£'000	£'000
Balans ar 1 Ebrill	(1,309,052)	(1,167,984)
Cost y Gwasanaeth Cyfredol	(32,800)	(23,157)
Cost llog	(63,112)	(66,431)
Cyfraniadau gan aelodau'r cynllun	(11,555)	(12,110)
Yr enillion a brofwyd mewn perthynas â'r rhwymedigaethau	(99)	(23,904)
Enillion a cholledion actiwaraid yn deillio o newidiadau yn y rhagdybiaethau demograffig	3,210	14,447
Enillion a cholledion actiwaraid yn deillio o newidiadau yn y rhagdybiaethau ariannol	191,811	16,608
Cwtogiadau	(27)	(43)
Setliadau	0	0
Budd-daliadau a dalwyd	53,640	56,351
Costau gwasanaeth blaenorol	0	(62)
Balans ar 31 Mawrth	<u>(1,167,984)</u>	<u>(1,206,285)</u>
(Rhwymedigaethau)/Asedau Net y Cynllun	<u>(34,457)</u>	<u>(32,641)</u>

Mae'r prisiad actiwaraid o rwymedigaethau cynllun pensiwn y Cyngor a'r gronfa pensiwn a ddangosir ar y Fantolen yn adrodd ased neu rwymedigaeth net o sero. Penderfynodd Actiwari'r Cyngor, Mercer Ltd, fod gwerth teg asedau cynllun pensiwn y Cyngor yn drech na gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun ar 31 Mawrth 2026 gan arwain at ased cynllun pensiwn. Mae Buddion Cyflogaion IFRIC 14 ac IAS 19 yn mynnu, lle mae ased cynllun pensiwn yn bodoli, ei fod yn cael ei fesur ar yr isaf o:

- Y gwarged yn y cynllun buddion diffiniedig; a
- Terfyn asedau, sydd wedi'i gapio ar £0

Y Terfyn asedau yw gwerth presennol unrhyw fuddion economaidd sydd ar gael ar ffurf ad-daliadau o'r cynllun neu ostyngiadau mewn cyfraniadau i'r cynllun yn y dyfodol. Cyfrifodd actiwari'r Cyngor y terfyn asedau fel gwerth presennol net costau gwasanaethau'r dyfodol llai gwerth presennol net cyfraniadau'r dyfodol. Mae terfyn uchaf yr asedau a gyfrifwyd ar gyfer 2025/26 yn arwain at fwy o gyfraniadau gwasanaeth yn y dyfodol na chostau gwasanaeth felly mae'r budd economaidd wedi'i gyfyngu i sero. Mae'r Cyngor yn dibynnu ac yn rhoi sicrwydd ar farn broffesiynol yr Actiwari a'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r prisiad actiwaraid hwn.

Mae asedau'r Gronfa Bensiwn Dyfed yn cynnwys:

			Dyfynnwyd 31 Mawrth 2025 £'000	31 Mawrth 2026 £'000
Ecwitis	DU	le	170,311	206,778
	Fyd-eang	le	757,258	802,332
	Siapan	le	58,936	0
	Marchnadoed Sy'n Datblygu	Na	88,253	117,967
	Ewropeaidd heblaw DU	le	20,250	22,284
Bondiau	Credyd Byd Eang	le	138,727	158,117
Eiddo	Cronfeydd Eiddo	Na	157,768	215,784
Amgen	SAIF	Na	55,763	51,460
	Seilwaith	Na	20,854	28,210
	Seilwaith	Na	1,511	2,963
	Credyd Preifat	Na	27,957	36,222
	Coedwigaeth	Na	0	9,042
Arian	Cyfrifon Arian	le	13,601	10,277
Cyfanswm			1,511,189	1,661,436

Hanes y Cynllun

	2021-22 £'000	2022-23 £'000	2023-24 £'000	2024-25 £'000	2025-26 £'000
Gwerth presennol y rhwymedigaethau yn y Cynllun					
Pensiwn Llywodraeth Leol	(1,894,891)	(1,285,685)	(1,309,052)	(1,167,984)	(1,206,285)
Gwerth teg yr asedau yn y Cynllun					
Pensiwn Llywodraeth Leol	1,392,785	1,346,392	1,485,502	1,511,189	1,661,436
Effaith y Terfyn Ased	0	0	(210,603)	(377,662)	(487,792)
Gweddillion/(diffyg) yn y cynllun	(502,106)	60,707	(34,153)	(34,457)	(32,641)

Mae'r tabl yn dangos yr ymrwymadau sylfaenol sydd gan yr Awdurdod yn y tymor hir i dalu budd-daliadau ôl-gyflogaeth. Mae'r diffyg o £32.6m yn ymwneud â rhwymedigaethau pensiwn heb eu hariannu sydd wedi'u heithrio o gyfrifiad y terfyn uchaf asedau.

Cyfanswm y cyfraniadau y disgwylir i'r Awdurdod eu gwneud i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2027 yw £28.2m. Yn dilyn Prisiad Actiwaraid 2025 Cronfa Bensiwn Dyfed, cyfradd cyfrannu cyflogwr yr Awdurdod ar gyfer 2026-27 fydd 12.5% (cyfradd cyfrannu'r cyflogwr ar gyfer 2025/26 oedd 16.2% yn seiliedig ar Brisiad Actiwaraid 2022).

Y sail ar gyfer amcangyfrif asedau a rhwymedigaethau

Mae'r rhwymedigaethau wedi cael eu hasesu ar sail actiwaraid gan ddefnyddio'r dull credydu unedau rhagamcanol, amcangyfrif o'r pensiynau y bydd yn rhaid eu talu yn y blynnyddoedd i ddod gan ddibynnu ar dybiaethau ynglŷn â chyfraddau marwolaethau, lefelau cyflogau, enillion ar fuddsoddiadau, chwyddiant yn y dyfodol ac ati. Mae asedau a rhwymedigaethau Cronfa'r Cyngor Sir yn y Fantolen a chostau gwasanaeth y presennol a'r gorffennol a geir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr wedi cael eu hasesu gan Mercer Ltd, cwmni annibynnol o actiwaraid, gyda'r amcangyfrifon ar gyfer y Gronfa'n cael eu seilio ar y prisiad llawn diweddaraf o'r cynllun ar 31 Mawrth 2025.

Dangosir y prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd yn y cyfrifiadau isod:

	2024-25 %	2025-26 %
Rhagdybiaethau Ariannol:		
Cyfradd chwyddiant CPI	2.6	2.9
Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau	4.1	4.4
Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau	2.7	3.0
Y gyfradd ar gyfer rhwymedigaethau cynlluniau disgownt	5.8	6.2

	2024-25	2025-26
	%	%
Rhagdybiaethau o ran hyd oes:		
Gweddill oes ar gyfartaledd yn 65 oed ar gyfer pensiynwyr presennol:		
Dynion	21.5	21.2
Menywod	23.9	23.6
Gweddill oes ar gyfartaledd yn 65 oed ar gyfer pensiynwyr y dyfodol:		
Dynion	22.9	22.4
Menywod	25.7	25.3

Mae'r amcangyfrif o'r ymrwymïadau buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraid a amlinellir yn y tabl uchod. Mae'r dadansoddiadau sensitifrwydd isod wedi'u pennu ar sail y newidiadau sy'n rhesymol bosibl o ran y rhagdybiaethau a ddigwydd ar ddiwedd cyfnod yr adroddiad ac maent yn tybio, yn achos pob newid, fod y rhagdybiaeth a ddadansoddiwyd yn newid tra bo pob rhagdybiaeth arall yn aros yr un fath. Mae'r rhagdybiaethau o ran gweddill oes, er enghraifft, yn tybio bod disgwyliad oes yn codi neu'n disgyn i ddynion a menywod. Yn ymarferol, mae hyn yn annhebygol o ddigwydd, a gall newid yn rhai o'r rhagdybiaethau fod yn gysylltiedig â'i gilydd. Mae'r amcangyfrifon yn y dadansoddiadau sensitifrwydd wedi dilyn polisïau cyfrifyddu'r cynllun, h.y. ar sail actiwaraid gan ddefnyddio'r dull credydu unedau rhagamcanol. Nid oedd dulliau a mathau y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd wrth lunio'r dadansoddiadau sensitifrwydd isod yn wahanol i'r rhai a ddefnyddiwyd yn y cyfnod blaenorol.

	<u>Yr Effaith ar Ymrwymiad</u>	
	<u>Buddion Diffiniedig y Cynllun</u>	
	Codiad yn	Gostyngiad yn
	Rhagdybiaeth	Rhagdybiaeth
	£'000	£'000
Gweddill oes (1 flwyddyn o gynnydd neu ostyngiad)	24,908	(24,908)
Cyfradd chwyddiant (0.25% y flwyddyn o gynnydd neu ostyngiad)	40,181	(40,181)
Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau (0.25% y flwyddyn o gynnydd neu ostyngiad)	7,305	(7,305)
Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau (0.25% y flwyddyn o gynnydd neu ostyngiad)	40,181	(40,181)
Y gyfradd ar gyfer disgowntio rhwymedigaethau'r cynllun. (0.5% y flwyddyn o gynnydd neu ostyngiad)	(76,480)	76,480
Newid yn adenillion buddsoddi 2025/26 (cynyddu neu ostwng 1%)	0	0

6.43 Rhwymedigaethau Amodol

Tan fis Mawrth 2023, roedd yr Awdurdod yn gweithredu fel asiant casglu ar ran Dŵr Cymru mewn perthynas â thaliadau dŵr a charthffosiaeth tenantiaid y Cyfrif Refeniw Tai. Yn gyfnewid am y gwasanaeth hwn roedd yr Awdurdod wedi bod yn derbyn comisiwn sydd wedi'i drin fel ffrwd incwm i'r Cyfrif Refeniw Tai. Mae'r trefniant hwn wedi cael ei gwestiynu yn sgil dyfarniad Llys yn ystod 2015/16 (Kim Jones yn erbyn Bwrdeistref Southwark yn Llundain) a ddywedodd fod Awdurdodau Lleol sy'n casglu trethi dŵr drwy gyfrwng y Cyfrif Refeniw Tai yn gwneud hynny fel cyflenwr dŵr ac nid fel asiant i'r cyflenwr dŵr. Yn draddodiadol ystyrid hyn yn drefniant asiantaeth, ond roedd dyfarniad y Llys yn dynodi bod yr Awdurdod perthnasol wedi bod yn gweithredu fel cyflenwr dŵr, sydd â goblygiadau ariannol sylweddol i'r rheiny sy'n cael eu heffeithio o ran ffi'r asiantaeth a lle bo camau gweithredu wedi cael eu

cymryd yn erbyn dyledion rhent y gellid ystyried eu bod yn cynnwys trethi dŵr. Ar 31 Mawrth 2026 nid ydym wedi derbyn unrhyw ohebiaeth yn ymwneud â hawliadau posibl.

Er bod yr Awdurdod yn prynu ystod o yswiriannau, mae'n parhau i fod yn gyfrifol am ran o'r risg yn sgîl y ffaith ei fod yn derbyn "Gordaliadau Polisi" ac yn pennu "Terfynau Indemniad". Gosodir "Terfyn ar Golledion" ar Bolisiâu Atebolrwydd ac Eiddo sef yr uchafswm agrededig y gallai'r Awdurdod fod yn gyfrifol amdano a bwrw nad eir y tu hwnt i'r Terfynau Indemniad. Mae terfyn yr indemniad yn cael ei bennu gan yr yswiriwr a dyna'r uchafswm posibl y bydd yn ei gwmpasu o dan y contract.

Mae nifer o hawliadau yswiriant wedi cael eu cofrestru ond heb eu cwblhau eto. Ble mae'n debygol y bydd costau yn dod i ran yr Awdurdod, cydnabuwyd y gwariant yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant ac fel symudiad yn y Ddarpariaeth Yswiriant (gweler nodyn 6.20). Mae'n bosibl yr aiff yr Awdurdod i gostau yn ymwneud â hawliadau cofrestredig eraill neu hawliadau nad ydynt eto wedi cael eu cyflwyno. Neilltuwyd arian mewn Cronfa Yswiriant Wrth Gefn (gweler nodyn 6.22) at y diben hwn.

Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd nifer fach o hawliadau cyflogaeth yn erbyn yr awdurdod nad oedd wedi'u datrys. Nid yw'n bosibl amcangyfrif yn ddibynadwy y tebygolrwydd neu'r gwerth i'r awdurdod. Felly, nid oes unrhyw ddarpariaeth wedi'i gwneud yn y datganiadau ariannol hyn.

Ym mis Tachwedd 2020, roedd dyfarniad llys ynghylch Cydraddoli Isafswm Pensiwn Gwarantedig. Dyfarnodd y Llys ei bod yn ofynnol i ymddiriedolwyr cynlluniau ailystyried Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) o'r gorffennol i sicrhau cydraddoli Isafswm Pensiwn Gwarantedig. Gall hyn arwain at daliadau ychwanegol lle mae cydraddoli Isafswm Pensiwn Gwarantedig yn golygu na chafodd aelodau yr hyn yr oedd ganddynt hawl lawn iddo. Ar gyfer cynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus, mae Adran Actiwari'r Llywodraeth yn disgwyl y bydd y dyfarniad hwn yn cael ei gyflwyno ar sail traws-gynllun a bydd angen cael cyngor cyfreithiol. Efallai y bydd hyn yn gofyn am ailedrych ar achosion CETV blaenorol ar gyfer aelodau a oedd wedi cyrraedd Oedran Derbyn Pensiwn y Wladwriaeth ar ôl 5 Ebrill 2016 ac a oedd wedi cymryd CETV o'r cynllun cyn i CETV gael ei gydraddoli. Er y disgwylir i hyn gynrychioli codiad cymharol fach ar gyfer is-set gymharol fach o aelodau, nid yw'n bosibl gwneud amcangyfrif dibynadwy o'r costau tebygol. Felly, nid oes unrhyw atebolrwydd wedi'i gydnabod yn y datganiadau ariannol hyn.

Bu oedi wrth gwblhau cyfrifon cwmni sy'n eiddo llwyr i'r Cyngor, Llesiant Delta Wellbeing. Mae ansicrwydd o hyd ynghylch alldro terfynol y flwyddyn ddiwethaf ac felly nid yw'r Cwmni wedi cwblhau ei gyfrifon terfynol na'i archwiliad eto. Gall yr ansicrwydd hwn arwain at rwymedigaeth ychwanegol i'r Cyngor. Er y disgwylir y bydd unrhyw rwymedigaeth bosibl yn is na throthwy materol y Cyngor, nid yw'n bosibl amcangyfrif y costau tebygol mewn modd dibynadwy ar hyn o bryd. O ganlyniad, nid oes unrhyw rwymedigaeth wedi'i chydabod yn y datganiadau ariannol hyn.

6.44 Offerynnau Ariannol**Nodiadau Datgelu ynghylch Rhwymedigaethau Ariannol, Asedau Ariannol a Risgiau****Balansau Offerynnau Ariannol**

Mae'r benthyciadau a'r buddsoddiadau a ddatgelir yn y Fantolen yn cynnwys y categorïau canlynol o offerynnau ariannol:

	Tymor Hir		Cyfredol	
	31 Mawrth	31 Mawrth	31 Mawrth	31 Mawrth
	2025	2026	2025	2026
	£'000	£'000	£'000	£'000
Rhwymedigaethau Ariannol (prifswm)	407,129	421,438	8,704	12,690
Llog Cronedig	0	0	2,452	2,539
Addasiadau Eraill o ran Cyfrifyddu	110	0	0	0
Rhwymedigaethau Ariannol yn ôl cost amorteiddiedig	407,239	421,438	11,156	15,229
Cyfanswm y benthyciadau				
Benthyciadau a symiau i'w derbyn (prifswm)	0	0	8,172	1,305
Llog Cronedig	0	0	825	0
Buddsoddiadau yn ôl cost amorteiddiedig	0	0	8,997	1,305
Ecwiti ar werth teg drwy incwm cynhwysfawr arall				
Buddsoddiad mewn ecwiti annyfynedig am y gost	1,009	929	0	0
Cyfanswm y buddsoddiadau	1,009	929	8,997	1,305

Enillion/Colledion yn sgil Offerynnau Ariannol

Mae'r enillion a'r colledion a nodir yn Natganiad y Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr mewn perthynas ag offerynnau ariannol fel a ganlyn:

	Rhwymedigaethau Ariannol		Asedau Ariannol			
	Rhwymedigaethau a fesurir yn ôl y gost amorteiddiedig		Benthyciadau a Symiau i'w Derbyn yn ol gost amorteiddiedig		Cyfanswm	
	2024-25	2025-26	2024-25	2025-26	2024-25	2025-26
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cost y llog	(16,661)	(16,874)	0	0	(16,661)	(16,874)
Colledion yn sgil Amharu	0	0	0	0	0	0
Y llog sy'n daladwy a thaliadau tebyg	(16,661)	(16,874)	0	0	(16,661)	(16,874)
Incwm Llog	0	0	5,837	2,673	5,837	2,673
Incwm buddsoddi a llog	0	0	5,837	2,673	5,837	2,673
Enillion/(colled) net am y flwyddyn	(16,661)	(16,874)	5,837	2,673	(10,824)	(14,201)

Benthyciadau Gweithwyr i Brynu Car

Mae'r awdurdod yn rhoi benthyciadau ar gyfer prynu ceir i weithwyr yn yr awdurdod sydd â swyddi lle mae angen iddynt yrru'n rheolaidd ar fusnes yr awdurdod. Codir llog o 1% uwchlaw'r gyfradd sylfaenol ar y benthyciadau.

Benthyciadau Gweithwyr i Brynu Car	31 Mawrth 2025	31 Mawrth 2026
	£'000	£'000
Balans Agoriadol	23	13
Benthyciadau Newydd	0	0
Benthyciadau a ad-dalwyd	(10)	(7)
Balans Cau	13	6

Cario Gwerth Teg yr Asedau a'r Rhwymedigaethau yn ôl y Costau Amorteiddio

Mae rhwymedigaethau ariannol ac asedau ariannol megis benthyciadau a symiau i'w derbyn yn cael eu cario ar y fantolen yn ôl y gost amorteiddio. Gellir asesu eu gwerth teg drwy gyfrifo gwerth presennol y llif arian sy'n digwydd dros weddill bywyd yr offerynnau gan ddefnyddio'r tybiaethau canlynol:

- O ran benthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (BBGC) a benthyciadau eraill sy'n daladwy, defnyddiwyd cyfraddau ad-daliadau cynnar y BBGC i roi'r gwerth teg yn unol â gweithdrefnau'r BBGC ar gyfer adbrynu dyledion;
- O ran benthyciadau i'w derbyn defnyddiwyd cyfraddau meincnod cyffredin y farchnad i roi'r gwerth teg;

- Pan fo offeryn i'w dalu ymhen llai na 12 mis neu mae'n ddyled fasnachol neu'n swm arall i'w dderbyn bernir mai'r gwerth teg fydd y prifswm sydd heb ei dalu neu'r swm ar y bil;
- Cymerir mai'r swm ar yr anfoneb neu'r bil fydd gwerth teg y dyledion a symiau eraill i'w derbyn.

Mae'r gwerthoedd teg a gyfrifwyd fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2025		31 Mawrth 2026	
	Swm a gariwyd	Gwerth Teg	Swm a gariwyd	Gwerth Teg
Dyled BBGC	405,836	362,528	427,572	372,181
Dyled heb fod i BBGC	12,559	10,020	9,096	6,462
Cyfanswm y rhwymedigaethau ariannol	418,395	372,548	436,668	378,643

Mae'r gwerth teg yn uwch na'r swm a gariwyd gan fod portffolio benthyciadau yr Awdurdod yn cynnwys nifer o fenthyciadau cyfradd sefydlog lle mae cyfradd y llog sy'n daladwy yn uwch na'r cyfraddau sydd ar gael ar y farchnad ar fenthyciadau cyffelyb ar ddyddiad y fantolen.

	31 Mawrth 2025		31 Mawrth 2026	
	Swm a gariwyd	Gwerth Teg	Swm a gariwyd	Gwerth Teg
Benthyciadau'r farchnad arian < 1 flwyddyn	8,997	8,997	1,305	1,305
Benthyciadau'r farchnad arian > 1 flwyddyn	0	0	0	0
Cyfanswm y buddsoddiadau	8,997	8,997	1,305	1,305
Dyledion Masnachol	35,457	35,457	43,593	43,593
Cyfanswm y Benthyciadau a symiau i'w derbyn	44,454	44,454	44,898	44,898

Pennwyd gwerth teg y rhwymedigaethau ariannol drwy gyfeirio at reolau adbryniant BBGC a chyfraddau adbryniant cyffredin BBGC ar y dyddiad y lluniwyd pob mantolen ac maent yn cynnwys y llog cronedig. Defnyddiwyd yr un gweithdrefnau a'r cyfraddau llog i bennu gwerth teg dyledion nad oeddent yn rhai BBGC ac mae hyn yn rhoi amcangyfrif cadarn o werth teg yr offerynnau hynny.

Cafodd gwerth teg y benthyciadau a'r symiau i'w derbyn eu pennu drwy gyfeirio at arferion tebyg, fel uchod, sy'n rhoi amcangyfrif da o werth teg offeryn ariannol ac mae'n cynnwys y llog cronedig. Defnyddiwyd cyfraddau buddsoddi mynegiannol ar y dyddiad y lluniwyd pob mantolen i roi'r cyfraddau cyfatebol cyffredin ar y farchnad. Dylai'r cyfraddau gael eu pennu gan faint y gwerthiant a'r cymar, ond nid yw'n ymarferol i ddefnyddio'r ffigurau hynny ac mae'r gwahaniaeth yn debygol o fod yn anfanterol.

Mae gwerth teg benthyciadau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (BBGC) o £372.181 miliwn yn mesur effaith economaidd y telerau a gytunwyd â'r BBGC o'u cymharu ag amcangyfrifon o'r telerau a fyddai'n cael eu cynnig ar gyfer trafodion yn y farchnad ar ddyddiad y Fantolen. Mae'r gwahaniaeth rhwng y swm a gariwyd a'r gwerth teg yn mesur y llog ychwanegol y bydd yr Awdurdod yn ei dalu dros gyfnodau'r benthyciadau sy'n weddill o dan y cytundebau â'r BBGC, o'i gymharu â'r hyn y byddai'n ei dalu pe bai'r benthyciadau ar gyfraddau cyffredin y farchnad, cyfraddau llog adbryniant BBGC.

Fodd bynnag, mae gan yr Awdurdod allu parhaus i fenthycia ar gyfraddau gostyngol gan y BBGC yn hytrach na'r marchnadoedd. Ffordd arall o fesur y llog ychwanegol y bydd yr Awdurdod yn ei dalu o ganlyniad i'w ymrwymadau gyda'r BBGC o ran benthyciadau cyfradd sefydlog yw cymharu telerau'r benthyciadau hyn â'r cyfraddau benthycia newydd sydd ar gael gan y BBGC, cyfraddau Sicrwydd y BBGC. Os byddai gwerth yn cael ei gyfrifo ar y sail hon, byddai'r swm a gariwyd o £427.572 miliwn yn werth £337.167 miliwn.

Mae prisio offerynnau ariannol wedi cael eu dosbarthu'n dair lefel yn unol â safon a dibynadwyedd y wybodaeth a ddefnyddir i benderfynu ar werthoedd teg.

- Mewnbynnau Lefel 1 – prisiau a ddyfynnwyd nas addaswyd mewn marchnadoedd actif ar gyfer asedau neu rwymedigaethau sydd union yr un peth, y gall yr awdurdod eu cyrchu ar y dyddiad mesur
- Mewnbynnau Lefel 2 – mewnbynnau ac eithrio prisiau a ddyfynnwyd sydd wedi'u cynnwys yn Lefel 1 sy'n weladwy ar gyfer yr ased neu'r rhwymedigaeth, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol
- Mewnbynnau Lefel 3 – mewnbynnau anweladwy ar gyfer yr ased neu'r rhwymedigaeth

Gwerth Teg Asedau Ariannol

Mae rhai o asedau'r Awdurdod yn cael eu mesur ar werth teg ar sail gylchol ac fe'u disgrifir yn y tabl canlynol, gan gynnwys y technegau prisio a ddefnyddir yw mesur.

Asedau Ariannol wedi'i mesur ar werth teg

	Lefel mewnbyn yn hierarchaeth gwerth teg	Techneg brisio a ddefnyddir i fesur gwerth teg	31 Mawrth 2025 £'000	31 Mawrth 2026 £'000
Mesuriadau gwerth teg cylchol				
Gwerth Teg trwy Incwm Cynhwysfawr Arall				
Cyfranddaliadau ecwiti yn CWM				
Environmental Cyf	Lefel 3	Ar gost	329	329
Cyfranddaliadau ecwiti yn Egni Sir				
Gar Cyfyngedig	Lefel 3	Ar gost	680	600
Cyfanswm			1,009	929

Hierarchaeth gwerth teg ar gyfer asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol nad ydynt yn cael eu mesur ar werth teg.

	31 Mawrth 2025		31 Mawrth 2026	
	Mewnbynnau gweladwy sylweddol eraill		Mewnbynnau gweladwy sylweddol eraill	
Mesuriadau gwerth teg cylchol gan ddefnyddio:	(Lefel 2) £'000	Cyfanswm £'000	(Lefel 2) £'000	Cyfanswm £'000
Rhwymedigaethau ariannol				
Rhwymedigaethau ariannol a ddelir yn ôl cost amorteiddiedig:				
BBGC	362,528	362,528	372,181	372,181
nid y BBGC	10,020	10,020	6,462	6,462
Cyfanswm	372,548	372,548	378,643	378,643
Asedau Ariannol				
Benthyciadau a Symiau i'w derbyn	8,997	8,997	1,305	1,305
Cyfanswm	8,997	8,997	1,305	1,305

Datgelu natur a Maint y Risg yn codi o Offerynnau Ariannol

Risgiau Allweddol

Mae gweithgareddau'r Awdurdod yn golygu ei fod yn agored i nifer o risgiau ariannol. Y risgiau allweddol yw:

- Risg credyd – y posibilrwydd y bydd partïon eraill yn methu â thalu symiau sy'n ddyledus i'r Awdurdod;
- Risg hylifedd – y posibilrwydd na fydd gan yr Awdurdod arian ar gael i fodloni ei ymrwymadau i wneud taliadau;
- Risg ail gyllido – y posibilrwydd y bydd yn rhaid i'r Awdurdod adnewyddu offeryn ariannol wedi iddo aeddfedu a hynny ar gyfraddau llog neu delerau anafanteisiol;
- Risg y farchnad – y posibilrwydd y bydd yr Awdurdod yn gwneud colled ariannol o ganlyniad i newidiadau mewn mesurau megis symudiadau mewn cyfraddau llog.

Gweithdrefnau Cyffredinol ar gyfer Rheoli Risg

Mae gweithdrefnau cyffredinol yr Awdurdod ar gyfer rheoli risg yn canolbwyntio ar natur anrhagweladwy y marchnadoedd ariannol, a phennu cyfyngiadau i leihau'r risgiau hyn. Pennir y gweithdrefnau ar gyfer rheoli risg gan fframwaith cyfreithiol sydd wedi'i nodi yn *Neddf Llywodraeth Leol 2003* a'r rheoliadau cysylltiedig. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â Chôd Darbodus CIPFA, Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys y Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Canllawiau Buddsoddi a gyhoeddwyd drwy'r Ddeddf. Yn gyffredinol mae'r gweithdrefnau hyn yn ei gwneud yn ofynnol bod yr Awdurdod yn rheoli risg fel a ganlyn:

- drwy fabwysiadu'n ffurfiol ofynion y fersiynau Diwygiedig o Gôd Darbodaeth CIPFA a Chôd Ymarfer CIPFA ynghylch Rheoli'r Trysorlys.
- Mabwysiadu'n ffurfiol Datganiad Polisi y trysorlys a chymalau Reoli Trysorlys;

- Cymeradwyo'n flynyddol ymlaen llaw ddangosyddion darbodus ar gyfer y tair blynedd ddilynol yn cyfyngu ar:
 - Holl Fenthyciadau yr Awdurdod;
 - Terfynau uchaf ac isaf o ran cyfraddau llog sefydlog ac amrywiol y bydd yn agored iddynt;
 - Terfynau uchaf ac isaf o strwythur aeddfedrwydd ei ddyled y bydd yn agored iddynt;
 - Uchafswm y buddsoddiadau blynyddol sy'n cymryd mwy na blwyddyn i aeddfedu.
- Cymeradwyo strategaeth fuddsoddi ar gyfer y flwyddyn i ddod, gan nodi'r meini prawf ar gyfer buddsoddi a dewis cymheiriaid buddsoddi yn unol â Chanllawiau'r Llywodraeth;

Mae'n ofynnol i rhain gael eu hadroddiad ac iddynt gael eu cymeradwyo pan/cyn cyllideb flynyddol yr Awdurdod i bennu Treth y Cyngor neu cyn dechrau'r flwyddyn y maent yn berthnasol iddynt. Cynhwysir manylion y materion hyn yn yr adroddiad blynyddol ar y polisïau a'r strategaeth ar gyfer rheoli'r trysorlys sy'n amlinellu'r ymagwedd fanwl at reoli risg mewn perthynas â buddsoddiad yr Awdurdod mewn offerynnau ariannol. Cyflwynir adroddiad bob chwarter i'r Aelodau ar yr union berfformiad hefyd. Gweithredir y polisïau hyn gan yr Adran Buddsoddiadau Pensiwn a'r Trysorlys.

Cafodd y strategaeth flynyddol ynghylch rheoli'r trysorlys, sy'n cynnwys y dangosyddion darbodaeth, ei chymeradwyo gan y Cyngor ar 26 Chwefror 2025 ac mae ar gael ar wefan y Cyngor. Arhosodd yr Awdurdod o fewn y Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Awdurdod yn cynnal egwyddorion ysgrifenedig ar gyfer rheoli risg yn gyffredinol, ynghyd â pholisïau ysgrifenedig ar gyfer meysydd penodol megis risg cyfraddau llog, risg credyd, a buddsoddi arian dros ben drwy Arferion Rheoli y Trysorlys. Mae'r Arferion hyn yn ofynnol gan y Côd Ymarfer a chânt eu hadolygu'n rheolaidd.

Risg Credyd

Buddsoddiadau

Perir risg credyd gan arian yn cael ei adnau mewn banc a sefydliadau ariannol a'r peryglon credyd y mae cwsmeriaid yr Awdurdod yn agored iddynt. Lleiheir y risg cymaint ag y bo modd drwy'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol (sy'n rhan o Adroddiad yr Awdurdod ynghylch y Polisi a'r Strategaeth sy'n ymwneud â Rheoli'r Trysorlys), sy'n mynnu na roddir arian ar adnau yng ngofal sefydliadau ariannol oni bai eu bod yn bodloni meini prawf penodedig ynghylch isafswm credyd, yn unol â'r Gwasanaethau Mesur Statws Credyd sy'n cael eu cynnig gan Fitch, Moody's a Standard & Poors. Mae'r Strategaeth Fuddsoddi a Pholisi Rheoli'r Trysorlys hefyd yn pennu'r uchafswm a'r cyfnod hwyaf y gellir buddsoddi mewn sefydliad ariannol o bob categori. Nid yw arian yn cael ei adnau mewn banciau a sefydliadau ariannol os nad ydynt yn bodloni isafswm gofynion y meini prawf ar gyfer buddsoddi a amlinellir uchod.

Mae'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys flynyddol yn nodi'r rhestr a'r terfynau. Mae cwsmeriaid ar gyfer nwyddau a gwasanaethau'n cael eu hasesu, gan gymryd i ystyriaeth eu sefyllfa ariannol, profiad blaenorol a ffactorau eraill, a chaiff terfynau credyd unigol eu gosod yn unol â graddfeydd mewnol yn unol â pharamedrau a osodir gan y cyngor.

Ni ellir asesu'n gyffredinol y graddau mwyaf y mae credyd yn risg i'r Awdurdod mewn perthynas â'i fuddsoddiadau mewn banciau a chymdeithasau adeiladu, sef £26,000, oherwydd bydd y risg y bydd unrhyw sefydliad yn methu â thalu taliadau llog neu ad-dalu'r prifswm yn benodol i bob sefydliad unigol. Mae profiad diweddar wedi dangos mai anaml y

mae endidau o'r fath yn methu â chyflawni eu hymrwymadau.

Mae'r dadansoddiad canlynol yn rhoi crynodeb o'r graddau mwyaf y mae credyd yn risg i'r Cyngor ar asedau ariannol eraill, wedi'i seilio ar brofiad o ddiffygdlu.

	Swm ar 31 Mawrth 2026 £'000	Profiad Hanesyddol o ddiffygdlu %	Amcangyfrif o uchafswm y diffygdlu y bydd yn agored iddo £'000
<u>Adneuon gyda banciau a sefydliadau ariannol</u>			
Cymheiriaid safon AAA	50,000	0.03	15.0
Cymheiriaid safon AA	13,500	0.02	2.7
Cymheiriaid safon A	21,500	0.04	8.6
Dyledion Masnachol	43,593	3.50	1,525.7
	128,593		1,552.0

Ni chafwyd unrhyw achosion o dorri meini prawf y Cyngor ar gyfer partïon i gontractau yn ystod y cyfnod adrodd ac nid yw'r Cyngor yn disgwyl unrhyw golledion eraill oherwydd diffyg perfformiad gan unrhyw un o'i bartïon i gontractau mewn perthynas ag adneuon a bondiau.

Dyledion Masnachol

Mae ffigur y dyledwyr masnach, sef y £43.593 miliwn a nodir uchod, yn cynnwys £33.438 miliwn sy'n hwyr yn cael ei dalu. Gellir dadansoddi'r symiau y mae'r dyddiad ar gyfer eu talu wedi pasio yn ôl oed fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2025 £'000	31 Mawrth 2026 £'000
Llai na tri mis	5,200	6,302
Rhwng tri a chwe mis	1,934	2,279
Rhwng chwe mis a blwyddyn	4,188	6,073
Mwy na blwyddyn	13,969	18,784
	25,291	33,438

Mae'r Cyngor yn cyflwyno tâl cyfreithiol ar eiddo lle, er enghraifft, mae'r cleientiaid angen cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol ond nad ydynt yn gallu fforddio talu'n syth. £2.138 miliwn oedd cyfanswm y warant gyfochrog ar 31 Mawrth 2026.

Risg Hylifedd

Mae gan yr Awdurdod fynediad parod at fenthyciadau gan y Marchnadoedd Arian i fodloni unrhyw anghenion beunyddiol o ran llif arian, ac er mai darparu mynediad at gronfeydd tymor hwy wna'r BBGC mae hefyd yn gweithredu fel benthyciwr cyfle olaf i gynghorau (er na fydd yn darparu arian i gyngor sy'n gweithredu'n anghyfreithiol). Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn ei gwneud yn ofynnol hefyd bod yr Awdurdod yn darparu cyllideb gytbwys sy'n sicrhau bod digon o arian yn cael ei godi i dalu am y gwariant blyneddol. Felly nid oes unrhyw risg o bwys na fydd yn gallu codi arian i fodloni ei ymrwymadau o dan offerynnau ariannol.

Mae'r Awdurdod yn rheoli ei sefyllfa o ran hylifedd drwy'r gweithdrefnau rheoli risg a nodir uchod (pennu a chymeradwyo dangosyddion darbodus a chymeradwyo polisïau a strategaeth rheoli'r trysorlys) yn ogystal â thrwy system gynhwysfawr i reoli llif arian, yn unol â'r Côt Ymarfer. Nod hyn yw sicrhau y bydd arian ar gael pan fydd ei angen.

Ail gyllido a Risg Aeddfedrwydd

Mae'r Awdurdod yn cynnal portffolio sylweddol o ddyledion a buddsoddiadau. Er mai'r gweithdrefnau ar gyfer risgiau ail gyllido a ddefnyddir mewn perthynas â'r gweithdrefnau llif arian a nodir uchod, mae'r risg yn y tymor hwy i'r Awdurdod yn ymwneud â rheoli'r buddsoddiad mewn offerynnau ariannol newydd pan fydd y rhai presennol yn aeddfedu. Mae'r risg hwn yn berthnasol pan fo rhwymedigaethau ariannol tymor hir ac asedau ariannol tymor hir yn aeddfedu.

Cyfyngiadau'r dangosydd darbodus a gymeradwywyd ar gyfer trefniadau ad-dalu benthyciadau a'r cyfyngiadau a osodir ar fuddsoddiadau sy'n hwy na blwyddyn yw'r paramedrau allweddol a ddefnyddir i ymdrin â'r risg hwn. Mae polisïau a'r strategaeth a gymeradwywyd gan yr Awdurdod ar gyfer rheoli'r trysorlys yn ymdrin â'r prif risgiau ac mae Tîm y Trysorlys yn ymdrin â'r risgiau gweithredol o fewn y paramedrau a gymeradwywyd. Mae hyn yn cynnwys:

- monitro proffil aeddfedrwydd rhwymedigaethau ariannol a newid y proffil naill ai drwy fenthyciadau newydd neu aildrefnu'r ddyled bresennol; a
- mae monitro proffil aeddfedrwydd y buddsoddiadau i sicrhau bod digon o hylifedd ar gael i fodloni anghenion beunyddiol yr Awdurdod o ran llif arian, a thaenu buddsoddiadau tymor hir yn sefydlogi taliadau aeddfedrwydd ac elw ar gyfer anghenion llif arian dros dymor hir.

Isod, ceir dadansoddiad ynghylch aeddfedrwydd y rhwymedigaethau ariannol, ynghyd ag uchafswm ac isafswm yr hyn a allai fod yn daladwy.

	2024-25			2025-26		
	Uchafswm Cymeradwy	Isafswm Cymeradwy	31 Mawrth 2025 £'000	Uchafswm Cymeradwy	Isafswm Cymeradwy	31 Mawrth 2026 £'000
	%	%		%	%	
Llai na blwyddyn	15	0	11,156	15	0	15,230
1-2 flynedd	15	0	12,690	15	0	13,290
2-5 mlynedd	50	0	34,954	30	0	43,080
5-10 mlynedd	50	0	36,684	30	0	56,068
Mwy na 10 mlynedd	N/A	0	322,911	N/A	0	309,000
			418,395			436,668

Mae dadansoddiad o aeddfedrwydd asedau ariannol fel a ganlyn:

	2024-25 £'000	2025-26 £'000
Llai na blwyddyn	8,997	1,305
Mwy na blwyddyn	0	0
	8,997	1,305

Mae'r holl ddyledion a symiau eraill i'w talu i fod i gael eu talu mewn llai na blwyddyn ac nid yw'r £43.593 miliwn o ddyledion masnachol wedi'u cynnwys yn y tabl uchod.

Risg y Farchnad

Risg Cyfradd Llog – Mae'r Awdurdod yn agored i symudiadau yn y cyfraddau llog ar ei fenthyciadau a'i fuddsoddiadau. Mae symudiadau mewn cyfraddau llog yn cael effaith gymhleth ar yr Awdurdod, yn dibynnu ar sut y mae cyfraddau llog sefydlog a chyfraddau amrywiol yn symud ar draws gyfnodau gwahanol yr offerynnau ariannol. Er enghraifft byddai codiad yn y cyfraddau llog sefydlog a'r cyfraddau amrywiol yn cael yr effeithiau canlynol:

- benthyciadau cyfradd amrywiol – bydd cost y llog a godir ar y Cyfrif Incwm a Gwariant yn codi;
- benthyciadau cyfradd sefydlog – bydd gwerth teg yr rhwymedigaeth benthyc yn disgyn (dim effaith ar balansau refeniw);
- buddsoddiadau cyfradd amrywiol – bydd incwm y llog a gredydir i'r Cyfrif Incwm a Gwariant yn codi; a
- buddsoddiadau cyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg yr asedau yn disgyn (dim effaith ar balansau refeniw).

Nid yw benthyciadau yn cael eu cario ar y fantolen yn ôl eu gwerth teg, felly ni fyddai enillion a cholledion nominal ar fenthyciadau cyfradd sefydlog yn effeithio ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Fodd bynnag bydd newidiadau yn y llog a delir ac a dderbynnir ar fenthyciadau a buddsoddiadau cyfradd amrywiol yn cael eu cynnwys yn y Cyfrif Incwm a Gwariant ac yn effeithio ar Falans Gronfa Gyffredinol y Cyngor, yn amodol ar ddylanwadau grantiau'r Llywodraeth. Bydd symudiadau yng ngwerth teg buddsoddiadau cyfradd sefydlog yn cael eu hadlewyrchu yn Datganiad am y symudiadau yng Nghronfeydd, os na fydd y buddsoddiadau wedi cael eu dynodi yn rhai Gwerth Teg drwy'r Cyfrif Incwm a Gwariant.

Mae gan yr Awdurdod nifer o strategaethau ar gyfer rheoli risg cyfraddau llog. Mae Strategaeth Flynyddol Rheoli'r Trysorlys a'r Rhaglen Cyfalaf 5 mlynedd yn dwyn ynghyd ddangosyddion darbodus y Cyngor a gweithrediadau disgwylidig y trysorlys, gan gynnwys disgwylid yn symudiadau cyfraddau llog. O'r Strategaeth hon pennir dangosydd darbodus i ddarparu'r terfynau uchaf ac isaf o ran cyfraddau llog sefydlog ac amrywiol y bydd yr Awdurdod yn agored iddynt.

Pe byddai pob cyfradd llog wedi bod 1% yn uwch (a bod yr holl amrywiadau eraill yn gyson) byddai'r effaith ariannol fel a ganlyn:

	£'000
Cynnydd yn y llog i'w dalu ar fenthyciadau cyfradd amrywiol	0
Cynnydd yn y llog i'w dderbyn ar fuddsoddiadau cyfradd amrywiol	(660)
Cynnydd yn y grant derbyniadwy gan Lywodraethau i ariannu costau	314
Effaith ar y Warged neu Ddiffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau	(346)
Cyfran o'r holl effaith a ddebydwyd i'r Cyfrif Refeniw Tai	337
Gostyngiad yng ngwerth teg asedau buddsoddi cyfradd sefydlog	0
Effaith ar Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	(9)
Gostyngiad yng ngwerth teg rhwymedigaethau benthyciadau cyfradd sefydlog (dim effaith ar y Warged neu Ddiffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau nac Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall)	(37,739)

Oddeutu'r un effaith â'r uchod a gâi gostyngiad o 1% yn y cyfraddau llog ond y byddai'r symudiadau i'r gwrthwyneb. Seilir y tybiaethau hyn ar yr un fethodoleg ag a ddefnyddir yn y Nodyn – Gwerth teg Asedau a Rhwymedigaethau wedi cario ar cost amorteiddio.

Risg Prisiau – Nid yw'r Awdurdod, ac eithrio'r Gronfa Bensiwn, yn buddsoddi mewn cyfranddaliadau ecwiti. Nid yw felly'n agored i golledion yn codi oherwydd symudiadau mewn prisiau.

Risg Cyfnewidfa Dramor – Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw asedau nac rhwymedigaethau ariannol mewn arian tramor. Nid yw felly yn agored i golledion yn codi o oherwydd symudiadau yn y cyfraddau cyfnewid.

6.45 Safonau Cyfrifyddu sydd wedi'u cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu hyd yn hyn.

Mae Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol CIPFA yn mynnu bod effaith ddisgwyliedig unrhyw safonau cyfrifyddu sydd wedi eu cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu eto yn cael ei datgan. Ar ddyddiad y fantolen, nid oes safonau neu ddiwygiadau perthnasol i safonau presennol sydd wedi eu cyhoeddi ond sydd heb eu mabwysiadu eto gan y Cod a fydd yn cael unrhyw effaith ar y datganiadau ariannol. Mae'r manylion canlynol wedi'u darparu er gwybodaeth:

Mae Côt 2026/27 yn cyflwyno newidiadau sy'n deillio o'r canllawiau cyfrifyddu mewn perthynas â:

- Diwygiadau i FRS 102 y Safonau Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (Diwygiadau i asedau Treftadaeth) a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2024.
- Diwygiadau i Ddosbarthu a Mesur Offerynnau Ariannol (Diwygiadau i IFRS 9 ac IFRS 7) a gyhoeddwyd ym Mai 2024.
- Gwelliannau blynyddol i safonau cyfrifyddu IFRS – Cyfrol 11 a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2024.
- Contractau sy'n Cyfeirio at Drydan sy'n Ddibynnol ar Natur (Diwygiadau i IFRS 9 ac IFRS 7) a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2024

Gan ei bod yn ofynnol yn ôl y Côt bod y safonau hyn yn weithredol o 1 Ebrill 2026 nid oes unrhyw effaith ar Ddatganiad Cyfrifon 2025/26.

6.46 Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd

Awdurdodwyd y datganiad o gyfrifon i'w gyhoeddi gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol ar 28 Medi 2026. Nid yw digwyddiadau sy'n digwydd ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol neu'r nodiadau. Lle bo digwyddiadau'n digwydd cyn y dyddiad hwn yn darparu gwybodaeth am amodau a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2026, mae'r ffigurau yn y datganiadau ariannol a'r nodiadau wedi'u haddasu ym mhob agwedd faterol i adlewyrchu effaith y wybodaeth hon.

6.47 **Addasu ffigurau'r cyfnod blaenorol**

Yn ystod 2025/26, penderfynwyd ailenwi dwy adran ac ailalinio rhai o'r is-adrannau o fewn yr adrannau hynny.

Daeth y newidiadau i rym ar 29 Medi 2025. O'r dyddiad hwnnw, ailenwyd yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant yn Adran Addysg a Hamdden ac ailenwyd yr Adran Cymunedau yn Adran Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai.

Dyma'r gwasanaethau a gafodd eu hailalinio:

- Trosglwyddwyd y Gwasanaethau Plant o'r Adran Addysg a Gwasanaethau Plant i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai.
- Trosglwyddwyd y gwasanaeth Hamdden o'r Adran Cymunedau i'r Adran Addysg a Hamdden.
- Trosglwyddwyd y Gwasanaethau Arlwyyo o'r Adran Lle, Seilwaith a Datblygu Economaidd i'r Adran Addysg a Hamdden.

O ganlyniad i'r newidiadau hyn, bu'n rhaid ailddatgan symiau perthnasol yr adrannau a adroddwyd yn wreiddiol yn y Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2024/25.

Mae'r nodiadau canlynol i'r Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2025/26 wedi'u hailddatgan.

- 5.1 Dadansoddiad Gwariant a Chyllid
- 5.2 Y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr
- 6.5 Nodiadau i'r Dadansoddiad Gwariant a Chyllid

Nodyn 5.1 - Dadansoddiad Gwariant a Chyllid

	Gwariant Net a chodir ar y CC a'r CRT £'000	Cyfanswm Addasiadau £'000	Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr £'000
Symiau a ddatgelwyd yng nghyfrifon 2024/25			
Adran			
Addysg, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd	204,733	34,223	238,956
Cymunedau	134,181	9,807	143,988
Lle, Seilwaith & Datblygiad Economaidd	77,082	26,965	104,047
	415,996	70,995	486,991
Symiau wedi'u hailddatgan a ddatgelwyd yng nghyfrifon 2025/26 mewn perthynas â 2024/25			
Adran			
Addysg a Hamdden	188,351	41,022	229,373
Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai	155,468	3,657	159,125
Lle, Seilwaith & Datblygiad Economaidd	72,177	26,316	98,493
	415,996	70,995	486,991
Amrywiant			
Adran			
Addysg a Hamdden	(16,382)	6,799	(9,583)
Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai	21,287	(6,150)	15,137
Lle, Seilwaith & Datblygiad Economaidd	(4,905)	(649)	(5,554)
	0	0	0

Nodyn 5.2 – Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

	Cyfanswm y Gwariant Gros £'000	Cyfanswm yr Incwm Gros £'000	Cyfanswm y Gwariant Net £'000
Symiau a ddatgelwyd yng nghyfrifon 2024/25			
Adran			
Addysg, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd	298,399	(59,443)	238,956
Cymunedau	237,374	(93,386)	143,988
Lle, Seilwaith & Datblygiad Economaidd	170,224	(66,177)	104,047
	705,997	(219,006)	486,991
Symiau wedi'u hailddatgan a ddatgelwyd yng nghyfrifon 2025/26 mewn perthynas â 2024/25			
Adran			
Addysg a Hamdden	297,141	(67,768)	229,373
Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai	253,053	(93,928)	159,125
Lle, Seilwaith & Datblygiad Economaidd	155,803	(57,310)	98,493
	705,997	(219,006)	486,991
Amrywiant			
Adran			
Addysg a Hamdden	(1,258)	(8,325)	(9,583)
Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai	15,679	(542)	15,137
Lle, Seilwaith & Datblygiad Economaidd	(14,421)	8,867	(5,554)
	0	0	0

Nodyn 6.5 – Nodyn i'r Dadansoddiad Gwariant a Chyllid

	Addasiadau ar gyfer Dibenion Cyfalaf £'000	Newidiadau Net ar gyfer Addasiadau Pensiynau £'000	Gwahaniaethau Eraill £'000	Cyfanswm Addasiadau £'000
Symiau a ddatgelwyd yng nghyfrifon 2024/25				
Adran				
Addysg, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd	33,871	(958)	1,310	34,223
Cymunedau	9,372	988	(553)	9,807
Lle, Seilwaith & Datblygiad Economaidd	26,557	658	(250)	26,965
	69,800	688	507	70,995
Symiau wedi'u hailddatgan a ddatgelwyd yng nghyfrifon 2025/26 mewn perthynas â 2024/25				
Adran				
Addysg a Hamdden	40,557	(889)	1,354	41,022
Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai	3,152	1,048	(543)	3,657
Lle, Seilwaith & Datblygiad Economaidd	26,090	529	(303)	26,316
	69,800	688	507	70,995
Amrywiant				
Adran				
Addysg a Hamdden	6,686	69	44	6,799
Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai	(6,220)	60	10	(6,150)
Lle, Seilwaith & Datblygiad Economaidd	(467)	(129)	(53)	(649)
	(0)	0	0	0

7 Y CYFRIF REFENIW TAI (CRT)**7.1 Datganiad Incwm a Gwariant CRT**

2024-25 £'000			2025-26 £'000
	Gwariant	Nodiadau	
	Atgyweiro a Chynnal a Chadw		
14,141	- Ymatebol		19,774
3,648	- Cynlluniwyd/Cylchredol		2,790
2,543	- Tai Gwag		2,870
14,763	Goruwchwilio a Rheoli		14,331
1,663	Taliadau Cymorth Canolog		1,698
1,549	Rhenti, Ardrethi Trethi a chostau eraill		1,916
318	Newidiadau i'r lwfans ar gyfer drwgddyledion		375
26,195	Dibrisiant ac Amhariad Asedau nad ydynt yn gyfredol	8.6	50,420
0	Gwariant Refeniw a Gyllidir gan Gyfalaf dan Statud		0
43	Costau Rheoli Dyledion		44
64,863	Cyfanswm Gwariant		94,218
	Incwm		
(51,859)	Rhenti Anheddau	8.1	(52,458)
(145)	Rhenti nad ydynt yn Annedd		(132)
(30)	Lesddeiliaid		(20)
(1,031)	Ffioedd Gwasanaethau	8.2	(1,209)
(882)	Grantiau		(1,565)
(963)	Incwm Arall		(1,192)
0	Comisiwn - Trethi Dŵr		0
(54,910)	Cyfanswm Incwm		(56,576)
9,953	Cost Net Gwasanaethau y CRT fel y mae wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant		37,642
344	Cyfran Gwasanaethau y CRT o'r Craidd Corfforaethol a Democrataidd		353
10,297	(Incwm)/Cost net Gwasanaethau CRT		37,995
	Cyfran CRT yr incwm a gwariant gweithredol a gynhwysir yn Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		
	(Cynydd) neu ostyngiad ar werthu Asedau nad ydynt yn gyfredol CRT		676
10,207	Y Llôg sy'n daladwy a chostau cyffelyb		10,929
(552)	Y Llôg a geir a'r incwm buddsoddi		(442)
75	Llog net ar y rhywmedigaeth/(ased) buddion diffiniedig net		88
(16,621)	Grantiau a chyfraniadau cyfalaf derbyniadwy		(18,766)
3,322	(Gwarged) neu Diffyg am y flwyddyn ar Wasanaethau CRT		30,480

7.2 Datganiad Newidiadau i'r Cyfrif Refeniw Tai

Mae'r amcanion cyffredinol ar gyfer y Datganiad Newidiadau i'r Cyfrif Refeniw Tai a'r egwyddorion cyffredinol ar gyfer ei lunio yr un peth â'r rheiny'n gyffredinol ar gyfer y Datganiad Newidiadau i Gronfeydd, y mae wedi'i gynnwys ynddo. Mae'r datganiad yn cymryd yr alldro ar Ddatganiad Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai ac yn ei gysoni i'r warged neu ddiffyg ar gyfer y flwyddyn ar Falans y Cyfrif Refeniw Tai, wedi'i gyfrifo'n unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

2024-25 £'000		2025-26 £'000	2025-26 £'000
(11,996)	Balans ar y CRT ar ddiwedd y flwyddyn blaenorol		(10,939)
	(Gwarged) neu ddiffyg ar gyfer y flwyddyn ar Gyfrif		
3,322	Incwm a Gwariant y CRT	30,480	
	Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu a sail ariannu o dan y		
73	statud	7.3	(25,935)
	Cynnydd neu (ostyngiad) net cyn trosglwyddiadau i neu		
3,395	o gronfeydd		4,545
(2,338)	Trosglwyddiadau (i) neu o gronfeydd	7.4	(4,775)
	(Cynnydd) neu ostyngiad yn y flwyddyn ar y CRT		(230)
(10,939)	Balans ar y CRT ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol		(11,169)

7.3 Addasiadau rhwng y Sail Cyfrifyddu a'r Sail Ariannu yn unol â'r rheoliadau stadud

2024-25 £'000		2025-26 £'000
0	Amortieiddio Premiymau a Disgowntiau	0
87	Trosglwyddiadau i / (o'r) Cyfrif Absoneldebau Cronedig	105
85	Cynnydd neu ostyngiad ar werthu Asedau CRT anghyfredol	(675)
(209)	Cyfran CRT o'r cyfraniadau i / o'r Gronfa Pensiynau	283
4,795	Gwariant Cyfalaf cyllidwyd gan CRT	859
(4,685)	Trosglwyddiadau i / o'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf	(26,507)
73		(25,935)

7.4 Trosglwyddiadau i neu (o'r) Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi

2024-25				2025-26		
£'000	£'000	£'000		£'000	£'000	£'000
Tros. o	Tros. i	Net		Tros. o	Tros. i	Net
(131)	212	81	Cronfa Yswiriant	(110)	213	103
			Cyfrif Gweithredol Gwasanaethau			
(2,419)	0	(2,419)	Cymdeithashol a Thai	(4,878)	0	(4,878)
(2,550)	212	(2,338)		(4,988)	213	(4,775)

8 NODIADAU I'R DATGANIAD INCWM A GWARIANT Y CYFRIF REFENIW TAI (CRT)

Cyflwyniad

Cofnod yw'r Cyfrif Refeniw Tai o'r incwm a'r gwariant refeniw sy'n gysylltiedig â stoc dai awdurdod. Prif ddiben y Cyfrif yw sicrhau bod y rhenti a godir ar denantiaid yn cyfateb i'r gwariant ar reoli tenantiaethau ac ar gynnal a chadw tai. Yn sgil hyn cyfrif statudol yw'r Cyfrif Refeniw Tai, sydd wedi ei neilltuo rhag gweddill Cronfa'r Cyngor, fel na ellir defnyddio arian treth y cyngor i gynorthwyo â rhenti (neu i'r gwrthwyneb).

8.1 Incwm Rhenti Grôs

Dyma gyfanswm yr incwm rhent a ddisgwyllir yn ystod y flwyddyn ar ôl caniatáu am adeiladau gwag a.y.y.b. Yn 2025/26 y cyfanswm oedd £52.5 miliwn (£51.9 miliwn am 2024/25). Ar 31 Mawrth 2026 roedd 3.5% o'r eiddo a oedd ar gael i'w gosod, yn wag (2.27% ar 31 Mawrth 2025). Cyfartaledd y rhenti oedd £107.93 yr wythnos yn 2025/26 (£105.21 yn 2024/25).

8.2 Taliadau Gwasanaethau a Chyfleusterau

Hwn yw incwm yr Awdurdod o daliadau am wasanaethau a chyfleusterau yn gysylltiedig â darparu tai ac eiddo arall o fewn y Cyfrif Refeniw Tai. Roedd hyn yn dod i gyfanswm o £1.23 miliwn yn 2025/26 (£1.06 miliwn yn 2024/25).

8.3 Y Stoc Dai

Roedd y Cyngor yn gyfrifol am reoli 9,430 o anheddau ar gyfartaledd yn ystod 2025/26 (9,390 yn 2024/25). Roedd y stoc ar 31 Mawrth fel â ganlyn:

	2024-25	2025-26
Tai	5,176	5,187
Fflatiau/Rhandai/Fflat un ystafell	2,049	2,068
Byngalos	2,188	2,191
	9,413	9,446

Gellir crynhoi'r newid yn y stoc fel â ganlyn:

	2024-25	2025-26
Y Stoc Agoriadol ar 1 Ebrill	9,366	9,413
Gwerthiannau	0	0
Dymchweliadau/Dilewyd	0	(1)
Adeiladu o'r Newydd/Prynu/Trosi	47	34
Y Stoc wrth Gau 31 Mawrth	9,413	9,446

8.4 Ôl-ddyledion Rhent

	Ar 31 Mawrth 2025	Ar 31 Mawrth 2026
	£'000	£'000
Ôl-ddyledion	3,062	3,416
Ôl-ddyledion fel Canran o'r Incwm Gros o Renti	5.85%	6.45%

O gymharu â'r flwyddyn flaenorol mae yna cynydd o 0.5% yn ôl-ddyledion y tenantiaid presennol, o ran y ganran o ddebyd gros sydd i'w gasglu. Mae'r perfformiad y tu allan i'r ffiniau o ran yr hyn a ystyrir yn lefel arferion da (2%) sef 4.1%. Mae yna cynydd o 0.14% yn ôl-ddyledion y cyn-denantiaid, o ran y ganran o'r debyd gros sydd i'w gasglu. Ar ôl cymeryd y £223,000 dyledion a ddilëir i ystyriaeth, roedd cynydd o 0.3% (£275,000 yn 2024/25).

Roedd y ddarpariaeth ar gyfer Drwgddyledion ar 31 Mawrth 2026 yn £1,496,582 (£1,382,074 ar 31 Mawrth 2025).

8.5 **Gwariant Cyfalaf**

Cyfanswm y Gwariant Cyfalaf yn 2025/26 ar dir a phreswylfeydd sydd ynghlwm wrth y Cyfrif Refeniw Tai oedd £42.143 miliwn (£38.650 miliwn yn 2024/25).

	2024-25 £'000	2025-26 £'000
Cyllidwyd hyn fel â ganlyn :-		
Lwfans Atgyweiriadau Sylweddol	7,976	8,253
Benthyciadau	16,971	22,406
Derbyniadau Cyfalaf - Gwerthiant Preswylfeydd/Tir	85	112
Cyllid Allanol	8,319	10,027
Incwm Adran 106	504	486
Cyllid Refeniw Uniongyrchol	4,795	859
	38,650	42,143
Gwariwyd ar:		
Tai	38,125	40,740
Tir	0	0
Eraill	525	1,403
	38,650	42,143

8.6 **Dibrisiant**

Mae dibrisiad a cholledion amharu mewn perthynas ag asedau'r Cyfrif Refeniw Tai wedi cael eu debydu i'r Cyfrif Incwm a Gwariant yn unol â darpariaethau cyffredinol SORP a'u tynnu yn ôl allan yn y Symudiadau ym malans y Cyfrif Refeniw Tai. Yn lle'r tâl dibrisiad, cofnodwyd Darpariaeth Refeniw Isaf y Cyfrif Refeniw Tai ar ffurf credyd o'r Cyfrif Cyllid Cyfalaf i osgoi effeithio lefelau rhenti.

Mae preswylfeydd y Cyfrif Refeniw Tai yn cael eu hailbrisio bob pum mlynedd, a cafodd hyn eu wneud diwethaf ar 1 Ebrill 2025.

Dibrisiant a Cholledion Amhariad:

	2024-25	2025-26
	£'000	£'000
Dibrisiant	15,214	14,543
Amhariadau a Cholledion Adbriso	10,832	35,687
Dibrisiant Asedau Hawl I Ddefnyddio	149	190
	<u>26,195</u>	<u>50,420</u>

Amhariadau a Cholledion Adbriso ar:

	2024-25	2025-26
	£'000	£'000
Tai	6,555	35,670
Tir	0	17
Eraill	4,277	0
	<u>10,832</u>	<u>35,687</u>

9 CYFRIF CRONFA'R DEGWM DYFED

Mae Cronfa'r Degwm Dyfed yn gynllun sydd yn bennaf yn rhoi grantiau tuag at gostau cynnal a chadw addoldai. Er hynny, gall elusennau cofrestredig sy'n dod â budd i drigolion wneud cais am gymorth tuag at gostau rhedeg, neu gost prosiect penodol neu gost prynu offer. Yn ogystal â chynorthwyo elusennau cenedlaethol, mae'r Gronfa'n cefnogi elusennau lleol sy'n gyfrifol am ddarparu cyfleusterau hamdden neu wasanaethau eraill sydd o les i'r Gymuned.

Adeg Ad-drefnu Llywodraeth Leol yn 1996 rhannwyd y Gronfa ymhlith yr Awdurdodau Unedol newydd. Roedd y swm a oedd ar gael i bob Awdurdod yn cael ei gyfrifo yn ôl y canrannau canlynol y cytunwyd arnynt:

Cyngor Sir Caerfyrddin	41%
Cyngor Sir Ceredigion	25%
Cyngor Sir Benfro	34%

Cytunwyd mai Cyngor Sir Caerfyrddin fyddai'n gyfrifol am weinyddu'r portffolio buddsoddiadau.

Gweddill Sir Gaerfyrddin yn y gronfa ar 31 Mawrth 2026 oedd £2.001 miliwn (£1.851 miliwn ar 31 Mawrth 2025).

10 CRONFEYDD YMDDIRIEDOLAETHAU 2025/26

Mae'r cyngor yn gweithredu cronfeydd ymddiriedolaeth ar gyfer gwasanaethau addysg, gwasanaethau diwylliannol a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r rhain yn cynrychioli cyfanswm asedau net o £1,021k ar 31 Mawrth 2026 (£984k ar 31 Mawrth 2025).

11 GOFAL CYMDEITHASOL / GWASANAETHAU PLANT – EIDDO PRESWYLLWYR, CYFRIFON A GEDWIR YN DDIOGEL, CRONFEYDD AMWYNDER A CHYFRIFON BUDDION I'R STAFF

11.1 Eiddo Preswylwyr

Caniateir pobl mewn cartrefi preswyl i gael lwfans personol a delir iddynt bob wythnos. Os nad yw'r preswilydd yn dymuno gwario'r holl lwfans mewn wythnos telir yr hyn sy'n weddill i gyfrif Cadwmigei y Preswylwyr. Roedd y balans ar 31 Mawrth 2026 yn £700,369 (£687,252 ar 31 Mawrth 2025) ac mae hyn yn adlewyrchu swm y lwfansau personol sy'n cael eu dal gan yr Awdurdod ar ran ei drigolion.

11.2 Cyfrifon a Gedwir yn Diogel

Mae'r Adran Cymunedau yn cadw Cyfrifon a Gedwir yn Ddiogel ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth sy'n byw yn y gymuned nad ydynt yn gallu delio â'u materion ariannol oherwydd anallu meddyliol. Y Cyfarwyddwr Cymunedau yw'r sawl sydd wedi'i enwebu gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer bob un o'r rhai hyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Y balans ar 31 Mawrth 2026 oedd £1,298,333 (£1,365,248 ar 31 Mawrth 2025) ac mae hyn yn adlewyrchu'r swm arian a ddeler gan yr Awdurdod ar ran defnyddwyr ei wasanaeth.

11.3 Cronfeydd Amwynder a Chyfrifon Buddion i'r Staff

Cronfeydd a gedwir ar ran sefydliadau, megis canolfannau dydd, chartrefi preswyl a canolfannau plant/cylchoedd chwarae yw cronfeydd amwynder. Mae'r taliadau ar gyfer eitemau a brynir er budd preswylwyr a chleientiaid y sefydliadau hyn, a daw'r incwm o roddion ac anrhegion ac ati gan deuluoedd y cleientiaid, a chymynroddion o ystadau cleientiaid ymadawedig.

Cronfeydd a gedwir ar ran staff sy'n gweithio mewn sefydliadau penodol a geir yn y Cyfrifon Buddion i'r Staff. Daw'r incwm o roddion gan deuluoedd cleientiaid a chymynroddion o ystadau cleientiaid ymadawedig. Mae'r taliadau ar gyfer eitemau sydd o fudd i'r holl staff sy'n gweithio mewn sefydliad penodol.

Roedd y balans ar 31 Mawrth 2026 yn £139,702 (£151,676 ar 31 Mawrth 2025).

11.4 Cyfrifon a Reolir – Taliadau uniongyrchol

Mae Taliadau Uniongyrchol yn caniatáu i ddefnyddwyr gwasanaeth dderbyn taliadau arian parod gan yr awdurdod lleol yn hytrach na gwasanaethau gofal. Gall hyn roi mwy o hyblygrwydd a rheolaeth i'r defnyddiwr gwasanaeth o'i becyn cymorth. Caiff cyfrifon eu rheoli gan dîm yn yr Adran Cymunedau sy'n darparu gwasanaethau cymorth a chynghor i dderbynwyr taliadau uniongyrchol, gan gynnwys gwasanaethau bancio rheoledig a gwasanaethau'r gyflogres ar gyfer y Cynorthwywyr Personol sy'n darparu gofal.

Y balans ar 31 Mawrth 2026 oedd £3,464,006 ar ran defnyddwyr y gwasanaeth. Y balans ar 31 Mawrth 2025 oedd £3,354,634.

11.5 Cyfrifon Cronfeydd Ysgolion

Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion gyfrifon a reolir gan weithwyr ysgol ond nid ydynt yn rhan o gyllideb ddirprwyedig yr ysgol ac y tu allan i'r diffiniad o arian cyhoeddus.

Cyfanswm y balans ar draws yr ysgolion ar 31 Mawrth 2026 oedd £3,241,737. Y balans ar 31 Mawrth 2025 oedd £3,425,232.

12 GEIRFA

Mae'r adran ganlynol yn ceisio esbonio ystyr rhai o'r termau technegol sy'n cael eu defnyddio yn y Datganiadau. Mae'r adran wedi'i rhannu yn dermau Cyffredinol a'r rhai hynny sy'n ymwneud â Chyfrifon y Gronfa Bensiwn.

Cyffredinol

Amrywiad

Y gwahaniaeth rhwng yr union wariant a'r gyllideb – a fynegir fel arian neu ganran.

Archwiliad

Archwiliad annibynnol ar ein gweithgareddau yw'r archwiliad hwn

Archwilio Cymru

Corff annibynnol yn cael ei arwain gan Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n gyfrifol am benodi archwilwyr allanol i awdurdodau lleol.

Asedau a Ddelir i'w Gwerthu

Mae'r rhain yn asedau na ddefnyddir mwyach i ddarparu gwasanaeth ac sydd wrthi'n cael eu marchnata ac sy'n debygol iawn o gael eu gwerthu cyn pen blwyddyn.

Asedau Cyfredol

Asedau tymor byr yw'r rhain, sydd ar gael i'r Awdurdod defnyddio yn ystod y flwyddyn gyfrifydda ganlynol.

Asedau/Rhwymedigaethau Pensiynau Net (Nodiadau ar y Symudiad mewn Rhwymedigaethau Pensiwn Net)

Costau Gwasanaeth Presennol – gwerth y codiad yn rhwymedigaethau'r aelodau sy'n gweithio o ganlyniad i gynnydd o flwyddyn yn eu gwasanaeth (h.y. o ddechrau'r flwyddyn i ddiwedd y flwyddyn), llai unrhyw gyfraniadau gan weithwyr.

Cyfraniadau'r Cyflogwyr – Cyfraniadau'r cyflogwr yw'r symiau a delir gan y cyflogwr yn ystod y flwyddyn. Maent yn cynnwys unrhyw symiau a delir mewn perthynas â phwysau ymddeoliadau cynnar ac unrhyw gostau a adenillir o ran budd-daliadau blynyddoedd ychwanegol gorfodol.

Costau Gwasanaeth Blaenorol – Cyfyd costau gwasanaeth blaenorol pan fo cyflogwr yn gwneud ymrwymiad i ddarparu lefel uwch o fudd-dâl na'r hyn a addawyd yn flaenorol, er enghraifft creu budd-dâl pensiwn ar gyfer cymar lle nad oedd y cyfryw fudd-dâl yn bodoli neu ganiatáu ymddeoliad cynnar gyda blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth.

Costau Llog – Mae cost y llog yn seiliedig ar gyfradd y disgownt a gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun ar ddechrau'r cyfnod. Ffordd arall o edrych ar y "llog ar rhwymedigaethau" yw dad-ddirwyn blwyddyn o ddisgownt mewn perthynas â rhwymedigaethau.

Enillion a Cholledion Actiwaraid – Yn yr achos hwn y gwahaniaeth rhwng yr union elw ar yr asedau a'r elw a ddisgwylir.

Yr Elw Disgwyliedig ar Asedau – Mae'r elw a ddisgwylir ar asedau yn seiliedig ar ddisgwyliadau hir dymor ar ddechrau'r cyfnod.

Enillion neu Golledion ar Gytundebau neu Gwtogiadau – Pan fo rheolau'r Cynllun yn caniatáu gweithwyr i ymddeol yn gynnar neu drosglwyddo allan o'r Cynllun, cyfrifir am y cyfryw gytundebau neu gwtogiadau yn y rhagdybiaethau demograffig arferol a wneir gan yr actiwari a bydd unrhyw enillion neu golledion a achosir yn enillion a cholledion actiwaraid. Mae unrhyw golledion a achosir gan gytundeb neu gwtogiad nad yw wedi'i gyfrif yn y rhagdybiaethau actiwaraid yn cael ei fesur ar y dyddiad y mae'r cyflogwr yn dangos ei ymrwymiad i'r trafodion ac mae'n cael ei gydnabod yn y cyfrif elw a cholled ar gyfer y dyddiad hwnnw. Mae unrhyw enillion a achosir gan gytundeb neu gwtogiad nad ydyw wedi'i gyfrif yn y rhagdybiaethau actiwaraid yn cael ei fesur ar y dyddiad y mae pob parti y mae angen eu caniatâd wedi ymrwymo yn ddi-droi'n ôl i'r trafodion ac fe'i cydnabyddir yn y cyfrif elw a cholledion am y dyddiad hwnnw.

Asedau Treftadaeth

Yn ôl y diffiniad, Asedau Treftadaeth yw'r asedau hynny sy'n cael eu dal a'u cynnal yn bennaf oherwydd eu cyfraniad i wybodaeth a diwylliant.

Awdurdod Bilio

Awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gasglu treth y cyngor a threthi annomestig.

Awdurdodau Praesept

Yr awdurdodau hynny sydd heb fod yn awdurdodau bilio, h.y. nid ydynt yn casglu treth y cyngor a threthi annomestig. O ran Cyngor Sir Caerfyrddin yr awdurdodau praesept yw Heddlu Dyfed-Powys a'r Cyngorau Tref a Chymuned.

Balans

Y gwarged neu'r diffyg mewn unrhyw gyfrif ar unrhyw adeg.

Blwyddyn Ariannol

Dyma gyfnod y cyfrifon. Yn achos yr awdurdodau lleol, mae'n dechrau ar 1 Ebrill ac yn dod i ben ar 31 Mawrth yn y flwyddyn ganlynol.

Budd-daliadau Tai

Lwfans i bobl ar incwm isel (neu ddim incwm) i dalu am eu rhent yn gyfan neu am gyfran ohono. Awdurdodau lleol sy'n caniatáu neu'n talu'r budd-dâl ond ad-delir rhan o gost y budd-daliadau a'r gost o redeg y gwasanaeth gan lywodraeth ganolog. Gelwir y budd-daliadau a delir i denantiaid yr awdurdod yn 'gostyngiad yn y dreth'ac enw'r budd-dâl a delir i denantiaid y sector preifat yn 'lwfans rhent'.

Bwrdd Benthyciadau Gweithfeydd Cyhoeddus (BBGC) (PWLB)

Un o asiantaethau'r Llywodraeth yw hon ac mae'n darparu benthyciadau tymor hir ar gyfer awdurdodau lleol. Mae'n codi cyfraddau llog sydd ychydig yn unig yn uwch na'r cyfraddau y mae'r Llywodraeth yn eu talu am fenthycia.

Côd Darbodus

Côd ymddygiad proffesiynol yw'r Côd Darbous i gefnogi awdurdodau lleol mewn gwneud penderfyniadau buddsoddi cyfalaf.

Credydwr

Mae credydwr yn rhywun y mae arnom arian iddo ar ddiwedd y flwyddyn ariannol am waith sydd wedi'i wneud, nwyddau sydd wedi dod i law neu wasanaethau sydd wedi'u rhoi.

Cronfa Bensiwn

Y gronfa a gynhelir i dalu taliadau pensiwn ar ymddeoliad y cyfranogwyr

Cronfa'r Cyngor

Prif gronfa refeniw yr awdurdod lleol. Defnyddir y gronfa hon i dalu am wariant beunyddiol ar wasanaethau.

Cronfa Wrth Gefn

Symiau yw'r rhain sydd wedi'u neilltuo ond sydd heb fod yn disgyn o fewn diffiniad darpariaethau ac maent yn cynnwys cronfeydd wrth gefn cyffredinol (balansau) y mae'n rhaid i bob awdurdod eu cynnal fel mater o ddarbodaeth.

Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi

Dyma'r cronfeydd sydd wedi'u neilltuo ar gyfer diben penodol.

Croniad

Mae croniad yn swm a ddangosir yn ein cyfrifon ar gyfer incwm neu wariant yn ystod cyfnod y cyfrifon ond sydd heb gael ei dalu ar ddyddiad y fantolen.

Cyfrif Refeniw

Cyfrif yw hwn sy'n cofnodi ein gwariant a'n hincwm beunyddiol ar eitemau fel cyflogau wythnosol a misol, costau rhedeg gwasanaethau a chyllido gwariant cyfalaf.

Cyfrif Refeniw Tai (HRA)

Y cyfrif hwn sy'n cynnwys ein holl incwm a gwariant ym maes tai.

Cyllideb

Cynllun ar gyfer gwario yw cyllideb, a hynny at y flwyddyn ariannol nesaf fel rheol.

Cyllido Refeniw yn Uniongyrchol

Adnoddau a ddarperir o gyllideb refeniw yr awdurdod i gyllido costau prosiectau cyfalaf.

Dadansoddiad Goddrychol

Dadansoddiad o incwm a gwariant yn ôl math. Mae'r cyfryw benawdau yn cynnwys costau gweithwyr, eiddo a thrafnidiaeth. Mae'r incwm yn cynnwys grantiau llywodraeth, ffioedd a thaliadau.

Darpariaeth

Ystyr darpariaeth yw swm y byddwn yn ei neilltuo yn ein cyfrifon ar gyfer y rhwymedigaethau neu'r colledion sy'n debygol neu'n sicr o ddigwydd, ond nid oes sicrwydd ynghylch y symiau na'r dyddiadau.

Derbyniadau Cyfalaf

Dyma'r derbyniadau a geir drwy werthu tir ac adeiladau y mae statudau'n cyfyngu ar y defnydd a wneir ohonynt. Dim ond i gyllido gwariant cyfalaf newydd neu i'w neilltuo er mwyn cyllido gwariant cyfalaf hanesyddol y gellir eu defnyddio.

Dibrisiant

Dull o ddyrannu cost Eiddo, Offeriant a Chyfarpar dros eu bywydau defnyddiol yw dibrisiant.

Dyledwr

Mae dyledwr yn rhywun y mae arno arian i ni ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Eiddo Buddsoddi

Mae'r rhain yn eiddo a gedwir dim ond er mwyn cael rhent amdanynt neu er mwyn y cynnydd yn eu gwerth, neu at y ddau ddiben hyn, yn hytrach nag er mwyn darparu gwasanaethau.

Eiddo, Offeriant a Chyfarpar

Mae'r asedau hyn yn asedau sydd â sylwedd ffisegol ac fe'u cedwir i'w defnyddio wrth gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau a gwasanaethau, i'w gosod ar rent i eraill (fel rhan o wasanaeth) neu at ddibenion gweinyddol. Y disgwyl yw y bydd unrhyw ased a gaiff ei gynnwys yn y categori hwn yn cael ei ddefnyddio am fwy nag un flwyddyn ariannol.

Y Fantolen

Datganiad o'n hasedau, ein rhwymedigaethau a'n balansau eraill ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Ffioedd a Thaliadau

Incwm a enillir drwy godi tâl ar ddefnyddwyr gwasanaethau am y cyfleusterau, e.e. defnyddio offer hamdden, parcio ceir, casglu gwastraff masnachol, ac ati.

Grant Cynnal Refeniw

Y prif grant a delir gan Lywodraeth Cymru i gefnogi cyllideb awdurdodau lleol.

Gwarannau

Buddsoddiadau megis stociau, cyfrannau a bondiau yw'r rhain.

Gwariant Cyfalaf

Ystyr gwariant cyfalaf yw gwario ar asedau anghyfredol megis Eiddo, Offeriant a Chyfarpar, Eiddo Buddsoddi ac Asedau Treftadaeth. Byddai hyn yn cynnwys prynu neu adeiladu asedau newydd, ynghyd â'r gwariant dilynol ar waith cynnal a chadw/datblygu mawr.

Gwariant Gros

Cyfanswm y gost o ddarparu gwasanaethau'r Cyngor cyn ystyried unrhyw incwm megis ffioedd a thaliadau am wasanaethau, ac ati.

Gwerth Realeiddiadwy Net

Pris gwerthu yr ased, llai'r gost berthnasol ei werthu.

IFRS

Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

IFRIC

Pwyllgor Dehongli Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol.

Safonau cyfrifyddu yw'r ddau uchod sy'n rhoi canllaw ar gyfer cyfrifyddu ariannol.

Isafswm y Ddarpariaeth Refeniw (MRP)

Dyma'r swm mae'r Awdurdod wedi ei neilltuo i ad-dalu benthyciadau.

Praeseptau

Dyma'r swm bydd yr Awdurdod yn ei dalu i Awdurdod Nad yw'n Bilio (er enghraifft Cyngor Cymuned) er mwyn iddo dalu ei gostau (ar ôl caniatáu ar gyfer ei incwm).

Pris Cynnig

Y pris y byddai trydydd parti yn ei dalu i'r cynllun am y buddsoddiad ar ffurf trafodyn hyd braich.

Prydlesi Gweithredol

Dull o brynu eitemau cyfalaf.

Gyda'r prydlesi hyn mae'r risgiau (a'r enillion) o fod yn berchen ar yr ased yn aros gyda'r perchennog.

Rhwymedigaeth

Swm sy'n daladwy rywbyrd yn y dyfodol yw rhwymedigaeth.

Rhwymedigaethau Cyfredol

Rhwymedigaethau tymor byr yw'r rhain, sydd i gael eu talu gennym yn ystod y flwyddyn gyfrifydda nesaf.

Stocrestrau

Ystyr stocrestrau yw deunyddiau crai a brynir i'w defnyddio o ddydd i ddydd. Mae gwerth yr eitemau hynny a oedd heb eu defnyddio gennym ar ddyddiad y fantolen yn cael ei ddangos yn yr asedau cyfredol yn y fantolen.

Treth y Cyngor

Prif ffynhonnell treth leol i awdurdodau lleol. Codir treth y cyngor ar gartrefi yn ei ardal gan yr Awdurdod Bilio a defnyddir yr arian i fodloni gofynion treth y cyngor yr Awdurdod Bilio ac i dalu'r awdurdodau praesept.

Trethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR)

Yr NNDR, neu'r Trethi Busnes, yw'r tâl y bydd deiliaid safleoedd busnes yn ei dalu er mwyn cyllido rhan o wariant yr awdurdodau lleol. Y Llywodraeth sy'n pennu'r NNDR ac mae'n ganran o'r gwerthoedd trethol. Yr un yw y ganran drwy Gymru gyfan. Mae'r cyfanswm sy'n cael ei gasglu yn cael ei rannu rhwng yr awdurdodau unigol yn ôl eu cyfran hwy o'r oedolion yn y boblogaeth.